





# Cyfeirlyfr Cymorth De Ddwyrain Cymru

# **Y Lluoedd Arfog**

ARMED FORCES
COVENANT

17380

## Ymwadiad

Cynlluniwyd yr wybodaeth a ddarperir yn y llyfryn hwn i roi gwybodaeth ddefnyddiol am y testunau sy'n cael sylw. Ymdrechwyd i'r eithaf i sicrhau cywirdeb a dibynadwyedd yr wybodaeth a ddarperir. Serch hynny, darperir yr wybodaeth "fel ag y mae" a gallai newid. Daeth yr wybodaeth a ddarperir o 'ffynonellau agored' ac ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb dros wallau neu gamgymeriadau yn y cynnwys.

Gallai fod dolenni at wefannau allanol yn y llyfryn hwn lle nad oes unrhyw fudiad penodol yn eu darparu nac yn eu cynnal nac yn gysylltiedig o gwbl â nhw. Sylwer nad yw'r llyfryn hwn yn gwarantu cywirdeb, perthnasedd, amseroldeb na chyflawnder unrhyw wybodaeth sydd ar y gwefannau allanol hyn.

# Cynnwys


| | | tudalen |
|---|---|---|
| | Cyflwyniad | 04 |
| 1 | Grwpiau Cymunedol a Chyn-filwyr | 08 |
| 2 | Addysg | 36 |
| 3 | Cyflogaeth | 69 |
| 4 | Cyllid | 92 |
| 5 | Iechyd a Lles | 119 |
| 6 | Tai | 145 |
| 7 | Hamdden | 195 |
| 8 | Y System Cyfiawnder Troseddol | 202 |

# Cyflwyniad

Mae'n amlwg bod newidiadau economaidd, cymdeithasol, a gwleidyddol yn achosi newid i natur gwasanaeth milwrol, ac o ganlyniad, demograffeg Cymuned y Lluoedd Arfog. Ar yr un pryd, mae'r rôl y mae'r Lluoedd Arfog yn ei chwarae, eu pwrpas a'u presenoldeb yn yr ymwybyddiaeth genedlaethol, hefyd yn newid. Mae hyn yn effeithio ar y ffordd y mae cyn-bersonél y lluoedd arfog yn cael eu gweld gan y cyhoedd. Er y cydnabyddir bod profiadau cyn-bersonél y lluoedd arfog o'r cyfnod pontio o rolau milwrol i rolau sifil yn amrywio'n fawr, mae llawer yn ddibynnol ar agwedd yr unigolyn tuag at y pontio hwn, ochr yn ochr â faint o gefnogaeth sydd ar gael iddynt wrth iddynt ailgydio mewn bywyd sifil. Er mwyn bod yn wirioneddol effeithiol, rhaid i'r sefydliadau hynny sy'n darparu cymorth ymateb i amgylchedd deinamig.

- Adroddiad FiMT LIFT LIFTING OUR SIGHTS Beyond 2030 – the impact of future trends on the transition of our Armed Forces Community from military to civilian life (2020)


Nod y cyfeirlyfr hwn yw rhoi gwybod i adrannau a sefydliadau am y cymorth amrywiol sydd ar gael ar gyfer Cymuned y Lluoedd Arfog, ac ar yr un pryd, roi gwybod i Gymuned y Lluoedd Arfog pa wasanaethau sydd ar gael yn eu hardal nhw.

## Cyfamod y Lluoedd Arfog

*Cefnogir Cyfamod y Lluoedd Arfog ar lefel leol gan gytundeb partneriaeth rhwng asiantaethau statudol, milwrol a'r sector gwirfoddol sy'n gweithio gyda'i gilydd i anrhydeddu a gweithredu Cyfamod cenedlaethol y Lluoedd Arfog.*

Od y Cyfamod ar lefel leol yw:

- Annog cymunedau i gefnogi cymuned y Lluoedd Arfog yn eu hardaloedd ac i feithrin dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth y cyhoedd ynghylch materion sy'n effeithio ar gymuned y Lluoedd Arfog.
- Cydnabod a chofio'r aberth a wynebir gan gymuned y Lluoedd Arfog, gan gynnwys ymrwymiad unigolyn wrth wasanaethu i wynebu niweidiau posibl.
- Annog gweithgareddau sy'n helpu i integreiddio cymuned y Lluoedd Arfog ym mywyd cymunedau lleol.
- Annog cymuned y Lluoedd Arfog i helpu a chefnogi'r gymuned ehangach, drwy gymryd rhan mewn digwyddiadau a phrosiectau ar y cyd, neu fathau eraill o ymgysylltu.



# Cyflwyniad

## Cryfhau'r Cyfamod mewn Deddfwriaeth

Ymgorfforwyd Cyfamod y Lluoedd Arfog yn y gyfraith ym mis Rhagfyr 2021. Bydd y ddeddfwriaeth yn gosod dyletswydd newydd ar gyrff cyhoeddus perthnasol, wrth arfer agweddau penodol o'u swyddogaethau cyhoeddus ym meysydd tai, gofal iechyd ac addysg i roi sylw dyledus i dair egwyddor Cyfamod y Lluoedd Arfog:

- Rhwymedigaethau unigryw'r Lluoedd Arfog a'r aberthau maen nhw wedi'u gwneud;
- Yr egwyddor ei bod yn ddymunol cael gwared ar anfanteision sy'n codi i bobl y lluoedd arfog o aelodaeth, neu gynaelodaeth, o'r Lluoedd Arfog; a
- Yr egwyddor bod darpariaeth arbennig ar gyfer pobl y Lluoedd Arfog yn gallu cael ei chyfiawnhau oherwydd effaith aelodaeth, neu gynaelodaeth, o'r Lluoedd Arfog ar bobl o'r fath.

Bydd hyn yn golygu y bydd yn rhaid i ddarparwyr gwasanaethau yn y dyfodol ddangos eu bod nhw wedi ystyried egwyddorion y Cyfamod wrth wneud penderfyniadau yn y meysydd allweddol hyn.

Mae disgwyl i hyn ddod i rym yn hwyr yn 2022.

ARMED FORCES
COVENANT

## Pecyn Hyfforddi Cyfamod y Lluoedd Arfog

Mae'r mwyafrif llethol o'r 2.8 miliwn o gyn-filwyr sy'n byw ym Mhrydain heddiw wedi llwyddo i addasu i fywyd sifil, gan wneud defnydd da o'r sgiliau a'r profiad a gawsant tra'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog. Fodd bynnag, gall fod angen cefnogaeth ar leiafrif sylweddol ohonynt, naill ai wrth adael y gwasanaeth neu flynyddoedd lawer wedyn.

**https://covenantfund.org.uk/wp-content/uploads/articulate_uploads/the-armed-forces-covenant-induction-2-1/index.html**

Os hoffech hyfforddiant pwrpasol ar gyfer eich adran cysylltwch â'ch Swyddog Cyfamod y Lluoedd Arfog Rhanbarthol.

# Cyflwyniad

## Cefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r Lluoedd Arfog

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru yw'r corff llywodraethu cyffredinol yng Nghymru ac mae ganddi bwerau datganoledig gan Lywodraeth y DU. Mae hyn yn golygu trosglwyddo pwerau gan lywodraeth ganolog (Llywodraeth y DU) i Lywodraeth Cymru. Mae'n golygu bod gan ddeddfwrfeydd a llywodraethau penodol yng Nghymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon bwerau dros ystod o feysydd polisi a fu'n gyfrifoldeb i Lywodraeth y DU yn y gorffennol. Yng Nghymru mae pwerau sydd wedi eu datganoli yn cynnwys iechyd, gofal cymdeithasol, addysg, tai a llywodraeth leol. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth y DU yn cadw cyfrifoldeb dros amddiffyn, polisi tramor a'r rhan fwyaf o fudd-daliadau.

Fel Llywodraeth rydyn ni'n gweithio'n agos gyda sector y Lluoedd Arfog. Mae gennym Grŵp Arbenigol y Lluoedd Arfog sy'n cael ei gadeirio gan y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb portffolio dros gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru. Mae'r aelodaeth yn cynnwys y tri gwasanaeth a phartneriaid yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i sicrhau bod gwasanaethau'n diwallu eich anghenion fel aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog. Mae'r Grŵp Arbenigol yn ein cynghori ac yn ein helpu i sicrhau eich bod yn cael cefnogaeth a bod gennych lais.

### Cefnogaeth i bersonél y Lluoedd Arfog sy'n gwasanaethu a'u teuluoedd

Mae Llywodraeth Cymru, drwy weithio gyda Brigâd 160 (Cymru) a'r CPT wedi cynhyrchu canllaw newydd i bersonél sy'n gwasanaethau sy'n gadael y Gwasanaeth ac yn ymgartrefu yng Nghymru a'u teuluoedd. Gallwch ei weld yma:

**Cymraeg: https://llyw.cymru/cymorth-i-aelodau-or-lluoedd-arfog-syn-gwasanaethu-ar-hyn-o-bryd-au-teuluoedd-2021**

I gael cymorth ychwanegol, mae hefyd **Croeso i Gymru** sy'n darparu gwybodaeth allweddol i'r personél milwrol a'r teuluoedd hynny sy'n dod i Gymru, ar gyfer meysydd fel gofal plant, tai ac addysg:

**Cymraeg : https://llyw.cymru/cymorth-i-aelodau-or-lluoedd-arfog-syn-gwasanaethu-ar-hyn-o-bryd-au-teuluoedd**

### Cyfamod y Lluoedd Arfog - Adroddiad Blynyddol Cymru

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad blynyddol i dynnu sylw at y cynnydd o ran cyflawni Cyfamod y Lluoedd Arfog yng Nghymru. Gallwch ddarllen adroddiad 2020 yma:

**Cymraeg: https://llyw.cymru/cyfamod-y-lluoedd-arfog-adroddiad-blynyddol-2020?_ga=2.174348130.1734861085.1662289482-963719745.1659520880**

### Ymarfer cwmpasu ar gyfer cyn-filwyr / Strategaeth Cyn-filwyr

Mae gwaith yn parhau ar gyflawni argymhellion ymarfer cwmpasu Cyn-filwyr a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020 ar ôl ymgynghori â dros 1,000 o gyn-filwyr, teuluoedd a sefydliadau cymorth. Mae'r canlyniadau hyd yn hyn yn cynnwys cynnydd o 35% yng nghyllid GIG Cymru i Gyn-filwyr, cyhoeddi'r canllaw Ailsefydlu Cymru cyntaf, ariannu Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog hyd at 2023, digwyddiad Cyflogaeth Cymru a chyllid ar gyfer SSCE Cymru a phlant y lluoedd arfog. Bydd cyflawni yn parhau yn erbyn yr argymhellion sy'n weddill gan gynnwys cyflwyno achrediad meddygon teulu yng Nghymru, gwaith pellach yn y system cyfiawnder troseddol ac asesu cymorth tai presennol.

**https://llyw.cymru/ymarfer-cwmpasu-cyn-filwyr-ar-lluoedd-arfog-adroddiad-ar-y-strategaeth**

# Cyflwyniad

## Swyddogion Cyswllt Cyfamod y Lluoedd Arfog

**Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen**
**Lisa Rawlings: ylluoeddarfog@caerffili.gov.uk 01443 864447**

**Caerdydd a Bro Morgannwg**
**Abigail Warburt: veteranservice@valeofglamorgan.gov.uk 07725704655**

**Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful**
**Jamie Ireland: Jamie.L.Ireland@rctcbc.gov.uk 07747485619**

## Pencampwyr Lluoedd Arfog Awdurdodau Lleol

**Caerdydd**

| | |
|---|---|
| **Y Cyng Huw Thomas (Arweinydd y Cyngor)** | **Ebost: huw.thomas@caerdydd.gov.uk** |

**Bro Morgannwg**

| | |
|---|---|
| **Y Cyng Eddie Williams** | **Ebost: edwilliams@valeofglamorgan.gov.uk** |

**Blaenau Gwent**

| | |
|---|---|
| **Y Cyng Derrick Bevan** | **Ebost: derrick.bevan@blaenau-gwent.gov.uk** |

**Caerffili**

| | |
|---|---|
| **Y Cyng Teresa Heron** | **Ebost heront1@caerffili.gov.uk** |

**Sir Fynwy**

| | |
|---|---|
| **Y Cyng Peter Strong** | **Ebost: peterstrong@monmouthshire.gov.uk** |

**Casnewydd**

| | |
|---|---|
| **Y Cyng Mark Spencer** | **Ebost: mark.spencer@newport.gov.uk** |

**Torfaen**

| | |
|---|---|
| **Y Cyng Jon Horlor** | **Ebost: jon.horlor@torfaen.gov.uk** |

**Merthyr**

| | |
|---|---|
| **Y Cyng Andrew Barry** | **Ebost: andrew.barry@merthyr.gov.uk** |

**Rhondda Cynon Taf**

| | |
|---|---|
| **Y Cyng Maureen Webber** | **Ebost: maureen.webber@rctcbc.gov.uk** |

# Hybiau Cyn-filwyr

## Grŵp Partneriaid y Lluoedd Arfog

2il a 4ydd Sgowtiaid y Barri, Ffordd Dyfan, Y Barri, CF63 1DP
Dydd Sadwrn, 12:00pm i 2:00pm

Hyb Cyn-filwyr newydd ar gyfer partneriaid aelodau sy'n gwasanaethu a chyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog. Man lle gall partneriaid ddod am sgwrs a chael help a chyngor, bydd te a chacennau. Mewn cydweithrediad ag Elusen Change Step. Os hoffech ychydig yn rhagor o wybodaeth am y grŵp, cysylltwch â: 07725 704655

## Grŵp Cyn-filwyr y Barri

Ffurfiwyd Grŵp Cyn-filwyr y Barri dros 7 mlynedd yn ôl. Rydyn ni'n grŵp o tua 40 o bobl, ac yn cwrdd bob dydd Sadwrn 10am i 1pm gan gynnig roliau brecwast a lluniaeth, a phob dydd Sadwrn cyntaf, gallwch ymuno â ni i gael brecwast llawn. Mae'r Grŵp yn cynnig cefnogaeth a chyfeillgarwch, ac mae croeso i bawb. Bob wythnos rydyn ni'n cael cefnogaeth gan Change Step a Swyddog Cyngor Cyn-filwyr/ Swyddog Cyswllt Cyfamod y Lluoedd Arfog o Gyngor Bro Morgannwg a gwesteion eraill fel Pencampwr Lluoedd Arfog yr Adran Gwaith a Phensiynau. Rydym ar hyn o bryd yn creu gardd Cyn-filwyr i'r grŵp ei mwynhau, ymunwch â ni yn neuadd 2il a 4ydd Sgowtiaid y Barri, Neuadd Gymunedol Witchill Ffordd Dyfan, Y Barri CF63 1DP – Dydd Sadwrn 10:00am a 13:00pm

**E-bost: ylluoeddarfog@caerffili.gov.uk**

## Hwb Cyn-filwyr Caerffili

Cafodd Hwb Cymorth i Gyn-filwyr Caerffili ei lansio ym mis Mehefin 2021 i ddarparu cymorth o ansawdd uchel, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, i gyn-filwyr o'r gymuned filwrol a chyn-filwrol. Mae'n grymuso cyn-filwyr a'r rhai sy'n pontio o fywyd milwrol i fywyd sifil, i helpu eu hunain, ac i integreiddio i gymunedau lleol.

Dyluniwyd ein Hwb Cymorth i:
1. Datblygu mwy o ymwybyddiaeth o'r cymorth a'r gwasanaethau sydd ar gael i bersonél y lluoedd arfog a chyn-filwyr a'u teuluoedd yn eu cymuned leol.
2. Rhoi'r hyder, y wybodaeth a'r sgiliau i gyn-filwyr unigol a phersonél y lluoedd arfog i gael gafael ar yr help sydd ei angen arnynt, ble a phryd y mae ei angen arnynt.
3. Atgyfnerthu hunanddibyniaeth, hyder, parch a hunan- rymuso pobl ar ôl iddynt adael y gwasanaethau a gwella iechyd a lles tymor hir y gymuned cyn-wasanaethu.
4. Bod yn fan lle mae Cyn-filwyr yn teimlo eu bod yn "Perthyn" (cymrodoriaeth).
5. Cynnig cyfleoedd i ymgysylltu â'r gymuned leol a chynnal gweithgareddau.

Mae'r Hyb hwn yn hanfodol o ran lleihau arwahanrwydd cymdeithasol o fewn Cymuned y Lluoedd Arfog.

# Grwpiau Cymunedol a Chyn-filwyr



Mae'r sesiynau yn cael eu cynnal yng nghanol y Fwrdeistref Sirol yn y Ganolfan Rhagoriaeth Chwaraeon yn Ystrad Mynach, Caerffili sy'n hawdd ei chyrraedd mewn car, ar drên neu drwy'r llwybr fysiau. Yn ogystal â phaned a brechdan brecwast, mae gennym ni sesiynau grŵp cymorth a hyfforddiant ar faterion fel Rheoli Straen, Panig a Phryder, rheoli meddyliau anodd ac ymwybyddiaeth ofalgar.

**Bob dydd Sadwrn 1000-1200**
**Ystafell Ramsey**
**Canolfan Rhagoriaeth Chwaraeon**
**Ystrad Mynach**
**Caerffili**
**CF82 7EP**

## Gwasanaeth Cynghori Cyn-filwyr Caerdydd

Mae'r Hyb yn cynnig cyngor arbenigol i Gyn-filwyr/y Lluoedd Arfog a'u teuluoedd.

Gallwn helpu gyda:

| | |
|---|---|
| Budd-daliadau – | cwblhau ceisiadau, cyngor ar hawliau budd-daliadau sy'n benodol i'r Lluoedd Arfog |
| Tai – | eich helpu i gyrraedd y rhestr Aros Cyffredin am eiddo'r cyngor ac eiddo cymdeithasol a'ch helpu i ddod o hyd i eiddo rhent preifat |
| Cyflogaeth – | eich helpu i ddod o hyd i hyfforddiant, help gyda CV a dod o hyd i waith. Rydyn ni'n helpu gyda llawer mwy! Cysylltwch â ni! |

Rydyn ni'n gweithio gyda sawl elusen felly os na allwn ni helpu rydyn ni'n adnabod rhywun sy'n gallu.

Cysylltwch â'r arbenigwyr i gyn-filwyr.

**Am ragor o wybodaeth cysylltwch â ni ar 029 2087 1071 neu 07980 953539**
**neu e-bostiwch veteransadvice@caerdydd.gov.uk**

Lleolir ein Hybiau yn Llyfrgell Treganna, Cangen Cathays a'r Llyfrgell Treftadaeth, Hyb y Llyfrgell Ganolog, Hyb Trelái a Chaerau, y Tyllgoed, Canolfan Grangetown, Hyb Ystum Taf a Gabalfa, Hyb Llanisien, Hyb Llanrhymni, Llyfrgell Pen-y-lan, Llyfrgell Radur, Llyfrgell Rhiwbina, Hyb Rhydypennau, Hyb Partneriaeth Tredelerch, Hyb STAR, Hyb Llaneirwg, Hyb Powerhouse, Llyfrgell Tongwynlais, Hyb yr Eglwys Newydd. Trefnwch apwyntiad.

## Hyb Cyn-filwyr Clwb Pêl-droed Caerdydd

Mae ein Prosiect Cyn-filwyr yn cynnig cefnogaeth iechyd meddwl gwerthfawr i'r gymuned o gyn-filwyr ar draws y De, gan ganolbwyntio ar fynd i'r afael â'r lefelau uchel o arwahanrwydd cymdeithasol ac unigrwydd sy'n bodoli o fewn y gymuned hon. Mae'r prosiect hwn yn cael ei redeg gan gyn-filwr ac mae'n adeiladu ar ein gwaith sefydledig ac uchel ei barch gyda chyn-filwyr.
Mae ein Prosiect Cyn-filwyr yn cynnwys sawl llinyn o ddarpariaeth bwrpasol ond rhyng-gysylltiedig, gan ddarparu cynnig cymorth cyfannol sy'n gweithredu fel cam ataliol a thriniaeth ar gyfer problemau iechyd meddwl sy'n bodoli o fewn y gymuned o gyn-filwyr.

### Rhaglen o weithgareddau:

**Dydd Llun:** Dal i fyny ar-lein 10am – 11am
Hyb Pen-y-bont ar Ogwr yng Nghanolfan Gymunedol 12:30 – 2:30pm

**Dydd Mawrth:** Cynnal a chadw Gardd Goffa Stadiwm Dinas Caerdydd 11am – 2pm

**Dydd Mercher:** Dal i fyny yn Stadiwm Dinas Caerdydd 10am – 12pm

**Dydd Gwener:** Dal i fyny ar-lein 10am – 11am

https://www.cardiffcityfcfoundation.org.uk/cy/our-projects/project/positive-pathways-armed-forces-veterans

## Cyn-Filwyr Cwm Cynon

Mae grŵp Cyn-Filwyr Cwm Cynon yn cwrdd rhwng 10:00am a 12:00pm bob dydd Llun yng Nghanolfan Gymunedol Darran Las, Aberpennar. Mae croeso i bob aelod o Gymuned y Lluoedd Arfog ymuno â ni. Caiff y grŵp ei redeg gan Veterans for Veterans. Mae amryw o elusennau'r Lluoedd Arfog yn mynychu ein grŵp i roi cymorth i'n haelodau. Caiff y grŵp ei gefnogi gan Wasanaeth Cynghori Cyn-filwyr Cyngor Rhondda Cynon Taf, sy'n darparu cyngor a chefnogaeth am ddim i aelodau Cymuned y Lluoedd Arfog.

Ffôn: 07960 411039

# Grwpiau Cymunedol a Chyn-filwyr

## Llinellau Cymorth Brys

Os bydd angen cymorth brys arnoch neu rywun i siarad â nhw pan nad ydym ar agor, mae amrywiaeth o wasanaethau ac elusennau ar gael i chi siarad â nhw.

**Samariaid Cymru: 02920 116123**
**Samariaid Pen-y-bont ar Ogwr: 0845 790 9090**
**Icarus Ar-lein: 03339875055**
**Y Gwasanaeth Iechyd: 111**
**Mind: 0300 123 3393**
**Saneline: 0845 767 8000**
**(C.A.L.L): 0800 123 737 (ar agor 24/7)**
**The Mix (ar gyfer rhai o dan 25 oed): 0808 808 4994 (Dydd Sul-Dydd Gwener 2pm–11pm)**
**Dydd Gwener 2pm–11pm) Tîm Argyfwng Iechyd Meddwl Cyn-filwyr - 24/7: 0800132737**
**Rethink: 0800 138 1619**

## Group 617

Cafodd Grŵp 617 ei enw o anturiaethau criwiau awyrennau Lancaster yn yr ail ryfel byd, fu'n gyfrifol am ollwng y 'bouncing bomb' enwog i chwalu 2 o'r 3 argae ar yr afon Ruhr ar 16 / 17 Mai 1943, er i lawer ohonynt golli'u bywydau. Fe wnaeth aelod olaf o griw y 'Dambusters' i oroesi, George "Johnny" Johnson ein hanrhydeddu drwy ddod yn llywydd yn ystod yr 8 mlynedd diwethaf. Rydym yn grŵp o gyn-filwyr sy'n ymfalchïo ein bod yn griw o bobl amrywiol sy'n asio. Rhai ohonynt yn cario creithiau meddyliol o'u hamser yn gwasanaethu eu Brenhines a'u Gwlad.

Cynhelir ein cyfarfodydd bob Dydd Mawrth ym Mhafiliwn Penarth, ar y llawr gwaelod, gan ddechrau am 1000 y bore hyd at 1200 y prynhawn. Rydyn ni'n rhannu'r cyfeillgarwch hynny mae cyn-filwyr y gwasanaeth yn ei golli, nawr rydyn ni wedi gadael bywyd milwrol. Mae Group 617 yn rhoi cyflwyniadau i wahanol sefydliadau yn rheolaidd am y cyrch ar argaeau'r Ruhr a'r canlyniadau a fu bron yn sicr yn gymorth i fyrhau'r rhyfel. Gellir cysylltu â'n cadeirydd, Russ Kitely, ar 0785 363692, pe bai unrhyw gyn-filwr yn dymuno galw heibio ac ymuno yn yr hwyl a'r tynnu coes.

## Sesiynau galw heibio Cyn-filwyr Libanus

**Bob dydd Mawrth 10.30 – 12.30**
**Libanus Road**
**Coed Duon**
**NP12 1EQ**

## Cyn-filwyr Merthyr

Mae grŵp Cyn-filwyr Merthyr yn cwrdd bob pythefnos ar ddydd Mawrth yng nghlwb Llafur Merthyr rhwng 10:00am a 12:00pm. Mae croeso i gyn-filwyr, aelodau'r lluoedd arfog a'u teuluoedd ddod ynghyd yn achlysurol, gyda siaradwyr gwadd, gwobrau raffl a chefnogaeth gan sefydliadau'r Lluoedd Arfog.

**Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Rick Smith ar: 07853 317954**

## Hyb Cymorth Cyn-Filwyr Sir Fynwy

Mae Hyb Cymorth Cyn-filwyr Sir Fynwy wedi'i sefydlu er mwyn cyflenwi cymorth o safon i gyn-filwyr a phersonél sy'n gwasanaethu gan gyn-filwyr o'r gymuned filwrol a chyn-filwrol. Mae'n grymuso cyn-filwyr a'r rhai sy'n pontio o fywyd milwrol i sifil, i helpu eu hunain ac i integreiddio i gymunedau lleol.

Mae'r Hyb hwn yn hanfodol i leihau arwahanrwydd cymdeithasol o fewn Cymuned y Lluoedd Arfog.

**Cynhelir y sesiynau: Bob dydd Llun 1000-1200**
**Llyfrgell y Fenni, 11A Stryd y Farchnad, Y Fenni NP7 5SD**

## Anolfan Cyn-filwyr Casnewydd

Mae Canolfan Cyn-filwyr Casnewydd (CCFC) yn CIC a ffurfiwyd ar 24 Awst 2021 gan grŵp bach o gyn-filwyr a oedd wedi profi anawsterau iechyd meddwl. Mae'r Ganolfan yn gweithredu mewn partneriaeth â nifer o sefydliadau lleol i ddarparu cymorth iechyd meddwl a lles a chyfeirio at gyn-filwyr a'u teuluoedd.

Gyda chefnogaeth Clwb Pêl-droed Casnewydd a Chlwb Rygbi Casnewydd, mae CCFC yn darparu hyd at 10 tocyn diwrnod gêm am ddim i bob gêm gynghrair gartref, ar gael i gyn-filwyr a'u teuluoedd yn ogystal â'r cymorth un-wrth-un a gynigir ar ddiwrnodau gemau. Mae CCFC wedi creu partneriaeth gyda Chasnewydd Fyw ac erbyn hyn mae'n defnyddio ystafell a chyfleusterau yn Stadiwm Casnewydd ac yn darparu bwyd am ddim rhwng 16:00 - 17:00.

Rydym bellach ar agor bob dydd Iau 15:00 - 20:00 yn NP19 Stadiwm Casnewydd, ac mae ein canolfan galw heibio yn cynnal boreau coffi lle gall cyn-filwyr ddod at ei gilydd mewn amgylchedd cyfforddus, nad yw'n fygythiol, gan ganiatáu i'n gwirfoddolwyr arbenigol nodi'r rhai sydd fwyaf agored i risg, cynnig strategaethau lles iddynt, a'u cyfeirio at therapïau a thriniaethau amgen. Darperir cyllid ar gyfer llogi cyfleusterau gan Sefydliad Cymunedol Cymru.

Mae gennym ni sesiynau gweithgareddau bob nos Iau 17:00-18:00 yn Felodrom Cenedlaethol Cymru Geraint Thomas NP19 4PT. Darperir cyllid gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

**I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch trwy e-bost: info@newportveteranshub.org.uk**
**Phone: 07735 301163**
**Stadiwm Casnewydd**
**Stadiwm Pentref Chwaraeon**
**Rhyngwladol Casnewydd**
**Casnewydd**
**NP19 4PT**

**Amseroedd agor: 15:00-20:00 bob dydd Iau.**

# Grwpiau Cymunedol a Chyn-filwyr

## Hyb y Rhondda i Gyn-filwyr

Mae Hyb y Rhondda i Gyn-filwyr wedi ei sefydlu i helpu i ailadeiladu bywydau cyn-filwyr drwy hyrwyddo ffyrdd mwy iach o fyw a darparu llety addas. Er ein bod wedi ein lleoli yng Nghymoedd y Rhondda, gallwn hefyd ddarparu tai y tu allan i'r ardal hon. Drwy ddarparu llety addas, y gobaith yw y bydd yna barhad, cyflogaeth gynaliadwy a chyfleoedd, gwell ansawdd bywyd a lleihad mewn aildroseddu. Mae'r gwasanaeth yn cael ei flaenoriaethu i gyn-filwyr sydd â chysylltiadau â Chymru.

**Ystafell F**
**Tŷ'r Llys**
**Llwynypia Ffordd**
**Llwynypia**
**CF40 2HZ**
**Oriau Swyddfa: 9.30am-3.15pm O ddydd Llun i ddydd Iau**
**Ar agor i'r cyhoedd Dydd Llun–Iau**
**Rhif ffôn: 01443 303 100**
**E-bost: info@rhonddahub.org.uk**

## Cyn-Filwyr Taf Elái

Mae Grŵp Cyn-filwyr Taf Elái yn cwrdd rhwng 10:00am a 12:00pm bob dydd Mercher yng Nghanolfan Gymunedol Rhydfelen, Pontypridd. Mae croeso i bob aelod o Gymuned y Lluoedd Arfog ac aelodau sydd wedi ymddeol o'r gwasanaethau brys (Golau Glas) ymuno â ni am sgwrs, rholiau brecwast a phaned. Rydyn ni'n gweithio gydag elusennau'r Lluoedd Arfog a gwasanaeth cynghori i gyn-filwyr Cyngor Rhondda Cynon Taf i ddarparu cyngor a chymorth am ddim i'n holl aelodau. Mae ein grŵp yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys cerdded, rhandiroedd, a theithiau cymdeithasol.

**Ffôn: 07913 355911**
**@TaffElyVeteranGroup**

## Gwasanaeth Cynghori i Gyn-filwyr Bro Morgannwg

Mae'r gwasanaeth Cynghori i Gyn-filwyr yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth diduedd, penodol, am ddim i aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog ym Mro Morgannwg.

Mae'r gwasanaeth yn cwmpasu ystod o feysydd, gan gynnwys Budd-daliadau, Treth Cyngor, Gofal Cymdeithasol i Oedolion, Cyllid, Cyflogaeth a Thai.

P'un a ydych chi'n gwasanaethu yn y lluoedd arfog ar hyn o bryd, neu wedi gwasanaethu o'r blaen, mae'r gwasanaeth ar gael i chi a'ch teulu i gael cyngor a chymorth.

**Cysylltwch ag Abi 07725704655 - o Ddydd Llun i Ddydd Gwener 08:30 i 17:00**
**E-bost – veteranservice@valeofglamorgan.gov.uk**

# 1 Grwpiau Cymunedol a Chyn-filwyr

## Valley Veterans

Mae Valley Veterans yn sefydliad dan arweiniad cyn-filwyr ac mae wedi'i leoli yng nghanol Cwm Rhondda. Wedi'i sefydlu dros 10 mlynedd yn ôl fel grŵp cymorth anffurfiol ar gyfer dioddefwyr PTSD, mae Valley Veterans bellach yn hyb bywiog gyda mwy na 140 o bobl yn cymryd rhan. Mae'r gweithgareddau presennol sydd wedi'u trefnu yn cynnwys clwb brecwast wythnosol sy'n cael ei gynnal yng Nghanolfan Gymunedol Ton Pentre ac sy'n denu hyd at 60 o gyn-filwyr bob dydd Iau 10:00am tan 12:00pm. Mae Valley Veterans hefyd yn cynnig gweithgareddau dyddiol gyda cheffylau ar yr iard gyfagos sy'n denu hyd at ddwsin o gyfranogwyr dyddiol rheolaidd.

**Gwefan: www.valleyveterans.org**
**E-bost: enquiries@valleyveterans.org**
**Ffôn: 07733 896128**

## Woody's Lodge

Mae Woody's Lodge yn fan cyfarfod i'r rhai sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog neu'r Gwasanaethau Brys. Yn Woody's Lodge fe gewch chi gyngor a chymorth arbenigol, a chyfeillgarwch yn ogystal â phobl o'r un anian sydd â phrofiadau tebyg i chi. Gyda lleoliadau yn y gogledd, de a'r gorllewin, rydyn ni'n cynnig cymorth i'r Lluoedd Arfog ledled Cymru.

Mae Woody's Lodge hefyd wrth law i helpu teuluoedd ac anwyliaid cyn-filwyr. Gall gymryd peth amser a chyfaddawdu i ail-addasu i fywyd arferol ar ôl gorffen gwasanaethu yn y lluoedd arfog. Mae ein gofod cyfarfod yn cynnig gofod niwtral i gael y cymorth i gyn-filwyr a'u teuluoedd sydd ei angen er mwyn ailafael â'r trywydd iawn.

Gall Woody's Lodge helpu gyda Thai a Chymorth, Budd-daliadau, Pensiynau a Chyllid, atgyfeiriadau asiantaethau a'r GIG a Chymdeithasu a Ffrindiau. O gymorth un-i-un gyda llenwi ffurflenni gyda phaned a bisged i Ddyddiau Teuluol a gweithgareddau, mae ein tîm wrth law i sicrhau eich bod yn cael yr help a'r gefnogaeth sydd ei hangen arnoch.

**www.woodyslodge.org**

Os ydych chi'n chwilio am gyngor arbenigol neu efallai fod gennych chi ychydig o amser sbâr i wirfoddoli, cysylltwch â ni yma yn Woody's Lodge.

# Grwpiau Cymunedol a Chyn-filwyr



## Woody's Lodge Gogledd Cymru

Parc Eirias
Ffordd Abergele
Bae Colwyn
LL29 8BN
Ffôn: 01492 533954

## Woody's Lodge Fferm Penlan

Woody's Lodge
Fferm Penlan
Penrhiwpal
Llandysul
SA44 5QH
Ffôn: 01559361328

**Ebost: support@woodyslodge.org**
**www.woodyslodge.org**
**Rhif Elusen: 1173752**

## Woody's Lodge De Cymru

Fferm Ymddiriedolaeth Amelia
Lôn 5 Milltir
Y Barri
CF62 3AS
Ffôn: 01446 781792

# Cymdeithasau Milwrol

## Cymdeithas y Llynges Frenhinol

Cymdeithas y Llynges Frenhinol yw'r grŵp cyfunol mwyaf o Gyn-filwyr y Llynges Frenhinol a phersonél sy'n gwasanaethu. Rydyn ni'n agor y drws i'r rheini sydd â chysylltiad â'r Llynges Frenhinol i gymuned oes o unigolion cefnogol, o'r un anian. Mae ein cymuned yn cynnig cwmnïaeth, gwytnwch, cyfeillgarwch ac undod i unrhyw un a phawb sydd â stori sy'n ymwneud â'r Llynges, gan eu cefnogi drwy uchafbwyntiau ac isafbwyntiau bywyd. Am ragor o wybodaeth ewch i: https:// royal-naval-association.co.uk/about-us/ lle gallwch hefyd wneud cais am aelodaeth AM DDIM.

## Cymdeithas y Llynges Frenhinol Ardal Rhif 7 Caerdydd

**Cyfeiriad** Cangen RNA Caerdydd, The United Services Mess, 4 Heol y Cawl, Caerdydd, Morgannwg, CF10 1AG

**Amser Cwrdd** ar ddydd Llun cyntaf bob mis am 19:30

**Cyswllt** Dave Adams

E-bost cardiffrnahonsec@gmail.com
Ffôn 07770 693 683
Facebook https://www.facebook.com/pages/category/Charity-Organization/ Cardiff-Royal-Naval-Association-167749753278332/

## Cas-gwent a'r Cylch

**Cyfeiriad** Cangen RNA Cas-gwent a'r Cylch, Clwb Ceidwadol a RBL, 10 Moor Street, Cas-gwent, Gwent, NP16 5DD

**Amser Cwrdd** Rydyn ni'n cwrdd ar ail ddydd Iau bob mis am 8pm. (Heblaw mis Awst)

**Cyswllt** Ysgrifennydd Ken Davies

Ebost kendavies131@yahoo.co.uk
Ffôn 01291 621485

## Merthyr Tudful

**Cyfeiriad** Cangen RNA Merthyr Tudful, Clwb Cyn-filwyr, 10 Stryd Fawr Isaf, Merthyr Tudful, CF47 8ES

**Amser Cwrdd** Rydyn ni'n cwrdd ar ail ddydd Iau bob mis am 1930 i 2000 ac eithrio Ionawr ac Awst, pan na chynhelir cyfarfodydd.

**Cyswllt** Yr Ysgrifennydd Selwyn Davies

E-bostl honsecmerthyrtydfilrna@gmail.com
Ffôn 07469081929

## Trefynwy

**Cyfeiriad** Cangen RNA Trefynwy, Clwb Ceidwadol Trefynwy, Y Priordy, Stryd Whitecross, Trefynwy, Sir Fynwy, NP25 3BY

**Amser Cwrdd** Rydyn ni'n cwrdd ar ail ddydd Mercher bob mis am 19.30

**Cyswllt** Ysgrifennydd Adrian Hamilton

E-bost adrian.hamilton@tiscali.co.uk
Ffôn 01873 880555
Facebook: https://www.facebook.com/rna.club.3

## Dinas Casnewydd

**Cyfeiriad** Cangen RNA Casnewydd, Clwb Ceidwadwyr Maendy, 26-28 Teras Fairoak, Casnewydd

**Amser Cwrdd** Cyfarfod cangen dydd Mawrth cyntaf y mis am 19.30 o'r gloch.

**Cyswllt** Ysgrifennydd Peter Gray

Email newportrnahonsec@gmail.com
Phone Mobile 07772856853

## Cangen y Rhondda

**Cyfeiriad** Tafarn y RAFA, 137 Stryd Bute, Treorci, CF42 6BB

**Amser Cwrdd** 2il ddydd Mercher bob mis, ymgynnull 1915 dechrau 1930

**Cyswllt** Ysgrifennydd Graham Warner

E-bost secretary@rnar.org.uk
Ffôn 07954 412262
Gwefan http://www.royal-naval-association-rhondda.org.uk/
Facebook https://www.facebook.com/Royal-Naval-Association-Rhondda-240193186186658/

## Cangen Torfaen

**Cyfeiriad** Tŷ Panteg, Griffithstown

**Amser Cwrdd** Dydd Iau 19.30 o'r gloch

**Cyswllt** Ysgrifennydd Peter Gray

E-bost: chairman@rna-7area.org
Ffôn: Gordon Williams 07454 800804



Grwpiau Cymunedol a Chyn-filwyr

# 1 Grwpiau Cymunedol a Chyn-filwyr

## Cymdeithas Catrawd Frenhinol Cymru

Am bron i gan mlynedd, mae cymdeithasau cyn-filwyr, drwy eu rhwydwaith o ganghennau lleol, wedi darparu canolbwynt i gyn-aelodau'r gatrawd gyfarfod yn rheolaidd. Maen nhw hefyd yn cydlynu cefnogaeth i filwyr y gatrawd sy'n cael eu hunain mewn amgylchiadau anodd drwy salwch a chaledi teuluol.

Mae gan gatrodau cyfansoddol Catrawd Frenhinol Cymru rwydwaith gweithredol o ganghennau cymdeithas. Disgwylir dros amser y bydd canghennau'n integreiddio'n raddol ac yn cynnal digwyddiadau ar y cyd. Os hoffech gysylltu â'r canghennau lleol, gwnewch hynny drwy Bencadlys Catrodol, Caerdydd.

## Aberdâr

**Cyfeiriad** Clwb a Sefydliad Cwm Cynon, Sgwâr Victoria, Aberdâr, Morgannwg Ganol, CF44 7LB

**Amser Cwrdd** Dydd Iau cyntaf bob mis am 7.30pm

**Cyswllt** Mr P Roberts (Toby)

Ffôn: Cartref 01685 876769
aberdarebranch@hotmail.co.uk

## Y Fenni

**Cyfeiriad** Y Clwb Ceidwadol, Lôn y Parc, Y Fenni, Sir Fynwy, NP7 5TR

**Amser Cwrdd** Dydd Gwener olaf bob mis am 7.00pm

**Cyswllt** Mr D Clissold (Don)

Ffôn: Cartref 01873 854880
abergavennybranch@hotmail.co.uk

## Abertyleri

**Cyfeiriad** Canolfan TA, Abertyleri, NP13 2PP

**Amser Cwrdd** ail ddydd Llun bob mis am 7.00pm

**Cyswllt** Mr A Baghurst (Tony)

Ffôn: Cartref 01873 832435
Ffôn: Symudol 07909 177764
abertillerybranch@hotmail.co.uk

## Band a Drymiau

**Cyfeiriad** Canolfan TA, Barics Rhaglan, Casnewydd NP20 5XE

**Amser Cwrdd** dydd Mercher cyntaf bob mis am 7.30pm

**Cyswllt** Mr CT Young (Terry)

bandanddrumsbranch@outlook.com
Tel: Cartref 02920 799140

## Ardal Bargod a Choed Duon

**Cyfeiriad** Tafarn y Capel, Plas y Parc, Gilfach, Bargod, CF81 8LW

**Amser Cwrdd** dydd Gwener cyntaf bob mis am 8.00pm - Heblaw Awst a Medi

**Cyswllt** Mr PA Davies MBE (Paul)

Ffôn: Catref 01443 822034
bargoedandblackwooddistrictbranch@outlook.com

## Caerffili

**Cyfeiriad** Clwb Cymdeithasol Llanbradach, tu cefn i Stryd Fawr, Caerffili, CF83 3LP

**Amser Cwrdd** dydd Sul olaf bob mis am 7.30pm

**Cyswllt** Mr P Bevan (Peter)

Ffôn: 02920 831112
caerphillybranch@outlook.com

## Caerdydd

**Cyfeiriad** Ystafell Fwyd Swyddogion ac Uwch-Ringylliaid, Barics Maendy, Caerdydd

**Amser Cwrdd** 3ydd dydd Gwener bob mis am 7.30pm

**Cyswllt** Mr JI Condon (Jeff)

cardiffbranch1@outlook.com
Ffôn: Cartref 02920 549577
Cod post: CF14 3YE

## Caerdydd (RWF)

**Cyfeiriad** Clwb Cyn-Filwyr, 44 Heol Siarl, Canolfan Dewi Sant, Caerdydd, CF10 2GE

**Amser Cwrdd** dydd Mawrth cyntaf bob mis am 8.00pm

**Cyswllt** Mr K May (Keith)

Ffôn: Catref 02920 617448
Ffôn: Symudol 07881 656869
cardiffbranch2@outlook.com

## Islwyn

**Cyfeiriad** Clwb Rygbi Coed Duon, Parc Glan-yr-Afon, Hall Street, Caerffili, NP12 1NY

**Amser Cwrdd** dydd Llun cyntaf bob mis am 7.30pm

**Cyswllt** Mr P Meredith (Paul)

Ffôn: 01443 830177
islwynbranch@outlook.com

## Merthyr Tudful

**Cyfeiriad** Clwb y Cyn-filwyr, 10 Stryd Fawr Isaf, Merthyr Tudful, CF47 8EB

**Amser Cwrdd** dydd Iau cyntaf bob mis am 8.00pm

**Cyswllt** Mr M Price (Mike)

Ffôn: 01685377995
merthyrtydfilbranch1@outlook.com

## RWF Merthyr Tudful

**Cyfeiriad** Clwb y Cyn-filwyr, 10 Stryd Fawr Isaf, Merthyr Tudful, CF47 8EB

**Amser Cwrdd** ail ddydd Iau bob mis am 7.30pm

**Cyswllt** Mr B Davies (Brian)

Ffôn: Symudol 07852494214
merthyrtydfilbranch2@outlook.com

# Grwpiau Cymunedol a Chyn-filwyr

## Aberpennar

**Cyfeiriad** Clwb RAFA, 15 Stryd Oxford, Aberpennar, CF45 3PL

**Amser Cwrdd** ail ddydd Mercher bob mis am 7.30pm

**Cyswllt** Mr L Smith (Lyn)

Ffôn: Cartref 01443 475981
mountainashbranch@outlook.com

## Casnewydd

**Cyfeiriad** Clwb Ceidwadwyr Maendy, 26-28 Teras Fairoak, Maendy, Casnewydd, Gwent, NP19 8FG

**Amser Cwrdd** ail ddydd Mercher bob mis am 7.30pm

**Cyswllt** Mr P Taylor (Phil)

Ffôn: 01873 855089
newportbranch@outlook.com

## Pont-y-pŵl

**Cyfeiriad** Canolfan TA Sgwadron Maes 100, Ffordd Tŷ Coch, Cwmbrân, Gwent NP44 7HB

**Amser Cwrdd** dydd Llun olaf bob mis am 8.00pm

**Cyswllt** Mr DJ Thomas (David)

Ffôn: Cartref 01495 763460
pontypoolbranch@outlook.com

## Pontypridd

**Cyfeiriad** Cwmni C Canolfan TA Cymru, Broadway, Pontypridd CF37 1BW

**Amser Cwrdd** dydd Llun cyntaf bob mis am 7.30pm

**Cyswllt** Mr P Blizco (Paul)

Ffôn: Symudol 07855 961418
pontypriddbranch@outlook.com

# 1 Grwpiau Cymunedol a Chyn-filwyr

## Y Rhondda

**Cyfeiriad** Clwb Lleng Brydeinig Frenhinol Maerdy, 5A Stryd Richards, Maerdy, CF43 4AU

**Amser Cwrdd** ail ddydd Llun bob mis am 7.00pm

**Cyswllt** Mr C Jones( Cliff)

Ffôn: 01443 730292
rhonddabranch@outlook.com

## Tonypandy a'r Cylch

**Cyfeiriad** Clwb Gweithwyr Cwm Rhondda Canolog, Stryd Primrose, Tonypandy, CF40 1BQ

**Amser Cwrdd** Dydd Sul olaf bob mis am 6.45pm

**Cyswllt** Mr P Thomas (Ben)

Ffôn: Cartref 01443 422757
tonypandyanddistrictbranch@outlook.com

## Cymdeithas Gwarchodlu Dragŵn 1af y Frenhines - Cangen y Sandbaggers

**Disgrifiad** Mae'r Sandbaggers wedi'u sefydlu gyda theithio mewn golwg. Mae gan yr aelodau bob un eu cartrefi modur neu garafán eu hunain gan fynd i safleoedd gwersylla/caeau enwebedig er mwyn ymgynnull yn gymdeithasol. I'r rhai llai ffodus nad oes ganddynt gerbyd o'r fath, ni fydd hyn yn rhwystr rhag mynychu oherwydd rhyngom gallwn drefnu i ddarparu ar eich cyfer. Mae wastad lle yn y llety!-

**Cyfeiriad** Amrywiol drwy gydol y Flwyddyn

**Amser Cwrdd** Cysylltwch ag ysgrifennydd y gangen am ragor o fanylion

**Cyswllt** Ysgrifennydd y Gangen: Mr Neil (Chuck) Berryman

**Cod Post** CF32 7NW

# Grwpiau Cymunedol a Chyn-filwyr

## Cymdeithas Gwarchodlu Dragŵn 1af y Frenhines - South Wales Branch

Mae Cymdeithas y Milwyr Catrodol yn gymuned sy'n helpu i ddwyn ynghyd y teulu Catrodol. Mae'n meithrin esprit de corps, cyfeillgarwch ac yn cadw gwerthoedd, safonau a thraddodiadau'r Gatrawd falch hon. Mae'n gofalu am y rhai sy'n gwasanaethu heddiw, a'r rhai sydd wedi gwasanaethu yng Ngwarchodlu 1af Dragŵn y Frenhines a'u rhagflaenwyr. Mae'n rhwydwaith â chysylltiadau da ac sydd o fudd i'w holl aelodau.

**Cyfeiriad** Cysylltwch ag ysgrifennydd y gangen am ragor o fanylion

**Amser Cwrdd** Cysylltwch ag ysgrifennydd y gangen am ragor o fanylion

**Cyswllt** Ysgrifennydd y Gangen: Yr Uwchgapten Mark Evans

**Cod post** CF14 3YE

E-bost: ast-curator2@cardiffcastlemuseum.org.uk

## Cymdeithas y Gwarchodlu Cymreig

**Disgrifiad** Dibenion Cymdeithas y Gwarchodlu Cymreig yw: Hyrwyddo effeithlonrwydd y Gwarchodlu Cymreig drwy feithrin esprit de corps a thrwy ddulliau eraill yn ôl yr hyn y bydd yr ymddiriedolwyr yn penderfynu o bryd i'w gilydd. Cynorthwyo pobl sydd wrthi'n gwasanaethu ar hyn o bryd neu sydd wedi gwasanaethu yn y Gwarchodlu Cymreig a dibynyddion pobl o'r fath sy'n profi angen, caledi neu ofid. Cofio a choffâu'r aelodau hynny, neu gyn-aelodau'r Gwarchodlu Cymreig sydd wedi colli eu bywydau neu sydd wedi dioddef anaf, neu roi eu hunain mewn perygl o golli bywyd neu anaf, wrth wasanaethu'r cyhoedd.

## Caerdydd

**Cyfeiriad** Ystafell Fwyta Gwasanaethau Unedig, 4 Stryd y Cawl, Caerdydd, CF10 1AG

**Amser Cwrdd** Dydd Llun cyntaf bob mis 1930 o'r gloch

**Cyswllt** Terry O'Shea (24047142)

Ffôn: 07973-255527
terenceoshea8@gmail.com

## Dwyrain Morgannwg

**Cyfeiriad** Clwb Gelliwastad, Ffordd Gelliwastad, Pontypridd CF37 2BP

**Amser Cwrdd** ail ddydd Mercher y mis 1930 o'r gloch

**Cyswllt** Ken Haines (23523287), Trevone, Ffordd Dyffryn, Rhydfelen, Pontypridd CF37 5RW

Ffôn (Cartref) 01443 492316
(Symudol) 07973 577 834

# 1 Grwpiau Cymunedol a Chyn-filwyr

## Merthyr Tudful ac Aberdâr

**Cyfeiriad** Clwb y Cyn-filwyr, 10 Stryd Fawr Isaf, Merthyr Tudful CF47 8EB

**Amser Cwrdd** dydd Llun cyntaf y mis

**Cyswllt** Errold Jones (24581438), 18 Marshall Cresent, Penydarren, Merthyr Tudful CF47 9JA

errold438@yahoo.co.uk

## Sir Fynwy

**Cyfeiriad** Amrywio rhwng Gwesty'r Angel y Fenni, 15 Stryd Cross, Y Fenni NP7 5EN a'r Clwb Cyfansoddiadol, 1/2 Hanbury Street, Glan Y Nant, Pengam, Coed Duon NP12 3XW

**Amser Cwrdd** ail ddydd Iau y mis 2000 o'r gloch

**Cyswllt** Steve Liversage BEM (24141822), 7 Shaw Close, Hill Top, Glynebwy, Gwent NP23 6QQ

Ffôn: 07968-643371
vicar54@outlook.com

## Welsh Guards Reunited

**Cyfeiriad** http://www.welshguardsreunited.co.uk/

**Cyswllt** Dennis "Knocker" Knowles (24122474)

**Cod Post** CF45 4EX

Ffôn: 01443-477510
knowles781@btinternet.com

## Cymdeithas yr Awyrlu Brenhinol

Cwrdd â ffrindiau hen a newydd drwy ein rhwydwaith o Ganghennau a Chlybiau Cangen. Mae ein canghennau a'n clybiau'n rhoi cyfle gwych i aelodau gyfarfod yn gymdeithasol. Man lle gallwn ddarparu cyngor a chymorth lles yn lleol, cymryd rhan mewn digwyddiadau seremonïol a helpu i gydlynu cymorth codi arian yn lleol.

## Bargod/Coed Duon

**Cyfeiriad** Cymdeithas y Lluoedd Awyr Brenhinol, Cangen Bargod a Choed Duon. 1 Beili Glas Road, Fleur de Lis, Coed Duon, Caerffili, NP12 3UU

**Amser Cwrdd** Cyfarfod Pwyllgor: 4ydd dydd Mawrth y mis am 19:30 yng Ngwesty'r Capel, Gilfach, Bargod. Cyfarfodydd Cymdeithasol: Yn ôl yr angen.

**Cyswllt** https://membership.rafa.org.uk/

# Grwpiau Cymunedol a Chyn-filwyr

## RMG Cas-gwent a'r Cylch

**Cyfeiriad** Clwb Athletau Cas-gwent, Mathern Road Bulwark, Cas-gwent, Sir Fynwy NP16 5JT

**Amser Cwrdd** Dim gwybodaeth

**Cyswllt** https://membership.rafa.org.uk/

## Cwmbrân

**Cyfeiriad** Cymdeithas y Lluoedd Awyr Brenhinol, Greenhill Road, Cwmbrân, Torfaen NP44 3DQ

**Amser Cwrdd** Cyfarfodydd Cangen 8pm bob 3ydd dydd Mercher y mis. Cyfarfodydd cymdeithasol dyddiau Llun, Mercher, Iau, Gwe, Nosweithiau Sadwrn a chinio Sul. Oriau Agor y Clwb: Dydd Sul hanner dydd - 6pm dydd Llun: 7pm-11pm Mer-Sadwrn - 7pm-11pm gydag estyniad ar ddydd Gwener a Sad tan hanner nos.

**Cyswllt** http://www.cwmbranrafa.co.uk

## Llandaf a Threlái

**Cyfeiriad** Cymdeithas y Lluoedd Awyr Brenhinol, Teras Glan-yr-afon, Caerdydd CF5 5AS

**Amser Cwrdd** dydd Llun cyntaf bob mis am 8pm Oriau Agor y Clwb: Llun - Gwener 7pm- hanner nos Sadwrn a Sul hanner dydd - hanner nos

**Cyswllt** http://www.rafa.org.uk/llandaff-ely

## Penarth

**Cyfeiriad** Cymdeithas y Lluoedd Awyr Brenhinol, 40-42 Ffordd Windsor, Penarth, Bro Morgannwg CF64 1JJ

**Amser Cwrdd** Wedi ei drefnu mewn cyfarfodydd cangen neu ffoniwch Linda 01446-730894

**Contact** https://membership.rafa.org.uk/

## Cyswllt

**Cyfeiriad** 137 Stryd Bute, Treorci, Rhondda Cynon Taf, CF42 6BB

**Amser Cwrdd** Cyfarfod Pwyllgor: Dydd Llun cyntaf neu ail y mis Cyfarfod Cymdeithasol: 7pm - 9pm

**Cyswllt** https://membership.rafa.org.uk/

# Clybiau Brecwast

## Clybiau Brecwast Cyn-filwyr y Lluoedd Arfog

Mae Clybiau Brecwast Cyn-filwyr y Lluoedd Arfog yn hwyluso cyn-filwyr a milwyr sy'n gwasanaethu i gwrdd mewn amgylchedd hamddenol, diogel, cymdeithasol, i fwynhau brecwast a thynnu coes, i frwydro yn erbyn unigrwydd a chaniatáu i gyn-filwyr 'ddychwelyd i'r llwyth'. Does dim ffioedd na thâl aelodaeth, dim ond talu am eich brecwast eich hun.

## Clwb Brecwast Caerdydd

Rydyn ni'n grŵp i gyn-filwyr, aelodau presennol o'r lluoedd arfog a'u teuluoedd er mwyn cael ymgynnull, cael sgwrs, ychydig o frecwast a chwrdd â ffrindiau newydd o'r un anian am frecwast a sgwrs, gyda'r tynnu coes arferol oedd pawb yn ei fwynhau yn ystod eu bywyd yn gwasanaethu.
Dechreuwyd y grŵp ym mis Mai 2015 pan nad oedd ond 15 o glybiau brecwast y lluoedd arfog yn y DU, ac rydym wedi tyfu o nerth i nerth ac mae ein haelodau yn mwynhau'r awyrgylch diogel hamddenol rydyn ni'n ei gynnig. Does dim tâl aelodaeth, dim ymrwymiadau fel y gall cyn-filwyr alw heibio unrhyw bryd.

Cwrdd bore Sadwrn:

The Toby Carvery (yr hen Masons Arms), Heol Tyn y Parc,
Yr Eglwys Newydd CF14 6BG
Amser 0830hrs-1130hrs.

**Cyswllt** Annie Powell 07894 581940

Croeso i Gyn-filwyr a'u teuluoedd.

## Merthyr Tudful

**Rhif ffôn y Lleoliad** +44 (0)1685 384111

**Cyfeiriad** Redhouse Cymru, Hen Neuadd y Dref, Stryd Fawr, CF47 8AE
**Cyswllt** https://www.afvbc.net/

## Casnewydd

**Cyfeiriad** Tafarn y Potters, 22-24 Stryd y Dociau Uchaf, Casnewydd NP20 1DL

Ffôn: 01633 223311
E-bost: Newport_AFVBC@outlook.com
Facebook: https://www.facebook.com/groups/298214247258657/?ref=share

## Torfaen

**Rhif ffôn y Lleoliad** +44 (0)1633 864380

**Cyfeiriad** The Crows Nest, Ffordd Llan-gors, Llanyrafon, Cwmbrân NP44 8HU

**Cyswllt** https://www.afvbc.net/

## Bro Morgannwg

**Rhif ffôn y Lleoliad** +44 (0)2920 530629

**Cyfeiriad** Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol Sili, Ffordd y De CF64 5SP

**Cyswllt** https://www.afvbc.net/

## Clybiau Brecwast y Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr

Rydyn ni'n grŵp o gyn-filwyr ac aelodau presennol o Luoedd Arfog Ei Mawrhydi, ac yn debyg i Glybiau Brecwast Cyn-filwyr eraill o amgylch y wlad, a thramor. Ein hethos yw cyd-gefnogaeth; mae'n gweithio oherwydd bod gan bob un ohonom hiwmor a bydolwg tebyg, ac mae'r bywyd cymdeithasol rydyn ni nawr yn ei fwynhau fel ein dyddiau yn gwasanaethu.

## Aberdâr

## Y Fenni

## Pen-y-bont ar Ogwr

## Caerffili

## Caerdydd

## Caerfyrddin

## Cwmbrân a Phont-y-pŵl (ar y cyd)

## Glynebwy

## Llanelli

## Trefynwy a Rhosan ar Wy (ar y cyd)

## Casnewydd
## Doc Penfro
## Pontypridd
## Abertawe

Gellir dod o hyd i'r holl sefydliadau ar Facebook drwy chwilio am leoliad, ac yna Clwb Brecwast y Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr.

# Grwpiau cymunedol

## Beiciwyr y Lluoedd Arfog

Mae **Beicwyr y Lluoedd Arfog (AFB)** yn elusen a leolir yn y DU sy'n ceisio cynorthwyo cyn-aelodau'r lluoedd arfog mewn angen elusennol o ganlyniad i anaf neu brofiad niweidiol arall a ddioddefwyd yn ystod eu gwasanaeth, er mwyn adfer ac adsefydlu i fywyd sifil, hefyd i leddfu anghenion cyn-aelodau'r lluoedd arfog a'u hanwyliaid.

Mae gan yr AFB ffurflen grant ar-lein a pholisi grant.

**https://www.armedforcesbikers.co.uk**

## Change Step

Mae Change Step yn cynnig cefnogaeth effeithiol i gyn-filwyr, eu teuluoedd a'u gofalwyr yng Nghymru, a ddarperir gan Adferiad Recovery - gan eu galluogi i gael mynediad at wasanaethau cymorth hanfodol a mynd i'r afael â straen difrifol a materion cysylltiedig.

Mae ein tîm o fentoriaid cyfoedion yn defnyddio eu profiadau eu hunain i helpu cyd-gyn-filwyr a'u hanwyliaid i wynebu heriau yn eu bywydau a rheoli eu llwybr adferiad.

**http://www.changestepwales.co.uk/**

## Cynghorau Cymuned

Rhennir siroedd a bwrdeistrefi sirol yng Nghymru (a elwir hefyd yn 'brif ardaloedd') yn ardaloedd cymunedol y gall fod cyngor cymuned etholedig ar eu cyfer. Mae llawer o gynghorwyr mewn rhannau o Gymru hefyd yn gynghorwyr tref neu gymuned dros eu hardal. Mae'n bwysig bod cynghorwyr a chynghorwyr tref a chymuned yn cydweithio i gynrychioli eu cymunedau ac, yn yr un modd, anogir cynghorau a chynghorau tref a chymuned i gydweithio'n agos, a gallant gynnal cyfarfodydd cyswllt rheolaidd gan sefydlu protocolau ar drefniadau cyfathrebu ac ymgynghori.

## Clwb Comrades of the Great War (Pont-y-pŵl)

Mae'r clwb yn cwrdd ar ddydd Mawrth cyntaf bob mis yng nghlwb y Comrades am 7pm Stryd y Farchnad, Pont-y-pŵl NP4 6JN

## Help for Heroes yng Nghymru

Mae Help for Heroes yn cefnogi cyn-filwyr a phersonél sy'n gwasanaethu, sydd wedi eu clwyfo yn gorfforol neu yn seicolegol oherwydd eu gwasanaeth, i wella a bwrw ymlaen â'u bywydau drwy ddarparu cymorth corfforol, seicolegol, ariannol a lles, cyhyd ag y maen nhw ei angen. Mae hefyd yn cefnogi teuluoedd hefyd, oherwydd gall clwyfau eu hanwyliaid effeithio arnyn nhw hefyd.

Gan weithio gyda sefydliadau lleol a phartneriaid elusennol eraill, mae arbenigwyr yr Elusen yn darparu cymorth cyfannol wedi'i deilwra mewn lleoliadau hygyrch yn y gymuned.
Mae'r Elusen yn credu bod pobl yn haeddu chwarae teg gan y wlad y gwnaethon nhw fentro popeth ar ei chyfer. Heb bron ddim cyllid gan y Llywodraeth, mae'n dibynnu ar haelioni cyhoedd gwledydd Prydain, ei phartneriaid a'i gwirfoddolwyr i ddal ati. Mae eisoes wedi cefnogi dros 26,500 o bobl ac ni fydd yn stopio tan y bydd pob cyn-filwr clwyfedig yn cael y gefnogaeth maen nhw'n ei haeddu.

**Ffôn** 01443 808910

**Y we** helpforheroes.org.uk/get-support

**Hybiau Cymunedol** Pentref Chwaraeon Casnewydd – gweithgaredd chwaraeon a chyngor un i un ar ail ddydd Mawrth y mis, 11:00-13:00

Clwb Pêl-droed Rhydyfelen – gwneud modelau a chyngor un i un ar ail ddydd Mercher y mis, 11:00-13:00

## Help for Heroes – Band of Brothers

Mae'r Help for Heroes Band of Brothers yn rhwydwaith sy'n agored i Gyn-filwyr, Personél sy'n gwasanaethu a'r rhai sydd wedi gwasanaethu ochr yn ochr â'n Lluoedd Arfog sydd wedi cael eu clwyfo, eu hanafu neu brofi salwch yn ystod, neu o ganlyniad i'w Gwasanaeth ac sy'n arwain at angen parhaus am gymorth.

Os hoffech chi gofrestru i'r Band of Brothers, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych. Anfonwch e-bost at getsupport@helpforheroes.org.uk i adael i ni wybod y byddech chi'n hoffi bod yn aelod ac a ydych chi'n gwasanaethu ar hyn o bryd, neu'n gyn-filwr, a bydd un o'r tîm mewn cysylltiad â chi cyn gynted â phosibl.

### Beth rydyn ni'n ei gynnig

Mae aelodaeth Help for Heroes Band of Brothers yn cynnig cyfle i ddod yn rhan o grŵp sy'n cynnig cefnogaeth ar y cyd ac ymdeimlad o berthyn ochr yn ochr ag eraill sydd â phrofiadau a rennir. Mae unrhyw ymdeimlad o arwahanrwydd cymdeithasol yn cael ei leihau drwy ddigwyddiadau a chyfleoedd sy'n cael eu trefnu a'u rhedeg gan ein rhwydwaith o Gydlynwyr Rhanbarthol angerddol sy'n cwmpasu pob rhan o'r DU gan gynnig clust i wrando, cyngor a chwerthin mewn amgylchedd diogel, heb feirniadaeth.

Mae'n cynnig porth i'r ddarpariaeth Adferiad ehangach, ac ochr yn ochr â'r gefnogaeth honno, mae cyfle i wneud ffrindiau newydd fel unigolyn neu gyda'ch teulu.

Mae'r aelodaeth am ddim, yn gyfrinachol ac yn cynnig manteision a chyfleoedd anhygoel fel:

- Cymorth a chyngor gan eraill mewn sefyllfa debyg i chi
- Amrywiaeth eang o ddigwyddiadau a gweithgareddau rhanbarthol rheolaidd i chi a'r teulu: prydau bwyd, ymweliadau, digwyddiadau tymhorol, cyfarfodydd brecwast, boreau coffi, gyda llawer o'r rhain yn cael eu cynnal gyda'r nos neu ar benwythnos
- Tocynnau am ddim i ddigwyddiadau chwaraeon a cherddorol, seibiannau i'r teulu a chyfleoedd unwaith mewn oes, fel gorymdeithio i'r Senotaff, mynychu Garddwest Palas Buckingham neu hedfan efelychydd British Airways
- Gostyngiadau gyda defnydd o'ch cerdyn aelodaeth Band of Brothers
- Mynediad at gymorth pellach gan wasanaethau Help for Heroes eraill, gan gynnwys lles, cefnogaeth gyrfa, lles seicolegol, a chynghorwyr clinigol

## Band of Sisters

### Pwy All Ymuno â'n Cymrodoriaeth Band Of Sisters?

Mae cymrodoriaeth y Band of Sisters yn agored i aelodau agos o'r teulu (gan gynnwys partneriaid sydd wedi bod gyda'i gilydd ers dros 12 mis neu sy'n byw gyda'i gilydd) o gyn-filwyr y Lluoedd Arfog a phersonél y lluoedd arfog sydd wedi'u clwyfo'n gorfforol neu'n seicolegol o ganlyniad i'w gwasanaeth.

Os hoffech ymuno, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych. Ebostiwch: getsupport@helpforheroes.org.uk a byddwn mewn cysylltiad cyn gynted â phosibl.

# Grwpiau Cymunedol a Chyn-filwyr

## Beth rydyn ni'n ei gynnig

Mae aelodaeth Help for Heroes Band of Sisters yn cynnig cyfle i ddod yn rhan o grŵp sy'n cynnig cefnogaeth ar y cyd ac ymdeimlad o berthyn ochr yn ochr ag eraill sydd â phrofiadau a rennir, yn ddynion a menywod dros 18 oed. Mae unrhyw ymdeimlad o arwahanrwydd cymdeithasol yn cael ei leihau drwy ddigwyddiadau a chyfleoedd sy'n cael eu trefnu a'u rhedeg gan ein rhwydwaith o Gydlynwyr Rhanbarthol angerddol sy'n cwmpasu pob rhan o'r DU gan ddarparu clust i wrando, cyngor a chwerthin mewn amgylchedd diogel, heb feirniadaeth. Mae'n cynnig porth i'r ddarpariaeth Adferiad yn ehangach, ac ochr yn ochr â'r gefnogaeth honno mae cyfle i wneud ffrindiau newydd fel unigolyn neu gyda'ch teulu.

Mae'r aelodaeth am ddim, yn gyfrinachol ac yn cynnig manteision a chyfleoedd anhygoel fel:

- Cymorth a chyngor gan eraill mewn sefyllfa debyg i chi
- Amrywiaeth eang o ddigwyddiadau a gweithgareddau rhanbarthol rheolaidd i chi a'r teulu: prydau bwyd, ymweliadau, digwyddiadau tymhorol, cyfarfodydd brecwast, boreau coffi, gyda llawer o'r rhain yn cael eu cynnal gyda'r nos neu ar benwythnos
- Penwythnosau ysbaid Band of Sisters
- Tocynnau am ddim i ddigwyddiadau chwaraeon a cherddorol, seibiannau i'r teulu a chyfleoedd unwaith mewn oes, fel gorymdeithio i'r Senotaff, mynychu Garddwest Palas Buckingham neu hedfan efelychydd British Airways
- Gostyngiadau gyda defnydd o'ch cerdyn aelodaeth Band of Brothers
- Mynediad i gefnogaeth bellach gan wasanaethau Help for Heroes eraill

... a llawer mwy

Bydd gofyn i bob ymgeisydd roi cadarnhad o wasanaeth eu hanwyliaid a manylion am eu hanaf a/neu salwch fel rhan o'r broses ymgeisio.

# Y Lleng Brydeinig:

Mae'r Lleng Brydeinig Frenhinol yma i helpu aelodau o'r Llynges Frenhinol, y Fyddin Brydeinig, yr Awyrlu Brenhinol, cyn-filwyr a'u teuluoedd. Rydyn ni'n cefnogi personél sy'n gwasanaethu a chyn-filwyr bob diwrnod yr wythnos, gydol y flwyddyn.
Mae ein cefnogaeth yn dechrau ar ôl un diwrnod o wasanaeth ac yn parhau gydol oes, ymhell ar ôl i'r gwasanaeth ddod i ben.

## Canghennau'r Lleng Brydeinig

Y Lleng Brydeinig Frenhinol yw prif elusen y Lluoedd Arfog yn y DU ac un o'i sefydliadau aelodaeth mwyaf. Mae'r aelodau yn dod at ei gilydd drwy'r rhwydwaith o ganghennau a chlybiau ledled y wlad a thramor i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol, lles a chodi arian.

**Abercarn** Mae'r gangen yn cwrdd ar ddydd Mercher olaf bob mis am 7:30pm yng Nghlwb Gweithwyr Abercarn yn Abercarn.

**Aberdâr** Mae'r gangen yn cwrdd am 7.30pm ar ddydd Llun olaf bob mis yng Nghlwb Cymdeithas yr RAF yn Aberdâr.

**Coed Duon a'r Cylch** Mae'r gangen yn cwrdd am 7.30pm ar y trydydd dydd Iau o bob mis yn y Moose Hall, Heol Pentwyn, Coed Duon, Gwent NP12 1HN.

**Y Blaenau** Mae'r gangen yn cwrdd am 19:00 bob dydd Llun cyntaf y mis yng Nghlwb y Ceidwadwyr, Stryd Fawr, Y Blaenau

**Cil-y-coed a'r cylch** Mae'r gangen yn cwrdd am 7:30pm ar yr ail ddydd Mawrth bob mis, yng Nghlwb Cymdeithasol Severn View yn Ffordd yr Orsaf, Cil-y-coed, Sir Fynwy.

**Dowlais** Mae'r gangen yn cwrdd bob dydd Mawrth cyntaf y mis yn Nhafarn y Morlais, Dowlais, Merthyr Tudful.

**Merthyr Tudful** Mae'r gangen yn cwrdd am 7:00pm bob mis heblaw mis Awst yng Nghlwb Cymdeithasol Penydarren yn Heol Alexandra, Merthyr Tudful CF47 9AF.

**Trecelyn** Mae'r gangen yn cwrdd am 19.30 o'r gloch bob dydd Mawrth cyntaf y mis yn neuadd Eglwys St Paul's yn Nhrecelyn.

## Band Cymru y Lleng Brydeinig Frenhinol

Mae Band Cymru y Lleng Brydeinig Frenhinol yn fand chwyth symffonig, wedi'i drwyddedu gan y Lleng Brydeinig Frenhinol ers 2018.

I archebu'r band, cysylltwch â'r Ysgrifennydd Mygedol:
Terry Young
Terryyoung49@hotmail.co.uk
07814 008664

# Grwpiau Cymunedol a Chyn-filwyr

## The Not Forgotten Association

Drwy weithgareddau cymdeithasol a gwyliau her, mae'r Not Forgotten yn brwydro yn erbyn arwahanrwydd ac unigrwydd ymhlith cymuned y Lluoedd Arfog.

Rydyn ni'n cefnogi unrhyw ddyn neu ddynes sy'n cael ei glwyfo, ei anafu neu sy'n sâl ac unrhyw gyn-filwr sydd ag anabledd, salwch neu wendid; beth bynnag yw'r achos a phryd bynnag y cododd. Gall unrhyw gyn-filwr neu bersonél sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd o'r Llynges Frenhinol, Y Môr-filwyr Brenhinol, Y Fyddin Brydeinig, yr Awyrlu Brenhinol a'r Llynges Fasnach, yn Lluoedd Rheolaidd ac Wrth Gefn, fod yn gymwys am ein cymorth.

Mae ein harwyddair 'From Comradeship To Challenge' yn dangos amrywiaeth ac ehangder y gefnogaeth rydyn ni'n ei chynnig. Mae rhai o'n gweithgareddau yn rhoi her gorfforol a'r cyfle i ddatblygu hunan-hyder, ac mae eraill o natur fwy cymdeithasol gyda'r nod o feithrin cyfeillgarwch; ac mae nifer yn cynnig her a chyfeillgarwch. Bwriad pob un o'n digwyddiadau a'n gweithgareddau yw adfer hyder, gwella lles, rhoi hwb i'r ysbryd a gwella cyfleoedd cyn-filwyr a'u teuluoedd i fwynhau bywyd arferol, os nad gwell.

**https://thenotforgotten.org**

The Not Forgotten
Llawr 1
14 Buckingham Palace Road
London
SW1W 0QP

**Ffoniwch ni: 0207 730 2400**
**E-bostiwch ni: info@thenotforgotten.org**

## Fighting With Pride

### Cymorth LHDT+
### Fighting With Pride – Yr elusen cyn-filwyr LHDT+

Mae 'Brwydro gyda Balchder' yn elusen LGBT + profiad byw, sy'n cefnogi'r rhai sy'n chwilio am gymorth ac yn adnodd i'r rhai sydd yn ceisio'u helpu.
Rydym am gysylltu elusennau gwasanaeth a sefydliadau â'r cyn-filwyr LHDT+ hynny sydd wedi cael eu gadael ar ôl, i gydnabod eu gwasanaeth a helpu i ddatrys yr heriau maen nhw'n eu hwynebu yn eu bywydau tu hwnt i wasanaeth milwrol.

### Cymorth

Mae Brwydro gyda Balchder yn cefnogi iechyd a lles Cyn-filwyr LHDT+, personél y lluoedd arfog a'u teuluoedd - yn enwedig y rhai yr effeithir arnynt fwyaf gan y gwaharddiad ar bersonél LHDT+ oedd yn gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog cyn Ionawr 2000.

**Manylion cyswllt:**

**info@fightingwithpride.org.uk**
**www.fightingwithpride.org.uk**

# Grwpiau Cymunedol a Chyn-filwyr



## Blesma

### Ynglŷn â Blesma

Arweiniodd y Rhyfel Byd Cyntaf at gychwyn bron i 18,000 o elusennau, ac mae tua 10 ohonynt yn dal i fodoli heddiw. Mae Blesma yn un.

Mae Blesma yn ymrwymedig i gynorthwyo milwyr a chyn-filwyr sydd wedi colli braich, coes, llygad neu golli golwg neu golli defnydd o freichiau/coesau. Rydyn ni'n gweithio'n ddiflino dros ein Haelodau pan nad yw'r rhyfeloedd sydd wedi effeithio ar eu bywydau bellach yn ganolbwynt i'r cyfryngau. Ers 1932, ni yw'r unig elusen Gwasanaeth Cenedlaethol sy'n cefnogi cyn-filwyr sydd wedi colli breichau/coesau drwy gydol eu bywydau.

## Beth rydyn ni'n ei wneud yng Nghymru a Gorllewin Lloegr

### Cymrodoriaeth

Mae'r aelodau wedi helpu ei gilydd ers dyddiau cyntaf Blesma. Mae hyn wrth wraidd yr hyn rydyn ni'n ei wneud, ac yn gwneud defnydd o'n gwybodaeth am brofiadau Aelodau, o anafiadau trawmatig, adfer, a sefydlogrwydd yn y pen draw. Er hynny, nid yw'r math hwn o gymrodoriaeth yn ddigon i bawb, felly mae ein Tîm Lles yn cynnig cefnogaeth broffesiynol benodol pan fydd ei hangen.

### Prosthetigau

Nid yw Blesma yn talu am brosthetigau Aelodau, ond rydyn ni'n helpu prosthetyddion i ddatblygu eu sgiliau ar lefel israddedig a PhD. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda'r GIG i sicrhau bod y datblygiadau diweddaraf yn y meysydd meddygol perthnasol yn cael eu troi'n atebion ymarferol sy'n gallu bod o fudd i'n holl Aelodau.

### Lles, Eiriolaeth a Chyngor

Rydyn ni'n arbenigwyr mewn Pensiynau Rhyfel ac yng Nghynllun Iawndal y Lluoedd Arfog (AFCS), yn ogystal ag ystod gyfan o lwfansau eraill. Mae ein Swyddog Arweiniol a Chymorth yn cynnig cyngor a chymorth ar geisiadau am hawliau, budd-daliadau a lwfansau ac yn cynorthwyo ein Haelodau a Gweddwon mewn Tribiwnlysoedd Pensiwn Rhyfel a Gwrandawiadau AFCS. Rydyn ni'n credu y dylai prostheteg a darpariaeth i bobl anabl ddiwallu anghenion pob Aelod unigol. Mae ein rhwydweithio eiriolaeth i gynrychiolwyr lleol a chenedlaethol yn sicrhau hyn.

### Grantiau

Rydyn ni'n cynnig cymorth ariannol i aelodau gyda chostau ychwanegol a chaledi anabledd. Rydyn ni'n cyfrannu'n rheolaidd at ddarparu cadeiriau olwyn, lifftiau grisiau, ac addasiadau cartref/gardd i gynnal symudedd ac annibyniaeth. Gall partneriaid a Chymdeithasau Catrodau hefyd gysylltu â Blesma am arian grant.

### Cyflogaeth

Ers ein sefydlu, mae Blesma wedi ymgyrchu gyda llywodraethau olynol dros hawliau cyflogaeth cyfartal, cyfleoedd, ac arferion. Heddiw, rydyn ni'n dal i ymdrechu i helpu Aelodau i ddod o hyd i waith boddhaus.

# Grwpiau Cymunedol a Chyn-filwyr



## Gweithgaredd Allgymorth ac Aelodau

Mae cadw'n heini ar ôl anaf yn hanfodol er mwyn iechyd a lles parhaus. Mae ein gweithgareddau a'n cyrsiau'n amrywio o'r ymenyddol i'r corfforol ac maent wedi'u targedu'n benodol at anghenion ein Haelodau.

## Cymhwysedd Aelodaeth

Mae Aelodaeth Gyffredin yn cynnwys y rhai a gollodd freichiau/coesau wrth wasanaethu a'r rhai sydd wedi colli'r defnydd ohonynt o ganlyniad wasanaethu. Mae hefyd yn agored i rai sy'n dioddef colled barhaol mewn lleferydd, clyw neu olwg. Mae'n rhaid iddynt fod wedi gwasanaethu mewn unrhyw gangen o Luoedd Ei Mawrhydi neu Luoedd Ategol.

Mae Aelodaeth Gysylltiol yn agored i bob dyn a menyw o statws sifil sy'n colli braich/coes, neu'n colli defnydd o fraich/coes, neu lygad o ganlyniad i Wasanaeth Rhyfel neu weithred gelyn neu weithred derfysgol yn erbyn Lluoedd EM sy'n cyflogi'r rheini o statws sifil, neu sy'n gwirfoddoli, i ddarparu cefnogaeth uniongyrchol.

Pob cyn-filwr a wasanaethodd mewn unrhyw Gangen o Luoedd EM neu'r Lluoedd Ategol, sydd wedi colli braich/coes neu lygad, neu'r defnydd o fraich/coes drwy ddigwyddiad trawmatig, heblaw trwy achosion sy'n gysylltiedig â'r Gwasanaeth.

## Allan yn y maes (113 Ymweliadau Cartref ac Eraill rhwng Tach 21 i Fai 22)

Bydd ein Swyddog Arweiniol a Chymorth Blesma yn ymweld ag Aelodau a Gweddwon yn eu cartrefi eu hunain mewn canolfannau, hybiau cyn-filwyr neu mewn lleoliadau eraill ar eu cais neu i gefnogi angen blaenoriaeth. Cwblhaodd Blesma Cymru a Gorllewin Lloegr dros 3,500 o gysylltiadau rhwng Tachwedd 21 a Mai 22.

Mae ein Haelodau yn amrywio o'r cyn-filwyr ieuengaf i'r rhai fu'n ymladd yn yr Ail Ryfel Byd, rhai wedi byw gyda cholli breichiau/coesau am dros hanner canrif. Efallai fod meddygaeth fodern wedi dod yn bell ers hynny, ond mae dal angen dybryd i Blesma gefnogi'r cenedlaethau iau, a'u teuluoedd, sydd wedi goroesi anafiadau trawma cymhleth a bydd angen ein cefnogaeth arbenigol wrth iddyn nhw wynebu taith hir o'u blaenau.

## Y Tîm yng Nghymru a Gorllewin Lloegr

### Arweinydd Cymorth a Lles Blesma:

**Tom Hall**
**Ffôn Swyddfa: 020 8548 7098**
**Symudol: 07780 165085**
**E-bost: bsowest@blesma.org**

### Arweinydd Allgymorth:

**Jason Suller**
**Rhif ffôn: 07741 744141**
**E-bost: outreachw@blesma.org**

### Atgyfeiriadau

Gall clinigwyr a Phartneriaid gysylltu â Tom neu gyfeirio Cyn-filwyr at Blesma gan ddefnyddio ein gwefan www.blesma.org neu drwy ddefnyddio Ffurflen Atgyfeirio Blesma Cymru a Gorllewin Lloegr – a ddarperir ar gais drwy gysylltu â'r uchod.

# 2 Addysg

## Diffiniad o blentyn y Lluoedd Arfog

Diffiniad o Blant Milwr Dylai lleoliadau ysgolion ac addysg ystyried nodi a chefnogi holl blant sydd â chysylltiad â'r Lluoedd Arfog.

Diffiniad Llywodraeth Cymru o blentyn Milwr

Mae gan 'blentyn milwr' riant (rhieni) - neu berson(au) sy'n ymarfer cyfrifoldeb rhiant – sy'n bersonél i Wasanaethau'r Lluoedd Arfog:

- Yn Lluoedd Arfog Rheolaidd EM
- Wedi ymrwymo'n llawn fel rhan o'r gwasanaeth Wrth Gefn amser llawn
- Yn gyn-filwr sydd wedi bod mewn gwasanaeth yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf
- Bu farw un o'u rhieni wrth wasanaethu yn y Lluoedd Arfog ac mae'r disgybl yn derbyn pensiwn o dan Gynllun Iawndal y Lluoedd Arfog neu'r Cynllun Pensiynau Rhyfel.

**Mae Addysg yng Nghymru wedi'i ddatganoli.** Mae hyn yn golygu y gall Llywodraeth Cymru wneud cyfreithiau a phenderfyniadau am addysg yng Nghymru a wneir ar wahân i Lywodraeth y DU. Bydd teuluoedd y Lluoedd Arfog sy'n symud i Gymru yn profi cwricwlwm gwahanol, ac felly, rhai gwahaniaethau mewn addysg ac asesiadau. Mae yna hefyd lawer o debygrwydd rhwng system addysg yng Nghymru a'r systemau eraill sydd wedi eu datganoli a ddefnyddir yng ngweddill y DU.

### Addysg orfodol yng Nghymru i ddisgyblion rhwng 5 ac 16 oed. Mae ysgolion yn cael eu rhannu yn:

- Cynhelir gan yr Awdurdod Lleol (cymunedol/ cynhwysfawr) – yn eiddo ac yn cael ei gynnal gan yr Awdurdod Lleol, sy'n gosod y meini prawf derbyniadau
- Gwirfoddol – cynhelir gan fudiad gwirfoddol (yng Nghymru mae hyn yn nodweddiadol yr Eglwys Gatholig Rufeinig neu'r Eglwys yng Nghymru) ond yn cael ei fonitro'n agos gan yr awdurdod lleol.
- Ysgolion sefydledig – yn eiddo naill ai i'r corff llywodraethu neu sefydliad elusennol
- Ysgolion annibynnol – addysg breifat y telir ffi

Mae gweinidogion Cymru yn rheoleiddio bron pob maes o addysg yng Nghymru. Ymhlith pethau eraill, maent yn rheoleiddio'r gweithlu addysg, y Cwricwlwm Cenedlaethol, y fframwaith prentisiaethau, y system gymwysterau ac arholiadau ysgol, a'r rhan fwyaf o sefydliadau addysgol.

Mae gan awdurdodau lleol amrywiaeth o gyfrifoldebau mewn perthynas ag addysg, o dan arweiniad a rheolaeth Gweinidogion Cymru. Er enghraifft, mae eu dyletswyddau'n cynnwys gwneud yn siŵr bod digon o ysgolion yn eu hardaloedd a sicrhau bod darpariaeth briodol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae cwricwlwm Cymru eisiau i blant fwynhau dysgu a datblygu sgiliau, gwybodaeth, a gwytnwch emosiynol. Erbyn iddynt fod yn 16 oed, dylent fod yn unigolion hyderus ac egwyddorol sy'n chwarae rhan weithredol yn eu cymuned a'u cymdeithas. Dylent fod yn barod i ffynnu yn y byd gwaith newydd.

# Addysg



## Cod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru

Mae'n ofynnol i bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru ddilyn y canllawiau sy'n cael eu darparu yn y Cod Derbyn i Ysgolion.

**COD DERBYN LLC AR GYFER PLANT AELODAU O'R LLUOEDD ARFOG**

Mae'r Cod hwn yn gosod gofynion ac yn cynnig arweiniad i awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, fforymau derbyn a phaneli apêl derbyn. Rhaid i'r cyrff hyn weithredu yn unol â'r Cod.

## Derbyniadau awdurdodau lleol

Mae gan bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru broses ymgeisio a fforwm derbyn i ysgolion.

### Blaenau Gwent

#### Manylion Cyswllt

**Enw'r Tîm:** Tîm Trawsnewid Addysg, Derbyniadau i Ysgolion

**Rhif ffôn:** (01495) 355493

**Cyfeiriad:** Cyfarwyddiaeth Addysg, Llawr 8, Llys Anvil, Abertyleri, NP13 1DB

**Cyfeiriad e-bost:** schooladmissions@blaenau-gwent.gov.uk

### Trosglwyddo o Fewn y Flwyddyn (derbyn i ysgol y gwneir cais amdano tu allan i'r cylch derbyn arferol)

Mae trosglwyddo/derbyn o fewn y flwyddyn yn cyfeirio at geisiadau a wneir o fewn y flwyddyn (yn ystod a dim cyn dechrau'r flwyddyn academaidd) a thu allan i'r cylch derbyn arferol h.y. disgyblion yn symud i'r fwrdeistref, yn dymuno newid ysgolion ac yn y blaen.  Caiff pob trosglwyddo o fewn y flwyddyn eu trin yn ôl  y dyddiad derbyn. Lle derbynnir mwy o geisiadau na'r nifer lleoedd sydd ar gael, bydd y Cyngor yn gweithredu eu meini prawf ar gyfer pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael (gweler tudalen 12) er mwyn penderfynu ar ddyrannu a/neu wrthod lleoedd.

Caiff ceisiadau eu prosesu o fewn 7-15 diwrnod gwaith o'u derbyn, caiff cadarnhad o le ei ddarparu gan y Cyngor, a bydd yr ysgol yn cadarnhau dyddiad dechrau. Lle'n bosibl, bydd y dyddiad dechrau a roddir gan yr ysgol o fewn 10 diwrnod o gadarnhau dyraniad lle.

Yn yr amgylchiadau dilynol caiff dyrannu disgyblion ei reoli'n wahanol i gais arferol am drosglwyddo:

- **Derbyniadau cymhleth** – ystyrir fod derbyn yn gymhleth os yw anghenion y disgybl yn dod tu allan i'r broses dderbyn arferol a'r broses anodd lleoli (gweler islaw). Yn yr achos hwn bydd gweithgor a gydlynir gan y Swyddog Derbyn yn cael ei gynnull er mwyn trin natur gymhleth y lleoliad, gan sicrhau y gall holl anghenion y disgybl gael eu trin o fewn gosodiad addysg priodol.

## Caerffili

### Plant Lluoedd Arfog y DU

Bydd plant personél lluoedd arfog y DU yn cael eu trin fel pe baent yn y ddalgylch os caiff llythyr swyddogol gan y Weinyddiaeth Amddiffyn ei gynnwys gyda'r ffurflen gais yn datgan dyddiad dychwelyd pendant a chadarnhad o'r cyfeiriad newydd. Bydd disgyblion o'r tu allan i ddalgylch yr ysgol yn cael eu derbyn yn unol â dewis y rhieni os nad yw nifer derbyn yr ysgol, dosbarth neu uned wedi ei gyrraedd ac, os bydd angen dewis, defnyddir y meini prawf a ddangosir uchod.

**E-bost:** derbyniadauysgol@caerffili.gov.uk

**Rhif ffôn:** 01443 864870 / 01443 864897

**Cyfeiriad:** Tŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach, Hengoed. CF82 7PG

## Merthyr Tudful

### Plant Lluoedd Arfog y DU

Mae'r Canllawiau Cod Derbyn i Ysgolion yn ymwneud â phlant personél y lluoedd arfog ar gyfer rownd derbyn arferol/ lle mae lleoedd gwag mewn ysgolion.

Rhaid i'r awdurdodau derbyn beidio â gwrthod lle i blentyn personél y lluoedd arfog cyfredol oherwydd nad yw'r teulu'n byw yn yr ardal eto. Dylid trin symudiad 'mewn blwyddyn' yr un fath ag ymlaen llaw i'r flwyddyn ysgol. Er bod y rhiant/rhieni yn parhau yn y lluoedd arfog dylai darpariaethau'r Cod sy'n berthnasol i blant personél lluoedd arfog y DU fod yn berthnasol, sef;

### 'Plant personél Lluoedd Arfog y DU a Gweision eraill y Goron (gan gynnwys diplomyddion)

Mae teuluoedd personél lluoedd arfog y DU a Gweision y Goron eraill yn symud yn aml o fewn y DU ac o dramor, yn aml ar rybudd cymharol fyr. Rhaid dyrannu llefydd ysgol i blant a'u teuluoedd cyn y flwyddyn ysgol sy'n agosáu gyda llythyr swyddogol y Weinyddiaeth Amddiffyn neu'r Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad yn datgan dyddiad dychwelyd. Gellir rhoi statws wedi'i eithrio i blant personél lluoedd arfog y DU at ddibenion maint dosbarth babanod wrth gael eu derbyn i ysgol y tu allan i'r rownd dderbyn arferol.

**E-bost:** school.admissions@merthyr.gov.uk

**Gwefan:** www.merthyr.gov.uk

**Ffôn:** (01685) 725000

# Addysg

## Sir Fynwy

### Plant Personél y Lluoedd Arfog a Gweision y Goron

Bydd plant personél y lluoedd arfog a gweision eraill y Goron (gan gynnwys diplomyddion) sy'n dychwelyd, ac sy'n symud i Sir Fynwy yn cael eu pennu fel eu bod yn bodloni'r meini prawf preswylio ar gyfer yr ysgol dalgylch berthnasol os bydd prawf swyddogol o bostio gyda'u ffurflen gais sy'n datgan dyddiad dychwelyd pendant gyda chadarnhad o'r cyfeiriad newydd lle bynnag y bo modd.

Os yw'r ysgol dalgylch berthnasol eisoes wedi cyrraedd ei nifer derbyn yn y grŵp blwyddyn berthnasol ar adeg y cais, bydd yr Awdurdod Lleol yn mynd y tu hwnt i'r nifer sy'n cael eu derbyn.

**www.monmouthshire.gov.uk/applying-for-a-school-place**

Uned Ysgolion a Derbyn Myfyrwyr, Cyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc,
Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga NP15 1GA

**E-bost:** accesstolearning@monmouthshire.gov.uk

**Rhif ffôn:** 01633 644508

## Casnewydd

### Personél Lluoedd Arfog y DU

Mae plant personél Lluoedd Arfog y DU yn yn aml yn symud o fewn y DU ac o dramor, yn aml ar rybudd cymharol fyr. O ganlyniad, i bersonél lluoedd arfog DU nad ydynt yn gallu cymryd rhan yn y broses dderbyn arferol, bydd y Cyngor yn ystyried bod y meini prawf preswyl wedi'u bodloni (gyda blaenoriaeth dalgylch dyfarnu) os yw'r cais yn dod gyda'r canlynol, hyd yn oed os nad yw'r teulu'n byw yng Nghasnewydd ar y dyddiad perthnasol.

- Prawf swyddogol o bostio h.y. hysbysiad postio;
- Copi o Gerdyn Adnabod y Gwasanaeth;
- Cadarnhad o'r cyfeiriad newydd lle bo hynny'n bosibl.

Os mai ysgol y dalgylch yw'r ysgol a ffefrir hefyd ond bod nifer y plant sydd wedi'u derbyn eisoes wedi cyrraedd y terfyn yn y grŵp blwyddyn berthnasol, bydd y Cyngor yn mynd y tu hwnt i'r nifer derbyn.

Tîm Derbyn i Ysgolion, Cyngor Dinas Casnewydd, Canolfan Ddinesig, Casnewydd NP20 4UR

**E-bost:** school.admissions@newport.gov.uk

**Rhif ffôn:** 01633 656656

## Torfaen

### Plant personél lluoedd arfog y DU a Gweision eraill y Goron (gan gynnwys diplomyddion)

Mae teuluoedd personél lluoedd arfog y DU a Gweision y Goron eraill yn aml yn symud o fewn y DU ac o dramor, a hynny yn aml ar rybudd cymharol fyr.

Dylid dyrannu llefydd ysgol i blant a'u teuluoedd cyn y flwyddyn ysgol sy'n agosáu gyda llythyr swyddogol y Weinyddiaeth Amddiffyn neu'r Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad yn datgan dyddiad dychwelyd a chadarnhad o'r cyfeiriad newydd pan fo'n bosibl.

### Derbyniadau i Ysgolion

Y Tîm Derbyniadau, Llawr 4, Canolfan Ddinesig Pont-y-pŵl, NP4 6YB

**Rheolwr Derbyn a Throsglwyddo:** Kath Worwood

**Rhif ffôn:** 01495 766915

**E-bost:** kath.worwood@torfaen.gov.uk

## Rhondda Cynon Taf

### Plant Lluoedd Arfog y DU

Bydd plant personél lluoedd arfog y DU yn cael eu trin fel rhai sy'n byw yn y dalgylch os yw eu cais yn dod gyda llythyr swyddogol y Weinyddiaeth Amddiffyn neu'r Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad yn datgan dyddiad dychwelyd pendant a chadarnhad o'r cyfeiriad newydd.

I gysylltu â'r Tîm Derbyniadau Ysgolion ffoniwch 01443 281111 neu anfonwch e-bost at schooladmissions@rctcbc.gov.uk

Ysgolion a Dysgu Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

**Gwefan:** https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Resident/SchoolsandLearning

# Addysg

## Bro Morgannwg

### Ceisiadau ar gyfer plant personél lluoedd arfog y DU a Gweision eraill y Goron

Mae gan Gyngor Bro Morgannwg hanes hir o groesawu plant personél y lluoedd arfog i'n hysgolion. Mae'r cyngor yn ymwybodol bod yn rhaid i deuluoedd y lluoedd arfog yn aml adleoli'n gyflym, ac nid yw prawf preswyliad bob amser ar gael, ac mae hyn yn cael ei ystyried wrth ddelio â cheisiadau gan deuluoedd lluoedd arfog y DU. Rhoddir sylw dyladwy i gyngor Llywodraeth Cymru a chanllawiau statudol yn achos eithriadau i derfynau maint dosbarthiadau Babanod ar y mater hwn. Bydd y cyngor yn:

- sicrhau bod anghenion plant teuluoedd lluoedd arfog y DU yn cael eu hystyried;
- dyrannu lle mewn ysgol cyn symud os byddai'r cais yn bodloni'r meini prawf pan fyddant yn symud i'r lleoliad newydd;
- gwahodd cynrychiolydd y lluoedd arfog i ymuno â'r fforwm derbyniadau;
- derbyn cyfeiriad post uned ar gyfer ceisiadau gan bersonél y lluoedd arfog yn absenoldeb cyfeiriad post cartref newydd.

### Ni fydd y cyngor yn:

- cadw llefydd wrth gefn ar gyfer blociau o'r plant hyn, neu'n gwrthod lle i blentyn o deulu lluoedd arfog yn y DU am nad yw'r teulu'n byw yn yr ardal ar hyn o bryd.

#### Manylion Cyswllt

**E-bost:** admissions@valeofglamorgan.gov.uk neu drwy ffonio 01446 700111.

Cyngor Bro Morgannwg, Y Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, Y Barri CF63 4RU

# Apeliadau derbyn i ysgolion

Dyrennir pob lle ysgol yn unol â'r meini prawf derbyn i ysgolion.

Ym mwyafrif yr achosion, caiff plant gynnig yn ysgol ddewis y rhieni.

Ond os na chaiff eich plentyn gynnig lle bydd angen i chi benderfynu ar ba un a ydych yn fodlon derbyn lle mewn ysgol wahanol ai peidio, neu a ydych am apelio.

Os dewiswch apelio, bydd Panel Apeliadau Annibynnol yn clywed eich apêl. Bydd y panel hwn yn barnu a yw'r ysgol yn llawn ac, os felly, p'un a yw cais y rhieni'n ddigon cryf i gynnig lle i blentyn. Nid oes gan ddisgyblion oedran meithrin hawl i apelio.

Gall gwneud apêl fod yn broses frawychus. Mae'n golygu eich bod yn ysgrifennu llythyr apêl ac yn mynychu gwrandawiad o flaen panel apêl i ddadlau eich achos.

## Beth sy'n digwydd os gwrthodir lle i'ch plentyn?

Yn y mwyafrif llethol o achosion cynigir llefydd i blant yn newis ysgol gyntaf eu rhieni. Fodd bynnag, os na chynigir lle i'ch plentyn, bydd angen i chi benderfynu a ydych yn fodlon derbyn lle a gynigir mewn ysgol wahanol, neu a ydych am barhau gyda'ch cais cyntaf. Os dewiswch y llwybr diwethaf, efallai y byddwch yn apelio at Banel Apêl Annibynnol. Bydd y Panel Apêl Annibynnol hwn yn penderfynu a yw'r ysgol yn llawn a, phe bai hynny'n digwydd, a yw amgylchiadau'r rhieni mor gryf fel y dylai'r plentyn gael cynnig lle o hyd. Cyn i chi apelio, ystyriwch feini prawf derbyn yr awdurdod lleol. Dylid nodi nad oes hawl apelio ar gyfer disgyblion oed meithrin.

## Codau derbyniadau ac apeliadau ysgolion

Mae 'cod derbyn i Ysgol' a'r 'cod apeliadau derbyn i ysgol ' wedi cael eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru ac yn esbonio canllaw statudol y mae'n rhaid eu dilyn wrth ddosbarthu lleoedd ysgol yn ysgolion cynradd, canol ac uwchradd.

**https://gov.wales/school-admissions**

## Sut i apelio

Rhaid apelio'n ysgrifenedig o fewn 28 diwrnod calendr o gael gwybod am y penderfyniad i beidio â derbyn eich plentyn i'r ysgol ddewis.

## Beth sy'n digwydd nesaf?

Caiff eich apêl ei chyfeirio at ein hadran gyfreithiol a fydd yn trefnu i'r apêl gael ei chlywed gan Banel Apeliadau Annibynnol gan nodi amser a lle i'r gwrandawiad. Cewch gyfle i fynd i'r gwrandawiad a gwneud sylwadau (llafar a/neu ysgrifenedig). Gall asiantaethau fel SNAP Cymru ac ACE roi cymorth i rieni wrth apelio.

# Addysg

**Sylwer:**

- Nid oes rhaid i rieni fynychu'r cyfarfod apêl, yn hytrach, gellir caniatáu i'r apêl gael ei hystyried fel datganiad ysgrifenedig
- Os nad ydych yn mynychu'r gwrandawiad, bydd yr apêl yn cael ei benderfynu ar sail y wybodaeth sydd ar gael
- Fe gewch rybudd ysgrifenedig o gyfarfod y panel apêl o leiaf bedwar diwrnod ar ddeg (o ddyddiad postio)
- Mae croeso i chi fod yng nghwmni ffrind neu gael eich cynrychioli gan gyfreithiwr. Os bydd cyfreithiwr yn cynrychioli, rhaid i rieni ein hysbysu o hyn o leiaf saith diwrnod cyn y gwrandawiad.
- Dylech nodi, os yw eich apêl yn erbyn penderfyniadau corff llywodraethol ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig, bod yr apeliadau hyn yn cael eu clywed gan banel apêl ar wahân. Am arweiniad ar yr apeliadau hyn, cysylltwch â'r ysgol dan sylw.
- Dylech nodi hefyd y bydd cyfyngiadau yn cael eu gosod ar bwerau'r panel apêl i ganiatáu apeliadau yn erbyn y gwrthodiad i dderbyn plentyn i ysgol lle mae deddfwriaeth maint dosbarth babanod yn berthnasol. Ni fyddwn yn ystyried ail gais derbyn oni bai bod newid sylweddol mewn amgylchiadau (y bydd angen tystiolaeth o hynny).

## Rhaglen Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yw Cefnogi Plant

**Aelodau'r Lluoedd Arfog Mewn Addysg yng Nghymru (SSCE Cymru) a ariannwyd i ddechrau o Gronfa Cefnogi Addysg y Weinyddiaeth Amddiffyn (MoD) ond a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2019.**

Ers i'r rhaglen ddechrau yn 2014, mae SSCE Cymru wedi gweithio gydag ysgolion, plant a phobl ifanc, awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru, gweithwyr addysg proffesiynol, teuluoedd y Lluoedd Arfog a sefydliadau cefnogi i gasglu eu safbwyntiau a'u profiadau, i adeiladu rhwydweithiau ar draws Cymru ac i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o brofiadau plant personél y Lluoedd Arfog. Mae SSCE Cymru wedi datblygu arweiniad ac adnoddau digidol ar gyfer ysgolion a theuluoedd, wedi cynnal cynadleddau a diwrnodau rhanddeiliaid ac wedi comisiynu ymchwil er mwyn deall yn well anghenion plant y Lluoedd Arfog mewn addysg.

Eu cenhadaeth yw darparu'r gefnogaeth addysgol orau bosibl i blant, drwy sicrhau bod gweithwyr addysg proffesiynol yn deall y materion y gall plant y lluoedd arfog yng Nghymru eu hwynebu.

**http://www.sscecymru.co.uk/home/**

**Maen nhw'n darparu amrywiaeth eang o adnoddau gan gynnwys y Canllaw i Deuluoedd y Lluoedd Arfog sydd â gwybodaeth gynhwysfawr am addysg yng Nghymru ar gyfer Plant y Lluoedd Arfog**

# 2 Addysg

**Mae Canllaw i Deuluoedd Gwasanaeth y Lluoedd Arfog SSCE Cymru yn cynnwys yr adrannau canlynol:**

- Profiadau plant y Lluoedd Arfog
- Y Lluoedd Arfog yng Nghymru
- Byw yng Nghymru
- Addysg yng Nghymru
- Derbyniadau ysgolion ac absenoldeb yn ystod y tymor
- Iechyd, Lles ac Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Cefnogaeth ysgol.

Mae Gwasanaeth Cynghori ar Addysg Plant (CEAS) y Weinyddiaeth Amddiffyn yn darparu cyngor, arweiniad a chefnogaeth i deuluoedd y lluoedd arfog ar ystod eang o faterion addysgol, gan gynnwys derbyniadau i ysgolion ac apeliadau derbyn ysgolion. Mae'r gefnogaeth a gynigir gan CEAS yn bwrpasol, gyda'r holl gyngor yn canolbwyntio ar y plentyn ac yn canolbwyntio ar fuddiannau gorau'r unigolyn.

## Gofal plant

Cynnig Gofal Plant Cymru: Fe allai plant cymwys gael yr hawl i ofal plant wedi'i ariannu o'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed hyd nes y byddan nhw'n cael cynnig addysg llawn amser.

Mae Cynnig Gofal Plant Cymru Llywodraeth Cymru yn golygu bod y rhan fwyaf o rieni plant rhwng 3 a 4 oed sy'n gweithio bellach yn gallu hawlio arian tuag at gost gofal plant.

Mae hyn yn golygu 30 awr o addysg gynnar a gofal plant yng Nghymru i rieni sy'n gymwys.

Mae'r 30 awr yn cynnwys o leiaf 10 awr o addysg gynnar yr wythnos ac uchafswm o 20 awr yr wythnos o ofal plant. Mae union faint o ofal plant a gewch chi yn dibynnu ar faint o addysg gynnar y mae eich awdurdod lleol yn ei gynnig – gall eich Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd lleol roi gwybod i chi beth mae'r Cynnig yn ei olygu i chi yn eich ardal chi.

Mae ar gael am 48 wythnos o'r flwyddyn, sy'n golygu y gall y Cynnig eich helpu gyda gofal plant ar gyfer rhywfaint o wyliau'r ysgol.

Mae cannoedd o feithrinfeydd, gwarchodwyr plant, Cylchoedd Meithrin, grwpiau chwarae a crèches bellach yn cefnogi'r Cynnig, sy'n golygu y gallwch ddewis darparwr gofal plant sy'n cwrdd ag anghenion eich plentyn orau. Mae'r Cynnig ar gael os ydych am gael mynediad at ofal plant Cymraeg, Saesneg neu ddwyieithog.

**https://llyw.cymru/gofal-plant-i-blant-3-4-oed**

# Addysg

## Cymhwysedd

- Rhaid i'ch plentyn fod yn 3 neu 4 oed
- Rhaid ennill o leiaf yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'r Cyflog byw am 16 awr yr wythnos ar gyfartaledd
- Rhaid i bob rhiant ennill llai na £100,000 y flwyddyn
- Mae angen i rieni teuluoedd unig rhiant fod yn gweithio
- Rhaid i rieni teuluoedd â dau riant fod yn gweithio
- Mae angen i rieni sy'n hunangyflogedig neu sydd ar gontract dim oriau brofi eu statws a darparu dogfennau perthnasol
- Rhieni sy'n gyflogedig neu'n hunangyflogedig ond sydd ar absenoldeb statudol er enghraifft, absenoldeb mamolaeth
- Gall gofalwyr maeth, gofalwyr sy'n berthnasau a rhieni ar absenoldeb mabwysiadu hefyd fod yn gymwys

Mae cyn ysgol yn amser gwych i ddechrau taith ddwyieithog eich plentyn, felly os hoffech wybod mwy am fanteision eich plentyn sy'n dysgu Cymraeg, gweler Cymraeg i Blant.

# Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA)

Mae Lwfans Cynhaliaeth Addysg Cymru yn gynllun sy'n cael ei redeg gan y Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddarparu cymhelliad i bobl ifanc sy'n dymuno parhau mewn addysg ar ôl oedran gadael ysgol i ennill dyfarniadau trwy bresenoldeb da a chyflawni amcanion a gytunwyd o flaen llaw.

Mae rhieni/gwarcheidwaid plant sy'n aros yn yr ysgol ar ôl oedran statudol gadael ysgol yn gymwys i gael eu hystyried am ddyfarniad o lwfans cynhaliaeth. Mae grantiau'n daladwy yn unol â'r graddfeydd a luniwyd gan yr AALl ac yn amrywio yn ôl amgylchiadau teulu ac oedran y disgybl, (ceir un raddfa i ddisgyblion sy'n un deg chwech mlwydd oed ar ddechrau'r tymor ac un arall i rai un deg saith blwydd oed a hŷn).

Mae'r cymhorthdal fel arfer yn daladwy bob tymor yn fuan wedi i'r tymor ddechrau, yn amodol ar ardystiad gan y pennaeth fod y disgybl yn mynychu a datblygu'n foddhaol ac yn debygol o barhau i wneud hynny nes diwedd y tymor hwnnw.

Rhaid gwneud ceisiadau ar ffurflen "Cymorth Ariannol" sydd ar gael gan y Gwasanaethau Gofal Plant Integredig, y gellir ei lawr lwytho oddi ar ein gwefan neu sydd ar gael gan yr ysgol berthnasol.

Mae gan bob ysgol ei threfniadau ei hun ar gyfer cymorth gyda'r mater hwn a dylai rhieni holi'r ysgol berthnasol am fanylion.

## Arolygiaeth addysg a hyfforddiant Cymru Diben – Estyn

Yw archwilio ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Mae "Plant Teuluoedd Milwyr" yn cael eu cynnwys o dan adran 1.2 Safonau a chynnydd grwpiau penodol yn Llyfr Arweiniad ar gyfer arolygu gwasanaethau addysg llywodraeth leol. Mae hyn yn helpu i godi ymwybyddiaeth o blant Milwyr mewn ysgolion ac awdurdodau lleol; ac yn annog ysgolion i fonitro cynnydd a chanlyniadau'r grŵp penodol hwn o ddysgwyr.

Mae Estyn yn diffinio disgyblion diamddiffyn fel "y sawl sy'n fwy tebyg o brofi rhwystrau emosiynol, cymdeithasol a datblygiadol tuag at ddysgu."

**https://www.estyn.gov.wales/**

## Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

ADY, neu Anghenion Dysgu Ychwanegol, yw'r term sy'n cael ei ddefnyddio yng Nghymru ar gyfer disgyblion sydd angen cefnogaeth ychwanegol yn yr ysgol.

### Dau gam allweddol y bydd angen i ysgolion eu cymryd yw:

- paratoi Cynllun Datblygu Unigol (CDU): Bydd pob plentyn a pherson ifanc ag ADY nawr yn cael Cynllun Datblygu Unigol (CDU), a fydd yn disodli'r amrywiaeth o gynlluniau sy'n bodoli eisoes. Dylai'r ysgol weithio mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol i baratoi CDU ar gyfer disgyblion ADY, a lle bo'n bosibl, gweithio gyda rhieni hefyd. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y broses CDU yn y ddalen ffeithiau hon gan Lywodraeth Cymru.
- penodi CADY: mae'r Ddeddf newydd yn gwneud cael cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yn statudol mewn ysgolion, lle'r oedd cael SENCo cyn hyn yn anstatudol.

### Pan fydd plentyn neu berson ifanc wedi cael ei asesu fel un sydd ag ADY, dylai ysgolion:

- wneud trefniadau ar gyfer gadael i bob aelod o staff sy'n ymwneud â'r disgybl wybod am yr anghenion hynny;
- cynnwys y CADY wrth gynghori staff addysgu ar ddulliau addysgu priodol i'w defnyddio mewn perthynas â'r disgybl gyda'r bwriad o ddiwallu'r anghenion ymddangosiadol;
- gwneud addasiadau priodol i amgylchedd yr ysgol i wella mynediad y plentyn neu'r person ifanc i addysg;
- darparu cefnogaeth ychwanegol a/neu wahanol briodol i'r plentyn neu'r person ifanc o'r adnoddau sydd ar gael iddynt, gan gynnwys mynediad at fewnbwn gan arbenigwyr allanol;
- monitro effaith y cymorth a ddarperir i'r plentyn neu'r person ifanc a'i newid os daw'n amlwg y byddai hyn yn briodol.

# Addysg

## Cwricwlwm Newydd i Gymru

Ar hyn o bryd mae'r cwricwlwm yng Nghymru yn cael ei ddiffinio gan Ran 7 Deddf Addysg 2002. Bydd y cam cyntaf o gyflwyno'r cwricwlwm newydd fesul cam yn cychwyn yn 2022 ar y cynharaf. Bydd yn berthnasol i bob Cyfnod Allweddol – o 3 i 16 mlwydd oed.

### Pedwar diben

Mae'r cwricwlwm yn cynnwys yr holl brofiadau dysgu a'r gweithgareddau asesu a gynlluniwyd at bedwar diben y cwricwlwm, sef datblygu plant a phobl ifanc fel:

- Dysgwyr galluog a hyderus, sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- Cyfranwyr mentrus a chreadigol, sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- Dinasyddion egwyddorol a gwybodus yng Nghymru a'r byd
- Unigolion hyderus ac iach, yn barod i fyw bywydau cyflawn fel aelodau gwerthfawr o'r gymdeithas.

Mae Cwricwlwm Cymru 2022 wedi ei ddylunio i helpu pob dysgwr i gyflawni'r pedwar diben hwn. Mae pob diben yn fwy na phennawd yn unig; mae hefyd yn cael ei ddisgrifio o safbwynt nodweddion allweddol. Gyda'i gilydd dylent fod yn sail i holl ddysgu ac addysgu Cymru.

**Am wybodaeth bellach ewch i llyw.cymru/cwricwlwm-gymru**

## Darpariaeth lles awdurdodau lleol

**Ymwelwch â gwefannau eich awdurdod lleol am fanylion yn ymwneud â darpariaeth leol yn y meysydd canlynol:**

- Gwasanaethau Cwnsela Annibynnol – gan gynnwys mewn ysgolion a chymunedau
- Lles addysg
- Seicoleg addysg
- Cymorth ymddygiad
- Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd – maent yn darparu cymorth, cefnogaeth a chyngor am ddim ar amrywiaeth o faterion teulu, yn cynnwys: gofal plant a chymorth gyda'r gost, gofal iechyd, addysg a hyfforddiant, gwasanaethau hamdden a chyllid
- Gwasanaethau cymdeithasol
- Gwasanaethau ieuenctid – maent yn cynnig cefnogaeth/eiriolaeth/gwasanaethau ataliol/ymyrraeth gynnar i bobl ifanc 11-25 oed.

## Cefnogaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS)

Mae CAMHS yn darparu amrywiaeth o ymyraethau a thriniaethau, sydd yn cynnwys ymgynghoriad, asesiad seicolegol, asesiad datblygiadol, therapi teulu, therapi unigol, therapi ymddygiad, meddyginiaeth a gwaith grŵp. Mae'n cefnogi plant hyd at 17 oed.

Fel rhan o ymrwymiadau Cyfamod y Lluoedd Arfog, dylai unrhyw amser sydd wedi cronni ar restrau aros y GIG mewn un lleoliad gael eu hystyried wrth symud i ardal newydd. Y cyngor yw cael copïau o unrhyw dystiolaeth a thriniaeth feddygol ategol i'w rhoi i'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol/ymarferydd newydd.

**I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: www.nhs.uk/using-the-nhs/nhs-services/mental-health-services/ child-and-adolescent-mental-health-services-camhs/**

## Y Gymraeg

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fodloni anghenion addysgol holl blant a phobl ifanc Cymru fel y gallant gyflawni eu llawn botensial. Mae astudio Cymraeg neu Gymraeg Ail Iaith yn elfen statudol o Gwricwlwm Cenedlaethol Cymru, ar gyfer pob dysgwr hyd at 16 oed.

**Mae ymchwil yn dangos bod siarad mwy nag un iaith yn gallu rhoi hwb i blentyn mewn sawl ffordd. Gall bod yn ddwyieithog:**

- Ei gwneud yn haws i ddysgu ieithoedd eraill, a chyflwyno plant i wahanol ddiwylliannau a thraddodiadau
- Cael effaith bositif ar yr ymennydd
- Manteisiol iawn wrth chwilio am waith, integreiddio i'r gymuned leol a chefnogi'r economi lleol.

### Datgymhwyso Plant Milwyr o ran arholiadau Cymraeg

Er bod astudio Cymraeg yn orfodol, does dim gofyniad i ysgolion gofrestru dysgwyr ar gyfer cymhwyster penodol. Yr ysgolion unigol sydd i benderfynu ar hynny, gan ystyried lles y dysgwr. Rhaid i ysgolion, os yw arholiad yn cael ei sefyll ai peidio, sicrhau bod dysgwyr yn cael mynediad at y rhaglen gwricwlwm llawn o astudiaeth ar gyfer pa gwrs bynnag sy'n cael ei ddilyn. Mae hwn yn ofyniad gorfodol.

Dim ond o dan amgylchiadau prin iawn y gall fod angen datgymhwyso dysgwyr dros dro o unrhyw ran o'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Dim ond y pennaeth all wneud y penderfyniad i ddatgymhwyso disgybl o ran o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, gan adolygu'r angen i ddatgymhwyso ar sail unigol a gan ystyried yr holl ffactorau perthnasol.

Ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio ar lefel sylweddol is na'r lefelau disgwyliedig ar unrhyw Gyfnod Allweddol, dylai ysgolion ddefnyddio anghenion y dysgwr fel man cychwyn ac addasu'r rhaglen yn unol â hynny. Mae digon o hyblygrwydd o fewn y cwricwlwm i fodloni gofynion dysgwr heb orfod datgymhwyso. Mewn achosion eithriadol, gellir datgymhwyso dysgwr unigol, fel arfer ar sail dros dro, ond ni ddylid datgymhwyso ar lefel grŵp.

# Addysg

## Mudiadau Cymorth

### Llwyddiant i Bawb

Mae Achievement for All yn sefydliad di-elw blaenllaw sy'n gweithio mewn partneriaeth â lleoliadau'r blynyddoedd cynnar, ysgolion a cholegau i wella canlyniadau'r holl blant a phobl ifanc. Mae Achievement for All yn cynnig Rhaglenni Hyfforddi pwrpasol, wyneb yn wyneb fel rhai ar gyfer Gwella Ysgolion, Lles a Chryfderau Craidd yn ogystal â Hyfforddiant Emosiynau. Mae AfA hefyd yn cefnogi arweinwyr addysgol i archwilio agweddau cymdeithasol ac emosiynol arweinyddiaeth mewn amgylchiadau eithafol a rhoi Lles yn graidd i'r sefydliad drwy raglen unigryw o Arweinyddiaeth Ddofn.

### Dyn anweledig

Cwmni theatr a chelfyddydau'r cyfryngau yw hwn sydd wedi ymrwymo i gynhyrchu gwaith sy'n gwneud gwahaniaeth. Mae cwmni An Invisible Man yn cyflwyno dwy ddrama sy'n troi o gwmpas teuluoedd yn y Lluoedd Arfog ond sy'n cynnwys themâu sy'n berthnasol i bawb ac sydd yr un mor effeithiol mewn ysgolion lle nad oes ond nifer bach o blant y Lluoedd Arfog.

**www.aninvisibleman.co.uk**

### Ffederasiwn Teuluoedd y Fyddin (AFF)

Yr elusen hon yw llais annibynnol teuluoedd y Fyddin ac mae'n gweithio'n galed i wella ansawdd bywyd teuluoedd y Fyddin drwy'r byd. Mae'n darparu cyngor ar nifer o feysydd sy'n effeithio ar deuluoedd y Lluoedd Arfog ac yn dod â materion i sylw'r awdurdodau perthnasol.

**www.aff.org.uk**

### Gwasanaeth Lles y Fyddin (AWS)

Pwrpas Cymorth Cymunedol AWS yw helpu i hybu cydnerthedd yng nghymuned y fyddin drwy ddarparu amrywiaeth o brofiadau addysgol anffurfiol, hygyrch, diogel a hwyliog i blant, pobl ifanc, teuluoedd a phersonél y Lluoedd Arfog. Mae'n bwysig bod y gymuned yn gwneud pethau gyda'i gilydd ac yn helpu ei gilydd. Bydd y ddarpariaeth hon fel arfer yn cynnwys canolfannau cymunedol, canolfannau ieuenctid a phrosiectau cymunedol yn ogystal â gweithgareddau i blant a phobl ifanc yn ystod rhai gwyliau ysgol.

**www.army.mod.uk**

### Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC)

CCAC yw'r grŵp proffesiynol o swyddogion awdurdodau lleol sy'n atebol am swyddogaethau addysg statudol pob un o'r awdurdodau lleol yng Nghymru.

**www.wlga.cymru/adew**

### Offer Cyfathrebu Blob Tree

Mae'r Blobs yn syml. Maen nhw'n delio â materion dwys drwy ddefnyddio'r ieithoedd syml a ddysgwn yn ein plentyndod: teimladau ac iaith y corff. Dyma'r rheswm dros eu defnyddio gyda phlant mor ifanc â phedair oed a phawb arall, yn cynnwys yr henoed.

**www.blobtree.com**

# 2 Addysg

## Cyngor Llyfrau Cymru

Elusen genedlaethol sy'n cefnogi'r diwydiant cyhoeddi ac yn datblygu darllen yng Nghymru yw'r Cyngor Llyfrau. Rydym yn hyrwyddo llythrennedd a darllen er pleser drwy ystod o ymgyrchoedd, gweithgareddau a digwyddiadau ar hyd a lled Cymru, gan weithio'n aml mewn partneriaeth ag ysgolion, llyfrgelloedd a sefydliadau llenyddol eraill. Sefydlwyd y Cyngor yn Aberystwyth yn 1961 ac rydym yn gweithio gyda chyhoeddwyr i feithrin talent a chynnwys newydd yn Gymraeg a Saesneg, yn ogystal â chynnig gwasanaethau arbenigol megis golygu, dylunio, marchnata a dosbarthu. Rydym hefyd yn gweinyddu grantiau i gyhoeddwyr a llyfrwerthwyr annibynnol. Daw ein cyllid yn rhannol gan Lywodraeth Cymru drwy Gymru Greadigol, ac yn rhannol o weithgareddau masnachol a gwasanaeth cyfanwerthu llyfrau ein Canolfan Ddosbarthu.

**www.llyfrau.cymru**

## Prifysgol y Plant

Mae Prifysgol y Plant yn elusen sy'n gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion i feithrin cariad at ddysgu mewn plant. Bydd yn gwneud hyn drwy gymell a dathlu cyfranogi mewn gweithgareddau allgwricwlar y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol. Dangoswyd bod y gweithgareddau hyn yn cael effaith gadarnhaol, a dyma pam mae'r elusen hon wedi ymrwymo i greu cyfleoedd cyfartal ac agor y drws i blant o bob cefndir.

**www.childrensuniversity.co.uk**

## Comisiynydd Plant Cymru

Comisiynydd Plant Cymru yw'r cefnogwr annibynnol i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Sally Holland yw Comisiynydd Plant Cymru ers Ebrill 2015 a'i rôl yw diogelu a hyrwyddo lles a hawliau plant, fel y maent wedi'u nodi yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae Gwasanaeth Ymchwilio a Chynghori'r Comisiynydd yn helpu plant unigol i sicrhau bod eu hawliau'n cael eu parchu.

**https://www.complantcymru.org.uk/**

## Colegau Cymru

Mae Colegau Cymru yn elusen gofrestredig ar gyfer addysg ôl-16 sy'n codi proffil colegau addysg bellach yng Nghymru. Mae'n sefydliad di-elw sy'n cael ei arwain gan ei aelodau. Fe'i sefydlwyd ym 1995 gan golegau, ar gyfer colegau. Ar hyn o bryd, mae 12 coleg yng Nghymru yn talu am aelodaeth Colegau Cymru.

**www.collegeswales.ac.uk**

## Cyngor Cymreig Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS)

CWVYS yw'r corff cynrychioliadol annibynnol ar gyfer y sector gwaith ieuenctid gwirfoddol yng Nghymru. Y nodau yw cynrychioli, cefnogi a rhoi llais torfol i'w aelodaeth o sefydliadau cenedlaethol a lleol yn eu gwaith gyda thros 250,000 o bobl ifanc yng Nghymru. Mae CWVYS yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau sy'n hyrwyddo ymarfer gwaith ieuenctid da.

**www.cwvys.org.uk**

# Addysg

## Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (CSC)

Mae'r pedwar consortiwm addysg rhanbarthol yng Nghymru yn cydweithio ag ysgolion i godi safonau ac yn darparu gwahanol fathau o gymorth, yn cynnwys rhaglenni datblygiad proffesiynol ac ymyriadau.

**www.cscjes.org.uk**

## Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS)

Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn wasanaeth addysg integredig sy'n cefnogi ac yn herio ysgolion yn Ne Ddwyrain Cymru i anelu at ragoriaeth.

**https://sewaleseas.org.uk/cymraeg/**

## Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol (ELSA)

Pwrpas prosiect ELSA yw meithrin gallu mewn ysgolion i helpu i ddiwallu anghenion emosiynol eu disgyblion drwy ddefnyddio eu hadnoddau eu hunain. Mae'n cydnabod bod plant yn dysgu'n well ac yn fwy bodlon yn yr ysgol os yw eu hanghenion emosiynol yn cael eu diwallu hefyd. Mae ELSA yn fenter sydd wedi'i datblygu a'i chynnal gan seicolegwyr addysgol sy'n cymhwyso gwybodaeth am ddatblygiad cymdeithasol ac emosiynol plant at feysydd angen penodol ac at waith achos penodol.

**www.elsanetwork.org**

## Estyn

Mae Estyn yn cael ei arwain gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Mae'n arolygu ansawdd a safonau. Mae'n un o gyrff y Goron a sefydlwyd o dan Ddeddf Addysg 1992. Mae Estyn yn annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru ond mae'n cael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru o dan Adran 104 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

**www.estyn.llyw.cymru**

## Ymddiriedolaeth Plant y Lluoedd Arfog

Mae'r elusen hon yn cydweithio i helpu plant mewn angen sydd â'u rhieni wedi marw neu wedi cael anafiadau sydd wedi newid eu bywydau tra oeddent yn gwasanaethu yn Lluoedd Arfog Prydain neu mewn lluoedd sifilaidd. Oherwydd ei nodau a'i maint, mae'r ymddiriedolaeth yn gallu ymateb yn hyblyg er mwyn gwneud penderfyniadau a chynnig cymorth yn ôl yr angen, gyda'r lleiaf o ffwdan a'r lleiaf o oedi o ganlyniad i hynny.

**www.forceschildrenstrust.org.uk**

# 2 Addysg

## HIVE (Chepstow)

Rhwydwaith gwybodaeth sydd ar gael i holl aelodau cymuned y Lluoedd Arfog. Mae'n gwasanaethu personél priod a sengl, ynghyd â'u teuluoedd, rhai dibynnol a sifiliaid sy'n cael eu cyflogi gan y Lluoedd Arfog.

**www.army.mod.uk/hives**

## HIVE (St Athan)

Rhwydwaith gwybodaeth sydd ar gael i holl aelodau cymuned y Lluoedd Arfog. Mae'n gwasanaethu personél priod a sengl, ynghyd â'u teuluoedd, rhai dibynnol a sifiliaid sy'n cael eu cyflogi gan y Lluoedd Arfog.

**www.army.mod.uk/hives**

## Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC)

Mae CCAUC yn rheoleiddio lefelau ffioedd israddedigion amser llawn ac ymgeiswyr am TAR (SAC) mewn sefydliadau addysg uwch; yn sicrhau bod fframwaith ar gyfer asesu ansawdd addysg uwch; ac yn craffu ar berfformiad sefydliadau a reoleiddir a darparwyr dynodedig. Mae CCAUC yn defnyddio adnoddau gan Lywodraeth Cymru ac eraill i sicrhau bod dysgu ac ymchwil mewn addysg uwch yn cyrraedd yr ansawdd gorau, ac i elwa i'r graddau mwyaf o gyfraniad addysg uwch i ddiwylliant, cymdeithas a'r economi yng Nghymru.

**www.hefcw.ac.uk**

## Huggable Heroes

'Cryfhau'r Cwlwm a Darparu Cysur yn ystod Cyfnodau o Fod ar Wahân'

Mae Huggable Heroes® ar gyfer pawb! Mae gan bawb rywun arbennig yn eu bywydau y maen nhw'n gweld ei golli. Boed hynny oherwydd y bywyd milwrol, profedigaeth, diwedd perthynas, colli amser gwely o ganlyniad i sifftiau hir/ymrwymiadau gwaith neu blant sy'n ei chael yn anodd setlo mewn meithrinfa/ysgol, bydd Huggable Heroes® yn helpu. Maen nhw'n defnyddio llun o'r un y mae'r plentyn yn ei golli, yn ei olygu ac wedyn yn ei argraffu ar ffabrig, yn barod i'w wneud yn Huggable Hero o'r maint perffaith. Bydd yr arwyr yn ffitio'n berffaith o dan gesail plant bach i'w cario o gwmpas ac maen nhw'n ddigon bach i blant hŷn eu rhoi yn eu bagiau ysgol.

**www.huggableheroes.uk**

## Jon Egging Trust

Mae Ymddiriedolaeth Jon Egging yn gweithio gyda grwpiau o bobl ifanc a gaiff eu hatgyfeirio drwy ysgolion yng ngogledd Cymru. Mae'n darparu rhaglenni dysgu achrededig i ddatblygu sgiliau bywyd a gwaith pobl ifanc drwy eu cyflwyno i batrymau ymddygiad i'w hysbrydoli, a chynnig cyfleoedd cyffrous yn gysylltiedig ag awyrennau, peirianneg a gwyddoniaeth.

**www.joneggingtrust.org.uk**

# Addysg

## Herapi Lego®

Mae therapi seiliedig ar LEGO® yn ymyriad sgiliau cymdeithasol cydweithredol wedi'i seilio ar chwarae ar gyfer plant sydd ag awtistiaeth ac anhwylderau tebyg. Mae'n ceisio meithrin cymhwysedd cymdeithasol drwy ddatblygu sgiliau cymdeithasol. Mae chwarae cydweithredol yn cynnig cyfleoedd i blant ymarfer sgiliau fel cymryd eu tro, gwrando, rhannu syniadau, cyfathrebu, cyfaddawdu, datrys problemau a rhannu sylw. Mae'r grwpiau'n cael eu rhedeg gan hwylusydd hyfforddedig ac mae plant yn cael eu hannog i gydadeiladu o fewn rolau penodedig. Bydd pob plentyn yn chwarae rhan "peiriannydd", "cyflenwr" neu "adeiladwr" a gyda'i gilydd byddant yn dilyn cyfarwyddiadau darluniadol er mwyn adeiladu model.

**www.g2gcommunities.org/lego-education/therapy**

## Little Troopers

Mae Little Troopers yn elusen blant tri gwasanaeth sy'n cefnogi pob plentyn sydd ag un rhiant neu'r ddau yn gwasanaethu yn Lluoedd Arfog Prydain. Un o'u prosiectau yw Little Troopers yn yr Ysgol, prosiect gydag adnoddau Cynradd ac Uwchradd i helpu ysgolion i gefnogi'r heriau unigryw a gaiff eu hwynebu'n aml gan ddisgyblion y lluoedd arfog.

**www.littletroopers.net**

## MKC Heroes

Mae MKC Heroes yn grŵp unigryw sy'n rhoi llais i blant a phobl ifanc yn nheuluoedd aelodau a chyn-aelodau'r lluoedd arfog. Mae'n derbyn cymorth gan y Lleng Brydeinig Frenhinol ac yn cael ei hwyluso ganddi. Mae'n rhwydwaith i'r tri llu arfog sy'n cysylltu ysgolion ledled y DU ac mewn gwledydd eraill lle mae lluoedd arfog y DU yn gwasanaethu.

**www.britishlegion.org.uk/get-support/local-community-connections/mkc-heroes**

## Cyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc (DCYP)

Mae'r DCYP yn darparu cymorth a chyngor er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael pob cyfle i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl a gwireddu eu potensial.

**www.gov.uk/government/groups/directorate-children-and-young-people**

## Meic Cymru

Gwasanaeth llinell gymorth yw Meic ar gyfer plant a phobl ifanc hyd at 25 oed. O gael gwybod beth sy'n mynd ymlaen yn eu hardal leol i helpu delio â sefyllfa anodd, bydd Meic yn gwrando hyd yn oed pan na fydd neb arall yn gwneud hynny. Ni fydd yn beirniadu a bydd yn helpu drwy roi gwybodaeth i chi, cyngor defnyddiol a'r cymorth sydd ei angen ar blant a phobl ifanc i roi newid ar waith.

**www.meiccymru.org**

## Ysgolion Iach yn feddyliol

Mae Ysgolion sy'n Feddyliol Iach yn dod â gwybodaeth, cyngor ac adnoddau o ansawdd ynghyd i helpu ysgolion cynradd, uwchradd a lleoliadau Addysg Bellach i ddeall a hyrwyddo iechyd meddwl a lles plant.

**www.mentallyhealthyschools.org.uk**

## Motivational Preparation College for Training (MPCT)

Ers ei ffurfio ym 1999, mae'r MPCT wedi ymroi i gynnig cyfleoedd i bobl ifanc drwy hyfforddiant ac addysg. Mae'n gorff darparu hyfforddiant llewyrchus a nodedig sydd wedi ennill sgôr Rhagorol gan Ofsted ym mhob maes ac, yn ddiweddar, cafodd ei enwi'n Ddarparwr Hyfforddiant y Flwyddyn y TES am y flwyddyn 2017.

**www.mpct.co.uk**

## Dysgu NSPCC

Arbenigedd ar ddiogelu plant gan brif elusen plant y DU i'ch helpu i amddiffyn y plant a phobl ifanc rydych yn gweithio gyda nhw neu'n gwirfoddoli i'w helpu.

**www.nspcc.org.uk/learning**

## Elusen Plant y Llynges

Mae Cronfa Blant y Llynges Frenhinol a'r Môr-filwyr Brenhinol yn elusen sy'n cynorthwyo plant hyd at 25 oed yn nheuluoedd y Llynges, yn cynnwys teuluoedd aelodau a chyn-aelodau'r Llynges, pan fyddant yn profi angen, caledi neu ofid. Rhoddir grantiau unigol ar sail ceisiadau sy'n disgrifio anghenion penodol. Mae cyngor ac adnoddau eraill ar gael am ddim i deuluoedd.

**www.rnrmchildrensfund.org.uk**

## Ffederasiwn Teuluoedd y Llynges (NFF)

The NFF works to ensure that all serving members of the Royal Navy and Royal Marines, and their family members, can have their views represented to those in positions of power to effect positive change.

**www.nff.org.uk**

## Cymorth i Deuluoedd a Phobl y Llynges (NS FPS)

Mae Cymorth i Deuluoedd a Phobl y Llynges yn darparu ystod o wasanaethau i gefnogi Staff y Lluoedd a'u Teuluoedd lle bynnag rydych yn byw neu lle rydych wedi eich lleoli yn y DU a Thramor.

**www.royalnavy.mod.uk**

## Never Such Innocence

Yn wreiddiol, roedd yr elusen hon yn brosiect ar gyfer plant a phobl ifanc i goffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd dysgu am y rhyfel hwn wedi cymell mwy nag 11,000 o bobl ifanc i greu barddoniaeth, gweithiau celfyddyd, a chaneuon. Er 2019 mae wedi ehangu ei sylw i gynnwys gwrthdaro o bob math ac ym mhob cyfnod o hanes, yn cynnwys y cyfnod presennol. Nod yr elusen yw darparu llwyfan creadigol diogel i bobl ifanc lle gallant siarad am faterion sy'n gysylltiedig â gwrthdaro sydd weithiau'n anodd eu trafod.

**www.neversuchinnocence.com**

# Addysg



## Anogaeth UK

Mae'r cysyniad o anogaeth yn tynnu sylw at bwysigrwydd amgylcheddau cymdeithasol – pwy rydych yn byw gyda nhw ac nid pwy y cawsoch eich geni iddynt – a'i ddylanwad mawr ar sgiliau emosiynol cymdeithasol, lles ac ymddygiad. Dangoswyd bod plant a phobl ifanc sydd wedi cael dechrau da mewn bywyd yn mwynhau manteision sylweddol o'u cymharu â'r rheini a brofodd ymlyniadau cynnar coll neu ystumiedig. Maent yn tueddu i wneud yn well yn yr ysgol, i fynychu'r ysgol yn rheolaidd, ac i ffurfio perthnasoedd mwy ystyrlon â ffrindiau ac maent yn llai tebygol o lawer o droseddu neu brofi problemau iechyd corfforol neu feddyliol.

**www.nurtureuk.org**

## Place2Be

Mae'r sefydliad hwn yn darparu gwasanaethau emosiynol a therapiwtig mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, gan feithrin cydnerthedd plant drwy siarad, gwaith creadigol a chwarae. Drwy weithio gyda mwy na 600 o ysgolion, gan gynorthwyo poblogaeth o fwy na 350,000 o blant a phobl ifanc mewn ysgolion, mae'n eu helpu i ymdopi â nifer o wahanol broblemau cymdeithasol sydd yn aml yn gymhleth, yn cynnwys bwlio, profedigaeth, trais domestig, chwalfa deuluol, esgeulustod a thrawma.

**www.place2be.org.uk**

## Reading Force

Drwy ddefnyddio llyfrau i ddod â phlant a theuluoedd y Lluoedd Arfog yn agosach at ei gilydd, mae menter darllen ar y cyd y sefydliad hwn yn annog teuluoedd i ddarllen, siarad a chreu llyfr lloffion am lyfr, gan wella eu cyfathrebu a chyfoethogi eu perthnasoedd â llyfrau a'i gilydd.

**www.readingforce.org.uk**

## Ffederasiwn Teuluoedd yr Awyrlu Brenhinol

Mae Ffederasiwn Teuluoedd yr Awyrlu Brenhinol yn gweithio i wella ansawdd bywyd ar gyfer teuluoedd yr RAF o amgylch y byd – yn y gwaith neu gartref. Gall hyn gynnwys datrys problemau gyda mynediad i addysg neu ofal iechyd ar gyfer plant a phobl ifanc, datrys problemau gyda llety, budd-daliadau a fisas a helpu gŵr a gwragedd priod milwrol i ddod o hyd i gyflogaeth ystyrlon. Fe all y tîm ddarparu cefnogaeth a chyngor ymarferol, yn ogystal â lobïo am newid gyda gwleidyddion, y Gadwyn Awdurdod a gwneuthurwyr polisi yn Llywodraeth Prydain a ledled Yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Mae'r Ffederasiwn yn gweithio gyda llu o sefydliadau ac asiantaethau eraill – o'r GIG i'r banciau mawr - i sicrhau fod staff yr RAF a'u teuluoedd yn cael eu trin yn deg ac nad ydynt yn wynebu anfantais o ganlyniad i natur unigryw bywyd y lluoedd arfog.

**www.raf-ff.org.uk**

## SNAP Cymru

Mae SNAP yn darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i rieni, plant a phobl ifanc sydd neu a all fod ag anghenion addysgol arbennig neu anableddau.

**www.snapcymru.org**

# 2 Addysg

## Scotty's Little Soldiers

Mae Scotty's Little Soldiers yn elusen sy'n cynorthwyo plant a phobl ifanc sydd wedi colli rhiant a oedd yn gwasanaethu yn Lluoedd Arfog Prydain. Cododd yr ysbrydoliaeth i sefydlu'r elusen o brofiad un o weddwon y Fyddin Nikki Scott yn dilyn marwolaeth ei gŵr y Corporal Lee Scott yn Affganistan yn 2009. Mae'r elusen yn darparu cymorth ar hyn o bryd i gannoedd o blant y Lluoedd Arfog sydd wedi cael profedigaeth, ym mhob rhan o'r DU. Mae'r cymorth a gynigir i blant yn cynnwys gweithgareddau hwyliog fel gwyliau a digwyddiadau grŵp, cymorth ar gyfer datblygiad personol drwy grantiau addysgol a mynediad at gwnsela profedigaeth proffesiynol.

**www.scottyslittlesoldiers.co.uk**

## Plant y Lluoedd Arfog mewn Ysgolion Gwladol (SCISS)

Mae Service Children in State Schools (SCISS) yn rhwydwaith gwirfoddol o ysgolion gwladol cyswllt yn Lloegr sydd â rhyw nifer o blant y Lluoedd Arfog ar eu cofrestr.

**www.sciss.org.uk**

## Service Children's Progression Alliance (SCiP Alliance)

Mae SCiP Alliance yn bartneriaeth o sefydliadau sy'n ceisio gwella canlyniadau i blant yn nheuluoedd y Lluoedd Arfog. Mae'n cael ei ariannu gan y Weinyddiaeth Amddiffyn.

**www.scipalliance.org**

## Sweet Education

Mae adnoddau Llwyddo'n cynorthwyo plant ysgolion uwchradd i gyflawni cymhwyster BTEC Lefel 1 neu 2 mewn Twf Personol a Lles. Mae ein hadnoddau yn cael eu mapio yn erbyn MDPh Iechyd a Lles a Chwricwlwm newydd ACRh yng Nghymru, a'r cwricwlwm ABGI newydd yn Lloegr. Mae ein hadnoddau yn berffaith ar gyfer ysgolion sydd eisiau hyrwyddo iechyd meddwl a lles, ac eisiau addysgu myfyrwyr i fod yn oedolion ifanc hapusach, iachach ac yn fwy llwyddiannus.

**www.sweet.education/**

## Ymddiriedolaeth Addysg y Lluoedd Arfog

Elusen sy'n gweithio i blant ac oedolion ifanc y mae eu haddysg wedi ei pheryglu neu ei rhoi mewn perygl o ganlyniad i wasanaeth blaenorol neu wasanaeth presennol rhieni sydd yn y Lluoedd Arfog. Mae'r grantiau a roddir yn gwneud gwahaniaeth i fywydau ifanc, gan helpu i wella eu cyfleoedd addysgol neu gefnogi sgiliau neu dalentau arbennig.

**http://www.armedforceseducation.org/**

## TGP Cymru – Dulliau Adferol Gwasanaethau Cyn-Filwyr a Theuluoedd

Drwy helpu cyn-filwyr / rhai sy'n gadael y lluoedd arfog a'u teuluoedd i nodi eu cryfderau, sgiliau, adnoddau ac anghenion, bydd TGP Cymru yn galluogi ac yn grymuso cyn-filwyr/ cyn-aelodau o'r lluoedd arfog a phob aelod o'r teulu i gyfathrebu'n ddiogel, deall ei gilydd, meithrin perthynas, datrys gwrthdaro a gwneud cynlluniau i gefnogi newidiadau cynaliadwy cadarnhaol ym mywydau'r rhai yr effeithir arnynt fwyaf.

# Addysg

Parc Ymchwil Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd
(SPARK) Spark
Heol Maendy
Caerdydd CF24 4HQ
Ffôn: 029 2039 6974
E-bost: admin@tgpcymru.org.uk

## Y Gwasanaeth Cynghori ar Addysg i Blant (CEAS)

Yn rhan o DCYP y Weinyddiaeth Amddiffyn, mae'r Gwasanaeth Cynghori yn dîm bach ymroddedig, sydd â phrofiad o gynghori rhieni'r Gwasanaeth ar ystod eang o faterion ynghylch addysg plant y lluoedd arfog yn y DU a thramor.

**Gall CEAS gynnig cymorth, cyngor ac arweiniad ar y canlynol:**

- Derbyniadau i Ysgolion ac apeliadau derbyn
- Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd/Anghenion Ychwanegol
- Cadw Llety Teuluol Lluoedd Arfog ar Sail Addysgol
- Addysg Dramor
- Lwfans Parhad Addysg a'r Ychwanegiad Anghenion Addysgol Arbennig
- Llawer o ymholiadau addysgol eraill neu bryderon a allai fod gan rieni yn y lluoedd arfog.

www.gov.uk/guidance/childrens-education-advisory-service

## Sefydliad y Teulu

Mae Sefydliad y Teulu yn elusen gofrestredig sy'n gweithredu ledled Cymru. Maent yn gweithio'n agos iawn gydag unigolion yn y gymuned, cyn-filwyr a chymuned y Lluoedd Arfog, grwpiau cymunedol, mudiadau gwirfoddol, elusennau, ysgolion, sefydliadau ieuenctid a chwmnïau buddiannau cymunedol.

www.thefamilyfoundation.co.uk

## Y Lleng Brydeinig Frenhinol

Mae'r Lleng Brydeinig wrth wraidd rhwydwaith cenedlaethol sy'n cefnogi ein cymuned Lluoedd Arfog.

Dywed: "Rydyn ni yma trwy ddŵr a thân - yn sicrhau na fydd eu cyfraniad unigryw byth yn angof. Rydyn ni wedi bod yma ers 1921 a byddwn ni yma cyhyd ag y maen nhw ein hangen ni. Ni yw elusen Lluoedd Arfog mwyaf y wlad, gyda 235,000 o aelodau, 110,000 o wirfoddolwyr a rhwydwaith o bartneriaid ac elusennau yn ein helpu i roi cefnogaeth ble bynnag a phryd bynnag y bydd ei angen.

www.britishlegion.org.uk

## The Wave Project

Sefydlwyd The Wave Project – y cwrs 'therapi syrffio' cyntaf yn y byd i'w ariannu gan wasanaeth iechyd gwladol - yn 2010. Mae'n rhedeg prosiectau ysgolion syrffio ac ysgolion traethau i helpu plant a phobl ifanc i ymddiddori'n fwy mewn addysg.

www.waveproject.co.uk

# 2 Addysg

## Thrive®

Mae Thrive® yn hybu iechyd meddwl cadarnhaol ymysg plant a phobl ifanc drwy helpu oedolion i ddeall sut i ymddwyn a sut i ymateb i ymddygiad sy'n amrywiol ac weithiau'n peri gofid. Gan gefnogi dros hanner miliwn o blant a phobl ifanc ledled y DU, mae Thrive yn ddarparwr allweddol o offer a hyfforddiant i gefnogi lles iechyd emosiynol a meddyliol.

**www.thriveapproach.com**

## Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

CCUHP yw'r sail i holl waith UNICEF. Hwn yw'r datganiad mwyaf cyflawn erioed am hawliau plant a'r cytuniad hawliau dynol rhyngwladol sydd wedi'i gadarnhau gan y nifer mwyaf o wledydd yn hanes y byd.

**www.unicef.org.uk**

## Urdd Gobaith Cymru

Mae Urdd Gobaith Cymru yn sefydliad ieuenctid gwirfoddol cenedlaethol sydd â mwy na 55,000 o aelodau rhwng 8 a 25 oed. Mae 30% o'r siaradwyr Cymraeg yng Nghymru rhwng 8 a 25 oed yn aelodau o'r Urdd. Mae'n darparu cyfleoedd drwy gyfrwng y Gymraeg i blant a phobl ifanc yng Nghymru i'w galluogi i gyfrannu i'w cymunedau mewn ffordd gadarnhaol. Mae gan yr Urdd 305 o aelodau staff, 10,000 o wirfoddolwyr, 900 o ganghennau, a 200 o ganghennau yn y gymuned.

**www.urdd.cymru**

## WICID.tv (for Rhondda Cynon Taf)

WICID.tv yw'r wefan gwybodaeth a chyfryngau ieuenctid i bobl ifanc sy'n cael ei rhedeg gan bobl ifanc. Lansiwyd y wefan yn 2011 ac mae wedi gweithio ers hynny i roi mynediad i bobl ifanc 9-25 oed at gyfleoedd creadigol ac i ddarparu llwybr at yr yrfa o'u dewis. Mae WICID.tv hefyd yn cynnwys llawer o wybodaeth i bobl ifanc a gall helpu i'w cyfeirio at sefydliadau sy'n gallu cynnig cyngor, cymorth a chyfarwyddyd arbenigol.

**www.wicid.tv**

## Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru yw Llywodraeth ddatganoledig Cymru. Mae'n gweithio gyda phartneriaid allweddol gan gynnwys llywodraeth leol, elusennau, y Weinyddiaeth Amddiffyn a rhanddeiliaid eraill i gefnogi cymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru.

**www.llyw.cymru**

## Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)

Mae CLlLC yn hybu buddiannau llywodraeth leol ac yn hyrwyddo democratiaeth leol yng Nghymru.

**www.wlga.cymru**

# Addysg

## YoungMinds

Mae'r sefydliad hwn yn anelu at ddyfodol lle mae pob meddwl ifanc yn cael ei gefnogi a'i rymuso, beth bynnag yw'r heriau. Mae'n sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y cymorth gorau posibl ar gyfer eu hiechyd meddwl ac yn meithrin y cydnerthedd sydd ei angen i oresgyn treialon bywyd.

**www.youngminds.org.uk**

## Cadetiaid

Mae sefydliadau cadetiaid yn darparu gwasanaeth hanfodol i bobl ifanc yn y DU. Er nad yw'n system recriwtio uniongyrchol, mae'r grwpiau cadetiaid yn ffynnu ar y cysylltiadau agos â'u rhiant Wasanaeth, ei ethos a'i werthoedd.

### Cadetiaid y fyddin

Gyda thua 45,000 o gadetiaid (12-18 oed) ac 8,500 o wirfoddolwyr sy'n oedolion mewn 1,700 o leoliadau ym mhob cwr o'r Deyrnas Unedig, mae'r ACF yn un o sefydliadau ieuenctid gwirfoddol mwyaf yn y DU. Mae hefyd yn un o'r hynaf ac fe ddathlodd ei ben-blwydd yn 150 oed yn 2010.

Rydyn ni'n croesawu bechgyn a merched o 12 oed (ac ym mlwyddyn wyth o leiaf yn yr ysgol), o bob gallu a chefndir, a thrwy ystod eang o weithgareddau cyffrous, heriol, addysgol ac anturus, rydyn ni'n eu helpu i ddatblygu'n gorfforol, yn feddyliol ac yn gymdeithasol.

Mae gan rai o'n gweithgareddau thema filwrol, mae gan eraill fwy o ffocws cymunedol. Mae cyfuno gweithgareddau milwrol a chymunedol fel hyn yn ein galluogi i gynnig cyfuniad unigryw o gyfleoedd datblygu personol i'n 45,000 o bobl ifanc, a'r cyfan wedi'u cynllunio i hyrwyddo hwyl a chyfeillgarwch tra hefyd yn eu helpu i baratoi ar gyfer llwyddiant yn eu llwybr dewisol mewn bywyd, beth bynnag y bo.

Mae Llu Cadetiaid y Fyddin wedi ymrwymo i ddarparu gweithgareddau milwrol, anturus, chwaraeon a chymunedol heriol. Ein nod yw ysbrydoli pobl ifanc i lwyddo mewn bywyd, manteisio i'r eithaf ar eu gallu a datblygu'r rhinweddau i fod yn ddinesydd da.

**I gael rhagor o wybodaeth am ymuno â Llu Cadetiaid y Fyddin naill ai fel Cadét neu Wirfoddolwr sy'n Oedolion ewch i www.armycadets.com**

## Cadetiaid yr Awyrlu Brenhinol

### Corfflu Hyfforddi'r Awyrlu

Mae'r ATC wedi'i seilio yn y gymuned ac yn agored i unrhyw un rhwng 13, (neu 12 oed os ydych ym mlwyddyn 8) ac 20 oed sy'n gymwys (darllenwch fanylion llawn yn ein hadran ar ymuno â'r cadetiaid). Wedi'u trefnu'n fwy na 900 o sgwadronau o gwmpas y DU, mae'n debyg ein bod ni'n agosach nag yr ydych chi'n ei feddwl.

Ymhlith y nifer o gyfleoedd hyfforddi anturus sydd ar gael, ni yw gweithredwr mwyaf Cynllun Gwobr Dug Caeredin.

Arwyddair yr ATC yw 'Menter - Antur' ac mae'n cadetiaid ni'n gwybod ei fod yn fwy na geiriau - mae'n agwedd sy'n eich helpu chi i sefyll allan o'r dorf.

### Llu Cadetiaid Cyfun (RAF)

Mae'r Llu Cadetiaid Cyfun (RAF) wedi'i leoli mewn 230 o ysgolion a cholegau ledled y DU, lle gallwch gymryd rhan yn ein hyfforddiant a'n gweithgareddau fel rhan o'ch bywyd ysgol. Byddwch yn datblygu eich hyder, cyfrifoldeb, hunanddibyniaeth, dyfeisgarwch, dycnwch, a synnwyr o wasanaeth i'r gymuned. Mae'r rhinweddau hyn yn hanfodol i'ch llwyddiant yn beth bynnag rydych chi'n ei wneud pan fyddwch chi'n gadael yr ysgol neu'r brifysgol.

Os oes gan eich ysgol uned Llu Cyfun gall gynnwys rhwng un a thair adran – Y Llynges Frenhinol (gan gynnwys y Môr-filwyr Brenhinol), y Fyddin ac wrth gwrs yr Awyrlu Brenhinol. Mae gan eich pennaeth gyfrifoldeb cyffredinol ond fel cadét rydych chi'n rhan go iawn o'r Gwasanaeth - mae'r Llu Cyfun yn bartneriaeth rhwng eich ysgol a'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Mae'r Gwasanaethau i gyd yn darparu adnoddau ac arbenigedd hyfforddi ar gyfer pob uned, ac nid yw'r RAF yn eithriad.

Mae'r cadetiaid yn cyfarfod unwaith yr wythnos drwy gydol y tymor, fel arfer ar ôl ysgol am awr a hanner i ddwy awr. Yn ystod gwyliau'r ysgol bydd cyfle hefyd i chi fynychu gwersyll blynyddol yn un o ganolfannau'r Awyrlu i brofi bywyd bob dydd yn y Gwasanaeth.

**Mae rhagor o wybodaeth am y Llu Cadetiaid Cyfun (RAF) ar gael yn Llu Cadetiaid Cyfunol | Yr Awyrlu Brenhinol**

### Lledu'ch gorwelion

Mae aelodaeth o'r ATC neu'r Llu Cadetiaid Cyfun (RAF) yn gyffrous, gwerth chweil ac yn fwy na dim, yn hwyl. Byddwch yn darganfod sgiliau nad oeddech chi erioed yn gwybod bod gennych chi, yn gwneud pethau ac yn ymweld â llefydd nad oeddech chi erioed wedi meddwl y byddech chi'n gwneud, ac yn cwrdd â llawer o bobl o'r un anian a fydd yn dod yn ffrindiau ac yn aelodau o'ch tîm.

Byddwch hefyd yn cael cyfle i herio'ch hun gyda hyfforddiant anturus, cael eich dewis i gynrychioli eich gwlad neu ysgol ar y rhaglen Cyfnewid Cadetiaid Awyr Rhyngwladol, neu ddatblygu eich potensial ar y Cwrs Arweinyddiaeth Cadetiaid Awyr. Gallwch wir ddisgleirio fel cadét.

**https://www.raf.mod.uk/aircadets/**

## Cadetiaid y Llynges Frenhinol

### Llu Cadetiaid Cyfun y Llynges Frenhinol

Sefydliad cadetiaid a noddir gan y Weinyddiaeth Amddiffyn yw'r Llu Cadetiaid Cyfun. Ei nod yw darparu sefydliad disgybledig o fewn lleoliad ysgol.

Gall disgyblion ddatblygu pwerau arwain drwy gyfrwng hyfforddiant i hyrwyddo rhinweddau cyfrifoldeb, hunanddibyniaeth, dyfeisgarwch, dycnwch a dyfalbarhad.

### Cadetiaid Môr

Y Cadetiaid Môr yw elusen ieuenctid morwrol fwyaf y DU, a sefydlwyd ym 1856 ac sy'n gweithio mewn dros 400 o unedau gyda 14,000 o gadetiaid rhwng 10 a 18 oed.

Mae cadetiaid yn dysgu sgiliau bywyd fel arweinyddiaeth a gwaith tîm drwy weithgareddau antur morwrol, ac yn gallu ennill cymwysterau ychwanegol sy'n rhoi cychwyn i bobl ifanc.

# Addysg

## Cyngor Catrodol Cadetiaid y Môr-filwyr Brenhinol

Rôl Cyngor Catrodol Cadetiaid y Môr-filwyr Brenhinol yw darparu arweinyddiaeth, cyngor a chydlyniaeth i Gadetiaid y Môr-filwyr Brenhinol a hyrwyddo buddiannau a lles Cadetiaid a hyfforddwyr y Môr-filwyr Brenhinol. Mae hyn yn cynnwys y Corfflu Cadetiaid Gwirfoddol RN-RM a'r Llu Cadetiaid Cyfun RN-RM.

## Corfflu Cadetiaid Gwirfoddol

Wedi'i ffurfio dros 100 mlynedd yn ôl ar gyfer plant morwyr a Môr-filwyr, dywedir bod y Corfflu Cadetiaid Gwirfoddol wedi dechrau gydag un bachgen oedd wedi diflasu, heb fawr o sgiliau pêl-droed, ac fe'i sefydlwyd i roi ffordd amgen a mwy adeiladol o dreulio amser iddo a'i ffrindiau.

## Sgowtiaid Môr Cydnabyddedig y Llynges Frenhinol

Mae tua 350 o grwpiau ac unedau Sgowtiaid Môr yn y DU ac mae 103 yn cael eu cydnabod yn swyddogol gan y Llynges Frenhinol.

Mae Sgowtiaid Môr y Llynges Frenhinol yn gwisgo bathodyn Adnabod y Llynges ar eu gwisgoedd, yn hedfan baner arbennig Adnabod y Llynges ac yn gwisgo'r faner goch wedi'i haddasu yn eu pencadlys ac weithiau ar eu cychod.

**https://www.royalnavy.mod.uk/our-organisation/cadets-and-youth**

# Addysg i oedolion

## Gwasanaethau Gweinyddu Credydau Dysgu Uwch (ELCAS)

Mae Cynllun Credydau Dysgu Uwch y Weinyddiaeth Amddiffyn (ELC) yn hyrwyddo dysgu gydol oes ymhlith aelodau o'r Lluoedd Arfog. Mae'r cynllun yn darparu cymorth ariannol ym mhob blwyddyn, o uchafswm o dair blynedd ariannol ar wahân, ar gyfer dysgu lefel uwch o gymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol ar Lefel tri neu uwch neu, os caiff ei ddilyn dramor, cymhwyster cyfatebol rhyngwladol cymeradwy gyda darparwr dysgu cymeradwy.

### Dechrau Arni: Sut mae'n gweithio?

Mae sawl cam i'r broses. Mae gwybodaeth lawn wedi'i nodi mewn Cyhoeddiad Gwasanaeth ar y Cyd (JSP) 822.

1) Rhaid i chi fod yn Aelod cofrestredig o'r Cynllun ac wedi cronni digon o wasanaeth cyn cyflwyno cais ar-lein.
2) Os ydych chi'n dal i wasanaethu, dylech siarad â'ch Staff Addysg, neu, i'r rhai sy'n gadael y gwasanaeth cysylltwch â'ch SSR. Yna gellir gwneud gwiriadau priodol i ddechrau eich cyfrif.
3) Unwaith y bydd gennych gyfrif, chwiliwch am ddarparwr a chwrs cymeradwy, yna mewngofnodwch a chyflwynwch eich cais.
4) Yn olaf, rhaid i chi gwblhau eich Gwerthusiad Cwrs pan ofynnir, ni ellir prosesu ceisiadau pellach nes y bydd eich gwerthusiad cwrs blaenorol wedi'i gwblhau.

**Cysylltwch â ni:**

0330 0564202
09:00 – 16:00 dydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio gwyliau banc – gellir codi tâl)

**elcas@m-assessment.com**

# 2 Addysg

## Addysg Oedolion Cymru

Mae Addysg Oedolion Cymru, darparwr Dysgu Oedolion yn y Gymuned mwyaf yng Nghymru, yn fudiad addysg i oedolion gwirfoddol ac annibynnol, sydd wedi ymrwymo i ehangu cyfranogiad, gan hyrwyddo dinasyddiaeth weithredol a datblygu sgiliau, a darparu dysgu o ansawdd uchel drwy ddull cydweithredol ar draws Cymru gyfan. Rydyn ni'n darparu mynediad i addysg o Lefel Mynediad i gymwysterau Lefel Pedwar.

Addysg Oedolion Cymru, 7 Coopers Yard,
Ffordd Curran, Caerdydd CF10 5NB

**https://www.adultlearning.wales/cym**

# Colegau Lleol a Phrifysgolion

## Coleg Caerdydd a'r Fro

Coleg Caerdydd a'r Fro yw un o golegau mwyaf y DU, sy'n darparu addysg a hyfforddiant o safon uchel ym Mhrifddinas-Ranbarth Cymru.

Mae gennym fwy na 30,000 o ddysgwyr bob blwyddyn ar draws cyrsiau coleg llawn amser a rhan amser, cymwysterau prifysgol a rhaglenni prentisiaeth, ynghyd â darpariaeth hyfforddiant bwrpasol i gyflogwyr.

Rydyn ni'n datblygu pobl fedrus a chyflogadwy - gyda rhai o gyfraddau llwyddiant gorau i fyfyrwyr yn y sector a ffocws ar brofiadau sy'n sicrhau bod ein dysgwyr yn sefyll allan ac yn symud ymlaen.

### Coleg Caerdydd a'r Fro

Campws Canol y Ddinas, Heol Dumballs, Caerdydd, CF10 5FE

+44 (0)2920 250 250 (ymholiadau cyffredinol a myfyrwyr)

+44 (0) 2920 250 350 (ymholiadau busnes)

**https://cavc.ac.uk/cy**

## Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Rydyn ni'n olrhain ein hanes yn ôl i 1865, pan agorwyd yr Ysgol Gelf am y tro cyntaf yn yr Hen Lyfrgell Rydd yng Nghaerdydd. Ers i ni ddatblygu'n brifysgol, rydym wedi'n gwreiddio yng Nghymru tra'n darparu addysg sy'n canolbwyntio ar ymarfer, ac â gogwydd proffesiynol i fyfyrwyr o bob cwr o'r byd. Mae ein gweledigaeth yn ymgorffori'r ymrwymiad hwn i addysg, ymchwil ac arloesedd mewn partneriaeth â'n myfyrwyr, llywodraethau, busnes a diwydiant a chyda buddion clir i unigolion, cymdeithas a'r economi. Rydyn ni'n ymrwymedig i sicrhau bod pob myfyriwr yn cyflawni ei botensial i wneud cyfraniadau eithriadol ar lefel graddedigion i'w dyfodol eu hunain ac i genedlaethau'r dyfodol.

Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn ddarparwr dysgu cofrestredig i gynllun ELCAS y Weinyddiaeth Amddiffyn ar gyfer personél y lluoedd arfog sy'n dymuno astudio cwrs prifysgol.

Yn gyntaf, rhaid i chi sicrhau eich bod yn bodloni meini prawf cymhwysedd cynllun ELCAS ac yna cwblhau'r broses ymgeisio o leiaf bum wythnos cyn dechrau'r cwrs. Mae'r holl fanylion sy'n ymwneud â hyn ar wefan ELCAS.

# Addysg

Nodwch y bydd angen ein Cyfeirnod Darparwr Dysgu arnoch chi sef 1294 ar gyfer eich cais.

Gellir cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch cwblhau'r ffurflen Rhwymedigaethau Darparwyr Dysgwyr at Dderbyniadau ar 02920 416010 neu askadmissions@cardiffmet.ac.uk. Gellir cael rhagor o wybodaeth am y cynllun drwy gysylltu â'n Hadran Gyllid ar 029 2041 6083.

## Prifysgol Caerdydd

Rydyn ni'n brifysgol uchelgeisiol ac arloesol gyda gweledigaeth feiddgar a strategol, wedi'n lleoli mewn prifddinas hardd a ffyniannus.

Rydyn ni'n falch o gefnogi cyn-filwyr y lluoedd arfog ac rydym wedi ymrwymo i gefnogi cyn-filwyr sy'n ceisio ail-hyfforddi nôl yn y byd sifil.

Mae'r Brifysgol wedi llofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog, sy'n nodi ein haddewid i gefnogi myfyrwyr a staff sy'n gysylltiedig â chymuned y Lluoedd Arfog.

Fel cyn-filwyr sy'n dychwelyd i fywyd sifil, mae llawer o gyfleoedd ar gael i chi yn y Brifysgol, gan gynnwys cynlluniau wedi'u hariannu. Yn yr Uned DPP rydyn ni'n helpu unigolion a busnesau i gael mynediad at gyfleoedd hyfforddi a datblygu.

Gall y rhain fod yn gyrsiau byr i'ch helpu i ddatblygu sgil penodol (megis arwain, rheoli neu farchnata) neu hyd yn oed fodiwlau lefel Ôl-raddedig (y gellir eu cymryd yn unigol heb fod angen ymrwymo i gwrs llawn amser). Mae llawer o gyrsiau nos rhan-amser ar gael drwy Addysg Broffesiynol Barhaus, gan gynnwys ein cynllun llwybrau poblogaidd, sy'n helpu myfyrwyr i gael mynediad at radd heb fod angen cymwysterau ffurfiol.

### Cysylltwch â ni

train@cardiff.ac.uk

+44 (0)29 2087 5274

## Coleg Gwent

Gall personél sydd wedi gadael y lluoedd arfog ennill hyd at ddwy ran o dair o radd israddedig a hyd at ddwy ran o dair o radd meistr, yn seiliedig ar yr hyfforddiant a'r wybodaeth a ddatblygwyd ganddynt tra'n gwasanaethu. Mae'r cynllun yn asesu eich sgiliau a'ch profiad, a hyd yn oed yn cynnwys y rhai a ddatblygwyd heb hyfforddiant ffurfiol. Does dim angen i chi fod ag unrhyw gymwysterau ffurfiol fel TGAU neu Safon Uwch i ddechrau cwrs o reidrwydd.

### Cysylltwch â ni

01495 333777

(Croesawn alwadau yn Gymraeg)

https://www.coleggwent.ac.uk/cy/learning

# 2 Addysg

## Rhan o Goleg Gwent

Parth Dysgu Blaenau Gwent

Campws Dinas Casnewydd

Campws Crosskeys

Parth Dysgu Torfaen

Campws Brynbuga

## Coleg y Cymoedd

Cafodd Coleg y Cymoedd ei ffurfio yn 2013, yn dilyn uno Coleg Ystrad Mynach a Choleg Morgannwg.

Mae dros 10,000 o ddysgwyr yn astudio yng Ngholeg y Cymoedd bob blwyddyn gyda safleoedd yn Aberdâr, Nantgarw, y Rhondda (Llwynypïa) ac Ystrad Mynach.

Mae'r coleg yn cynnig ystod eang o gyrsiau Llawn Amser a Rhan Amser o Lefel Mynediad i Radd mewn dros 15 o feysydd Cwricwlwm.

Gan weithio mewn partneriaeth â mwy na 800 o gyflogwyr, mae tîm Gwasanaethau Busnes y coleg yn cynnig ystod eang o becynnau Prentisiaeth a Hyfforddiant Masnachol Pwrpasol.

Mae'r coleg wedi buddsoddi'n sylweddol yn ei gyfleusterau dros y blynyddoedd diwethaf, gyda phrosiectau amlwg yn cynnwys adeilad Campws Nantgarw (campws llwyddiannus gwerth £40 miliwn), Campws Aberdâr (campws gwerth £22 miliwn a agorwyd yn 2017), campws diweddaraf y Cyfleusterau Hyfforddiant Rheilffyrdd a Cherbydau Modur.

**https://www.cymoedd.ac.uk/**

## Coleg Merthyr Tudful

P'un a ydych chi'n rhywun sy'n gadael ysgol ac yn meddwl am eich camau nesaf neu'n ddysgwr sy'n ceisio datblygu eich sgiliau neu'ch cymwysterau ymhellach, cymerwch y camau nesaf tuag at eich nodau gyrfa i'r dyfodol a gwnewch gais nawr am gwrs yng Ngholeg Merthyr Tudful.

**https://www.merthyr.ac.uk/cy/y-coleg/**

## Y Brifysgol Agored yng Nghymru

Os ydych chi'n gobeithio datblygu eich hun neu'n bwriadu gadael y Lluoedd Arfog ac angen sgiliau ychwanegol i helpu gyda'ch ailsefydlu, gall y Brifysgol Agored helpu:

- Rydyn ni'n gweithio'n agos gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn i gefnogi addysg a hyfforddiant tra'ch bod gyda'r Gwasanaethau Arfog neu Sifil.
- Mae dysgu hyblyg y Brifysgol Agored yn caniatáu i bersonél y gwasanaeth wneud y gorau o'u defnydd o amser personol
- Rydyn ni'n falch o'n perthynas â'r Lluoedd Arfog, gan gefnogi myfyrwyr lle bynnag y maent yn eu hastudiaethau a ble bynnag y maent yn y byd.

**https://www.open.ac.uk/forces/**

# Addysg

## Defnyddio credydau dysgu uwch yn y Brifysgol Agored

Ar gyfer personél y lluoedd arfog, gall modiwlau'r Brifysgol Agored gael eu hariannu'n gyfan gwbl neu'n rhannol gan Gredydau Dysgu Uwch. Dim ond unwaith y byddwch yn gallu hawlio bob blwyddyn ariannol y Weinyddiaeth Amddiffyn (1af Ebrill-31 Mawrth). (Gan nad yw hyn yr un fath â blwyddyn academaidd y Brifysgol Agored, gall un hawliad gwmpasu dwy flynedd academaidd yn olynol).

## Dewisiadau Credyd Dysgu Uwch:

1. 100% adsefydlu (AB/AU Rhan Amser neu Gredydau AB/AU Rhan Amser ar y cyd)

   Mae'n cwmpasu gwerth hyd at 360 credyd o ffioedd modiwl y Brifysgol Agored sy'n arwain at eich cymhwyster israddedig cydnabyddedig cyntaf. (Gall hyn fod naill ai radd BA neu BSc gyffredin neu anrhydedd neu Radd Sylfaen).

1. 80% Credydau Dysgu Uwch

   Ariannu'r rhan fwyaf o fodiwlau credyd y Brifysgol Agored sy'n cyfrif tuag at gymhwyster cyhyd â'ch bod yn talu o leiaf 20% eich hun.

Cyn cyflwyno cais i ELCAS rhaid i chi ddidynnu unrhyw ostyngiad y Brifysgol Agored rydych yn gymwys ar ei gyfer.

## Cydnabyddiaeth Prifysgol De Cymru o Ddysgu Blaenorol

Mae'r cynllun arloesol (sy'n cael ei ariannu gan Gynllun Grant Cyfamod y Lluoedd Arfog) yn helpu cyn-bersonél y lluoedd sydd wedi gwasanaethu yn ystod y 10-15 mlynedd diwethaf i gael credydau addysg uwch trwy roi gwerth ar yr wybodaeth, y sgiliau a'r profiad a gyflawnwyd ganddynt wrth wasanaethu neu ers gadael y gwasanaeth. Gellir defnyddio'r credyd academaidd hwn i astudio Cwrs Addysg Uwch ym Mhrifysgol De Cymru.

**http://www.southwales.ac.uk/study/armed-forces/**

# Addysg



## Cefnogaeth Leol

Gall Addysg Oedolion drwy'r awdurdodau lleol ddarparu cyfleoedd dysgu o ansawdd da yn eich cymuned leol.

Mae'r timau profiadol yn cynnig gwerth am arian i unigolion, sefydliadau a grwpiau proffesiynol ac yn cwmpasu ystod eang o bynciau.

Mae'r cyrsiau'n amrywio o'r rhai sy'n eich helpu i fagu sgiliau newydd, gan gynnwys Cyfrifiaduron ac Ieithoedd, i ddatblygu hobi; er enghraifft Paentio gyda Dyfrlliw, Ysgrifennu Creadigol neu gwaith siwgr.

Rydyn ni hefyd yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau mwy anarferol sy'n ddelfrydol i rywun sy'n chwilio am rywbeth gwahanol; mae enghreifftiau'n cynnwys Coginio Indiaidd, Seryddiaeth, Roboteg a Chynghorion Harddwch.

### Blaenau Gwent

E-bostiwch ein prif swyddfa am unrhyw ymholiadau neu sylwadau cyffredinol.

**E-bost:** info@aneurinleisure.org.uk

**Ffôn:** 01495 355606

https://www.aneurinleisure.org.uk/learning

### Caerffili

**Rhif ffôn:** 01633 612245

**Cyfeiriad** Tŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach, Hengoed. CF82 7PG

https://www.caerffili.gov.uk/services/schools-and-learning/adult-learning?lang=cy-gb

### Caerdydd

**Rhif ffôn:** 029 20871071

**Cyfeiriad** Canolfan Dysgu Oedolion Severn Road, Llawr Cyntaf, Ysgol Gynradd Severn Road, Severn Road, Caerdydd CF11 9DZ

Canolfan Gelfyddydau Llanofer, Heol Romilly, Treganna, Caerdydd CF5 1FH

https://www.adultlearningcardiff.co.uk/cy/

### Merthyr Tudful

Cyswllt: **enquiries.adulteducation@merthyr.gov.uk**

**Ffôn:** 01685 727384 am ragor o wybodaeth am:

- Glybiau Sgiliau (i loywi eich Sgiliau Llythrennedd a Rhifedd)
- Rhaglenni Teulu: helpu eich plentyn gyda'i ddarllen a/neu fathemateg
- Sgiliau TGCh: Defnyddio Platfformau Ar-lein (Zoom, Teams etc), Gwneud Cais am Gredyd Cynhwysol, Sgiliau Prosesu Geiriau, ECDL

https://www.merthyr.gov.uk/resident/learning-in-merthyr-tydfil/adult-community-learning/adult-community-learning-acl/

# Addysg

## Ysgolion a Dysgu CBS Merthyr Tudful

**Rhif ffôn:** 01685 727400

Gwefan: https://www.merthyr.gov.uk/resident/learning-in-merthyr-tydfil/general-school-information

## Sir Fynwy

**E-bost:** communityed@monmouthshire.gov.uk

**Rhif ffôn:** 01633 644644

**Cyfeiriad** Neuadd y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA

## Casnewydd

**E-bost:** community.learning@newport.gov.uk

https://www.newport.gov.uk/en/Schools-Education/Community-Learning/Community-Learning.aspx

## CBS Rhondda Cynon Taf

**Rhif ffôn:** 01443 570075

**Ebost:** adulteducation@rctcbc.gov.uk

**Cyfeiriad** Canolfan Dysgu Gydol Oes Gartholwg, Ffordd Illtud Sant, Pentre'r Eglwys, Pontypridd, CF38 1RQ

## Torfaen

Gallwch gofrestru drwy ffonio aelod o'r tîm ar 01633 647647.

https://www.torfaen.gov.uk/en/EducationLearning/AdultCommunityEducation/Adult-and-Community-Education.aspx

## Bro Morgannwg

E-bostiwch ein prif swyddfa am unrhyw ymholiadau neu sylwadau cyffredinol.

**E-bost:** adulteducation@rctcbc.gov.uk

**Rhif ffôn:** 01443 570075

## Bro Morgannwg

Ar brosiect partneriaeth ASPIRE, cyflogir prentisiaid gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, wedi'u hyfforddi gan Goleg Merthyr Tudful a chânt eu lleoli gyda chwmni drwy gydol y rhaglen brentisiaeth rhwng dwy a thair blynedd.

Nod y prosiect yw gwella datblygiad sgiliau yn y cwmnïau gweithgynhyrchu a pheirianneg er mwyn helpu i gefnogi a datblygu twf busnes tra'n helpu i fynd i'r afael â diweithdra ar yr un pryd a darparu cyfleoedd ysbrydoledig i bobl ifanc ar draws y fwrdeistref sirol.

Os hoffech fwy o wybodaeth am y prentisiaethau sydd ar gael neu os hoffech wneud cais am brentisiaeth neu raglen hyfforddeiaeth gyda ni, cysylltwch â Karen Rees: karen.rees@tydfil.com

## Llwybrau'r Dyfodol Merthyr Tudful

Mae Llwybrau'r Dyfodol yma i'ch gosod ar y llwybr i ddyfodol disglair.

Os ydych am barhau i astudio, gwneud cais am swydd, dod o hyd i gyflogwyr lleol, dod o hyd i brofiad gwaith, dechrau prentisiaeth neu hyd yn oed sefydlu'ch busnes eich hun- rydym yma i helpu.

Mae ein Digwyddiad Gyrfaoedd blynyddol a'n Ffair Swyddi Gwag yn hyrwyddo cysylltiadau cadarn gyda chyflogwyr, prifysgolion, prentisiaethau a chyfleoedd gwaith i'n dysgwyr.

**E-bost:** v.jones@merthyr.ac.uk

## Menter ac Entrepreneuriaeth

Mae'r adran fenter yn cynnig sesiynau un i un gyda myfyrwyr a'r rhai yn y gymuned a hoffai gymorth a chyngor er mwyn dechrau busnes.

Mae llawer o sesiynau un i un gyda myfyrwyr yn digwydd drwy gydol y flwyddyn academaidd, mae rhai yn parhau ac rydym yn gweithio'n agos gyda nhw; mae eraill ond yn dod i un neu ddwy sesiwn cyn cael eu trosglwyddo i gyswllt penodol yn y diwydiant naill ai y tu mewn neu'r tu allan i'r coleg. Mae'r rhain yn werthfawr iawn i'r myfyrwyr gan eu bod yn caniatáu iddynt ddatblygu eu syniadau mewn gofod diogel ac addysgiadol. Mae rhai myfyrwyr yn dechrau eu sesiynau un i un gyda dim ond syniad ac yn chwilio am fwy o wybodaeth tra bod eraill yn dod gyda syniad pendant a'u cynllun busnes eisoes ar y gweill ac sy'n ystyried beth yw eu camau nesaf. Ond waeth ble maen nhw ar hyd eu taith gallwn eu helpu i gyrraedd y cam nesaf hwnnw ar eu ffordd i fod yn fos arnyn nhw eu hunain.

**E-bost:** enquiries@merthyr.ac.uk

**Rhif ffôn:** 01685 726000

## Bwrdd Hyfforddi Prydain

Mae PROUD yn rhaglen datblygu gyrfa sydd wedi'i hariannu'n llawn. Y bwriad yw cael Cyn-filwyr Di-waith a'u teuluoedd i yrfa newydd yn y Gwasanaeth Sifil yng Nghymru.

Cynlluniwyd y rhaglen hon ar y cyd gan Fwrdd Hyfforddi Prydain a'r Gwasanaeth Sifil yng Nghymru i Gyn-filwyr a'u teuluoedd i weithio ynghyd â gweision sifil o amrywiaeth o adrannau a fydd yn eich tywys a'ch cefnogi i ddeall y rolau a'r cyfleoedd sydd ar gael ar draws y gwasanaeth sifil yng Nghymru. Byddwn yn eich helpu i lywio'ch ffordd fel eich bod yn hyderus i gael mynediad at y cyfleoedd gwaith cyffrous ac amrywiol o fewn y Gwasanaeth Sifil.

Byddwn yn rhoi'r offer a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnoch i'ch arwain drwy eich gyrfa ddewisol, ynghyd â chymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol.

Rhaglen hyblyg 12 Wythnos yw hon sy'n defnyddio sesiynau wyneb-yn-wyneb yn ogystal â sesiynau rhithwir.

Mae gan y Rhaglen 5 cam. Mae'n gwbl gyfannol o ran ei dull ac yn benodol i'r unigolyn sy'n mynd drwy'r rhaglen.

**https://www.thebtb.co.uk/Proud-program**

# Cyflogaeth

## Oeddech chi'n gwybod?

O'r bobl wnaeth adael lluoedd arfog rheolaidd y DU yn 2019/20 ac a ddefnyddiodd wasanaeth CTP, ac a roddodd wybodaeth am eu canlyniadau cyflogaeth chwe mis ar ôl gadael y gwasanaeth, roedd:

**84% yn gyflogedig**

Y galwedigaethau a nodwyd amlaf oedd:

Galwedigaethau Proffesiynol a Thechnegol Cyswllt (22%),

Galwedigaethau Masnach Fedrus (17%)

Galwedigaethau proffesiynol (14%).

Fodd bynnag, mae tystiolaeth o fwlch cyflogaeth ymhlith cyn-filwyr, gyda nifer sylweddol o gyn-filwyr heb gyflogaeth lawn neu ran amser neu'n methu â defnyddio'r sgiliau sydd ganddynt yn eu swyddi.

## Llywodraeth Cymru

### Llwybr at Waith

Mae Llywodraeth Cymru wedi creu Llwybr at Waith sy'n rhoi cymorth gyda chyflogaeth i'r rheiny sydd wedi gadael eu rôl fel milwyr a chyn-filwyr. Cynlluniwyd y Llwybr hwn i ddangos y ffordd a goleuo'r rheiny sydd wedi gadael eu rôl fel milwyr, a chyn-filwyr, am eu hopsiynau wrth ddod o hyd i gyflogaeth sy'n cydnabod eu sgiliau, er mwyn cefnogi eu sicrwydd ariannol.

**https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/llwybr-arfog-heddlu-cyflogaeth.pdf**

### Cymru'n Gweithio

Cymru'n Gweithio yw dull newydd Llywodraeth Cymru o ddarparu cyngor cyflogadwyedd a gyrfaoedd diduedd am ddim, wedi'i deilwra i anghenion ac amgylchiadau'r unigolyn. Mae'r gwasanaeth, wedi'i ddarparu gan Gyrfa Cymru, yn darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaoedd proffesiynol.

Yn seiliedig ar eich amgylchiadau personol a'ch dyheadau unigol, bydd cynghorwyr hyfforddedig yn nodi'r cymorth mwyaf addas i chi. Gyda chytundeb yr unigolyn, bydd cynghorwyr wedyn yn eich cyfeirio chi at y cymorth mwyaf priodol; gallai hyn fod i'r Rhaglen Sgiliau Cyflogadwyedd, Cymunedau am Waith, neu ymyriadau eraill.

Am ragor o wybodaeth gallwch ymweld â gwefan Cymru'n Gweithio: www.cymrungweithio.llyw.cymru sydd hefyd â gwasanaeth canfod cymorth. Neu mae modd ffonio 0800 028 4844 i siarad â chynghorydd.

**Busnes Cymru** yw gwasanaeth cymorth busnes dwyieithog Llywodraeth Cymru. Mae'n darparu cymorth a chyngor diduedd, annibynnol i bobl sy'n dechrau, rhedeg a thyfu busnes yng Nghymru. I gael gwybod sut y gall eich helpu chi, ewch i: www.busnescymru.llyw.cymru

# Cyflogaeth



## Rhaglen Sgiliau Cyflogadwyedd

Nod rhaglen Sgiliau Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru yw cefnogi oedolion di-waith i gael swydd ac aros yn eu gwaith drwy wella sgiliau cyflogadwyedd. Mae'r Rhaglen yn cynnig hyfforddiant penodol i leoliad gwaith neu gyflogwr o ansawdd uchel ynghyd â hyfforddiant paratoi ar gyfer gwaith, a darpariaeth sgiliau hanfodol os oes angen. Mae'r Rhaglen wedi ei hanelu at oedolion di-waith sydd â chyfle rhesymol o fod yn barod i gael eu cyflogi o fewn chwe mis. Cysylltwch â:
https://cymrungweithio.llyw.cymru/neu ffoniwch 0800 028 4844.

## Partneriaeth Pontio Gyrfa

### Darparwr swyddogol gwasanaethau ailsefydlu'r Lluoedd Arfog

Mae Career Transition Partnership (CTP) yn bartneriaeth rhwng y Weinyddiaeth Amddiffyn a Right Management Ltd., sy'n arbenigwyr byd-eang ar ddatblygu gyrfaoedd ac all-leoli ac yn rhan o ManpowerGroup.

Mae'r CTP yn darparu gwasanaethau ailsefydlu ar gyfer y rheiny sy'n gadael y Llynges Frenhinol, y Fyddin, y Llu Awyr Brenhinol a'r Môr-filwyr. Waeth faint o amser a dreuliwyd yn gwasanaethu, gall pob aelod o'r Lluoedd Arfog elwa ar gymorth CTP wedi i'w gwasanaeth ddod i ben.

Rydym hefyd yn gweithredu fel gwasanaeth cyfyngol ar gyfer cyflogwyr sy'n dymuno hurio'r rheiny sydd ddim yn Gwasanaethu mwyach.

Hyd yn hyn, rydym wedi cynorthwyo dros 235,000 o filwyr sydd wedi gadael y Lluoedd Arfog gyda'r cyfnod pontio tuag at fywyd sifiliad ac wedi cefnogi miloedd o fudiadau sydd eisiau cyflogi pobl a fu'n Gwasanaethu. Edrychwn ymlaen at eich helpu chi hefyd.

#### Milwyr wedi gadael y Lluoedd Arfog - sut y gall CTP helpu

Gan ddibynnu beth oedd hyd eich gwasanaeth, rydym yn cynnig gwasanaethau ailsefydlu rhad ac am ddim i bob gradd yn Lluoedd Arfog y Deyrnas Unedig, gan gynnwys y Llynges a'r Môr-filwyr Brenhinol, Byddin Prydain a'r Llu Awyr Brenhinol – ein nod yw eich helpu i ailsefydlu mor llyfn â phosibl.

Rydyn ni yma i ddarparu cymorth hyblyg o ddwy flynedd cyn eich rhyddhau, i ddwy flynedd wedi i chi gael eich rhyddhau. Gallwn roi'r holl offerynnau y mae arnoch eu hangen er mwyn eich marchnata eich hun yn hyderus i gyflogwyr ac i gael y mwyaf allan o fywyd y tu allan i'r lluoedd.

**resettlementinfo@ctp.org.uk**

**www.ctp.org.uk/ctp**

RFEA Caerdydd, Barics Maendy, Caerdydd, CF14 3YE

02920 228842
0785 228 7779
0845 280 1717

# Cyflogaeth

## Gyrfa Cymru

Gall Gyrfa Cymru eich helpu i gynllunio eich gyrfa, paratoi i gael swydd, a dod o hyd i'r prentisiaethau, y cyrsiau a'r hyfforddiant cywir a gwneud cais amdanynt.

Mae ein Cynghorwyr Gyrfaoedd sydd wedi cymhwyso'n broffesiynol yn helpu unigolion i fod yn fwy effeithiol wrth reoli a chynllunio eu datblygiad gyrfa yn llwyddiannus.

Nid yw rheoli gyrfa yn ymwneud â dewis galwedigaethol unwaith ac am byth, ond yn hytrach cyfres o newidiadau gyrfa gydol oes. Mae gwella sgiliau rheoli gyrfa unigolion yn eu galluogi i bontio'n fwy llyfn, mwynhau lefel uwch o foddhad gyrfa a chwarae rhan fwy gweithredol yn yr economi ac yn eu cymunedau.

Mae ein gwasanaethau dwyieithog yn canolbwyntio ar y rhai sydd â'r angen mwyaf am gymorth gyda'r gwaith o gynllunio'u gyrfa.

Rydyn ni'n darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad annibynnol a diduedd mewn canolfannau, lleoliadau partner, ar-lein yn ogystal â dros y ffôn a thrwy gyfryngau cymdeithasol.

## ReAct

Os ydych wedi'ch diswyddo neu'n ddi-waith yn ystod y 12 mis diwethaf, neu os ydych o dan rybudd cyfredol o ddiswyddiad, gallech fod â'r hawl i gyllid ReAct i ailhyfforddi neu ddiweddaru eich sgiliau.

### Pwy sy'n gymwys i gael ReAct?

Mae cymorth o dan gynllun ReAct ar gael i unigolion sy'n byw yng Nghymru ac sydd:

Wedi cael eu diswyddo yn ystod y 12 mis diwethaf neu wedi dod yn ddi-waith am reswm heblaw diswyddo yn y 12 mis diwethaf ac sy'n ddi-waith ar hyn o bryd. Ni ddylai ymgeiswyr fod wedi bod mewn cyflogaeth barhaus am 6 wythnos neu fwy rhwng y dyddiad y daethant yn ddi-waith a dyddiad y cais am grant ReAct; neu

Ar hyn o bryd o dan rybudd ffurfiol o ddiswyddiadau.

Rhaid i ymgeiswyr beidio ag ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant a ariennir gan y cyhoedd ers cael eu diswyddo neu ddod yn ddi-waith, gan gynnwys cyfres rhaglenni dysgu yn y gwaith fel prentisiaeth.

Os ydych wedi gwneud cais am - neu'n bwriadu gwneud cais am - unrhyw gyllid arall i dalu am hyfforddiant galwedigaethol, rhaid i chi ofyn i'ch cynghorydd Cymru'n Gweithio i gysylltu â Thîm ReAct am gyngor pellach cyn cyflwyno eich cais ReAct. Efallai na fyddwn yn gallu ystyried eich cais os ydych yn derbyn arian cyhoeddus arall ar gyfer hyfforddiant galwedigaethol.

**I gael rhagor o gymorth neu gyngor ar yrfaoedd ffoniwch 0800 028 4844**

**post@gyrfacymru.llyw.cymru**

## Yr Adran Gwaith a Phensiynau

Fel rhan o Gyfamod y Lluoedd Arfog, mae gan yr Adran Gwaith a Phensiynau fentrau sy'n helpu personél presennol a chyn-aelodau'r lluoedd arfog a'u teuluoedd i gael mynediad at wasanaethau Canolfan Byd Gwaith.

Mae hyn yn cynnwys cael pencampwr y lluoedd arfog ym mhob ardal Canolfan Byd Gwaith sy'n sicrhau ein bod yn darparu cefnogaeth sy'n diwallu eich anghenion.

Mae'r dudalen hon yn esbonio rôl pencampwr y lluoedd arfog a'r ffordd y gallwch chi a'ch teuluoedd gael mynediad i'n gwasanaethau.

### Pencampwr y lluoedd arfog

#### Mae pencampwr y lluoedd arfog yn darparu cefnogaeth Canolfan Byd Gwaith i:

- gyn-filwyr
- y rhai sy'n gadael y gwasanaeth
- personél sy'n gwasanaethu yn ystod eu cyfnod ailsefydlu
- priod neu bartner sifil personél sy'n gwasanaethu a chyn-bersonél y lluoedd arfog

Mae pencampwyr yn cadw cysylltiad agos â staff y Ganolfan Byd Gwaith, sy'n rhoi gwybod i'r pencampwr am faterion yn ymwneud â'r lluoedd arfog ac yn codi problemau gyda nhw os ydych chi'n dymuno hynny. Nid yw pencampwyr bob amser wedi'u lleoli yn y ganolfan waith.

#### Rôl pencampwr y lluoedd arfog yw:

- datblygu a chynnal trefniadau gweithio ar y cyd rhwng y Ganolfan Byd Gwaith a chymuned y lluoedd arfog yn eu hardal Canolfan Byd Gwaith
- darparu gwybodaeth i staff Canolfan Byd Gwaith am fentrau penodol y lluoedd arfog
- darparu dealltwriaeth o'r materion y mae cymuned y lluoedd arfog yn eu hwynebu a all fod yn rhwystr i gyflogaeth
- bod y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer staff y Ganolfan Byd Gwaith a staff lles a theuluoedd i gynghori ar ymholiadau ynghylch achosion unigol y lluoedd arfog – gan gynnwys personél sy'n gwasanaethu, eich teuluoedd a chyn-filwyr
- canolbwyntio'n benodol ar y cymorth Canolfan Byd Gwaith sydd ar gael i gyn-filwyr, y rhai sy'n gadael y gwasanaeth, y rhai o fewn cyfnod ailsefydlu a phartneriaid personél sy'n gwasanaethu a chyn-filwyr – lle bo angen ac yn briodol, bydd y pencampwyr yn gweithio i sicrhau bod cefnogaeth ar waith

Maen nhw  hefyd yn gweithio i godi proffil cymuned y lluoedd arfog o ran y sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad y gallant eu cynnig, a gweithio gyda chydweithwyr i leddfu rhai o'r rhwystrau i'r gwaith rydych chi'n eu hwynebu.

# Cyflogaeth

Bydd y pencampwr yn teilwra eu gweithgareddau i gyd-fynd ag anghenion cymuned y lluoedd arfog yn eu hardal. Mae hyn yn golygu y gall rhai gweithgareddau fod yn wahanol o ardal i ardal. Mae rôl a chyfrifoldebau'r pencampwr yn aros yr un fath beth bynnag fo'u lleoliad.

Mae pob un o'r gwasanaethau wedi penodi cysylltiadau sy'n dod i gyswllt gyda'r pencampwyr perthnasol yn eu hardal.

### Cysylltiadau

Sarah Mallaghan – Arweinydd Lluoedd Arfog Cymru - 07741673209

Jackie Collins – De-ddwyrain Cymru - 07826876346

Gareth Thomas – De-orllewin Cymru - 07553677929

Kat Graham – Gogledd a Chanolbarth Cymru - 07917732894

**Wales.armedforceschampions@dwp.gov.uk**

## Hire a Hero

Mae Hire a Hero yn cefnogi'r rheiny sydd wedi gadael y Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr, er mwyn symud yn llwyddiannus at fywyd fel sifiliaid. Mae staff, mentoriaid a gwirfoddolwyr Hire a Hero wedi cael eu hyfforddi ac yn barod i weithio gyda'r rheiny sydd wedi gadael y Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr i'w helpu i wneud y dewisiadau iawn trwy gydol y cyfnod pontio.

Cylch gwaith Hire a Hero yw hyfforddiant, tai a chynlluniau gofal ynghyd â chyflogaeth ar gyfer y rheiny sydd wedi gorffen Gwasanaethu, sydd yn gorffen Gwasanaethu neu sydd am orffen Gwasanaethu. Lluniwyd rhwydwaith o gefnogwyr sy'n cynyddu trwy'r amser, er mwy helpu rhedeg yr elusen, ac mae ganddynt ddealltwriaeth o'r sefyllfaoedd hyn.

Hire a Hero
Queens Head Adeiladau
12 Moor Street
Cas-gwent
NP16 5DD

Ffôn – 01495 366670

**E-bost– info@hireahero.org.uk**

**Gwefan – www.hireaherouk.org**

## Recruit for Spouses

Mae Recruit for Spouses yn fenter gymdeithasol annibynnol ac arobryn sy'n ymroddedig i gefnogi, hyrwyddo a chanfod cyflogaeth ar gyfer cronfa dalent o bartneriaid aelodau o'n Lluoedd Arfog.

Rydyn ni'n gweithio i oresgyn canfyddiadau hen ffasiwn am symudedd ac addasrwydd a darparu'r offer i bartneriaid ddychwelyd i'r gweithle ac i ragori yn eu llwybr dewisol.

Rydyn ni'n cynnig dealltwriaeth a chefnogaeth heb ei hail o safbwynt sefyllfa gyflogaeth partneriaid ein milwyr ac yn darparu cymuned gefnogol iddynt ddychwelyd i'r gweithle.

Mae'n cael ei gynnal gan bartneriaid milwyr a bydd yn eich helpu i ddod o hyd i waith, cysylltwch â:

**www.recruitforspouses.co.uk neu Ffôn: 0333 2020 996.**

## RFEA – Elusen Cyflogaeth y Lluoedd Arfog

Rydym yn darparu cymorth gyda chyflogadwyedd a chyflogaeth i gyn-filwyr oed gweithio yn y Deyrnas Unedig. Yn ôl yr amcangyfrifon presennol, mae un miliwn o gyn-filwyr oed gweithio yn byw yn y Deyrnas Unedig. Gwyddwn fod cyfraddau diweithdra ymhlith cyn- filwyr oed gweithio yn uwch na'r cyfraddau ar gyfer sifiliaid.

Cefnogwn gyn-filwyr am oes, o'r rheiny sydd wedi gwasanaethu am gyfnod byr sy'n 18- 24 oed i gyn-filwyr hŷn. Cydnabyddir fwyfwy fod y rheiny sydd dros 50 yn wynebu mwy o heriau wrth ddod o hyd i waith.

Mae ein gwaith yn cynnwys ymyrraeth gynnar, gan gefnogi cyn-filwyr i ddod o hyd i swydd newydd, yn aml pan na fyddant wedi llwyddo i ddod o hyd i swyddi trwy gymorth cyffredinol i sifiliaid. Rydym yn atal cyn-filwyr oed gwaith rhag dod yn ddi- waith yn hirdymor, fel eu bod yn gallu cynnal incwm a darparu bywyd sefydlog iddyn nhw a'u teuluoedd.

Gweithiwn fwyfwy gyda'r rheiny sy'n ddi-waith, sy'n wynebu rhwystrau uwch i ddiweithdra ac sydd â siwrnai faith yn ôl i'r gwaith. Er mwyn gwneud hyn, rydym yn dod i gyswllt ag elusennau tai, lles, gofal iechyd a thai ac yn gweithio gyda chyn-filwyr yn y sector cyfiawnder troseddol.

**Rydyn ni'n darparu ystod o offer a chyngor ymarferol ar gyfer dod o hyd i waith a'r heriau sy'n digwydd wrth drosglwyddo i fywyd sifil, gan gynnwys:**

- Cyngor ar ddewisiadau gyrfa
- Ymchwilio i'r farchnad swyddi
- Paru swyddi
- Hyfforddiant
- Argymhellion ar gyfer cyrsiau a chyfleoedd addysg
- Cymorth i ysgrifennu CV
- Cyngor ar dechnegau cyfweliad
- Gwybodaeth a diweddariadau arbenigol am y diwydiant
- Digwyddiadau a ffeiriau cyflogaeth

### Rhaglenni a Phartneriaethau

**Rydyn ni'n gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau a chyflogwyr eraill sydd, fel ni, yn parchu ac yn gwerthfawrogi rhinweddau a galluoedd unigryw pawb sydd wedi gwasanaethu. Mae ein rhaglenni yn cynnwys:**

- Rhaglen Cyn-filwyr RFEA
- Rhaglen Teuluoedd RFEA
- Rhaglen Menywod Milwrol
- Gorwelion y Dyfodol CTP
- Cymorth CTP

# Cyflogaeth

- Prosiect Nova
- Forces for London
- Rhaglen Cyn-filwyr a Theuluoedd EM3
- TechVets

**Ffoniwch ni ar 0121 262 3058 neu e-bostiwchinfo@rfea.org.uk**

## Mission Motorsport

Mae Mission Motorsport, Elusen Chwaraeon Moduro'r Lluoedd Arfog, yn cynnig cyfleoedd mewn chwaraeon moduro, a dyma ddarparwr swyddogol chwaraeon anabl ac addasol i'r rhai sydd mewn angen o gymunedau'r Gwasanaeth a Chyn-filwyr.

Mae'n cael ei redeg gan gyn-filwyr, personél sy'n gwasanaethu a gweithwyr proffesiynol modurol, a'i nod yw helpu i adfer ac adsefydlu'r rhai y mae gweithrediadau milwrol wedi effeithio arnynt.

### Mae'r cymorth yn cynnwys:

**Hyfforddiant galwedigaethol**

- Trafod canlyniadau asesiadau anghenion a chanllawiau pellach.
- Gwahoddiadau i ymweliadau cipolwg ar ddiwydiant.
- Lleoliadau gwaith wedi'u trefnu ar draws byd moduron, chwaraeon moduro a pheirianneg, a cheisiadau cymorth ariannu grant yn y gadwyn gyflenwi (i gefnogi costau lleoliadau/ ymweliadau lle bo angen).
- Cyngor CV a sgiliau cyfweld.
- Cyfeirio at rwydwaith Mission Automotive.
- Asesiad galwedigaethol cychwynnol wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu drwy e-bost gyda Rheolwr Galwedigaethol Mission Motorsport.

**Hyfforddiant**

- Hyd at Ddiploma Lefel 3 City and Guilds – Cynnal a Chadw a Thrwsio Cerbydau Ysgafn.
- Lefel 2 Lifrai a Lapio Cerbydau.
- LANTRA – Defnyddiwr Proffesiynol Oddi ar y ffordd.

**Manylion cyswllt**

- **Rhif ffôn:** 03330 338338 (Llun-Gwe, 9am-5.30pm)
- **E-bost: vocation@missionmotorsport.org**
- **Gwefan: Mission Motorsport**
- **Cyfeiriad Prif Swyddfa:** Unit 11, W & G Industrial Estate, Faringdon Road, East Challow OX12 9TF

## Gwasanaethau Cyflogaeth gan Gymdeithas y Swyddogion

Mae Adran Gyflogaeth Cymdeithas y Swyddogion yn cefnogi cyn-swyddogion i gael swyddi sifil cynaliadwy. Mae'n darparu cyngor wedi'i deilwra a gwasanaethau wedi'u targedu i'r rhai sy'n ceisio ymuno â'r farchnad swyddi gweithredol gyda mwy o bwyslais ar rwydweithio a brandio personol effeithiol.

**Am ragor o wybodaeth am y digwyddiadau a'r cymorth a gynigir gan Gymdeithas y Swyddogion ar gyfer cyn Swyddogion ewch i:**

**www.officerassociation.org.uk/employment**

## The Poppy Factory

Mae'r Poppy Factory yn cefnogi cyn-filwyr sydd â chyflyrau iechyd ar eu taith i gyflogaeth, gan eu helpu i oresgyn unrhyw rwystrau.

Mae pedwar o bob pump o'r cyn-filwyr rydyn ni'n gweithio gyda nhw yn nodi bod ganddynt gyflwr iechyd meddwl. Beth bynnag yw eu sefyllfa, a beth bynnag maen nhw'n mynd drwyddo, mae ein tîm cyflogaeth wrth law i gynnig cymorth un-i-un.

Mae ein cymorth cyflogaeth ar gael i unigolion sydd wedi gwasanaethu am un diwrnod neu fwy yn y Lluoedd Arfog neu'r Lluoedd Wrth Gefn, ac sy'n ystyried eu hunain i fod ag unrhyw fath o gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol.

Mae tîm rhanbarthol o arbenigwyr gyrfaol yn gweithio gyda chyflogwyr i helpu cyn-filwyr sydd â heriau iechyd i mewn i waith gwerth chweil a chynaliadwy.

Mae ymgynghorwyr yn gweithio gyda phob cyn-filwr i greu cynllun gyrfa personol, rhoi hyfforddiant CV a chyfweliad am ddim, a dod o hyd i gyfleoedd gwaith lleol gyda chyflogwyr cefnogol. Mae rhwydwaith o fentoriaid gwirfoddol a chymorth parhaus mewn gwaith yn sicrhau bod 'cleientiaid' y Poppy Factory yn ffynnu yn eu gweithle newydd.

Gall unrhyw gyn-filwr sydd â chyflwr iechyd corfforol neu feddyliol gofrestru, ar yr amod nad ydynt bellach yn cael eu cynorthwyo drwy'r Bartneriaeth Pontio Gyrfa fel rhan o'u hadsefydlu. Mae gwasanaeth cymorth yn ôl i fyd gwaith y Poppy Factory eisoes wedi helpu cannoedd o gyn-filwyr anabl i mewn i waith ystyrlon a chynaliadwy.

**Gwefan: www.poppyfactory.org**

**Ffôn- 020 8939 1837**

**E-bost – support@poppyfactory.org**

# Cyflogaeth

## Y Lleng Brydeinig Frenhinol

**Gall gwasanaethau cymorth cyflogaeth helpu personél sy'n gwasanaethau a chyn-filwyr a'u teuluoedd i baratoi ar gyfer cyflogaeth wrth iddynt bontio i fywyd sifil.**

Rydyn ni'n gweithio gydag elusennau partner i ddarparu gwasanaethau cymorth cyflogaeth arbenigol. Mae'r sefydliadau anhygoel hyn yn helpu cyn-filwyr i addasu i fywyd sifil a dod o hyd i waith.

Mae RFEA yn gweithio gydag wyth elusen cyflogaeth filwrol arbenigol arall a gallant eich arwain at arbenigedd ychwanegol sy'n addas i chi fel rhan o'u cefnogaeth.

### Dyma'r wyth:

Cymdeithas y Swyddogion
Cymdeithas Swyddogion Yr Alban
The Poppy Factory
Poppy Scotland
Diwydiannau'r Lleng Brydeinig Frenhinol
Walking With The Wounded
X-Forces
Mission Motorsport

## Swyddi Teuluoedd y Lluoedd Arfog

Llwyfan cyflogaeth a hyfforddiant wedi'i gynllunio'n benodol i gefnogi teuluoedd y Gwasanaeth gyda chyflogaeth ystyrlon, a darparu cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a datblygu.

Cyflwynir gan bartneriaeth tri gwasanaeth rhwng Ffederasiwn Teuluoedd y Llynges (NFF),

Ffederasiwn Teuluoedd y Fyddin (AFF) a Ffederasiwn Teuluoedd yr Awyrlu Brenhinol (RAF-FF) mae'r gwasanaeth ar gael i bartneriaid/teuluoedd milwrol sy'n chwilio am waith a hyfforddiant gyda'r sicrwydd bod y cyflogwyr wedi ymrwymo i Gyfamod y Lluoedd Arfog. Mae hyn yn cynnwys:

- Partneriaid personél Gwasanaeth ac Wrth Gefn ar hyn o bryd, a phlant sy'n oedolion (18-25 oed).
- Partneriaid personél y Gwasanaeth sydd wedi gadael y Lluoedd Arfog o fewn y 12 mis diwethaf, a phlant sy'n oedolion (18-25 oed).
- Partneriaid gweddw am hyd at ddwy flynedd ar ôl y gwasanaeth, a phlant sy'n oedolion (18-25 oed).

**I ymweld â'r safle ewch i: www.forcesfamiliesjobs.co.uk**

## RBLI -The Lifeworks Programme

Mae tîm LifeWorks yma i gefnogi'r gymuned filwrol yn ystod y cyfnod anodd hwn ac mae'n bwysig i bawb wybod bod LifeWorks yn gweithio! Mae ein hyfforddwyr gyrfa arbenigol a'n haseswyr galwedigaethol ar gael i gefnogi o bell a'r cyfan sydd angen i chi ei wneud yw ffonio 0800 319 6844 neu anfon e-bost cyflym atom i lifeworks@rbli.co.uk a byddwn yn gwneud y gweddill.

Gwasanaeth cymorth (heb gost i'r cyfranogwyr) i helpu cyn-filwyr sy'n ceisio naill ai symud i gyflogaeth gynaliadwy, hyfforddiant neu addysg; neu gyngor ac arweiniad ar sut i helpu i sicrhau'r rôl ddelfrydol honno.

Mae teuluoedd milwrol yn gadarnhaol, yn hyblyg ac yn hynod wydn ac o ganlyniad, byddant yn parhau i chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi'r rhai o'u cwmpas.

## Walking With The Wounded (WWTW)

**Yn cefnogi cyn-filwyr sydd ag anafiadau corfforol, meddyliol, neu gymdeithasol ar eu taith i ail-integreiddio'n ôl i gymdeithas, adennill eu hannibyniaeth a sicrhau cyflogaeth gynaliadwy.**

Mae gan Walking With The Wounded ddwy raglen allweddol, sy'n mynd i'r afael â rhwystrau i gyflogaeth ar gyfer cyn-filwyr. Mae Home Straight ar gyfer cyn-filwyr digartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, ac mae Step Into Health yn rhoi cyfleoedd i gyn-filwyr weithio yn y GIG.

### Rhaglen Home Straight

- Cymorth ac arweiniad cynghorwyr cyflogaeth i gyn-filwyr sydd mewn llety â chymorth ac a fyddai fel arall yn ddigartref, a chymorth allgymorth i'r rhai sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, er mwyn sicrhau canlyniadau cyflogaeth cadarnhaol.
- Cymorth cynghorwr cyflogaeth i gyn-filwyr sy'n ymgysylltu â thimau Iechyd Meddwl rhanbarthol y GIG.

### Step into Health (Lloegr)

- Llwybr cyflogaeth a ddarperir mewn partneriaeth â'r GIG a'r Sefydliad Brenhinol gyda mynediad at dros 300 o gyfleoedd gyrfa o fewn y GIG (nid pob un sy'n glinigol), gan gydnabod sgiliau personél y Gwasanaeth, y mae llawer ohonynt yn drosglwyddadwy.
- Pecynnau profiad gwaith pwrpasol o hyd at bedair wythnos ar gyfer cyn-filwyr neu bartneriaid i archwilio'r cyfleoedd gyrfa helaeth sydd ar gael.

### Manylion cyswllt

- **Rhif ffôn:** 0126 386 3900
- **E-bost: info@wwtw.org**
- **Gwefan: WWTW**
- **Cyfeiriad Prif Swyddfa:** Stody Hall Barns, Stody, Melton Constable, Norfolk NR24 2ED

# Cyflogaeth

## X Forces

Mae X-Forces yn helpu unrhyw un yng nghymuned y Lluoedd Arfog: Pobl sy'n gadael y gwasanaeth, cyn-filwyr, milwyr wrth gefn, aelodau o'r teulu - yn y tri gwasanaeth.

### Mae'r cymorth yn cynnwys:

- Enterprise for Life ® : dysgu sgiliau menter gydol oes, boed yn dechrau busnes neu'n dechrau cyflogaeth. Mae deall hanfodion busnes yn rhoi gwybodaeth fasnachol i unigolion a'r blociau adeiladu i'r byd sifil. Os byddwch yn penderfynu nad hunangyflogaeth yw'r opsiwn cywir, gallwch gymhwyso'r sgiliau mentergarwch rydych chi wedi'u dysgu i ddatblygu eich gyrfa a chanolbwyntio'ch gwaith chwilio am swydd yn well.
- Os ydych chi'n ystyried hunan-gyflogaeth ac eisiau gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch a yw'r llwybr hwn yn iawn i chi, mae X-Forces yn cynnig cefnogaeth i'ch helpu i ddarganfod manteision ac anfanteision dechrau eich busnes eich hun drwy roi eich syniadau a'ch menter dan y chwyddwydr. Gallwch hefyd fynychu eu gweithdy, os ydych chi'n penderfynu bod dechrau busnes yn iawn i chi.
- Os ydych chi eisoes yn masnachu ac yn poeni am Arian Parod, Cwsmeriaid, a Galluoedd, maen nhw'n cynnig cefnogaeth sydd wedi'i chynllunio i helpu perchnogion busnes newydd sydd newydd ddechrau dilyn eu breuddwydion ac entrepreneuriaid sefydledig sy'n wynebu amser caled. Dyma raglen newydd sy'n ymateb yn arbennig i'r hinsawdd economaidd sydd ohoni.
- Os ydych chi'n dymuno rhwydweithio â phobl o'r un anian, ar unrhyw gam o'ch taith, mae X-Forces yn cynnal digwyddiadau rhwydweithio milwrol Busnes® wythnosol, a gynhelir gan eu Llysgenhadon rhanbarthol anhygoel a gyda siaradwyr gwadd o amrywiaeth o fusnesau, gan gynnwys partneriaid yn Ffederasiwn Busnesau Bach a Hybiau Cyflymu NatWest. Mae hyn yn ddefnyddiol i adeiladu eich rhwydwaith ac yn cefnogi cyd-ddysgu rhwng cyfoedion.
- Ar yr Hyb Cyfnewid Gwybodaeth XFE a lansiwyd yn ddiweddar, mae ganddynt fyddin gynyddol o Gapteiniaid Busnes yn aros i'ch cefnogi mewn amgylchedd cyfrinachol a diogel, a gefnogir hefyd gan NatWest a Ffedarasiwn y Busnesau Bach. Mae'r hyb XFE digidol, sy'n rhad ac am ddim, yn blatfform cymorth busnes yn benodol ar gyfer cymuned y Lluoedd Arfog. Fe'i cynlluniwyd i ategu'r gefnogaeth a gynigir eisoes gan XFE. Mae'n siop un stop ar gyfer popeth sy'n gysylltiedig â hunangyflogaeth, gan gynnwys cyd-gymorth rhwng cyfoedion, digwyddiadau am ddim a gwybodaeth fusnes, gan gael gwared ar rwystrau amser, teithio ac ymrwymiadau teuluol.
- Mae pob cwrs wedi'i ariannu'n llawn ac yn cynnig profiad ymgynghorol, trochol dan arweiniad arbenigwyr yn y maes. Mae'r rhain i gyd yn adnoddau rhad ac am ddim i gymuned y Lluoedd Arfog.

### Manylion cyswllt

- **Rhif ffôn:** 0800 368 9533 (Dydd Llun-Gwener, 9am-6pm)
- **E-bost: info@x-forces.com**

## JobOppo

**Does dim ots a wnaethoch chi adael ddoe neu 20 mlynedd yn ôl, ar ôl gwasanaethu 2 ddiwrnod neu 22 mlynedd– mae JobOppO yma i'ch helpu CHI!**

Rydyn ni wedi bod yn yr union lle'r ydych chi nawr. Gwyddom o lygad y ffynnon nad yw'r newid o 'fywyd milwrol i fywyd Sifil' yn aml yn un hawdd. Roedd y syniad o setlo i fywyd 9-5 ar ôl gwasanaethu ein gwlad yn frawychus a dweud y lleiaf. Ond doedd dim rhaid iddo fod felly - a dyna pam sefydlodd ein sylfaenydd JobOppO.

Mewn partneriaeth â brandiau byd-eang a busnesau bach a chanolig, tyfodd JobOppO o syniad i blatfform ffyniannus, ar-lein sy'n cefnogi'r gymuned Cyn-filwyr yn y DU.

0333 242 3857

neu e-bost: info@joboppo.co.uk

https://www.joboppo.co.uk/

## Cynlluniau Cyfweliad Gwarantedig

Mae yna lawer o sefydliadau sydd wedi cyflwyno 'Cynllun Cyfweliad Gwarantedig' ar gyfer Cyn-filwyr. Mae hyn yn cynnwys llawer o Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru o dan y 'Cynllun Lle Gwych i Weithio'.

## Cefnogaeth Cyflogaeth Awdurdodau Lleol

Mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol adrannau fydd yn eich helpu i ailgydio â gwaith o dan wahanol raglenni:

### Sgiliau Gwaith i Oedolion 2

Mae'r prosiect Sgiliau Gwaith i Oedolion 2 yn darparu mynediad i amrywiaeth eang o gyrsiau AM DDIM a'r cyfle i gael cyngor ac arweiniad gan dîm o swyddogion cymorth cyflogaeth, i wella cyfleoedd i weithwyr sgiliau isel.

### Ble mae ar gael?

Mae'r prosiect ar gael yn yr ardaloedd canlynol: -

- Caerffili - 01495 237921 | **sgiliaugwaithoedolion@caerffili.gov.uk**
- Torfaen - 01633 647743
- Blaenau Gwent - 01495 354703
- Merthyr Tudful - 01685 727070

# Cyflogaeth

## Ar gyfer pwy yw e?

Mae ar gael i holl drigolion rhanbarth Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili sy'n gyflogedig neu'n hunangyflogedig ac yn 16 oed a throsodd.

## Beth all ei gynnig i chi?

**Gallwn eich helpu i wella'ch sgiliau ac ennill cymwysterau sy'n ofynnol gan gyflogwyr.**

**Gallwn ni helpu gyda:**

- Hunan-barch a hyder
- Cymwysterau FfCCh
- Hyfforddiant
- Technegau cyfweld
- Opsiynau gyrfaol
- Ffurflenni cais
- Sgiliau chwilio am waith
- Ysgrifennu ac adeiladu CV
- Technegau cyfweliad

## Rhagor o wybodaeth

Ffoniwch ni heddiw ar 01495 237921

## Ysbrydoli i Weithio

Mae Ysbrydoli i Weithio yn brosiect cyffrous i bobl yn ardal Caerffili i'w helpu i gael gwaith.

## Ble mae ar gael?

**Mae'r prosiect ar gael yn yr ardaloedd canlynol:**

- Caerffili - 01495 237921 e-bost ysbrydoliiweithio@caerffili.gov.uk
- Blaenau Gwent - 01495 357836
- Pen-y-bont ar Ogwr - 01656 642697
- Merthyr Tudful - 01685 725461
- Torfaen - 01495 766053
- Rhondda Cyncon Taf - 01443 425373

# 3 Cyflogaeth

## Ar gyfer pwy yw e?

Mae ar gael i bob person ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth ac sy'n byw mewn ardal nad yw'n ardal Cymunedau yn Gyntaf.

## Beth gall ei gynnig i chi?

Mae'n rhoi hwb i unigolion a chyfleoedd ar gyfer gwella sgiliau mewn meysydd y mae cyflogwyr yn galw amdanynt.

- Cefnogaeth unigol gyda'ch cynghorydd
- Cefnogaeth i wella'ch hyder, eich cymhelliant a'ch hunan-barch
- Cyrsiau galwedigaethol am ddim
- Cefnogaeth ychwanegol i'r rhai sy'n wynebu rhwystrau rhag gweithio, fel cyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar waith, anghenion gofal plant a thrafnidiaeth.

## Rhagor o wybodaeth

Ffoniwch ni heddiw ar 01495 237921.

## Cymorth Cyflogaeth Adfywio Cymunedol

Mae ein Tîm Cymorth Cyflogaeth yn darparu mentora un ar un a chymorth cyflogaeth yn y gymuned, helpu pobl i hyfforddi a datblygu sgiliau, gan eu hawdurdodi i fagu hyder a chael profiad sydd angen arnynt ar gyfer y swyddi y maent eu heisiau.

Peidiwch â phoeni am feini prawf cymhwysedd, bydd ein Gweithwyr Blaenoriaethu gweithio hyn allan i chi a bydd un o'n haelodau tîm neu bartneriaid wastad yn gallu rhoi cymorth i chi.

Mae ein tîm yn cynnwys Cymunedau am Waith, Cymunedau am Waith a Mwy a'r Gronfa Waddol. Mae ein prosiectau yn wirfoddol ac yn helpu pobl sydd yn bell i ffwrdd o'r farchnad llafur gael cyflogaeth, gan ganolbwyntio ar y cymunedau mwyaf difreintiedig, i ddarparu cymorth un i un, arweiniad a hyfforddiant. Mae Cymunedau am Waith yn rhaglen Gronfa Gymdeithasol Ewrop, sy'n cael ei noddi ar y cyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Ariennir Cymunedau dros Waith a Mwy gan Lywodraeth Cymru.

## Sut y gallwn helpu

Cynigir cymorth un i un, mewn lleoliad lleol yn y gymuned (llyfrgell ayb.) Mae'r cymorth a ddarperir wedi ei deilwra'n ar gyfer eich anghenion unigol ac i'ch helpu i gyflawni eich nodau cyflogaeth hirdymor ac yn y tymor byr. Rydym yn cefnogi pobl i uwchsgilio a chael mwy o brofiad yn eu maes dewisol, gyda'r nod o gefnogi pobl i gael eu rolau gwaith dymunol.

# Cyflogaeth

### Cymorth Cyflogaeth

- Sgiliau hanfodol
- Hyfforddiant ac addysg
- Ysgrifennu CV, creu Cyfrifon UJM, ceisio am waith
- Awgrymiadau a thechnegau cyfweld
- Cyfleoedd gwirfoddoli a lleoliadau gwaith
- Dod o hyd i gyflogaeth daledig

### Cymorth Ychwanegol

- Cyfrifiadau gwell
- Cymorth iechyd meddwl (pryder, straen ac iselder ayb.)
- Cymorth gyda hyder a chymhelliant
- Cyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar waith
- Cymorth gyda chyfrifiaduron
- Cefnogaeth llesiant

## Cysylltu

Os hoffech chi ddarganfod mwy, gallwch siarad ag un o'n Gweithwyr Brysbennu am gefnogaeth i chi eich hun neu rywun rydych chi'n ei gefnogi ar 07825 634157.

Os hoffech gyfeirio eich hunan neu rywun rydych yn ei gefnogi i'r prosiect, llenwch ein ffurflen atgyfeirio a'i bostio i:

Cymunedau am Waith
Tŷ Tredomen
Parc Tredomen
Hengoed
CF82 7WF

# 3 Cyflogaeth

## Meithrin, Cyfarparu a Ffynnu

Nod Meithrin, Cyfarparu a Ffynnu yw cynyddu perchenogaeth sgiliau generig, trosglwyddadwy ar draws y gweithlu drwy ddarpariaeth seiliedig yn y gymuned. Mae'n helpu i wella'r cyfleoedd ar gyfer gweithwyr sgiliau isel i gynnal cyflogaeth a chynyddu eu potensial i ennill cyflog.

Mae Meithrin, Cyfarparu a Ffynnu yn targedu cyfranogwyr tangyflogedig yn benodol.

**ebost PontyddiWaith@caerffili.gov.uk neu**
**sgiliaugwaithioedolion@caerffili.gov.uk**

## Pontydd i Waith 2

Mae Pontydd i Waith 2 yn brosiect rhanbarthol sy'n cefnogi pobl sy'n economaidd anweithgar ac yn ddi-waith yn siroedd Pen-y-bont ar Ogwr, Blaenau Gwent, Caerffili, Merthyr Tudful a Thorfaen. Nod y prosiect yw darparu cymorth i gael gwaith cynaliadwy am dâl. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys mentora, datblygu sgiliau, darparu cymwysterau achrededig a lleoliadau gwirfoddoli.

### Nod y prosiect yw:

- Cefnogi pobl i gael cyflogaeth gynaliadwy â thâl.
- Darparu hyfforddiant sgiliau a chymwysterau achrededig.
- Lleoli pobl mewn lleoliadau gwirfoddol a gwaith priodol
- Hyfforddiant sgiliau am ddim, cymwysterau a chyrsiau galwedigaethol.
- Cefnogaeth gyda chwiliadau swyddi, sgiliau ysgrifennu CV a chyfweliad.
- Gwirfoddoli a lleoliadau gwaith
- Cymorth ychwanegol i'r rhai sy'n wynebu rhwystrau rhag gweithio, megis gwaith sy'n cyfyngu ar gyflyrau iechyd, anghenion gofal plant a thrafnidiaeth.

Bydd aelodau tîm y prosiect yn helpu cyfranogwyr i nodi eu rhwystrau i gyflogaeth a chefnogi pobl i'w goresgyn.

## Ar gyfer pwy mae cydraddoldeb?

### Mae ar gael i drigolion sy'n: -

- Ddi-waith am fwy na blwyddyn

  neu'n

- Economaidd anweithgar (ddim yn gweithio a ddim yn hawlio budd-dal cyflogaeth)

## Meini prawf cymhwysedd hanfodol

- 25 oed neu hŷn.
- Byw tu allan i Ardal Cymunedau'n Gyntaf
- Di-waith hirdymor neu'n economaidd anweithgar.

**E-bost: Matthew.Davies@torfaen.gov.uk**
**Ffôn: 01633 647745**
**Cyfeiriad: Canolfan Addysg Gymunedol Croesyceiliog, The Highway, Croesyceiliog, Torfaen NP44 2HF**

## Vale Communities For Work - Gwasanaethau cymorth i deuluoedd

Prosiect gwirfoddol yw Cymunedau am Waith, lle gallwn gynnig cymorth, cefnogaeth ac arweiniad un i un ar chwilio am swyddi, CVs, ffurflenni cais, sgiliau cyfweld a hyfforddiant. I fod yn gymwys rhaid eich bod yn byw ym Mro Morgannwg, yn ddi-waith yn hirdymor, yn economaidd anweithgar neu'n NEET - Nid mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant. Gallwn gynnig hyfforddiant a chefnogaeth i'ch helpu i gael cyflogaeth gynaliadwy. Rydyn ni'n cynnig cymorth a chyllid ar gyfer gofal plant i helpu rhieni i ddychwelyd i'r gwaith.

**https://www.gov.uk/cysylltu-canolfan-byd-gwaith**
**Cysylltwch â ni ar Facebook neu e-bost c4w-barry@valeofglamorgan.gov.uk**
**01446 709432**

## Cymunedau am Waith Caerdydd

Mae Cymunedau am Waith yn Rhaglen Llywodraeth Cymru a Chyllid Ewropeaidd (CGE) a gyd-noddir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae Cymunedau am Waith yn wasanaeth gwirfoddol i helpu pobl sy'n byw mewn ardal Cymunedau'n Gyntaf ac sydd angen help a chefnogaeth ychwanegol i ddod o hyd i waith.

Mae Cynghorwyr Cyflogaeth Profiadol a Mentoriaid Ieuenctid/Oedolion yn arbenigo mewn helpu unigolion â'u hanghenion penodol.

Mae arian hefyd ar gael ar gyfer cyrsiau hyfforddi ac i wella sgiliau, gan roi'r cyfleoedd gorau i bobl ddychwelyd i waith.

- Ydych chi dros 25 oed ac yn hawlio budd-dal cymwys?
- Oes gennych chi gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar waith?
- Are you caring for an adult or child?
- Ydych chi'n gofalu am oedolyn neu blentyn?
- Ydych chi rhwng 16 a 24 oed ac yn NEET (heb fod mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant)?

# 3 Cyflogaeth

## Cymorth a Chyngor

### Os felly gall ein timau gynnig cymorth a chyngor arbenigol ar:

- ysgrifennu CV
- Technegau Cyfweld
- Magu Hyder
- Ceisiadau Swyddi Ar-lein
- Eich cael chi'n ôl i'r gwaith

## Hyfforddiant

### Mae gennym ystod eang o gyrsiau hyfforddi am ddim. Maen nhw'n cynnwys:

- Trwydded SIA (Awdurdod Diwydiant Diogelwch)
- cerdyn Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu
- Diogelwch Personol ar y Trac
- Peirianwaith Bach ac Offer
- Chwarae Plant
- Cynorthwyydd dysgu
- Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) 2002
- hyfforddiant LGV gyda Thrwydded
- Mynd i fyd Gofal

## Help ariannol

### Efallai y bydd arian ar gael i helpu gyda

- Gofal Plant (yn ystod cyfweliad neu leoliad)
- Costau Teithio (i gyfweliad neu ar leoliad)
- Dillad (cyfweliad neu ar leoliad)
- Offer Amddiffyn Personol (ar gyfer cyrsiau neu waith Asiantaeth)

Am ragor o wybodaeth, neu os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â ni.

# Cyflogaeth



## Y Gwasanaeth i mewn i Waith

Ydych chi neu rywun rydych chi'n ei adnabod angen cymorth arbenigol a chefnogaeth un i un i fynd yn ôl i'r gwaith? Efallai eich bod chi'n edrych i uwchsgilio yn eich swydd bresennol neu angen cymwysterau newydd? Neu angen help i hawlio Credyd Cynhwysol? Beth bynnag yw eich amgylchiadau, gall y Gwasanaeth Cyngor i Mewn i Waith helpu!

Byddwn yn gwrando arnoch ac yn eich helpu i ddod o hyd i'r yrfa sy'n iawn i chi. Mae gennym ystod eang o gymorth ar draws y ddinas sydd wedi'i theilwra o gwmpas eich anghenion.

Mae'r Gwasanaeth i mewn i Waith yn cynnig sesiynau galw heibio anffurfiol am ddim mewn lleoliadau ar draws Caerdydd i drigolion sy'n chwilio am waith neu i uwchsgilio yn eu swyddi presennol.

**Gallwn gynnig cymorth a chyngor ar y canlynol:**

- Ysgrifennu CV
- Help gyda ffurflenni cais am swydd a llythyrau
- Chwilio am Swydd
- Cymorth cyflogaeth un i un
- Technegau cyfweld
- Ceisiadau ar-lein ar gyfer Credyd Cynhwysol
- Cyllid ar gyfer gofal plant, teithio a threuliau eraill (yn amodol ar gymhwysedd)
- Dechrau eich busnes eich hun
- Cyfleoedd i Wirfoddoli
- Cyfleoedd am leoliad gwaith

**Ffoniwch ni ar 029 2087 1071.**

## Sut i fanteisio ar dalent filwrol

### Ysbrydoli – Cyflogi – Pecyn Cymorth i Dyfu ar gyfer Cyflogwyr

Mewn cyfnod o gyflogaeth gynyddol, mae cyflogwyr yn cystadlu i ddod o hyd i ymgeiswyr medrus a chymwys. Mae nifer cynyddol o gyflogwyr yng Nghymru yn manteisio ar dalent filwrol i lenwi'r bwlch sgiliau hwn gan eu bod yn ffynhonnell barod o'r dalent orau y gall busnesau fanteisio arni gyda'r broses recriwtio gywir.

Canllaw syml yw hwn i gyflogi cyn-filwyr y Lluoedd Arfog a milwyr wrth gefn yng Nghymru. Cafodd y pecyn cymorth ei ddatblygu gan Busnes yn y Gymuned Cymru, ar ran Llywodraeth Cymru.

# 3 Cyflogaeth

**https://businesswales.gov.wales/skillsgateway/sites/skillsgateway/files/documents/Prentisiaethau.Dewis_.Doeth_.Pecyn_.Cymorth.Cyflogwr.pdf**

**Ysbrydoli, Cyflogi, Tyfu: Mae'r llyfryn ar sut i fanteisio ar dalent filwrol yn trafod pum rheswm dros gyflogi cyn-filwyr yn eich busnes.**

1. Mae cyn-filwyr yn gymwys iawn.
2. Mae gan gyn-filwyr agweddau gwerthfawr ac maen nhw'n addasadwy.
3. Mae cyn-filwyr yn weithwyr medrus.
4. Mae cyn-filwyr yn weithwyr hynod effeithiol.
5. Mae cyflogi cyn-filwyr yn dda i fusnes ac i gymdeithas.

Mae cyflogwyr yn crefu am staff medrus sydd â'r agwedd gywir a'r priodoleddau i gefnogi eu busnesau sy'n tyfu. Bob blwyddyn mae cyn-filwyr yn gadael y Lluoedd Arfog gyda'r union gymysgedd yma. Er bod llawer o gyn-filwyr yn mynd ymlaen i gael gyrfaoedd llwyddiannus ar ôl gadael y Gwasanaeth, nid yw hyn bob amser yn wir. Mae cyn-filwyr wedi eu tangynrychioli'n gymharol yn y gweithlu. Mae cyn-filwyr oed gweithio bron ddwywaith yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith fel sifiliaid. Gall materion fel diffyg cymwysterau academaidd neu anawsterau i gyflogwyr wrth adnabod profiadau milwrol o fewn strwythurau recriwtio corfforaethol fod yn rhwystrau sylweddol i recriwtio.

## Pam Cyflogi Cyn-filwr?

Daw dros 300 o Bobl sy'n Gadael y Gwasanaeth i'r farchnad swyddi sifil yng Nghymru drwy'r Bartneriaeth Pontio Gyrfaoedd (CTP) bob blwyddyn. Maen nhw'n cynnwys peirianwyr, technegwyr, hyfforddwyr, heddlu, gweinyddwyr, rheolwyr TG, gyrwyr, cogyddion, nyrsys, peilotiaid, rheolwyr profiadol ac arbenigwyr cyfathrebu.

Mewn cyfnod o gyflogaeth gynyddol, mae cyflogwyr yn cystadlu i ddod o hyd i ymgeiswyr medrus a chymwys. Mae nifer cynyddol o gyflogwyr yng Nghymru yn manteisio ar dalent filwrol i lenwi'r bwlch sgiliau hwn gan eu bod yn ffynhonnell barod o'r dalent orau y gall busnesau fanteisio arni gyda'r broses recriwtio gywir.

## Cyflogi cyn-filwyr yng Nghymru

Mae recriwtio talent sydd wedi'u hyfforddi'n dda, sy'n barod am waith, yn her gynyddol i fusnesau yng Nghymru. Dangosodd arolwg sgiliau Llywodraeth Cymru o gyflogwyr Cymru fod gan chwech y cant o leiaf un swydd wag oherwydd prinder sgiliau - sy'n cyfateb i 9,000 o swyddi gwag ledled Cymru.

## Felly beth yw'r fantais o gyflogi Milwr Wrth Gefn?

- Mae sgiliau a ddatblygwyd drwy'r gwasanaeth milwyr wrth gefn yn drosglwyddadwy ac yn ddiriaethol i Gyflogwyr
- Mae milwyr wrth gefn yn rhagweithiol iawn ac yn cydbwyso eu hymrwymiadau gwaith, eu bywyd personol a'u gwasanaeth Wrth Gefn
- Gall hyfforddiant achrededig a ariennir gan y Lluoedd gynyddu cynhyrchiant yn eich gweithle

# Cyflogaeth

- Mae cymorth ariannol ar gael i dalu costau os gelwir ar y gweithiwr i wasanaethu
- Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol – mae cefnogi Lluoedd Wrth Gefn yn cyfrannu at amddiffyn a diogelwch y DU

## Cymdeithas Lluoedd Wrth Gefn a Chadetiaid Cymru

Cymdeithas Lluoedd Wrth Gefn a Chadetiaid Cymru yw'r llais galluogi ar gyfer milwyr wrth gefn a chadetiaid yng Nghymru. Mae'n cynnal yr ystâd, yn rhoi cefnogaeth i'r tri Gwasanaeth ac yn cysylltu amddiffyn gyda chymdeithas drwy ddarparu 'rhwydwaith o rwydweithiau' helaeth.

**Mae'r Gymdeithas yn gweithio ar draws tair thema graidd:**

- cefnogaeth i brofiad y cadetiaid
- cyflogwr ac ymgysylltu â'r gymuned
- rheoli Ystâd y Lluoedd Wrth Gefn.

Mae'r tair piler hyn yn sail i gefnogaeth gyffredinol y Gymdeithas i'r Lluoedd Wrth Gefn ac yn y pen draw i allu amddiffyn y DU.

RFCA Cymru,
Barics Maendy,
Caerdydd,
CF14 3YE.

**Ffôn: 02920375735**
**E-bost: wa-info@rfca.mod.uk**

## Dod yn filwr wrth gefn

Mae'r Lluoedd Wrth Gefn yn elfen hanfodol o'n Lluoedd Arfog ac yn gwneud cyfraniad hanfodol i'n diogelwch. Mae milwyr wrth gefn yn gwneud cyfraniad at gymdeithas sy'n fwy na'r rhan fwyaf o ddinasyddion eraill; cydbwyso eu dyletswyddau milwrol â'u gwaith arall a'u hymrwymiadau teuluol.

Mae ein Lluoedd Wrth Gefn yn aelodau hanfodol o'n Lluoedd Arfog. Maen nhw'n gweithio ochr yn ochr â'u cymheiriaid rheolaidd i ddarparu'r gallu milwrol sydd ei angen ar y genedl mewn modd integredig.

### Llu Wrth Gefn y Llynges Frenhinol

Mae Llu Wrth Gefn y Llynges Frenhinol, ynghyd â Llu Wrth Gefn y Môr-filwyr Brenhinol, yn ffurfio'r Lluoedd Wrth Gefn Morol.

Mae cyfraniad Llu Wrth gefn y Llynges Frenhinol i ddiogelu buddiannau ein cenedl yn amrywio o weithrediadau gwrthdaro, i wrthderfysgaeth a gwaith gwrth fôr-ladrata. Fel Swyddog Wrth Gefn, bydd gennych hefyd rôl i'w chwarae wrth ddarparu diogelwch ar y môr a chymorth dyngarol ar draws y byd. Fel rhan o'r holl lu byddwch yn sefyll gyfysgwydd â'ch cymheiriaid yn y Llynges Frenhinol.

**https://www.royalnavy.mod.uk/careers/royal-naval-reserves**

## Llu Wrth Gefn y Fyddin

Llu Wrth Gefn y Fyddin yw'r mwyaf o'r Lluoedd Wrth Gefn. Mae Milwyr Wrth Gefn y Fyddin yn darparu cefnogaeth i'r Fyddin Reolaidd gartref a thramor, a thrwy gydol ei hanes mae bron pob ymgyrch fawr wedi gweld milwyr wrth gefn yn gweithredu ochr yn ochr â'u cymheiriaid rheolaidd.

Mae Milwyr Wrth Gefn y Fyddin yn dod o bob cefndir ac yn gweithio'n rhan amser fel milwyr i'r Fyddin Brydeinig ochr yn ochr â milwyr rheolaidd llawn amser.

Mae Milwyr Wrth Gefn rheolaidd yn filwyr sydd wedi gadael y fyddin Reolaidd ond sy'n cael eu galw'n ôl mewn cyfnodau o angen i ddod yn ôl ac ymuno â gweithrediadau ochr yn ochr â milwyr Rheolaidd.

**https://www.army.mod.uk/who-we-are/the-army-reserve/**

## Llu Wrth Gefn yr Awyrlu Brenhinol

Ni fu erioed amser mwy cyffrous i ymuno â Llu Wrth Gefn yr Awyrlu, gan gynnig cyfle i chi weithio mewn rolau gwerth chweil a heriol ochr yn ochr â chydweithwyr rheolaidd llawn amser. Boed yn darparu cymorth i wledydd sydd ei angen fwyaf neu'n rhwystro gweithredoedd terfysgol, bod yn rym er lles yw'r hyn y mae ein gwaith yn ei olygu mewn gwirionedd.

- Lle mae trafferthion ledled y byd rydym yn helpu i blismona'r awyr a chefnogi mentrau cadw heddwch ac ailadeiladu.
- Rydym yn amddiffyn gofod awyr y DU drwy ymchwil, casglu cudd-wybodaeth, gwyliadwriaeth a thechnoleg flaengar.
- Ni yw'r cyntaf yno, gan weithio mewn parthau trychineb i ddarparu cymorth dyngarol brys

# Yr Academi Sgiliau Genedlaethol ar gyfer Bwyd a Diod (NSAFD)

Mae NSAFD yn helpu gweithgynhyrchwyr Bwyd a Diod y DU i ddatblygu, tyfu a chryfhau sgiliau'r gweithlu a denu talent yn y dyfodol.

Maen nhw'n hyrwyddo cyfleoedd gyrfa'r diwydiant, yn cefnogi cwmnïau yn eu cynigion prentisiaeth ac yn cyfateb darparwyr hyfforddiant o ansawdd sydd wedi'u gwirio, i union anghenion DPP eich busnes a'ch pobl.

Fel arbenigwyr sy'n cael eu harwain gan ddiwydiant ar sgiliau, maen nhw'n gweithredu fel eiriolwr dylanwadol i weinyddiaethau holl wledydd y DU ar bolisi sgiliau perthnasol.

Sefydliad nid-er-elw yw'r NSAFD dan arweiniad y diwydiant, ar gyfer y diwydiant, trwy ei Fwrdd a chyflogwyr y sector, sydd â dau linyn iddo;

1. 1.helpu i gefnogi gwybodaeth a chyngor Gyrfaoedd i golegau ysgolion a rhieni ac mae ganddo safle we bwrpasol o'r enw Tasty Careers https://tastycareers.org.uk/map sy'n gwbl ryngweithiol ac yn arddangos y mathau o rolau yn ogystal â llwybrau gyrfa.

2. drwy weithio gyda gweithgynhyrchwyr Bwyd a Diod i edrych ar y sgiliau sydd eu hangen o fewn y gwahanol sectorau sy'n gweithio gyda 5 ISP (Grwpiau Partneriaeth Sgiliau Diwydiant) ar draws Cymru. Maen nhw'n trafod pa sgiliau sydd eu hangen ac os oes angen creu rhaglenni hyfforddi a Phrentisiaethau newydd.

Maen nhw hefyd yn gweithio gyda mudiad arall sydd â thudalen arbennig ar gyfer swyddi yn y sector ar draws Cymru o'r enw swyddi Gweithlu Bwyd Cymru. Caiff hyn ei ddiweddaru'n wythnosol gyda nifer fawr o'r swyddi gwag sydd ar gael, https://www.foodskills.cymru/food- workforce-wales/food-drink-jobs/

Fel rhan o'r cymorth sy'n helpu i gael mwy o bobl i'r sector, maen nhw'n cynnal rhaglen Beilot sy'n cael ei ariannu'n llawn ar gyfer Pasbort Bwyd a Diod sy'n darparu cyrsiau ar-lein ar gyfer L2 Diogelwch Bwyd, L2 HACCP, L2 Iechyd a Diogelwch ac Ymwybyddiaeth Alergenau.

Ar ôl cwblhau'r 4 cwrs, ceir tystysgrif ar gyfer pob cwrs yn ogystal â thystysgrif o 'Parodrwydd i Weithio yn y Sector Bwyd'.

Y nod yw, unwaith y bydd pobl wedi cwblhau'r cyrsiau, gall NSAFD helpu i gyfeirio unigolion i swyddi y maen nhw'n gwybod eu bod yn wag yn yr ardal leol ac yn helpu i drefnu cyfweliadau gyda'r gwneuthurwyr y maen nhw'n gweithio gyda nhw.

**www.nsafd.co.uk**

## Veterans UK

Mae Gwasanaethau i Gyn-Filwyr sy'n rhan o Veterans UK, yn darparu cymorth un i un i bersonél y lluoedd arfog, pobl sy'n gadael, cyn-filwyr a'u teuluoedd.

Mae Gwasanaeth Lles Cyn-filwyr (VWS) yn darparu cefnogaeth gyfannol i bersonél sy'n gwasanaethu, cyn-filwyr a'u hanwyliaid sydd ag angen lles parhaus, gan gynnwys cymorth gydag anafiadau a hawliadau iawndal profedigaeth, cefnogaeth pontio i bersonél sy'n cael eu rhyddhau'n feddygol a chymorth a chefnogaeth gyfrinachol i'r rhai sydd â salwch sy'n cyfyngu ar fywyd.

Veterans Welfare Service - GOV.UK (www.gov.uk)

Mae Gwasanaethau Pontio'r Lluoedd Amddiffyn (DTS) yn darparu cefnogaeth gyfannol i'r rhai sy'n gadael y gwasanaeth a'u teuluoedd sydd fwyaf tebygol o wynebu heriau wrth iddynt adael y lluoedd arfog, gan eu cynorthwyo i addasu i fywyd sifil drwy gydlynu a symleiddio mynediad at gymorth ar draws ystod o bynciau, gan gynnwys tai, cyllid, cyflogaeth a mynediad at ofal iechyd.

Help i gyn-filwyr gan Wasanaethau Pontio'r Lluoedd Amddiffyn - GOV.UK (www.gov.uk)

Mae Comisiynu Personol Integredig ar gyfer Cyn-filwyr (IPC4V) yn darparu cymorth pwrpasol i'r rhai sy'n gadael y gwasanaeth sy'n dioddef o faterion corfforol, niwrolegol ac iechyd meddwl cymhleth sy'n deillio o anaf yn sgil eu gwasanaeth.

Gallwch gael mwy o wybodaeth am ein gwasanaethau a dod o hyd i'n manylion cyswllt a'n ffurflenni cyfeirio sydd ar gael ar y tudalennau gwe uchod neu drwy ffonio llinell gymorth Veterans UK - 0808 1914 218.

# Y Lluoedd Arfog (Gwasanaethu/Cyn-filwr)

Os ydych yn aelod o'r Lluoedd Arfog neu'n gyn-filwr, efallai y bydd budd-daliadau, grantiau neu gymorth ariannol arall ar gael i chi a'ch teulu.

# Yr Adran Gwaith a Phensiynau

## Yr Adran Gwaith a Phensiynau a Chyfamod y Lluoedd Arfog

Fel rhan o Gyfamod y Lluoedd Arfog, mae gan yr Adran Gwaith a Phensiynau fentrau sy'n helpu personél presennol a chyn-aelodau'r lluoedd arfog a'u teuluoedd i gael mynediad at wasanaethau Canolfan Byd Gwaith.

Mae hyn yn cynnwys cael pencampwr y lluoedd arfog ym mhob ardal Canolfan Byd Gwaith sy'n sicrhau ein bod yn darparu cefnogaeth sy'n diwallu eich anghenion.

Mae'r dudalen hon yn esbonio rôl pencampwr y lluoedd arfog a'r ffordd y gallwch chi a'ch teuluoedd gael mynediad i'n gwasanaethau.

## Pencampwr y lluoedd arfog

**Mae pencampwr y lluoedd arfog yn darparu cefnogaeth Canolfan Byd Gwaith i:**

- gyn-filwyr
- y rhai sy'n gadael y gwasanaeth
- personél sy'n gwasanaethu yn ystod eu cyfnod ailsefydlu
- priod neu bartner sifil personél sy'n gwasanaethu a chyn-bersonél y lluoedd arfog

Mae pencampwyr yn cadw cysylltiad agos â staff Canolfan Byd Gwaith, sy'n rhoi gwybod i'r pencampwr am faterion sy'n ymwneud â'r lluoedd arfog ac yn codi problemau gyda nhw os ydych chi'n dymuno. Nid yw pencampwyr bob amser wedi'u lleoli yn y ganolfan waith.

**Mae pencampwr y lluoedd arfog yn darparu cefnogaeth Canolfan Byd Gwaith i:**

- datblygu a chynnal trefniadau gweithio ar y cyd rhwng y Ganolfan Byd Gwaith a chymuned y lluoedd arfog yn eu hardal Canolfan Byd Gwaith
- darparu gwybodaeth i staff Canolfan Byd Gwaith am fentrau penodol y lluoedd arfog
- darparu dealltwriaeth o'r materion y mae cymuned y lluoedd arfog yn eu hwynebu a all fod yn rhwystr i gyflogaeth
- bod y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer staff y Ganolfan Byd Gwaith a staff lles a theuluoedd i gynghori ar ymholiadau ynghylch achosion unigol y lluoedd arfog – gan gynnwys personél sy'n gwasanaethu, eich teuluoedd a chyn-filwyr
- canolbwyntio'n benodol ar y cymorth gan y Ganolfan Byd Gwaith sydd ar gael i gyn-filwyr, pobl sy'n gadael y gwasanaeth, y rhai o fewn cyfnod ailsefydlu phartneriaid milwyr a chyn-filwyr y lluoedd arfog – lle bo angen ac yn briodol, bydd y hyrwyddwyr yn gweithio i roi cefnogaeth ar waith.

# Cyllid

Maen nhw hefyd yn gweithio i godi proffil cymuned y lluoedd arfog o ran y sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad y gallant eu cynnig, a gweithio gyda chydweithwyr i leddfu rhai o'r rhwystrau i'r gwaith rydych chi'n eu hwynebu.

Bydd y pencampwr yn teilwra eu gweithgareddau i gyd-fynd ag anghenion cymuned y lluoedd arfog yn eu hardal. Mae hyn yn golygu y gall rhai gweithgareddau fod yn wahanol o ardal i ardal. Mae rôl a chyfrifoldebau'r pencampwr yn aros yr un fath beth bynnag fo'u lleoliad.

Mae pob un o'r gwasanaethau wedi penodi pwyntiau cyswllt sy'n ffurfio cysylltiad gyda'r hyrwyddwyr perthnasol o fewn eu hardal.

### Cysylltiadau

**Sarah Mallaghan – Arweinydd Lluoedd Arfog Cymru – 07741673209**


**Jackie Collins – De-ddwyrain Cymru - 07826876346**

**Gareth Thomas – De-orllewin Cymru 07553677929**

**Kat Graham – Gogledd a Chanolbarth Cymru - 07917732894**

**Wales.armedforceschampions@dwp.gov.uk**

## Pwyllgor Cynghori a Phensiynau Cyn-filwyr (Cymru)



## Veterans UK

Mae Gwasanaethau i Gyn-Filwyr sy'n rhan o Veterans UK, yn darparu cymorth un i un i bersonél y lluoedd arfog, pobl sy'n gadael, cyn-filwyr a'u teuluoedd.

**Mae Gwasanaeth Lles y Cyn-filwyr (VWS)** yn darparu cymorth cyfannol i bersonél sy'n gwasan- aethu, cyn-filwyr a'u dibynyddion sydd ag angen lles parhaus, gan gynnwys cymorth gyda hawlio iawndal am anafiadau a phrofedigaeth, cymorth pontio i bersonél sy'n cael eu rhyddhau'n feddygol a chymorth cyfrinachol i'r rhai sydd â salwch sy'n cyfyngu ar fywyd. Gwasanaeth Lles y Cyn-filwyr - www.gov.uk (Saesneg yn unig)

**Mae'r Gwasanaeth Cymorth wrth Adael y Lluoedd Arfog (DTS)**
yn darparu cymorth cyfannol i'r rhai sy'n gadael y Lluoedd Arfog a'u teuluoedd sydd fwyaf tebygol o wynebu heriau wrth iddyn nhw adael y lluoedd arfog, gan eu cynorthwyo i addasu i fywyd sifil drwy symleiddio, trefnu a symleiddio mynediad at gymorth ar draws ystod o bynciau, gan gynnwys tai, cyllid, cyflogaeth a mynediad at ofal iechyd. Cymorth i ymadawyr gwasanaeth gan y Gwasanaeth Cymorth wrth Adael y Lluoedd Arfog - www.gov.uk (Saesneg yn unig)

**Mae Comisiynu Personol Integredig ar gyfer Cyn-filwyr (IPC4V)**
yn darparu cymorth pwrpasol i'r rhai sy'n gadael y Gwasanaeth ac sy'n dioddef o faterion iechyd corfforol, niwrolegol a meddwl cymhleth o ganlyniad i anaf a ddaeth o wasanaethu.

Gallwch chi gael rhagor o wybodaeth am ein gwasanaethau ni a ffurflenni atgyfeirio ar y tudalennau gwe uchod neu drwy ffonio llinell gymorth Veterans UK - **0808 1914 2 18**

### Eisiau cysylltu â ni?

Gwasanaeth Cymorth wrth Adael y Lluoedd Arfog:

DBSVets-DTS-Wales-Mid@mod.gov.uk (De a Chanolbarth Cymru)

DBSVets-DTS-North@mod.gov.uk (Gogledd Cymru)

Gwasanaeth Lles i Gyn-filwy:

Veterans-UK-VWS-Wales-Mid@mod.gov.uk

Veterans-UK-VWS-North@mod.gov.uk

## Beth yw Cynllun Iawndal y Lluoedd Arfog?

Mae Cynllun Iawndal y Lluoedd Arfog yn rhoi cymorth ariannol os oes gennych salwch neu anaf a achosir gan wasanaeth yn y Lluoedd Arfog ar neu ar ôl 6 Ebrill 2005.

Gall hefyd helpu os ydych yn briod neu'n bartner sifil i berson yn y lluoedd arfog y cafodd ei farwolaeth ei achosi gan y gwasanaeth. Yn achos partneriaid di-briod, rhaid dangos perthynas sylweddol.

Mae Cynllun Iawndal y Lluoedd Arfog yn cynnwys taliadau wythnosol a chyfandaliadau.

# Cyllid

Gelwir y taliad wythnosol ar gyfer milwyr neu gyn-filwyr yn Daliad Incwm Gwarantedig neu mae Taliad Incwm Gwarantedig Goroeswr ar gyfer partneriaid gweddw.

Yn berthnasol i: Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon

Rheolau oedran: Rhaid i chi fod o oedran cyfreithiol i ymuno â Lluoedd Arfog y DU

Math: ddim ar sail prawf modd

Trethadwy: Na - i'r rhai sydd wedi gwasanaethu. Mae Taliad Incwm Gwarantedig Goroeswr yn drethadwy.

Mae'n bosib y gallwch chi gael help ariannol gan Gynllun Iawndal y Lluoedd Arfog os oes gennych salwch neu anaf a achosir gan wasanaeth yn Lluoedd Arfog y DU ar neu ar ôl 6 Ebrill 2005.

Does dim rhaid i chi fod wedi ymladd mewn rhyfel neu wedi gweld gwasanaeth gweithredol i gael cymorth ariannol gan Gynllun Iawndal y Lluoedd Arfog, cyn belled â'ch bod wedi eich anafu neu'n anabl oherwydd gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog.

Os oedd cyfnod y gwasanaeth a achosodd eich salwch neu anabledd cyn 6 Ebrill 2005, efallai y gallwch chi gael help o'r cynllun Pensiwn Rhyfel yn lle.

## Taliad Incwm Gwarantedig

Mae Taliad Incwm Gwarantedig yn daladwy am fywyd i'r rhai y gellid disgwyl iddynt brofi colled sylweddol o enillion yn y dyfodol o ganlyniad i anaf neu salwch a achosir gan wasanaeth.

Gall hyn fod yn daladwy i rywun a gafodd ei anafu ond a ddychwelodd i wasanaeth neu i rywun sy'n gadael Lluoedd Arfog y DU ar ôl anaf neu salwch a achoswyd gan wasanaeth.

## Partneriaid Gweddw Personél y Lluoedd Arfog oedd yn gwasanaethu

Efallai y gallwch chi gael cymorth ariannol gan Gynllun Iawndal y Lluoedd Arfog, os oedd eich cymar, partner sifil, neu bartner yn filwr ac achoswyd eu marwolaeth gan y gwasanaeth. Yn achos partneriaid di-briod, rhaid dangos perthynas sylweddol.

Os digwyddodd y farwolaeth cyn 6 Ebrill 2005, efallai y byddwch yn gymwys ar gyfer Pensiwn Gweddw Rhyfel yn lle.

Mae Cynllun Iawndal y Lluoedd Arfog yn seiliedig ar system dariff. Mae hyn yn golygu y bydd y Taliad Incwm Gwarantedig wythnosol a gewch yn dibynnu ar ba mor ddifrifol rydych chi wedi cael eich anafu, eich anabledd a'ch oedran.

Mae cyfandaliad yn daladwy, hefyd yn seiliedig ar y system tariff. Gall ystyried lefel ddisgwyliedig o ddirywiad iechyd.

Os cewch chi daliad incwm gwarantedig o 50% neu fwy, efallai y bydd gennych hawl hefyd i Daliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog.

Gallai taliadau effeithio ar fudd-daliadau eraill sy'n seiliedig ar brawf modd.

## Partneriaid Gweddw Personél y Lluoedd Arfog oedd yn gwasanaethu

Mae Taliadau Incwm Gwarantedig Goroeswr wythnosol yn seiliedig ar enillion eich priod neu bartner sifil.

## Partneriaid Gweddw Personél y Lluoedd Arfog oedd yn gwasanaethu

Os ydych yn dal i wasanaethu pan wneir eich penderfyniad, bydd taliad yn cael ei wneud i'r cyfrif(on) a ddelir ar y system Gweinyddu Personél ar y Cyd. Os yw eich cyflog yn cael ei dalu i fwy nag un cyfrif, mae angen i chi wirio bob un.

Os nad ydych yn gwasanaethu mwyach pan fyddwch yn gwneud y cais neu'n derbyn eich penderfyniad, bydd unrhyw daliad yn cael ei wneud i'ch cyfrif banc enwebedig.

Os ydych wedi cael gwybod bod gennych hawl hefyd i Daliad Incwm Gwarantedig, bydd hyn yn daladwy o'r diwrnod ar ôl i'ch gwasanaeth ddod i ben os gwnaed eich cais tra roeddech yn dal i wasanaethu. Os oedd eich gwasanaeth eisoes wedi dod i ben pan wnaethoch eich cais, bydd yn cael ei dalu o'r dyddiad y gwnaed eich cais.

## Cynllun Iawndal y Lluoedd Arfog a budd-daliadau eraill

Gallai taliadau o Gynllun Iawndal y Lluoedd Arfog effeithio ar fudd-daliadau eraill sy'n seiliedig ar brawf modd.

## Cap budd-daliadau a Chynllun Iawndal y Lluoedd Arfog

Os ydych chi, eich partner, neu blentyn dibynnol o dan 18 oed yn derbyn taliad Cynllun Iawndal y Lluoedd Arfog, byddwch wedi'ch eithrio o'r Cap Budd-daliadau.

Gallwch lawrlwytho ffurflen hawlio Cynllun Iawndal y Lluoedd Arfog i'w hargraffu a'i llenwi o wefan Gov.UK.

Gallwch hefyd gysylltu â Veterans UK i gael ffurflen. Ni ddylech gyflwyno cais dim hwyrach na saith mlynedd ar ôl yr anaf neu'r salwch, oni bai eich bod yn hawlio am salwch a ddechreuodd yn ddiweddarach (a elwir weithiau yn 'salwch sy'n dechrau'n hwyrach').

**Gallwch ffonio eu llinell gymorth ar:**

**0808 1914 218 (DU) neu**

**+44 1253 866 043 (Dramor)**

Gallwch lawrlwytho ffurflen oddi ar wefan Veterans UK

## Partneriaid Gweddw Personél y Lluoedd Arfog oedd yn gwasanaethu

I hawlio fel partner mewn profedigaeth, bydd angen i chi ffonio Veterans UK i ofyn am ffurflen.

**Gallwch ffonio eu llinell gymorth ar:**

**0808 1914 218 (DU) neu**

**+44 1253 866 043 (Dramor)**

Gallwch hefyd gael ffurflen gan eich swyddfa Gwasanaeth Lles Cyn-filwyr agosaf.

# Cyllid

## Pa ddogfennau fydd eu angen arnaf i wneud cais i Gynllun Iawndal y Lluoedd Arfog?

**Os yw eich cais yn ymwneud â digwyddiad neu ddamwain benodol, dylech ddarparu'r dogfennau canlynol neu unrhyw bapurau sydd gennych:**

- Ffurflenni Adroddiad Damweiniau
- Tystysgrifau Loes

## Newid mewn amgylchiadau

Bwriad dyfarniadau o dan Gynllun Iawndal y Lluoedd Arfog yw bod yn llawn a therfynol, gan ystyried datblygiad disgwyliedig anafiadau neu salwch.

Dan rai amgylchiadau, gall penderfyniadau blaenorol i ddyfarnu budd-dal anafiadau gael eu newid os oes datblygiadau pellach wedi bod ers i'r penderfyniad gwreiddiol gael ei wneud. Er enghraifft, os ydych yn teimlo bod eich anaf neu salwch wedi gwaethygu neu wedi achosi anaf pellach i ddatblygu, gallwch ofyn i'ch penderfyniad gwreiddiol gael ei adolygu.

Am fanylion amgylchiadau y gellir cynnal adolygiad yn eu cylch a phryd y gellir newid penderfyniad, cysylltwch â Veterans UK.

Gallwch hefyd gael rhagor o fanylion o'r canllaw gwybodaeth Gov.UK : Iawndal y Lluoedd Arfog: Beth sydd angen i chi ei wybod.

## Sut mae herio Penderfyniad Cynllun Iawndal y Lluoedd Arfog?

Os nad ydych yn cytuno â'r penderfyniad ynghylch eich cais am Gynllun Iawndal y Lluoedd Arfog, gallwch ofyn i'r penderfyniad gael ei ailystyried. Mae hyn yn golygu y bydd eich cais yn cael ei ystyried eto gan swyddog asesu gwahanol.

Rhaid gwneud ceisiadau i ailystyried penderfyniad yn ysgrifenedig, o fewn 12 mis i'r dyddiad ar eich hysbysiad.

**Bydd angen i chi roi rhesymau dros eich cais:**

- Egluro pam rydych chi'n ystyried bod y penderfyniad yn anghywir
- Darparu unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â'ch anaf/salwch na chafodd ei darparu ar y pryd yr ystyriwyd eich cais yn wreiddiol ac y credwch y byddai'n helpu gyda'r ailystyried.

Os gofynnwch i benderfyniad gael eich ailystyried, cewch eich hysbysu yn ysgrifenedig,

**Bydd Veterans UK naill ai'n:**

- Cadarnhau'r penderfyniad gwreiddiol, neu'n
- Newid y penderfyniad gwreiddiol.

Os ydych yn dal o'r farn bod y penderfyniad yn anghywir, gallwch apelio i dribiwnlys annibynnol o fewn 12 mis.

Os yw'r tribiwnlys yn gwrthod eich apêl, gallwch ofyn am y rhesymau ysgrifenedig dros eu penderfyniad. Mae chwe wythnos gennych o dderbyn y rhesymau i apelio yn erbyn eu penderfyniad.

**Mae'r camau y mae'n rhaid i chi eu cymryd er mwyn apelio yn dibynnu ar ble rydych chi'n byw. Gallwch gael rhagor o fanylion am apelio gan Veterans UK:**

**Ffoniwch eu llinell gymorth ar: 0808 1914 2 18 (DU) neu +44 1253 866 043 (Dramor)**

**E-bost: veterans-uk@mod.uk**

**Post: Veterans UK, Norcross, Thornton Cleveleys, Lancashire, FY5 3WP**

## Cynllun Iawndal y Lluoedd Arfog a Motability

Gallwch ddefnyddio rhywfaint o'ch taliad (swm sy'n cyfateb i gydran symudedd cyfradd uchel Lwfans Byw i'r Anabl neu gydran symudedd cyfradd uwch Taliad Annibyniaeth Personol) tuag at logi neu logi-bwrcasu cerbyd trwy'r cynllun Motability.

Fel arfer bydd yn rhaid i chi dalu blaendal ond efallai y bydd modd cael help gyda hyn.

Os ydych chi'n prydlesu'r car, yna mae'r yswiriant, yswiriant torri, a gwaith atgyweirio'n cael ei gynnwys. Mae milltiroedd hyd at derfyn penodol yn cael ei gynnwys yn y pris hefyd.

Os na allwch yrru, neu os yw'n well gennych beidio â gyrru, gallwch enwi hyd at ddau berson arall fel gyrwyr.

Mae Motability hefyd yn cynnig cynllun llogi contract ar gyfer cadeiriau olwyn neu sgwteri sy'n cael eu pweru.

**I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan Motability neu ffoniwch 0300 456 4566 neu anfonwch neges destun at 0300 037 0100**

**Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog** - dewis arall i dderbyn Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) a'r Lwfans Byw I'r Anabl (DLA).

# Beth yw Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog?

Bwriad Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog yw darparu cymorth ariannol i bersonél y lluoedd arfog a chyn-filwyr a anafwyd yn ddifrifol o ganlyniad i wasanaethu er mwyn talu'r costau ychwanegol sydd ganddynt o ganlyniad i'w hanafiadau.

Math: Nid ar sail prawf modd

Trethadwy: Na

## A alla i gael Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog?

Mae Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog yn ddewis arall i dderbyn Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) a'r Lwfans Byw I'r Anabl (DLA). Ni allwch gael Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog a PIP/DLA am yr un cyfnod.

I fod yn gymwys am Daliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog, rhaid i chi fod â hawl i Daliad Incwm Gwarantedig o 50% neu'n uwch o'ch enillion blaenorol drwy Gynllun Iawndal y Lluoedd Arfog.

Os nad ydych yn siŵr o gyfradd eich Taliad Incwm Gwarantedig, gallwch gysylltu â Llinell Gymorth UK Veterans ar 0808 1914 2 18

Os nad oes gennych hawl i ddyfarniad 50% neu drosodd, gallwch barhau i wneud cais am PIP yn y ffordd arferol.

Os byddwch yn derbyn iawndal o'r Cynllun Pensiynau Rhyfel, ni fydd gennych hawl i Daliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog gan fod gennych fynediad at lwfansau eraill sydd wedi'u cynllunio i dalu'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag anabledd.

## Faint o Daliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog fydda i'n ei gael?

Mae Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog yn cael ei dalu ar gyfradd o £156.90 yr wythnos. Mae hyn yr un fath â chyfradd uwch y cydrannau Taliad Annibyniaeth Personol a chyfradd uchaf cydrannau Lwfans Byw i'r Anabl.

### Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog a budd-daliadau eraill

Nid yw Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog yn cael ei gyfrif yn incwm wrth gyfrifo'ch hawl i fudd-daliadau ar sail prawf modd.

### Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog a'r Cap Budd-daliadau

Bydd eich aelwyd yn cael ei heithrio o'r Cap Budd-daliadau os oes gennych chi, eich partner neu berson ifanc cymwys ar eich aelwyd hawl i Daliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog.

**Gallwch ffonio eu llinell gymorth ar:**

**0808 1914 218 (DU) neu**

**+44 1253 866 043 (Dramor)**

# 4 Cyllid

## Oes dyddiad cau ar gyfer gwneud cais?

Nid oes terfynau amser. Fodd bynnag, os ydych yn oedi cyn dychwelyd eich ffurflen hawlio gall effeithio ar y dyddiad y bydd yn dod yn daladwy. Felly dylech ddychwelyd eich ffurflen hawlio mor gynnar â phosibl.

## Newid mewn amgylchiadau

Rhaid i chi roi gwybod am newidiadau yn eich amgylchiadau a allai effeithio ar eich hawl i'r budd-dal hwn i Veterans UK.

Fe allech apelio os cafodd eich cais ei wrthod neu os ydych yn credu bod y math o ddyfarniad a roddwyd i chi yn anghywir - er enghraifft, os nad ydych o'r farn bod eich anabledd wedi cael ei asesu'n gywir.

Cysylltwch â Llinell Gymorth Veterans UK ar 0808 1914 218 i gael gwybodaeth am herio penderfyniad neu ewch i i'w gwefan.

Cynllun Pensiwn Rhyfel - os oes gennych salwch neu anaf wedi'i achosi gan wasanaeth yn y Lluoedd Arfog cyn 6 Ebrill 2005 ac nad ydych bellach yn gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog.

Efallai eich bod yn gymwys i gael cymorth gyda chostau tai hefyd.

# Beth yw'r Cynllun Pensiynau Rhyfel?

Mae'r Cynllun Pensiynau Rhyfel yn rhoi cymorth ariannol os oes gennych salwch neu anaf a achoswyd gan wasanaethu yn y Lluoedd Arfog cyn 6 Ebrill 2005.

Gall hefyd helpu os ydych chi'n ŵr, gwraig neu'n bartner sifil i filwr a fu farw o ganlyniad i wasanaethu yn y Lluoedd Arfog. Yn achos partneriaid di-briod, rhaid dangos perthynas sylweddol.

Mae'r Cynllun Pensiynau Rhyfel yn cynnwys naill ai pensiwn wythnosol neu cyfandaliad untro.

Yn berthnasol i: Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon

Rheolau oedran: Rhaid i chi fod o oedran cyfreithiol i ymuno â'r Lluoedd Arfog

Math: ddim ar sail prawf modd

Trethadwy: Na

Gweinyddir gan: Veterans UKK

# Alla i wneud cais i'r Cynllun Pensiynau Rhyfel?

## Personél sy'n gwasanaethu a Chyn-filwyr

Mae'n bosib y gallwch chi gael help ariannol o'r Cynllun Pensiynau Rhyfel os oes gennych salwch neu anaf a achosir gan wasanaeth yn y Lluoedd Arfog cyn 6 Ebrill 2005 ac nad ydych bellach yn gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog.

Os oes gennych salwch neu anaf a achosir gan wasanaeth yn y Lluoedd Arfog ar neu ar ôl 6 Ebrill 2005, efallai y cewch gymorth gan gynllun Iawndal y Lluoedd Arfog yn lle hynny.

# Cyllid

### Partneriaid Gweddw Personél y Lluoedd Arfog oedd yn gwasanaethu

Efallai y bydd gennych hawl i Bensiwn Gweddw Rhyfel o'r Cynllun Pensiynau Rhyfel os oedd marwolaeth eich priod neu bartner sifil o ganlyniad i'w gwasanaeth yn y Lluoedd Arfog cyn 6ed Ebrill 2005.

Os digwyddodd y farwolaeth ar neu ar ôl 6ed Ebrill 2005 tra'n parhau i wasanaethu yn y Lluoedd Arfog, efallai y byddwch yn gymwys ar gyfer Cynllun Iawndal y Lluoedd Arfog yn lle hynny.

Nid oes gennych hawl i Bensiwn Gweddw Rhyfel yn ogystal â budd-dal Profedigaeth. Fodd bynnag, mae Pensiwn Gweddw Rhyfel fel arfer yn cael ei dalu ar gyfradd uwch ac mae'n ddi-dreth.

## Faint alla i gael o'r Cynllun Pensiynau Rhyfel?

### Personél sy'n gwasanaethu a Chyn-filwyr

Mae'r Pensiwn Rhyfel Sylfaenol yn cael ei gyfrifo yn seiliedig ar eich lefel o anabledd fel canran. Os byddwch yn cael eich asesu ar 20% neu fwy yna byddwch yn derbyn pensiwn wythnosol. Os byddwch yn cael eich asesu ar lai nag 20% byddwch yn derbyn cyfandaliad untro yn lle hynny.

Os byddwch yn cael Pensiwn Rhyfel, efallai y bydd gennych hawl hefyd i lwfansau ychwanegol.

Gweler gwefan Gov.UK am gyfraddau'r Cynllun Pensiwn Rhyfel o fis Ebrill 2022.

### Partneriaid Gweddw Personél y Lluoedd Arfog oedd yn gwasanaethu

Mae'r Cynllun Pensiwn Rhyfel yn cynnwys Pensiwn Gweddw/Gweddw Rhyfel sydd â chyfradd uwch a chyfradd is.

**Byddwch yn cael y gyfradd is oni bai eich bod yn bodloni un o'r meini prawf canlynol ar gyfer y gyfradd uwch:**

- Chi yw gweddw swyddog uwchben rheng Uwchgapten neu gyfatebol; neu
- Rydych chi'n 40 oed neu'n hŷn; neu
- Rydych o dan 40 oed ac yn cael lwfans ar gyfer plentyn; neu
- Rydych chi o dan 40 oed ac yn methu â chynnal eich hun yn ariannol.

## Bonws Nadolig

Os ydych yn derbyn Pensiwn Gweddw Rhyfel, rydych hefyd yn gymwys ar gyfer Bonws Nadolig bob blwyddyn. Fel arfer, £10 yw hyn. Nid oes angen i chi wneud cais am y bonws: mae'n cael ei dalu'n awtomatig. Nid yw'n effeithio ar unrhyw fudd-daliadau eraill y gallech eu cael.

### Sut bydda i'n cael fy nhalu o'r Cynllun Pensiynau Rhyfel?

Gwneir taliadau'n uniongyrchol i'ch banc, cymdeithas adeiladu neu ddarparwyr cyfrifon eraill.

### Cynllun Pensiynau Rhyfel a budd-daliadau eraill

Os byddwch yn derbyn lwfansau ychwanegol ar ben eich Pensiwn Rhyfel sylfaenol, gall rhai o'r lwfansau ychwanegol hyn effeithio ar eich hawl i fudd-daliadau eraill sy'n seiliedig ar brawf modd. Rhaid i chi hysbysu'r swyddfeydd budd-daliadau perthnasol, awdurdodau lleol a swyddfa credyd treth os byddwch yn derbyn taliad o dan y Cynllun Pensiwn Rhyfel.

### Cap budd-daliadau a'r Cynllun Pensiynau Rhyfel

Os byddwch yn derbyn Pensiwn Rhyfel neu Bensiwn Gweddw Rhyfel, bydd eich aelwyd yn cael ei heithrio o'r Cap Budd-daliadau.

## Sut ydw i'n gwneud cais i'r Cynllun Pensiynau Rhyfel?

### Personél a Chyn-filwyr y Lluoedd Arfog

Dylech gysylltu â Veterans UK i gael ffurflen hawlio. Byddan nhw hefyd yn eich helpu i'w llenwi.

**Gallwch ffonio eu llinell gymorth ar:**

**0808 191 4218 (DU) neu**

**+44 1253 866043 (Dramor)**

Gallwch lawrlwytho ffurflen hawlio oddi ar wefan Veterans UK

Dylech wneud cais o fewn pum mlynedd i'r digwyddiad a achosodd yr anaf neu'r salwch.

### Partneriaid Gweddw Personél y Lluoedd Arfog oedd yn gwasanaethu

Dylech gysylltu â Veterans UK i gael ffurflen hawlio. Gall swyddog lles Pensiynau Rhyfel ymweld â chi i'ch helpu i hawlio hyn ac unrhyw beth arall y mae'n bosib y bydd gennych hawl iddo.

**Gallwch ffonio eu llinell gymorth ar:**

**0808 191 4218 (DU) neur**

**+44 1253 866043 (Dramor)**

Gallwch hefyd gael ffurflen gan eich swyddfa Gwasanaeth Lles Cyn-filwyr agosaf.

Gallwch lawrlwytho ffurflen hawlio oddi ar wefan Veterans UK

## Pa ddogfennau fydd eu hangen arnaf i wneud cais i'r Cynllun Pensiynau Rhyfel?

Mae'n rhaid i chi amgáu unrhyw dystiolaeth rydych o'r farn y bydd yn cefnogi eich cais, fel llythyrau neu adroddiadau gan feddyg, ymgynghorydd neu ysbyty, eich Tystysgrif neu Ddatganiad o Wasanaeth neu Ffurflen Adroddiad Damweiniau.

## Pryd fydd fy hawliad Pensiwn Rhyfel yn dechrau?

Y nod yw talu hawliadau Pensiwn Rhyfel o fewn 52 diwrnod gwaith ar gyfartaledd. Mae rhai achosion yn cymryd mwy o amser nag eraill, yn syml, am eu bod yn fwy cymhleth.

### Newid mewn amgylchiadau

Rhaid i chi roi gwybod i Veterans UK am newidiadau yn eich amgylchiadau a allai effeithio ar eich hawl i'r budd-dal hwn

## Sut mae herio penderfyniad Cynllun Pensiynau Rhyfel?

Os yw eich cais yn aflwyddiannus, gallwch ofyn i Veterans UK ailystyried eu penderfyniad. Ewch i wefan Veterans UK am ragor o wybodaeth.

Fe allech apelio os cafodd eich cais ei wrthod neu os ydych o'r farn bod y math o ddyfarniad a roddwyd i chi yn anghywir, er enghraifft, os nad ydych o'r farn bod eich anabledd wedi cael ei asesu'n gywir.

Cysylltwch â Llinell Gymorth Veterans UK ar 0808 1914 218 i gael gwybodaeth am herio penderfyniad.

## Taliad Annibyniaeth Personol (PIP)?

Arian i bobl sydd ag anghenion gofal ychwanegol neu anghenion symudedd (anhawster symud o gwmpas) yw'r Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) o ganlyniad i anabledd.

**Ceir dwy ran:**

- y gydran byw bod dydd, a'r
- gydran symudedd.

Efallai y byddwch yn gymwys i gael un neu'r ddau ohonynt.

Mae PIP yn disodli'r Lwfans Byw i'r Anabl i bobl 16 oed - oedran pensiwn.

Mae'r canllaw hwn yn rhoi trosolwg o'r Taliad Annibyniaeth Personol.

Rhestrir isod ragor o ganllawiau a allai eich helpu os ydych yn hawlio PIP:

Hawlio Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) – Canllaw cam wrth gam i hawlio PIP, gan gynnwys awgrymiadau ar gyfer y ffurflen hawlio a'r asesiad.

Prawf Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) - Canllaw i'r rheolau ar gyfer cael PIP, gan gynnwys faint o bwyntiau allwch chi eu cael yn y Prawf PIP.

Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) a Help Arall – Canllaw i'r help arall y gallwch ei gael pan fyddwch yn cael PIP, gan gynnwys Motability, consesiynau teithio a symiau ychwanegol o fudd-daliadau eraill.

# 4 Cyllid

Herio penderfyniad Taliad Annibyniaeth Personol – Canllaw cam wrth gam ar gyfer datrys penderfyniad anghywir.

Yn berthnasol i: Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon

Rheolau oedran: Rhaid i chi fod yn 16 oed neu'n hŷn ond o dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth pan fyddwch yn hawlio am y tro cyntaf.

Os oes gennych blentyn sydd â salwch, anaf neu anabledd, gweler Lwfans Byw i'r Anabl - plant.

Os ydych chi dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth, gweler Lwfans Gweini

Math: ddim ar sail prawf modd

Trethadwy: Na

## Alla i gael Taliad Annibyniaeth Personol (PIP)?

Efallai y bydd gennych hawl i'r Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) os oes gennych anghenion byw a/neu symudedd bob dydd.

Oni bai eich bod yn derfynol wael neu rydych yn trosglwyddo i PIP o Lwfans Byw i'r Anabl

**Oni bai eich bod yn derfynol sâl neu eich bod yn trosglwyddo i PIP o'r Lwfans Byw i'r Anabl, rhaid i'ch anghenion:**

- Fod wedi para am y tri mis diwethaf, a
- Bod disgwyl iddynt barhau am y naw mis nesaf

## Anghenion byw bob dydd

**Efallai fod gennych anghenion byw bob dydd os yw eich anabledd neu gyflwr iechyd yn golygu eich bod angen help i wneud y pethau hyn i ofalu amdanoch eich hun:**

- Gwneud bwyd neu goginio
- Bwyta ac yfed
- Cymryd eich meddyginiaeth
- Gwneud eich triniaeth eich hun
- Ymolchi a chael bath
- Mynd i'r tŷ bach
- Gwisgo a dadwisgo
- Siarad
- Darllen a deall
- Cymdeithasu
- Trin arian

Does dim ots a ydych chi mewn gwirionedd yn cael yr help sydd ei angen arnoch.

Gall help gynnwys pethau fel eich annog neu eich atgoffa i wneud rhywbeth.

# Cyllid

## Anghenion symudedd

Efallai fod gennych anghenion symudedd os oes angen help arnoch i symud o gwmpas y tu allan i'ch cartref yn annibynnol.

Er enghraifft, efallai y byddwch yn cyfrif fel rhywun ag anghenion symudedd os oes angen help arnoch i gynllunio a dilyn taith oherwydd anhawster dysgu, mater iechyd meddwl neu nam synhwyraidd.

Efallai eich bod yn cyfrif fel bod gennych anghenion symudedd os ydych yn cael trafferth cerdded neu'n methu â cherdded.

## Pa help sy'n cyfrif

**Rydych yn cyfrif fel rhywun sydd angen help i wneud gweithgaredd os oes angen person neu rywbeth arnoch:**

- i'w wneud e drosoch chi
- i'w wneud e gyda ch
- eich atgoffa i'w wneud
- eich gwylio chi'n gwneud hynny i'ch cadw'n ddiogel

**Efallai eich bod chi'n cyfrif fel rhywun sydd angen help os ydych chi angen help ond ddim yn ei gael mewn gwirionedd. Er enghraifft, os ydych chi'n gwneud gweithgaredd eich hun ond:**

- Dyw e ddim yn ddiogel
- Ni allwch ei wneud yn ddigon da
- Ni allwch ei wneud yn ddigon aml
- Mae'n cymryd amser hir i chi.

## Beth yw Lwfans Gweini?

Arian ar gyfer pobl oed pensiwn neu hŷn sydd ag anghenion gofal yw Lwfans Gweini. Efallai fod gennych anghenion gofal os oes angen help arnoch gyda gweithgareddau byw bob dydd, fel gwisgo, mynd i'r tŷ bach neu gael rhywun i ofalu amdanoch chi fel nad ydych chi ddim yn brifo eich hun.

Gallai gynnwys help y tu allan i'r cartref. Does dim ots os nad oes unrhyw un yn rhoi'r help hwn mewn gwirionedd, cyn belled â'ch bod yn gallu dangos eich bod ei angen.

Gallwch fod ag unrhyw fath o anabledd neu salwch, gan gynnwys nam ar y golwg neu nam ar y clyw, neu faterion iechyd meddwl fel dementia neu iselder.

Nid yw Lwfans Gweini yn cynnwys anghenion symudedd.

I hawlio Lwfans Gweini, mae'n rhaid eich bod wedi bod wedi cael cymorth gyda'ch anghenion gofal am o leiaf 6 mis. (Os ydych chi'n derfynol wael, gallwch wneud hawliad yn syth.)

Telir Lwfans Gweini ar ddwy gyfradd wahanol ac mae faint rydych yn ei gael yn dibynnu ar lefel y gofal sydd ei angen arnoch oherwydd eich anabledd.

Nid yw Lwfans Gweini ar sail prawf modd, felly nid yw eich incwm a'ch cynilion yn cael eu hystyried wrth asesu os ydych yn gymwys i gael y budd-dal.

Ni fydd hawlio Lwfans Gweini yn lleihau unrhyw incwm arall a gewch. Os dyfernir Lwfans Gweini i chi, efallai y bydd gennych hawl i dderbyn budd-daliadau eraill, fel Credyd Pensiwn, Budd-dal Tai neu Ostyngiad Treth Cyngor, neu gynnydd.

Yn berthnasol i: Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon

Rheolau oedran: Rhaid i chi fod o Oedran Pensiwn neu'n hŷn

Os ydych chi o dan oedran pensiwn, gweler ein canllaw Taliad Annibyniaeth Personol

Math: ddim ar sail prawf modd

## Beth yw'r Lwfans Cyflogaeth a  Chymorth (ESA)?

Arian yw'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar gyfer pobl sydd â gallu cyfyngedig i weithio oherwydd eu salwch neu anabledd ond nad ydynt yn cael Tâl Salwch Statudol.

### Mae dau fath:

- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ag incwm
- Cyfrannol/Lwfans Cyflogaeth a Chymorth Dull Newydd

Mae'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ag Incwm yn cael ei ddisodli gan Gredyd Cynhwysol. Ewch i'r dudalen Alla i gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth? yn y  canllaw hwn am wybodaeth am bwy sy'n dal i allu hawlio.

Yn berthnasol i: Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon

Rheolau oedran: Rhaid i chi fod yn 16 oed neu'n hŷn ac o dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Math o fudd-dâl:

Mae ESA sy'n gysylltiedig ag incwm yn golygu nad  yw

ESA Cyfrannol ar sail prawf modd

Trethadwy:

Nid yw ESA sy'n gysylltiedig ag incwm yn drethadwy

Mae ESA Cyfrannol yn drethadwy

# Cyllid

## Beth yw Credyd Cynhwysol (UC)?

Mae Credyd Cynhwysol yn fudd-dal sy'n seiliedig ar brawf modd i bobl o oedran gwaith sydd ar incwm isel.

### Mae'n disodli chwe budd-dal sy'n seiliedig ar brawf modd:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Incwm (JSA)
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn gysylltiedig ag Incwm (ESA)
- Budd-dal Tai
- Credyd Treth Plant
- Credyd Treth Gwaith.

Mae'r chwe budd-dal uchod hefyd yn cael eu galw'n fudd-daliadau etifeddol.

Mae Credyd Cynhwysol yn cael ei dalu'n fisol. (Yn yr Alban, gallwch ddewis taliad Credyd Cynhwysol ddwywaith y mis).

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn cyfrifo faint o arian gewch chi mewn dau gam:

1. Mae'n cyfrifo beth mae'n credu y dylai fod angen arnoch i chi fyw arno, ar sail amgylchiadau eich cartref, yna
2. Mae'n didynnu rhywfaint o'r incwm sydd gennych chi'n dod i mewn.

## Hawlio budd-daliadau etifeddol yn barod?

Does dim angen i chi wneud unrhyw beth os ydych eisoes yn hawlio budd-daliadau etifeddol sy'n bodoli eisoes ac mae eich sefyllfa'n aros yr un fath. Os ydy'ch amgylchiadau wedi newid, gweler Newid o fudd-daliadau eraill

Yn berthnasol i: Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon

Math o fudd-dâl: Ar sail prawf modd

Trethadwy: Na

## A alla i gael Credyd Cynhwysol?

Mae p'un a allwch chi hawlio Credyd Cynhwysol yn dibynnu ar eich amgylchiadau personol. Os ydych yn derbyn unrhyw fudd-daliadau etifeddol, byddwch yn eu colli os byddwch yn hawlio Credyd Cynhwysol, ac ni fyddwch yn gallu mynd yn ôl arnynt.

### I hawlio Credyd Cynhwysol mae'n rhaid:

- Eich bod yn 18 oed neu'n hŷn (gall rhai pobl ifanc o dan 18 oed hawlio Credyd Cynhwysol. Gweler ein canllaw i bobl ifanc 16-18 oed)
- Eich bod ym Mhrydain

- Nad ydych mewn addysg (gall rhai pobl mewn addysg hawlio Credyd Cynhwysol. Gweler ein canllawiau ar gyfer myfyrwyr llawn amser a myfyrwyr rhan amser)
- Eich bod wedi derbyn ymrwymiad ceisydd (oni bai bod gennych salwch terfynol neu ddiffyg gallu meddyliol).

Os oes gennych bartner, byddwch yn gwneud cais ar y cyd fel pâr. Os nad yw un ohonoch yn bodloni unrhyw un o'r amodau uchod, bydd y person hwnnw'n cael ei anwybyddu at ddibenion cyfrifo'r uchafswm Credyd Cynhwysol - er y bydd eu cynilion/cyfalaf, incwm ac enillion yn dal i gael eu hystyried.

Gan amlaf, mae'n rhaid i chi fod o dan oedran pensiwn. Os ydych yn byw gyda phartner ac mae un ohonoch dros oedran pensiwn ac mae un o dan, gallwch hawlio Credyd Cynhwysol. Fodd bynnag, efallai y bydd gennych opsiynau eraill hefyd. Defnyddiwch ein Cyfrifiannell Budd-daliadau i weld eich holl opsiynau.

## Beth os ydw i'n anabl?

Gall y rhan fwyaf o bobl sydd â salwch neu anabledd hawlio Credyd Cynhwysol.

## Beth os ydw i dros oedran Credyd Pensiwn?

Mae Credyd Cynhwysol yn cael ei dalu i bobl oed gwaith ac nid yw'n fudd-dâl i bobl sydd wedi cyrraedd oedran Credyd Pensiwn. Byddech yn hawlio Credyd Pensiwn yn lle Credyd Cynhwysol.

Os yw un aelod o bâr o oed pensiwn a'r llall o oed gweithio, fel arfer bydd angen i chi hawlio Credyd Cynhwysol. Mae rhai eithriadau i hyn. Defnyddiwch ein Cyfrifiannell Budd-daliadau i wirio pa fudd-daliadau y gallwch eu hawlio.

## Oes angen i mi hawlio Credyd Cynhwysol?

Os ydych eisoes yn hawlio unrhyw un o'r budd-daliadau y mae Credyd Cynhwysol yn eu disodli, gallwch barhau i gael eich budd-daliadau. Os oes bydd eich amgylchiadau yn newid sy'n golygu bod eich hawliadau presennol am y budd-daliadau hyn yn dod i ben, ni fyddwch yn gallu gwneud cais newydd am unrhyw un o'r budd-daliadau y mae Credyd Cynhwysol yn eu disodli.

Does dim rhaid i neb hawlio Credyd Cynhwysol. Fodd bynnag, efallai y byddwch yn gweld bod newid mewn amgylchiadau yn golygu bod angen help arnoch sydd bellach yn cael ei ddarparu drwy'r Credyd Cynhwysol.

Os ydy'ch amgylchiadau wedi newid, dylech siarad â chynghorydd i weld a yw hyn yn golygu y dylech wneud cais am Gredyd Cynhwysol.

Yn y dyfodol, bydd pawb yn cael eu symud ymlaen i Gredyd Cynhwysol trwy broses mudo rheoledig. Ar hyn o bryd, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn bwriadu cwblhau mudo rheoledig erbyn diwedd 2024.

Newid o fudd-daliadau eraill i Gredyd Cynhwysol

Os ydy'ch amgylchiadau wedi newid, sy'n golygu bod eich hen fudd-daliadau wedi stopio neu rydych chi wedi penderfynu y byddech chi'n hoffi dewis symud i Gredyd Cynhwysol, mae yna ambell beth i feddwl amdanyn nhw a rhai cwestiynau cyffredin sydd gan bobl.

# Cyllid

## Beth fydd yn digwydd i fy mudd-daliadau eraill?

Os ydych chi'n derbyn Credyd Treth Gwaith neu Gredyd Treth Plant, byddant yn stopio cyn gynted ag y byddwch yn gwneud eich cais am Gredyd Cynhwysol. Weithiau mae adran credydau treth Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) yn araf i ganslo ceisiadau. Gall hyn olygu eich bod yn derbyn gordaliad o gredydau treth a bydd yn rhaid i chi eu talu'n ôl.

Os ydych chi'n cael Gofal Plant di-dreth, bydd eich cyfrif yn cael ei gau cyn gynted ag y byddwch yn hawlio Credyd Cynhwysol.

### Os ydych chi'n cael unrhyw un o'r budd-daliadau hyn, byddant yn stopio bythefnos ar ôl i chi wneud eich cais am Gredyd Cynhwysol:

- Budd-dal Tai (Lloegr, yr Alban, Cymru) neu Fudd-dal Tai (Gogledd Iwerddon)
- Lwfans Ceisio Gwaith yn gysylltiedig ag incwm (JSA)
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiiedig ar incwm (ESA)
- Cymhorthdal Incwm

Os ydych chi'n cael Gostyngiad/Cymorth Treth Cyngor, dylech gysylltu â'ch cyngor i roi gwybod iddyn nhw eich bod wedi hawlio Credyd Cynhwysol.

Dylai unrhyw fudd-daliadau eraill rydych chi'n eu cael barhau i gael eich talu yr un fath ag arfer.

## Os nad ydw i'n hoffi Credyd Cynhwysol, oes modd i mi newid yn ôl?

Nac oes. Unwaith y byddwch wedi dechrau hawlio Credyd Cynhwysol, ni fyddwch yn gallu symud yn ôl i'ch hen fudd-daliadau.

Mae eithriad i hyn ar gyfer pobl sydd wedi dioddef twyll hunaniaeth ac mae ceisiadau am Gredyd Cynhwysol wedi cael eu gwneud yn eu henw ond heb iddynt wybod amdano.

Os yw hyn wedi digwydd i chi, dylech gael cyngor ar sut i gael eich hen fudd-daliadau wedi eu hailddechrau.

## A fydda i yn well fy myd ar Gredyd Cynhwysol?

### Defnyddiwch ein Cyfrifiannell Budd-daliadau

Mae rhai pobl yn gweld eu bod nhw'n well eu byd ar Gredyd Cynhwysol a rhai ddim. Y ffordd orau o wirio yw defnyddio ein Cyfrifiannell Budd-daliadau i weld beth rydych chi'n gallu ei gael o dan y ddwy system.

### Diogelwch trosiannol

Er y bydd pawb yn cael eu symud i Gredyd Cynhwysol yn y pen draw, gwneir hyn drwy broses o wahoddiad. Bydd pobl sy'n cael y gwahoddiad i symud ymlaen i Gredyd Cynhwysol yn cael taliadau diogelwch trosiannol er mwyn sicrhau nad ydynt yn waeth eu byd ar Gredyd Cynhwysol nag ar eu hen fudd-daliadau. Ni fyddwch yn cael y diogelwch trosiannol os byddwch yn penderfynu drosoch eich hun i symud i Gredyd Cynhwysol.

# 4 Cyllid

### Sut mae'r aros am bum wythnos yn effeithio ar eich taliadau

Hyd yn oed os yw eich canlyniadau'n dangos y byddech yn well eich byd ar Gredyd Cynhwysol, mae'n bwysig cofio na fyddwch yn cael unrhyw daliad am y pum wythnos gyntaf ar ôl i chi wneud eich cais. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn gweld bod angen blaenswm i'w cael nhw drwy'r cyfnod cyntaf hwn. Benthyciad sy'n gorfod cael ei dalu'n ôl dros 24 mis yw blaenswm. Mae hyn yn golygu, am ddwy flynedd o'ch Credyd Cynhwysol, y byddwch yn derbyn llai o arian.

Yn gyffredinol, mae blaensymiau'n cael eu cymryd yn ôl ar 25% o'ch lwfans safonol.

- Ar gyfer person sengl dan 25 oed, mae'n £64.33 y mis
- Ar gyfer person sengl 25 neu hŷn, mae'n £81.21 y mis
- Ar gyfer pâr lle mae'r ddau o dan 25 oed, mae'n £100.98 y mis
- Ar gyfer pâr lle mae un neu'r ddau yn 25 oed neu'n hŷn, mae'n £127.48 y mis.

## Os ydw i'n hawlio Credyd Cynhwysol, a fydd rhaid i mi chwilio am waith?

Dan Gredyd Cynhwysol, mae disgwyl i fwy o bobl chwilio am waith nag yn yr hen system fudd-daliadau.

Os ydych chi wedi bod yn hawlio Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) neu Gymhorthdal Incwm fel pâr, ni fyddai disgwyl i'r naill na'r llall ohonoch chi chwilio am waith. Unwaith y byddwch yn symud ymlaen i Gredyd Cynhwysol, efallai y bydd disgwyl i un neu'r ddau ohonoch chwilio am waith.

Mae p'un a oes rhaid chwilio am waith pan fyddwch yn hawlio Credyd Cynhwysol yn dibynnu ar amgylchiadau pob unigolyn. Dysgwch fwy am yr hyn y mae'n rhaid i chi ei wneud i gael Credyd Cynhwysol.

## Ble alla i gael mwy o gyngor?

Mae Cyngor ar Bopeth yn gweithredu llinell gymorth i bobl yng Nghymru, Lloegr a'r Alban lle gallwch gael cyngor i weld a ydy Credyd Cynhwysol yn iawn i chi ai peidio.

**Cymru: 08000 241 220 (Relay UK: 18001 08000 241 220)**

# Pensiynau

## Pensiynau Gwasanaeth nas Hawliwyd

Os buoch yn gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog ar ôl Ebrill 1975, gallech fod â phensiwn nas hawliwyd. Mae pensiynau AFPS 75 a enillwyd cyn Ebrill 2005 yn daladwy yn 60 oed.

I hawlio'ch pensiwn a gadwyd, ewch i wefan Veterans UK a llenwi Ffurflen AFPS 8. Ni fyddwch yn derbyn y pensiwn yn awtomatig - bydd yn rhaid i chi hawlio. Dylech anfon y ffurflen 3 mis cyn y bydd eich pensiwn yn ddyledus. Os yw'r dyddiad hwn wedi mynd heibio gallwch barhau i hawlio gan ddefnyddio'r un ffurflen.

### Oes pensiwn yn ddyledus i mi?

I ddechrau, bu'n rhaid i unigolion wasanaethu am bum mlynedd a bod o leiaf 26 oed i fod yn gymwys. O fis Ebrill 1988, gostyngodd cyfnod cymwysterau i ddwy flynedd o wasanaeth cyflogedig o 18 oed (21 ar gyfer Swyddogion).

**Yr unig gyn-filwyr na fydd byth yn derbyn pensiynau yw'r rhai sydd:**

- Wedi gadael cyn Ebrill 1975 heb bensiwn yn syth.
- Ond wedi gwasanaethu am gyfnod byr iawn.
- Wedi trosglwyddo eu pensiynau a gadwyd allan o'r AFPS.
- Wedi gwasanaethu ar delerau enillion arian rhodd yn hytrach na thelerau pensiwn.
- Wedi fforffedu eu pensiwn am resymau disgyblu.

### Faint fydda i'n cael fy nhalu?

Bydd eich pensiwn yn cynyddu'n flynyddol gyda chwyddiant o 55 oed ymlaen, ac efallai y byddwch yn gymwys i gael cyfandaliad di-dreth pan fyddwch yn hawlio.

**Er enghraifft:**

- Byddai gan rywun a adawodd y gwasanaeth ym mis Ebrill 1978 gyda phensiwn a gadwyd o £800 bellach bensiwn a gadwyd o dros £4,500 a chyfandaliad o dros £13,500.
- Byddai gan rywun a adawodd ym mis Ebrill 1982 gyda phensiwn a gadwyd o £1,100 bellach bensiwn a gadwyd o tua £4,000 a chyfandaliad pensiwn a gadwyd o bron £12,000.
- Byddai gan rywun a adawodd ym mis Ebrill 1985 gyda phensiwn a gadwyd o £1,500 bellach bensiwn a gadwyd o ychydig dros £4,500 a chyfandaliad pensiwn a gadwyd o ychydig dros £13,500.

# 4 Cyllid

### Am wybodaeth am bensiynau a gadwyd, cysylltwch â Veterans UK:

**Rhif ffôn: 0800 085 3600 or +44 141 224 3600 os ydych yn ffonio o dramor**

**E-bost: dbs-pensionshelp@dbspv.mod.uk**

**Post: Veterans UK, Pensions Division, Mail Point 480, Kentigern House, 65 Brown Street, Glasgow G2 8EX**

## Cymdeithas Pensiynau'r Lluoedd Arfog

Corff gwarchod pensiynau milwrol nid-er-elw

Mae Cymdeithas Pensiynau'r Lluoedd Arfog yn sefydliad

annibynnol, nid-er-elw sy'n gweithredu fel corff gwarchod pensiynau ar gyfer y gymuned filwrol gyfan.

Mae'r Gymdeithas yn grymuso ei haelodau i wneud dewisiadau gwell, hyddysg am eu Pensiwn Lluoedd Arfog. Rydyn ni'n darparu canllawiau pensiwn personol i aelodau o Gynlluniau Pensiwn y Lluoedd Arfog a'u partneriaid. Rydyn ni'n dylanwadu ar yr 'haen uchaf', gan weithio ar y cyd â'r llywodraeth ar gyfer darparu eich pensiwn yn briodol.

Mae'r gymdeithas yn rhedeg cyfres o sioeau teithiol a sesiynau addysgol eraill i baratoi cymuned y Lluoedd Arfog yn well ar bob mater yn ymwneud â phensiynau. Mae'r aelodau yn derbyn amrywiaeth o fudd-daliadau gan gynnwys gostyngiadau a bargeinion sylweddol ar draws ystod eang o nwyddau a gwasanaethau masnachol.

Mae ein harbenigwyr pensiynau yn helpu ein Haelodau i lywio eu ffordd drwy'r drysfa pensiynau gan eu grymuso i wneud penderfyniadau gwell a gwybodus.

**Ymholiadau cyffredinol**

**+44(0) 20 7820 9988**

**memsec@forpen.co.uk**

**Cyfeiriad swyddfa**

The Forces Pension Society
68 South Lambeth Road
London
SW8 1RL

## Mudiadau Cymorth

### Undeb Credyd Caerdydd a'r Fro

**Gall Undeb Credyd Caerdydd a'r Fro gynnig nifer o wasanaethau i drigolion y Fro a'i gweithwyr:**

- Cyfrifon Cynilo Oedolion
- Benthyciadau o gyn lleied â £100
- Cyfrifon Cynilwyr Iau
- Benthyciadau ar gyfer nwyddau a chyfarpar i'r cartref ar gyfraddau cystadleuol drwy ein cynllun gyda'r Cwmni Cydweithredol

**Mae rhagor o wybodaeth ar wefan Undeb Credyd Caerdydd a'r Fro.
https://www.cardiffcu.com/**

## Cyngor ar Bopeth

### Sut mae'r aros am bum wythnos yn effeithio ar eich taliadau

Mewn bywyd gall pawb wynebu problemau sy'n heriol. Yn Cyngor ar Bopeth, credwn na ddylai neb orfod wynebu'r problemau hyn heb gyngor annibynnol o ansawdd da. Dyna pam rydyn ni yma: i roi'r wybodaeth a'r hyder sydd eu hangen ar bobl i ganfod eu ffordd ymlaen – pwy bynnag ydyn nhw, a beth bynnag fo'u problem.

### Rydym yn rhoi cyngor i filiynau o bobl

Mae ein rhwydwaith o elusennau annibynnol yn cynnig cyngor cyfrinachol ar-lein, dros y ffôn, ac yn bersonol, am ddim. Pan rydyn ni'n dweud ein bod ni'n sefyll dros bawb, rydyn ni'n golygu hynny. Mae pobl yn dibynnu arnon ni achos rydyn ni'n annibynnol ac yn hollol ddiduedd.

Gallwch gysylltu â chynghorydd drwy ein gwasanaeth ffôn cenedlaethol, Advicelink rhwng 9am a 5pm, dydd Llun i ddydd Gwener:

**Advicelink: 0800 702 2020**

**Neges Relay (Saesneg): 18001 ac yna 0800 144 8884**

**https://www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/**

## Forces MoneyPlan

Mae Forces MoneyPlan, menter pro-bono sy'n cynnig arweiniad ariannol cyfrinachol am ddim i holl bersonél y Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr. Darperir yr holl ganllawiau gan ymgynghorwyr ariannol cymwys ac aelodau o'r Gymdeithas Cyllid Personol, sydd wedi gwirfoddoli eu hamser a'u harbenigedd. Mae Forces MoneyPlan yn galluogi unigolion i fod yn fwy gwybodus am eu lles ariannol ac yn llai agored i gamwybodaeth a sgamiau.

**Gwefan: Forces MoneyPlan**

**E-bost: ar gyfercesmoneyplan@thepfs.org**

**Ffôn: 0207 397 1168**

## Money Helper

Mae MoneyHelper yn cyfuno canllawiau arian a phensiynau i'w gwneud yn gyflymach ac yn haws dod o hyd i'r help cywir. Mae MoneyHelper yn dwyn ynghyd gwasanaethau a chymorth tri darparwr cyngor ariannol a gefnogir gan y llywodraeth: y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, y Gwasanaeth Cynghori Pensiynau a Pension Wise.

**Cyswllt: 0800 011 3797**

**www.moneyhelper.org.uk**

## Cyngor Ariannol

Gall tenantiaid cyngor sydd angen cymorth gyda materion ariannol gysylltu â'r Tîm Cyngor Ariannol.

Er bod y tîm yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser yn helpu tenantiaid sydd ag ôl-ddyledion, gallant gefnogi unrhyw un sydd angen cymorth gyda'u harian.

**Angen help?**

**moneyadvice@valeofglamorgan.gov.uk**

**01446 709312 / 01446 709588 / 01446 709146**

# Cyllid

## Cyngor Ariannol Caerdydd

Help gyda rheoli eich arian a'ch dyledion

Gall delio â materion ariannol fod yn ddryslyd, ond os nad ydych chi'n deall sut mae pethau fel credyd neu forgeisi yn gweithio, fe allech chi golli allan yn ariannol neu gael eich hun mewn dyled yn y pen draw.

Os ydych chi'n cael trafferth rheoli eich arian, gallwn gynnig help a chefnogaeth mewn nifer o feysydd fel cyllidebu, gwneud y mwyaf o'ch incwm a rheoli dyledion.

Ewch i'n gwefan www.cardiffmoneyadvice.co.uk am gymorth a chyngor pellach neu ffoniwch y Llinell Gyngor ar 029 2087 1071.

## StepChange

Gallwch dderbyn cyngor arbenigol gan StepChange, elusen genedlaethol sy'n helpu'r rhai sydd mewn dyled. Byddan nhw'n cymryd manylion eich dyledion ac yn eich helpu i greu cyllideb bersonol. Byddan nhw'n defnyddio'r wybodaeth hon i weld beth yw'ch opsiynau a rhoi cynllun gweithredu personol i chi yn egluro beth i'w wneud nesaf. Gallwch gael y cymorth hwn ar-lein drwy Debt Remedy neu drwy ffonio eu llinell gymorth ar 0800 138 1111.

## Gwasanaeth Budd-daliadau, Dyled ac Arian y Lleng Brydeinig Frenhinol

Elusen yw'r Lleng Brydeinig sy'n cynnig cymorth ymarferol i holl aelodau cymuned y Lluoedd Arfog. Mae eu Gwasanaeth Budd-daliadau, Dyled ac Arian (BDMA) pwrpasol yn cynnig cefnogaeth gynhwysfawr i'r rhai sydd â dyled na ellir ei rheoli. Rydym yn darparu cyngor iawndal arbenigol, help gyda dyledion a sefyllfaoedd brys, a gallwn eich cefnogi drwy geisiadau grant.

Gall ein tîm budd-daliadau a chyngor ariannol eich helpu i reoli eich cyllid a hefyd eich cefnogi os ydych yn cael problemau ariannol.

Os oes angen help arnoch i dalu treuliau annisgwyl, efallai y gallwn eich helpu. Bob blwyddyn, mae ein Cynllun Grantiau Anghenion Brys yn helpu miloedd o bobl trwy argyfyngau drwy ddarparu grantiau argyfwng unigol

**Ffoniwch eu canolfan gyswllt ar 0808 802 8080 am gymorth.**

## Tax Volunteers

Elusen genedlaethol yw Tax Volunteers sy'n cynnig cyngor treth am ddim i bobl sydd dros 60 oed ac ar incwm isel. Gallwch ofyn am gyngor am unrhyw broblem dreth bersonol, waeth pa mor gymhleth y gall y mater fod. Ewch i wefan Tax Volunteers am ragor o wybodaeth neu ffoniwch eu llinell gymorth ar 0845 601 3321 neu 01308 488066.

## Turn2us

Mae Turn2us yn elusen genedlaethol sy'n rhoi cymorth ymarferol i bobl sy'n cael trafferthion ariannol.

Gallai unrhyw un fod mewn sefyllfa lle maen nhw ond un siec cyflog, salwch neu brofedigaeth i ffwrdd o argyfwng ariannol go iawn, a dyna pam gallwn ni eich helpu i ddod o hyd i'r gefnogaeth sydd ei hangen arnoch i ddychwelyd i'r trywydd iawn.

Mae'r Gyfrifiannell Budd-daliadau yn cymryd llai na 10 munud i'w chwblhau a bydd yn dweud wrthych pa fudd-daliadau sy'n seiliedig ar brawf modd y gallai fod gennych hawl iddynt, gan gynnwys credydau treth.

Gall y Chwiliad Grantiau eich helpu i chwilio am arian a allai roi grant i chi neu fathau eraill o help.

Rydym hefyd yn dyfarnu ein grantiau ein hunain gan Gronfa Turn2us Cronfa Elizabeth Finn, Cronfa Ymateb Turn2us, ac Ymddiriedolaeth Caeredin Turn2us.

### Cysylltu â'r llinell gymorth

**Ffoniwch ni ar: 0808 802 2000, 9.00 am - 5.00 pm ddydd Llun-ddydd Gwener.**

Mae pob galwad am ddim o linellau yn y DU ac o'r rhan fwyaf o ffonau symudol. Os ydych yn galw o ffôn symudol, gwiriwch gyda'ch darparwr rhwydwaith. Neu defnyddiwch ein ffurflen gyswllt Ysgrifennwch atom: Turn2us, Hythe House, 200 Shepherds Bush Road, London W6 7NL.

# Cyllid

## Cronfa Ymddiriedolaeth Cyfamod y Lluoedd Arfog

Mae Ymddiriedolaeth Cronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog (yr Ymddiriedolaeth) yn cefnogi Cyfamod y Lluoedd Arfog drwy ddarparu rhaglenni cyllid sy'n creu newid gwirioneddol i gymunedau'r Lluoedd Arfog ledled y DU.

Rydyn ni'n elusen ac yn cael ein categoreiddio fel Corff Cyhoeddus Anadrannol. Rydyn ni'n gofalu am Gronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog, sy'n werth £10 miliwn bob blwyddyn.

Mae gan Gronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog bedair thema ariannu eang nawr ac mewn blynyddoedd i ddod.

1. Gwasanaethau gofal iechyd nad ydynt yn rhai craidd i gyn-filwyr.
2. Cael gwared ar rwystrau i fywyd teuluol.
3. Cymorth ychwanegol, yn ystod gwasanaeth milwrol ac ar ôl, i'r rhai sydd angen help.
4. Mesurau i integreiddio cymunedau milwrol a sifil a chaniatáu i gymuned y Lluoedd Arfog gymryd rhan fel dinasyddion.

Rydym hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth EM i gynnal rhaglenni cyllido eraill sy'n cael effaith gadarnhaol ar gymunedau'r Lluoedd Arfog.

### Gwneud grantiau wedi'u targedu

Mae ein grantiau i gyd yn cael eu dyfarnu drwy raglenni penodol. Mae gan bob rhaglen nod, sy'n disgrifio'r newid yr hoffem i'r prosiectau sydd wedi'u hariannu i'w gyflawni. Gallwch ddarganfod mwy am hyn yn ein hadran rhaglenni.

Rydyn ni'n datblygu ein rhaglenni ariannu wedi'u seilio ar dystiolaeth o'r heriau y mae pobl yng nghymuned y Lluoedd Arfog yn eu hwynebu, a lle rydyn ni'n credu y byddai cyllid gennym yn gallu gwneud gwahaniaeth sylweddol i'r broblem.

Rydyn ni'n gweithio gyda phartneriaid yn y llywodraeth ac yn y sector elusennau i ddatblygu ein rhaglenni, ac yn aml yn cynnal ymgynghoriadau rhaglenni.

### Gwneud grantiau cynhwysol

Rydym wedi cynnal rhaglenni sylweddol sy'n archwilio salwch meddwl difrifol mewn cyn-filwyr, a sut y gallem gefnogi teuluoedd a'u gofalwyr. Fe wnaethon ni hefyd ariannu rhaglenni sy'n edrych ar gyn-bersonél y Lluoedd Arfog yn y System Cyfiawnder Troseddol, a rhaglenni i ddarparu gwell cefnogaeth i deuluoedd y Lluoedd Arfog. Mae'r gwaith effaith sy'n edrych ar effeithiolrwydd y rhaglenni hyn ar y gweill ac edrychwn ymlaen at rannu hwn, yn ogystal â mwy o'r adnoddau sydd wedi'u datblygu gan ein deiliaid grantiau.

### Gwneud grantiau cynhwysol

Gwyddom y gall fod yn heriol ac yn cymryd llawer o amser i rywun geisio am gyllid. Byddwn yn parhau i wneud canllawiau ein rhaglenni mor glir â phosib, ac os bydd sefydliad yn aflwyddiannus yn eu cais, byddwn wastad yn darparu adborth ysgrifenedig.

**https://covenantfund.org.uk**

## Veterans' Foundation

Mae Sefydliad y Cyn-filwyr wedi sefydlu rhaglen grantiau sylweddol i gefnogi elusennau a sefydliadau sy'n darparu cymorth i'r rhai mewn angen ymhlith personél y lluoedd arfog, cyn-filwyr, morwyr sydd wedi cymhwyso'n weithredol a'u teuluoedd agos.

Mae'r ystod eang hon o elusennau a sefydliadau a gefnogir gan Sefydliad y Cyn-filwyr yn helaeth ac mae'n ymdrin â phob agwedd ar ofal cymdeithasol gan gynnwys: digartrefedd, cyflogadwyedd, tlodi, anabledd, materion lles, iechyd meddwl, cyngor priodas, gofal yn ystod henaint a magu hyder.

Mae dau grant ar gael 1) Gellir dyfarnu grantiau o unrhyw swm hyd at uchafswm o £30 mil. Bydd yr Ymddiriedolwyr hefyd yn ystyried cais am grant lledaeniad hyd at uchafswm o £30 mil, h.y. £30 mil fel £10 mil ar gyfer pob un o'r ddwy neu dair blynedd nesaf. 2) Gellir dyfarnu grantiau o unrhyw swm hyd at uchafswm o £40 mil ar gyfer y defnydd unigryw ar gyflogau dros gyfnod o ddwy flynedd h.y. £40mil fel £20mil am bob un o'r ddwy flynedd nesaf. Mewn rhai achosion, gall y dyfarniad grant gael ei gyfyngu i flwyddyn a gofynnir i ddeiliaid grantiau ailymgeisio yn ddiweddarach am yr ail flwyddyn o gyllid.

Mae'r grantiau'n gystadleuol, ac mae'r Sefydliad yn rhoi blaenoriaeth i elusennau a sefydliadau sy'n gallu dangos eu bod yn ymwneud yn uniongyrchol â darparu cefnogaeth i'r rhai mewn angen, yn ogystal â sefydliadau sy'n cael eu rhedeg yn dda o gyfoeth isel i ganolig.

**Mae cyfarwyddiadau, arweiniad a'r broses ymgeisio ar gyfer pob grant ar gael ar-lein yma:**

**www.veteransfoundation.org.uk/grant-application/.**

**Manylion cyswllt**

**Rheolwr Grantiau:grants@veteransfoundation.org.uk.**

## Gofal iechyd fel blaenoriaeth i gyn-filwyr Cymru

Mae gan Gyn-filwyr yn y DU yr hawl i fynediad i ofal y GIG, fel blaenoriaeth, ar gyfer cyflyrau sy'n gysylltiedig â'u gwasanaeth.

Sicrhewch fod y cofnodion sydd gan eich Meddyg Teulu yn nodi eich bod wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog. Os nad ydych yn hapus gyda'r gwasanaeth a gewch, siaradwch â'ch Meddyg Teulu neu cysylltwch â'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus.

## Unigrwydd ac Ynysu Cymdeithasol yng Nghymuned y Lluoedd Arfog

Yn Arolwg Aelwydydd Cymuned cyn-filwyr y Lleng yn 2014, gwelwyd bod 370,000 o gyn-filwyr hŷn wedi dweud eu bod yn unig. Ymhellach, dywedodd dros ddwywaith y nifer hwnnw eu bod yn cael rhyw fath o anhawster gyda pherthynas neu ynysu - gywerth â tua 770,000 o bobl. Er gwaethaf y canfyddiadau hyn, mae yna brinder ymchwil o hyd ar unigrwydd ac ynysu cymdeithasol ledled cymuned Lluoedd Arfog y Deyrnas Unedig.

Mae adroddiad newydd y Lleng - Loneliness and social isolation in the Armed Forces community - yn archwilio'r materion hyn ar draws y gymuned, gan gynnwys personél sy'n gwasanaethu, cyn -filwyr ac aelodau'r teulu. Mae'n archwilio sut y mae aelodau'r gymuned yn profi'r materion hyn, beth yw'r ysgogiad unigryw ar gyfer y gymuned hon, a pha rwystrau sy'n bodoli wrth geisio cymorth.

### Prif Ganfyddiadau

- Dywedodd 1 o bob 4 o'r rheiny a ymatebodd i'r arolwg eu bod yn teimlo'n unig ac yn ynysig yn gymdeithasol, 'Drwy'r Amser' neu 'Yn Aml'
- Roedd bron i 70% yn cytuno bod unigrwydd ac ynysu cymdeithasol yn faterion amlwg yng nghymuned y Lluoedd Arfog.
- Symud i ardal newydd oedd achos mwyaf cyffredin ynysu cymdeithasol ymhlith y rheiny a atebodd yr arolwg. Gadael y Lluoedd Arfog oedd achos mwyaf cyffredin unigrwydd ac ynysu cymdeithasol.
- Mae canfyddiadau 'r ymchwil hwn yn awgrymu bod elfennau o ffordd o fyw y Lluoedd.

Arfog yn gallu cynyddu hyglwyfedd i unigrwydd ac ynysu cymdeithasol.

### Mae'r rhain yn cynnwys:

- Mwy o symud yn y Lluoedd Arfog.
- Diwylliant o hunanddibyniaeth ac osgoi 'dangos gwendid'.
- Cyfnodau hir ar wahân wrth bartner a theulu.
- Effaith anaf a/neu ryddhau yn sydyn, ar yrfa a theulu.

Os ydych chi'n teimlo'n unig, ceisiwch gael mynediad i'r hybiau/clybiau brecwast niferus sydd yn eich rhanbarth. Wedi'u rhedeg gan gyn-filwyr ar gyfer cyn-filwyr.

## ABF Elusen y Milwyr

Mae ABF Elusen y Milwyr yn cynnig oes o gefnogaeth i filwyr, cyn-filwyr a'u teuluoedd agos pan fo angen. Gallant ddarparu grantiau i gyn-filwyr a'u hanwyliaid i'w helpu i ddod o hyd i waith ar ôl gwasanaethu.

**Gwefan: ABF Elusen y Milwyr**

**Ffôn: 020 7901 8900**

## Age Cymru

Age Cymru yw'r elusen genedlaethol i bobl hŷn yng Nghymru ac rydyn ni yma pan mae ein hangen fwyaf. Mae Cyngor gan Age Cymru yn darparu gwybodaeth a chyngor cyfrinachol, diduedd ac arbenigol i bobl hŷn, eu teuluoedd, ffrindiau, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol.

Rydyn ni yma i bobl hŷn pan maen nhw ein hangen ni.

### Ynghyd â'n partneriaid lleol

- Rydyn ni'n darparu gwybodaeth a chyngor
- Rydyn ni'n darparu rhaglenni lles
- Rydyn ni'n darparu eiriolaeth annibynnol
- Rydyn ni'n cefnogi gofalwyr
- Rydyn ni'n ymgyrchu ac yn ymchwilio

**Ewch i www.ageuk.org.uk/cymru/ neu ffoniwch ni ar 029 2043 1555 am ragor o wybodaeth**

### Rydyn ni'n darparu gwybodaeth a chyngor

Os hoffech chi siarad â rhywun yn Gymraeg neu yn Saesneg, gallwch ffonio Cyngor Age Cymru ar 0300 303 44 98, ar gyfradd leol ac mae ar agor rhwng 9am a 4pm o ddydd Llun i ddydd Gwener. Gallwch hefyd anfon e-bost atom yn advice@agecymru.org.uk

Gall pobl sydd wedi colli eu clyw gysylltu â'r gwasanaeth drwy wasanaeth Testun Next Generation neu wasanaeth cyfnewid testun 'Text Relay'. Rydym hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Languageline Solutions i ddarparu cyfieithwyr sy'n cwmpasu mwy na 240 o ieithoedd.

## All Call Signs

Mae All Call Signs yn rhwydwaith cymorth cymheiriaid arobryn i gyn-filwyr, personél milwrol sy'n gwasanaethu a'u teuluoedd.

**Mae ein Gweithwyr Cefnogi Cyfoedion wrth law saith diwrnod yr wythnos i'ch cefnogi i gael mynediad i'r gwasanaethau cywir mewn amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys:**

# Iechyd a Lles

- Iechyd meddwl a lles
- Camddefnyddio sylweddau ac alcohol
- Rhianta a gofalu
- Tai a llety
- Cyfeillgarwch a chymuned
- Rheoli emosiynau anodd

**Manylion cyswllt:**

**023 9438 7914**

## Bite Back – Triniaeth ddeintyddol i gyn-filwyr

Adfer bywydau, un wên ar y tro.

Mae Vets Bite Back yn fenter sy'n cael ei rheoli a'i rhedeg gan Den-Tech.

Cysylltwyd â ni gan gwmni Blueprint Dental a Chanolfan Galw Heibio i Gyn-filwyr Southampton i ffurfio'r ddeintyddfa gyntaf Vets Bite Back a labordy deintyddol ar y safle. Mae hyn yn galluogi gofal deintyddol am ddim i gyn-filwyr digartref a'r rhai na all fforddio cael gofal deintyddol hyd yn oed ar y GIG oherwydd amgylchiadau ariannol.

Mae'r offer clinigol wedi'i gyflenwi a'i osod gan y cwmni Blueprint Dental ac mae'r offer labordy a chyflenwadau ac ati wedi'u cyflenwi gan Den-Tech o roddion gan ein cyd-dechnegwyr o amgylch y wlad.

Bydd y prosiect hwn yn cael ei reoli a'i redeg gan Den-Tech ar ran y ganolfan cyn-filwyr a bydd yn ceisio ehangu a chynnig ei wasanaethau i ganolfannau cyn-filwyr eraill o amgylch y wlad unwaith y bydd y gwasanaeth peilot yn Southampton yn gwbl weithredol.

Y nod yw gallu cynnig triniaethau deintyddol sylfaenol ar y safle ar unwaith drwy dîm clinigol a bydd ochr y labordy ar y safle yn gallu cynnig atgyweiriadau syml i ddannedd gosod, ychwanegiadau ac ati. Bydd gwasanaethau labordy mwy cymhleth yn cael eu cynnig drwy ein labordai gwirfoddol o amgylch y wlad drwy wasanaeth post.

**Manylion cyswllt:**

**Andrea.johnson@den-tech.org**

**07853 224574**

## Blesma

Ers 1932, ni yw'r unig Elusen Lluoedd Arfog Genedlaethol sy'n cefnogi cyn-filwyr sydd wedi colli coesau/breichiau drwy gydol eu bywydau.

Mae Blesma The Limbless Veterans, yn helpu milwyr a chyn-filwyr sydd wedi colli coesau/breichiau, neu wedi colli'r defnydd ohonynt neu eu llygaid, i ailadeiladu eu bywydau drwy ddarparu gweithgareddau adsefydlu a chymorth lles.

# 5 Iechyd a Lles

Ni yw'r unig elusen Gwasanaeth Cenedlaethol sy'n cefnogi cyn-filwyr sydd wedi colli coesau/breichiau drwy gydol eu bywydau, gan gynnig cymorth ariannol ac emosiynol iddyn nhw a'u teuluoedd. Ers y Rhyfel Byd Cyntaf rydym wedi gweithio'n ddiflino i sicrhau nad yw ein cyn-filwyr yn cael eu diystyru, eu hanghofio na'u gadael i ymdopi drostynt eu hunain.

**Manylion cyswllt:**

Tom Hall, Swyddog Cymorth Blesma.

Darparu Cymorth Lles i Aelodau Blesma, eu teuluoedd a'u gweddwon.

**0208 548 7098**

**0778 0165085**

**bsowest@blesma.org**

**https://blesma.org**

## Blind Veterans UK

### A allai Blind Veterans UK eich helpu chi neu rywun rydych chi'n ei adnabod?

Blind Veterans UK yw'r elusen genedlaethol ar gyfer cyn-filwyr sydd wedi colli eu golwg yn ddifrifol.

Wedi'i sefydlu yn 1915 mewn ymateb i filwyr dall yn dychwelyd o'r Rhyfel Byd Cyntaf, ac a elwid gynt yn St Dunstan's, mae Blind Veterans UK wedi cefnogi degau o filoedd o gyn-filwyr y Lluoedd Arfog a'r Gwasanaeth Cenedlaethol i ailadeiladu eu bywydau ar ôl colli eu golwg.

Er bod Blind Veterans UK yn gofalu am gyn-filwyr wedi'u dallu wrth wasanaethu ar y dechrau, heddiw maen nhw'n helpu cyn-filwyr dim ots beth achosodd iddynt golli eu golwg.

Maen nhw'n helpu cyn-filwyr i ddysgu sgiliau bywyd hanfodol a darparu'r offer sydd eu hangen arnyn nhw i fod yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain. Maen nhw'n darparu'r cymorth adsefydlu, hyfforddiant a chefnogaeth am ddim i gyn-filwyr sydd ei angen arnynt i fyw bywydau annibynnol.

Mae gan Blind Veterans UK rwydwaith o dimau cymorth lleol ledled y DU sy'n rhoi'r adsefydlu a'r hyfforddiant sydd ei angen ar gyn-filwyr yn agosach atynt, naill ai yn eu cartref eu hunain, eu hardal leol, neu o bell.

Mae ganddynt hefyd ddwy ganolfan bwrpasol sy'n cefnogi lles ym mhob agwedd ar fywydau cyn-filwyr dall gan gynnwys gwyliau a chyfnodau seibiant. Yn ogystal â darparu offer arbenigol am ddim, mae'r elusen hefyd yn cefnogi cyn-filwyr i ddod o hyd i hobïau newydd fel celf a gweithgareddau creadigol eraill.

Os oes gennych chi neu rywun rydych chi'n ei adnabod hawl i gymorth rhad ac am ddim Blind Veterans UK yna ffoniwch **0800 389 7979** neu ewch i **blindveterans.org.uk/support.**

**Manylion cyswllt:**

Beth Lowden - Cydlynydd Gwirfoddolwyr (Cymuned 5) Blind Veterans UK Ailadeiladu bywydau ar ôl colli golwg.

**beth.lowden@blindveterans.org.uk**

**blindveterans.org.uk**

# Care after combat

**'Phoenix' yw enw'r prosiect i leihau nifer y cyn-filwyr sy'n aildroseddu wedi iddynt gael eu rhyddhau o'r carchar.**

Yn ystod 2014, bu'r Llywodraeth yn cynnal arolwg o'r Cyn-filwyr yn y System Cyfiawnder Troseddol a chyhoeddwyd yr arolwg ym mis Rhagfyr 2014. Cyn-filwyr yw'r grŵp galwedigaethol mwyaf yn y carchar. Cynlluniwyd prosiect Phoenix i ymateb yn benodol i'r materion a godwyd yn yr adroddiad ... mae prosiect Phoenix wedi bod ar waith ers mis Mai 2015.

Cyflwynir mentoriaeth yn ystod 18 mis olaf y ddedfryd ac mae'n parhau wedi rhyddhau o'r carchar am gyfnod heb fod yn llai na 12 mis. Y meini prawf er mwyn cael eu cynnwys yn y prosiect yw eu bod ar 18 mis olaf y ddedfryd.

Mae holl fentoriaid Care after Combat wedi cael hyfforddiant ffurfiol, a ddilysir i gychwyn gan Wasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr. Caiff ei ddiweddaru'n chwarterol fel rhan o'u datblygiad proffesiynol parhaus. Mae canlyniadau'r ymyrraeth fentora yn syfrdanol gydag absenoldeb aildroseddu yn y grŵp sampl.

**2017/18 - cyfradd lwyddiant o 96%.**

Wrth gwrs, prif fudd prosiect Phoenix yw'r budd i fywydau Cyn-filwyr a'u teuluoedd, ond mae yna fuddion sylweddol hefyd i'r gymdeithas ehangach, er enghraifft yr arbedion ariannol sy'n deillio o lwyddo i'w cyfeirio i ffwrdd oddi wrth y system cyfiawnder troseddol.

### Cyswllt Cyntaf

Os oes problem gennych, ffoniwch Cyswllt Cyntaf a gall un o'n tîm eich llywio i'r cyfeiriad cywir.

**0300 343 0255**

### Manylion Cyswllt

Rob Nicholls, Rheolwr Rhanbarthol-Cymru, Care after Combat Wales,
Ystafell 2F 2il Lawr – Tŷ'r Post, Stryd Adelaide, Abertawe SA1 1SB

**07794201032**

**robn@careaftercombat.org**

**www.careaftercombat.org**

# Change Step Wales

## Beth yw Change Step?

Mae Change Step yn cynnig cefnogaeth effeithiol i gyn-filwyr yng Nghymru, a ddarperir gan Adferiad Recovery - gan gynnwys gwasanaethau pwrpasol ar gyfer rhai mewn argyfwng, cyn-filwyr hŷn, a phobl sydd ag anghenion iechyd meddwl ac anghenion camddefnyddio sylweddau.

Mae ein tîm o fentoriaid cymheiriaid sy'n gyn-filwyr yn defnyddio eu profiadau eu hunain i helpu cyn-filwyr i wynebu heriau yn eu bywydau, ac i lywio a chysylltu â gwasanaethau cymorth ledled Cymru.

## Ar gyfer pwy mae Change Step?

Rydyn ni'n helpu unrhyw un sydd wedi bod yn aelod o Luoedd Arfog y DU, yn llawn amser neu wrth gefn.

## Beth mae Change Step yn ei wneud?

**Rydyn ni'n darparu:**

- Mentora cyfoedion mewn argyfwng ar gyfer cyn-filwyr sydd angen mynediad brys i gymorth mewn perthynas ag iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, a materion eraill.
- Mentora penodol ar gyfer cyn-aelodau o'r lluoedd arfog sy'n cael mynediad i driniaeth drwy GIG Cymru i Gyn-filwyr - y gwasanaeth cymorth iechyd meddwl genedlaethol cyntaf, cydgysylltiedig o'i fath.
- Cyswllt effeithiol rhwng carchardai, awdurdodau lleol a gwasanaethau statudol i gefnogi cyn-filwyr sy'n cael eu trosglwyddo i garchar yng Nghymru, neu sy'n dychwelyd i fyw yng Nghymru, fel rhan o brosiect SToMP.
- Cymorth ymarferol ac uniongyrchol i gyn-filwyr hŷn, gan helpu i fynd i'r afael ag unigedd yn ein cymunedau.

Mae ein tîm o fentoriaid cymheiriaid sy'n gyn-filwr yn defnyddio eu profiadau eu hunain i helpu cyn-filwyr i wynebu heriau yn eu bywydau, ac i lywio a chysylltu â gwasanaethau cymorth ledled Cymru.

# Combat Stress

Mae Llinell Gymorth 24 awr y dydd Combat Stress ar gyfer y gymuned filwrol a'u teuluoedd. Gall gynghori Cyn-filwyr, personél sy'n gwasanaethu, milwyr wrth gefn a'u teuluoedd, ynghylch materion o iechyd meddwl i gymorth ymarferol.

## Cymorth

Rydym yn arbenigwyr ar ofal Cyn-filwyr sy'n byw gydag Anhwylder Straen Wedi Trawma. Mae'r gwasanaethau'n rhad ac am ddim. Mae llinell gymorth gyfrinachol 24 awr y dydd hefyd ar gael i gynnig cymorth ar unwaith.

Os ydych yn gyn-filwr, yn bersonél sy'n gwasanaethu ag angen am gymorth, neu os ydych yn 'nabod rhywun ag angen am gymorth, cysylltwch â ni unrhyw bryd trwy ein llinell gymorth rad ac am ddim, neges destun neu e-bost:

**Manylion Cyswllt**

**Llinell gymorth: 0800 138 1619**

**Cymorth trwy neges destun: 07537 404719**

**Cymorth trwy e-bost: helpline@combatstress.org.uk**

**www.combatstress.org.uk**

## Cyfle Cymru

Mae Cyfle Cymru yn wasanaeth sy'n helpu pobl gyda phroblemau camddefnyddio sylweddau a/neu gyflyrau iechyd meddwl i mewn i waith, addysg neu hyfforddiant.

### Pwy sy'n gymwys?

**Gallant eich cefnogi tuag at waith ac i mewn i'r gwaith os:**

- Rydych chi rhwng 16 a 24 oed ac nid mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant.
- Rydych chi'n 25 oed neu'n hŷn ac yn ddi-waith hirdymor economaidd anweithgar.
- Rydych yn byw yn ardal Gwent.
- Rydych chi'n gwella o gamddefnyddio sylweddau a/neu faterion iechyd meddwl.

**Manylion Cyswllt**

**Os ydych yn ardal Gwent:**
**01633 258489 - mae'r rhif hwn yn cynnwys Casnewydd, Sir Fynwy, Torfaen, Caerffili, a Blaenau Gwent.**

**Os ydych chi yn ardal y Bae Gorllewinol-**
**01792 646 421 - bydd hyn yn cwmpasu Abertawe, Gogledd Port Talbot, a Phen-y-bont ar Ogwr**

**info@gwentoows.com**

**www.dacw.co.uk**

**ask@cyflecymru.com**

**CyfleCymruGwent**

## Forces Fitness

Mae Forces Fitness yn gwmni sydd wedi ennill sawl gwobr sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn yr awyr agored.

Maen nhw'n darparu nifer o wasanaethau o ddiwrnodau iechyd a lles wedi'u teilwra neu enciliadau preswyl ar gyfer eich cwmni, sefydliad, ysgol, coleg neu brifysgol.

Mae eu holl sesiynau'n ddiddorol ac yn cael eu cyfarwyddo gan naill ai cyn-filwyr neu aelodau o'r lluoedd arfog.

**Manylion Cyswllt**

**www.forcesfitness.co.uk**

**07855 493316**

## GambleAware

Mae GambleAware yn ariannu gwasanaethau addysg, atal a thrin ac yn comisiynu ymchwil i ehangu dealltwriaeth y cyhoedd o niwed sy'n gysylltiedig â gamblo. Defnyddiwch wefan GambleAware i ddarganfod sut mae gamblo yn gweithio, i wirio a oes gennych chi, neu rywun rydych chi'n ei adnabod, broblem gamblo, a dod o hyd i awgrymiadau ar sut i gadw rheolaeth. Hefyd mae cymorth cyfrinachol am ddim ar gael i chi drwy Linell Gymorth Gamblo Genedlaethol, dros y ffôn neu ar-lein.

**Gwefan: begambleaware.org**

**E-bost: Contact@BeGambleAware.org**

**Rhif ffôn: Llinell Gymorth Gamblo Genedlaethol - 0808 8020133**

## Gurkha Welfare Trust

Rydyn ni'n galluogi cyn-filwyr Gurkha, eu teuluoedd a'u cymunedau ehangach i fyw eu bywydau gydag urddas yn Nepal.

Rydyn ni'n darparu pecyn o ofal i gyn-filwyr Gurkha a gweddwon i sicrhau eu bod yn gallu byw gydag urddas.

- Pensiwn Lles
- Grant Cymorth Anabledd
- Grant Caledi Brys
- Lwfans Gaeaf
- Lwfans Gofalwr Cartref
- Grant Dewisol Staff

Mae ein Timau Cymorth Pensiynwyr yn teithio i fryniau Nepal ar feiciau modur, mewn cerbyd 4×4 ac ar droed i dalu pensiwn iddynt, gwirio eu hiechyd a darparu meddyginiaeth yn eu cartrefi eu hunain.

**Manylion Cyswllt**

The Gurkha Welfare Trust,
PO Box 2170,
22 Queen Street,
Salisbury, SP2 2EX

**01722 323 955**

## Cyfryngu Llamau i Deuluoedd

Mae Llamau wedi ei lleoli yng Nghaerffili, ac maen nhw'n cefnogi pobl ifanc rhwng 14 a 24 oed sy'n cael problemau gyda'u rhieni ac yn ystyried gadael cartref, neu'n cael eu troi allan gan eu teuluoedd.

Mae Llamau'n cynnig dull niwtral; gan gefnogi teuluoedd i ddatrys eu problemau ac i helpu atal digartrefedd ymhlith pobl ifanc yn Sir Caerffili.

Cynigir gwasanaethau eraill hefyd, megis cwnsela, cymorth addysgol a llety â chymorth.

**Manylion Cyswllt**

Russell Williams

02920 239585

07786 595125

www.llamau.org.uk

## Rhyddhau ar sail Feddygol

### Beth yw'r broses?

Mae rhyddhau ar sail feddygol yn amrywio yn dibynnu ar y Gwasanaeth rydych chi'n perthyn iddo. Os ydych chi wedi eich anafu neu'n sâl yn ystod eich Gwasanaeth, efallai y byddwch yn mynd o flaen bwrdd meddygol i gael asesiad o'ch gradd feddygol. Dylech gofio efallai na fydd hyn o reidrwydd yn arwain at ryddhau ar sail feddygol.

Bydd bwrdd meddygol yn asesu eich capasiti corfforol a meddyliol ac yn gallu gwneud argymhelliad ynghylch eich rhyddhau. Tîm Iechyd Galwedigaethol sy'n gwneud y penderfyniad terfynol os bydd claf yn cael ei ryddhau'n feddygol.

### Beth yw budd-daliadau terfynol?

Yn dibynnu ar hyd eich gwasanaeth, eich cynllun pensiwn, a difrifoldeb eich anafiadau, efallai y byddwch yn derbyn budd-daliadau terfynol, budd-dal a delir i chi wrth gael eich rhyddhau. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Ganolfan Ymholiadau Personél ar y Cyd (JPAC) ar 0800 085 3600.

### Alla i hawlio iawndal pellach?

Os oedd eich anaf i'w briodoli i wasanaethu, a'ch bod yn wynebu rhyddhau ar sail feddygol, efallai y bydd gennych hawl i hawlio Pensiwn Rhyfel os digwyddodd yr anaf cyn 6 Ebrill 2005, neu iawndal y Lluoedd Arfog pe bai'r anaf wedi digwydd ar neu ar ôl 6 Ebrill 2005. Cysylltwch â Veterans UK am ragor o wybodaeth.

### Pwy all helpu?

Gall y Lleng Brydeinig Frenhinol gynnig cyngor os ydych yn wynebu cael eich rhyddhau ar sail feddygol. Gallant eich helpu i ddeall eich opsiynau ac a ddylech wneud cais pellach am Bensiwn Rhyfel neu Iawndal y Lluoedd Arfog. Ewch i wefan y Lleng Brydeinig i ddarganfod mwy.

# 5 Iechyd a Lles

Mae'r SSAFA - elusen y Lluoedd Arfog, yn cynnig mentora un-i-un i bobl sydd wedi cael eu rhyddhau ar sail feddygol. Gallant eich helpu i nodi cyfleoedd gyrfa newydd a chynnig cyngor ar y cyfnod pontio o'r gwasanaeth. Ewch i wefan SSAFA am ragor o wybodaeth.

## Models For Heroes

- Models for Heroes (M4H) yw'r sefydliad elusennol cyntaf yn y DU i gefnogi'r defnydd o wneud modelau fel hobïau gyda chyn-bersonél y Lluoedd Arfog a phersonél presennol y Lluoedd Arfog y Gwasanaethau Brys yn y Deyrnas Unedig.
- Ym mis Mawrth 2017, yn dilyn adroddiad ar Models for Troops yn UDA, dechreuodd M4H ddarparu cyfarwyddyd a chymorth adnoddau ar gyfer sesiwn gwneud modelau fel rhan o'r Rhaglen Adfer yng Nghanolfan Adfer Tŷ Tedworth.
- Mae sylfaenydd M4H, Malcolm Childs yn credu bod angen ad-dalu'r aberth cyson a wnaed gan filwyr yn gwasanaethu, eu teuluoedd a dieithriaid llwyr i amddiffyn ei deulu ifanc ei hun a hynny mewn ffordd oedd yn gyfarwydd iddo. Fel gwneuthurwr modelau brwd ei hun ac yn dyst i effeithiau llesol yr hobi, cymerodd Malcolm arno'i hun i ddechrau Models for Heroes.
- **Yn ôl ymchwil i'r defnydd o grefftau fel gweithgaredd ymyrraeth ceir lefel uwch o hapusrwydd a chynhwysiant cymdeithasol.** Mae'r deheurwydd corfforol sydd ei angen i adeiladu'r modelau yn herio ac yn hyrwyddo datblygiad sgiliau modur cain.

**Manylion Cyswllt**

**info@modelsforheroes.org.uk**

Models for Heroes
1 Harrier Road
Newbury
Berkshire RG20 4AB

**https://www.modelsforheroes.org.uk**

## Meic Cymru

Mae'r llinell gymorth hon yn arbenigo mewn darparu eiriolaeth trwy gefnogi plant a phobl ifanc a'u grymuso i hunan-eirioli, trwy eu hatgyfeirio at wasanaethau eiriolaeth wyneb yn wyneb priodol, neu fod yn eiriolwyr ar eu rhan.

### Cymorth

Llinell gymorth yw Meic i blant a phobl ifanc yng Nghymru, hyd at 25 oed. Gellir cysylltu â nhw 24 awr y dydd dros y ffôn, trwy neges union neu neges destun. Rôl y llinell ffôn yw gwrando ar blant a phobl ifanc, rhoi gwybodaeth am faterion sy'n effeithio arnynt a'u cefnogi i ddweud eu barn, eu dyheadau a'u teimladau wrth eraill.

**Manylion Cyswllt:**

**0808 8023456**

**www.meiccymru.org**

## Mesothelioma UK

Mae Mesothelioma UK yn ganolfan adnoddau arbenigol genedlaethol, yn benodol ar gyfer y canser sy'n gysylltiedig ag asbestos, mesothelioma. Mae 'Mesothelioma UK – Cefnogi gwasanaeth ein Lluoedd Arfog' wedi'i anelu at aelodau o'r Lluoedd Arfog, cyn-filwyr, cleifion mesothelioma, teuluoedd a gofalwyr sydd eisiau darganfod mwy am driniaeth, cymorth, gofal a budd-daliadau / iawndal sydd ar gael. Mae'r gwasanaeth yn darparu nyrs mesothelioma arbenigol, sydd wedi'i lleoli yn Southampton ac mae rhaglen ymchwil gynhwysfawr ar y gweill i fesur a disgrifio'r baich mesothelioma ymhlith y Lluoedd Arfog.

**Gwefan: Mesothelioma.uk.com**

**E-bost: info@mesothelioma.uk.com**

**Ffôn: 0800 169 2409**

## Mission Motorsport

Ein harwyddair yw RASIO, AILHYFFORDDI, ADFER, ac rydym yn eu darparu drwy chwaraeon, hyfforddiant a gweithgareddau galwedigaethol sydd ar gael i'n buddiolwyr. Mae rhaglenni cystadleuaeth a phrofiad Mission Motorsport ar gyfer y gymuned ac yn amrywio o gartio i reoli ceir, dilyn y dyddiadur rasio a rasio go iawn. Gall unrhyw gyn-filwr gymryd rhan mewn cyfleoedd gwirfoddoli, fel rhaglen F1 Racemaker, a chefnogaeth i ddigwyddiadau; mae rhywbeth i bawb. Mae hyfforddiant a mewnwelediad i'r diwydiant yn gamau allweddol ar y llwybr pontio neu wrth chwilio am yrfa newydd. Felly, p'un a ydych yn y broses o gael eich rhyddhau neu'n gyn-filwr o unrhyw oed, mae Mission Motorsport yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi, hyd at ac yn cynnwys Diploma Lefel 3 City & Guilds i'ch rhoi ar y trywydd iawn i fod yn fecanic cwbl gymwys. Eich helpu i symud ymlaen, drwy leoliadau gwaith a chyfleoedd gwaith i'r gweithlu cynyddol o dros 1 miliwn yn y diwydiannau modurol a chwaraeon moduro.

**Gwefan: Mission Motorsport**

**E-bost: team@missionmotorsport.org**

**Ffôn: 03330 338 338**

## Military Wives Choir

Mae corau'r Military Wives Choirs yn gymuned o bron i 2000 o ferched mewn 72 côr ar draws y DU ac yn rhyngwladol. Down at ein gilydd i ddathlu cariad at ganu a dealltwriaeth gymunedol sy'n dod o brofiadau cyffredin ein haelodau o'r Lluoedd Arfog.

Mae'r corau gwragedd milwrol yn agored i ferched sydd â chysylltiad milwrol sydd eisiau canu, rhannu a chefnogi. Wedi'r cyfan rydym yn gryfach gyda'n gilydd!

Côr Gwragedd Milwrol Caerdydd,
Morgannwg, CF14 2HX

**Ffôn: 020 7463 9407**

**E-bost: info@militarywiveschoir.org**

## Mutual Support

Mae Grŵp Cymorth Sglerosis Ymledol (MS) y Lluoedd Arfog yn cefnogi aelodau o'r teulu milwrol sydd wedi eu heffeithio gan MS. Maen nhw'n bodoli ar gyfer aelodau'r Lluoedd Arfog, Cyn-filwyr, Lluoedd wrth gefn, dibynyddion a'u gofalwyr sydd wedi'u heffeithio gan MS. Mae Mutual Support yn un o Grwpiau Cymorth Cenedlaethol Cymdeithas MS. Mae'n cael ei redeg gan wirfoddolwyr sydd â phrofiad uniongyrchol o MS a'r Lluoedd Arfog, ac mae'n darparu gwasanaethau a gweithgareddau yn seiliedig ar ddymuniadau pobl y mae MS yn effeithio arnynt. Mae tîm hyfforddedig yn darparu'r cymorth sydd ei angen arnoch i ddelio â'ch sefyllfa, ac yn anelu at fod ar ben arall y ffôn pan fydd angen.

**Gwefan: Mutual Support**

**E-bost: leadsupportvolunteer@mutual-support.org.uk**

## National Gulf Veterans and Families Association

Mae'r NGVFA yn cefnogi'r rhai a gafodd eu heffeithio gan Ryfel y Gwlff 1, Rhyfel y Gwlff 2 (Irac), Affganistan, a phob gwrthdaro yn yr anialwch yn y dyfodol. Mae llawer sy'n dychwelyd adref o'r gwrthdaro yma yn datblygu problemau iechyd neu gymdeithasol. Mae'r NGVFA yn helpu cyn-filwyr (boed yn sâl neu beidio), personél y gwasanaeth a gafodd eu brechu ond nas galwyd arnynt, personél y Lluoedd Arfog sy'n dal i wasanaethu , aelodau o'r teulu, gweddwon, a sifiliaid a gontractiwyd i'r lluoedd arfog. Maen nhw'n gweithio ledled y DU a thramor.

**Gwefan: NGFVA.org.uk**

**E-bost: info@ngvfa.org.uk**

**Ffôn: 0845 257 4853**

## Noble Training Solutions

Mae Noble Training Solutions Ltd yn sefydliad sy'n eiddo i gyn-filwr ac wedi'i leoli yng Nghaerdydd. Maen nhw'n gwmni hyfforddi arobryn sydd yn cwmpasu'r DU gyfan. Rydyn ni'n cynnig amrywiaeth o gyrsiau hyfforddi a diogelwch sydd wedi eu teilwra i'ch anghenion.

Mae ein cyrsiau'n cynnwys pob agwedd ar ofal cymdeithasol, iechyd meddwl, cymorth cyntaf, iechyd a diogelwch, symud a thrin, diogelwch tân, adfer trawma, hyfforddiant rheoli ymddygiad, a hyfforddiant ymyriadau diogel, ac rydym yn cynnig cyfraddau gostyngol ar gyfer archebion lluosog.

Gall hyfforddiant fod mewn lleoliad o'ch dewis chi neu yn un o'n canolfannau. Rydym yn hapus i ddarparu ar gyfer eich gofynion ac yn hapus i siarad â chi yn anffurfiol.

Sefydlwyd Noble Training Solutions Ltd yn 2008 a'n neges greiddiol ydy ansawdd uwchlaw popeth, rydym yn canolbwyntio ar helpu unigolion i ddatblygu a sefydliadau i dyfu. Rydym wedi bod yn gweithio gyda llawer o sefydliadau i gyn-filwyr, Cyngor Caerffili a Chronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog i ddarparu hyfforddiant cost effeithiol mewn hyfforddiant iechyd meddwl a thrawma, mae ein prif hyfforddwr wedi cymhwyso fel therapydd Lefel 7 mewn adfer trawma,  gydag angerdd dros alluogi unigolion i helpu rhywun sydd â thrawma i symud ymlaen.

**Manylion cyswllt**

**Gareth Noble - Cyfarwyddwr**
**e-bost - info@nobletrainingsolutions.co.uk**
**y we - www.nobletrainingsolutions.co.uk**
**Ffôn - 029 2262 9769 / 07929 139055**

## Phoenix Heroes

Mae Phoenix Heroes CIC yn Gwmni Buddiant Cymunedol nid-er-elw sy'n darparu cefnogaeth PTSD i gyn-filwyr a'u teuluoedd. Un o'r ffyrdd maen nhw'n cyflawni hyn yw drwy adeiladu cymunedau o gyn-filwyr o amgylch y DU drwy weithgareddau chwaraeon a diwrnodau teuluol cymunedol. Maen nhw hefyd yn cynnig cymorth rhwydweithio cyflogaeth a therapi PTSD gan eu therapyddion cymwys sydd â phrofiad milwrol. Maen nhw wedi'u lleoli yn Colchester, Essex ac yn cynnig gwasanaethau ledled y DU. Mae gan eu Clwb Pysgota Cerpynnod gannoedd o aelodau ac mae'n cynnal digwyddiadau pysgota yn fisol o amgylch y DU.

**Gwefan: Phoenix Heroes**
**E-bost: info@phoenixheroes.co.uk**
**Ffôn: 01206 932488**

## RNID

Mae'r RNID yn darparu gwybodaeth am golli clyw a tinitws i gyn-filwyr, eu teuluoedd a'u gofalwyr (yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon). Cysylltwch â nhw ar gyfer taflen wybodaeth bwrpasol. Maen nhw hefyd yn partneru gyda gwasanaethau awdioleg y GIG mewn rhai rhannau o'r DU. Cysylltwch â nhw i ddarganfod mwy.

**Cyswllt Cenedlaethol: Gwybodaeth a llinell**
**gymorth E-bost: information@rnid.org.uk**
**Rhif ffôn: 0808 808 0123**
**Neges destun: 0780 000 0360**

## The Royal Naval Benevolent Trust (RNBT)

Mae'r Ymddiriedolaeth RNBT yn cefnogi'r rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu fel Swyddogion Gwarant ac yn is yn y Llynges Frenhinol a'r Môr-filwyr Brenhinol, a'u hanwyliaid, sy'n eu cael eu hunain mewn angen neu mewn trallod. Maen nhw'n cynnig grantiau i unigolion fesul achos. Efallai y gallant ddarparu cyllid ar gyfer hyfforddiant, cyrsiau a chostau cysylltiedig.

**Website: RNBT.org.uk**
**Telephone: 02392 690112**

# 5 Iechyd a Lles

## Y Samariaid

Mae'r Samariaid yn cynnig lle diogel i chi siarad, unrhyw bryd, yn eich ffordd eich hun, am beth bynnag sy'n eich poeni. Rydyn ni yma 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos. Mae'n wasanaeth cyfrinachol, a'r galwadau am ddim ac fe fyddwn ni'n cefnogi unrhyw un. Os cewch chi'r amser a'r gofod i siarad am bethau, gallwch ddod o hyd i ffordd drwy eich problemau. Mae'r Samariaid yn eich helpu chi i archwilio eich opsiynau er mwyn i chi wneud penderfyniadau sy'n iawn i chi.

**Gwefan: Y Samariaid**

**E-bost: jo@samaritans.org**

**Ffôn: 116 123**

## Shout

Mae Shout 85258 yn wasanaeth cefnogi 24/7 drwy negeseuon testun sydd am ddim ac yn gyfrinachol i unrhyw un sy'n cael trafferth ymdopi. Fe lansiwyd Shout yn gyhoeddus ym mis Mai 2019 ac rydym wedi cael mwy na 1,000,000 o sgyrsiau gyda phobl sy'n bryderus, dan straen, yn isel, yn ystyried hunanladdiad neu wedi'u llethu ac sydd angen cefnogaeth ar unwaith. Fel gwasanaeth digidol, mae Shout 85258 wedi dod yn fwyfwy hanfodol ers Covid-19, gan ei fod yn un o'r ychydig wasanaethau cymorth iechyd meddwl sy'n gallu gweithredu fel arfer ar hyn o bryd.

## SSAFA

Mae SSAFA, elusen y Lluoedd Arfog, wedi bod yn darparu cymorth gydol oes i'n Lluoedd a'u teuluoedd ers 1885. Y llynedd fe wnaeth ein timau o wirfoddolwyr a gweithwyr helpu dros 85,000 o bobl mewn angen, o gyn-filwyr yr Ail Ryfel Byd i'r rhai sydd wedi gwasanaethu mewn gwrthdaro mwy diweddar neu sy'n dal i wasanaethu ar hyn o bryd, a'u teuluoedd.

Mae SSAFA yn deall bod person o dan y lifrai. Ac rydyn ni yma i'r person hwnnw - unrhyw bryd maen nhw ein hangen ni, mewn unrhyw ffordd maen nhw ein hangen ni, am gyhyd ag y maen nhw ein hangen ni.

### Sut rydyn ni'n helpu

Drwy ein rhwydwaith o ganghennau ledled y DU, mae gennym fwy na 5,200 o wirfoddolwyr, sy'n cynnwys gweithwyr achos gwirfoddol SSAFA hyfforddedig sy'n darparu cymorth personol, wyneb yn wyneb i'r rheini yn eu hardal leol. Mae ein cynghorwyr lles hyfforddedig a'n gwirfoddolwyr yn gweithio gyda phob person i ddarganfod beth yn union sydd ei angen arnynt. Ar ôl i ni asesu'r hyn sydd ei angen, byddwn yn helpu'r unigolyn neu'r teulu i gael mynediad at y cymorth angenrheidiol. Efallai mai dim ond rhywun i wrando sydd ei angen arnyn nhw. Yn amlach na pheidio, rydyn ni'n eu rhoi nhw mewn cysylltiad â'r gwasanaethau cymorth sydd eu hangen arnyn nhw i'w helpu i gael eu bywydau yn ôl ar y trywydd iawn. P'un a yw'n ariannol, yn ymarferol neu'n emosiynol, rydyn ni'n darparu'r math cywir o gefnogaeth – gan sicrhau bod annibyniaeth ac urddas yn cael eu diogelu bob amser.

### Beth rydyn ni'n ei wneud?

**Cyngor a chefnogaeth lles** - Mae ein rhwydwaith o ganghennau ledled y DU a thramor o ganghennau mewn cymunedau lleol a phwyllgorau gwasanaeth ar ganolfannau milwrol yn cynnig cefnogaeth ymarferol, ariannol ac emosiynol. Rydyn ni'n helpu personél sy'n gwasanaethu, milwyr wrth gefn, cyn-filwyr a'u teuluoedd gyda phopeth o galedi ariannol i chwalu teulu.

# Iechyd a Lles

**Gwasanaethau wedi'u teilwra** - Rydyn ni'n mentora pobl wrth iddynt bontio o'r fyddin i fywyd sifil, yn helpu teuluoedd i fabwysiadu, cynorthwyo cyn-filwyr yn y system cyfiawnder troseddol a darparu gwasanaeth cymorth i gymuned y Gurkha y DU. Mae ein holl wasanaethau wedi'u cynllunio i gwrdd ag anghenion penodol cymuned y Lluoedd Arfog ac yn cael eu rhedeg gan weithwyr SSAFA, gyda chefnogaeth gan dimau o wirfoddolwyr. Rydyn ni'n cynnig ystod o opsiynau tai diogel a chyfforddus, gan gynnwys llety hirdymor ar gyfer cyn-filwyr hŷn ac anabl a thai tymor byr i deuluoedd personél y lluoedd arfog sydd wedi eu hanafu a dioddefwyr trais yn y cartref.

**Atgyfeiriadau achos – Cysylltwch â Swyddfa Ranbarthol Cymru**

**E-bost: wales.region@ssafa.org.uk**

**Ffôn: 02922 941004**

## Forcesline SSAFA

Mae Forcesline SSAFA yn llinell gymorth a gwasanaeth e-bost cyfrinachol, rhad ac am ddim sy'n cynnig cymorth i filwyr (parhaol ac wrth gefn) a chyn-filwyr o'r Lluoedd Arfog, a'u teuluoedd. Mae SSAFA yn elusen annibynnol ac nid yw'n rhan o'r gadwyn rheolaeth filwrol.

Mae ein tîm yma i wrando ac nid i feirniadu. Gallwn roi gwybodaeth ffeithiol i chi a dangos y dewisiadau ar gyfer y ffordd ymlaen, er mwyn eich helpu.

Gallwn hefyd siarad â chi yn gyfrinachol os ydych chi, neu rywun yr ydych yn ei 'nabod, yn absennol heb ganiatâd (AWOL).

### Rhifau ffôn rhad ac am ddim Forcesline

Gallwch ffonio Forcesline o unrhyw le yn y byd. Rydym ar agor o 09:00 tan 17:00, o ddydd Llun i ddydd Gwener.

**0800 260 6767**

**Cyprus 800 91065**

**Ynysoedd y Falkland #6111**

**Gweddill y byd +44 (0)207 463 9292**

Mae ein gwasanaeth e-bost yn gweithio yn yr un ffordd â Forcesline

Ein nod yw ateb eich ymholiad yn llawn ymhen 48 awr.

**https://www.ssafa.org.uk/get-help/forcesline**

## Scotty's Little Soldiers

Mae Scotty's Little Soldiers yn darparu cymorth i blant a phobl ifanc (0 i 25 oed) sydd wedi colli rhiant wrth wasanaethu yn Lluoedd Arfog. Rhoddir cymorth trwy bedair rhaglen allweddol ac mae'n cynnwys seibiannau, digwyddiadau grŵp, dewis o grantiau datblygu a chymorth mewn profedigaeth.

**Manylion Cyswllt**

**members@scottyslittlesoldiers.co.uk**

Scotty's Little Soldiers,
Unit 21 Bergen Way,
King's Lynn Norfolk
PE30 2JG
0800 092 8571

**hello@scottyslittlesoldiers.co.uk**

## The British Nuclear Test Veterans Association

Mae Cymdeithas Cyn-filwyr Profion Niwclear Prydain (BNTVA) yn bodoli ar gyfer cydnabyddiaeth a gwneud iawn i'n milwyr a gymerodd ran yn y Profion Niwclear Prydeinig. Rydyn ni'n darparu: cefnogaeth profedigaeth gyda baneri a chludwyr baneri ar gyfer angladdau; grŵp trafod Facebook caeedig ar gyfer disgynyddion; aduniad yn Weston Super Mare (bob mis Medi) ar gyfer dros 100 o gyn-filwyr a'u teuluoedd; cymorth gyda cheisiadau Pensiwn Rhyfel; cylchgrawn chwarterol i'r aelodau; ymgyrchu dros fedal i'n cyn-filwyr am eu gwasanaeth unigryw.

**Gwefan: bntva.com**

## Cynllun Gerddi'r Lluoedd Amddiffyn

Mae'r Cynllun Gerddi yn cynnig rhaglen therapi natur 10 wythnos o hyd. Mae hyn yn gyfuniad o sgiliau garddio ymarferol ac yn cefnogi hunan gymorth ar gyfer rheoli gorbryder, iselder, a straen. Darperir cefnogaeth ar gyfer dilyniant o'r rhaglen i amrywiaeth o brofiadau hyfforddiant, gwirfoddoli yn ogystal â chyflogaeth lawn amser a rhan amser.

**Website: defencegardens.org**

**E-bost: info@defencegardens.org**

## Gwasanaeth Lles Meddygol y Lluoedd Amddiffyn (DMWS)

Mae'r DMWS yn elusen annibynnol sy'n darparu cymorth a chefnogaeth i gymuned y Lluoedd Arfog pan fo angen help arnynt yn ystod cyfnodau o salwch corfforol neu feddyliol, naill ai mewn ysbytai, lleoliadau adsefydlu neu gartref. Mae ein Swyddogion Lles yn rhoi cefnogaeth ymarferol ac emosiynol i sicrhau nad oes yr un teulu yn mynd trwy'r pryder o salwch neu anaf ar eu pennau'u hunain. Gall hyn amrywio o gymorth gyda materion tai neu gyllid i gynnig clust i wrando.

Gwefan: dmws.org.uk

E-bost: info@dmws.org.uk

Ffôn: 01264 774 000

## The Not Forgotten Association

Mae The Not Forgotten Association yn darparu cyfleoedd hamdden ac adloniant i unrhyw filwyr sydd wedi eu hanafu, eu clwyfo neu'n sâl ac unrhyw gyn-filwyr o unrhyw oed ag anabledd, salwch neu eiddilwch. Cynigir cymorth trwy raglen amrywiol o weithgareddau a digwyddiadau wedi eu teilwra gan gynnwys Partïon Brenhinol, cyngherddau, gwyliau, gwibdeithiau a darparu setiau teledu a thrwyddedau teledu. Bwriad pob un o'r gweithgareddau hyn yw adennill hyder, gwella llesiant, rhoi hwb i morâl a gwella cyfleoedd yr unigolyn a theulu'r unigolyn i fwynhau bywyd.

Gwefan: nfassociation.org

E-bost: info@nfassociation.org

Ffôn: 020 7730 2400

## Togetherall

Mae Togetherall (Big White Wall gynt) yn gymuned iechyd meddwl ar-lein sy'n cael ei rheoli'n glinigol ac sy'n grymuso unigolion i gael cefnogaeth yn ddienw, 24/7. Mae'r gwasanaeth yn rhoi cyfle i filiynau o bobl ledled y DU, Seland Newydd a Gogledd America siarad ag eraill sy'n mynd drwy brofiadau tebyg, cyrsiau hunan-dywys ac adnoddau i gefnogi iechyd meddwl, i gyd mewn amgylchedd di-farn. Mae Togetherall yn rhad ac am ddim i filwyr, milwyr wrth gefn, cyn-filwyr a theuluoedd milwrol 16+ oed yn y DU. I gofrestru, ewch i'n safle.

Gwefan: Togetherall.com

E-bost: theteam@togetherall.com

Ffôn: 0203 4056196

## Turn to Starboard

Mae Turn to Starboard yn cynnig sawl llinyn o weithgaredd gan gynnwys cyrsiau hwylio'r Gymdeithas Hwylio Frenhinol (RYA), teithiau hwylio i'r teulu, hwylio Llongau Tal a rasio cystadleuol. Mae ein ffocws ar ailsefydlu, ail-integreiddio ac atgyfnerthu ymdeimlad o werth a pherthyn i gyfranogwyr, ynghyd â chyfle i ennill cymwysterau hwylio proffesiynol i ddechrau gyrfaoedd newydd yn y diwydiant morol.

Gwefan: TurntoStarboard.co.uk

E-bost: info@turntostarboard.co.uk

Ffôn: 01326 314262

## UK Veterans Hearing Foundation

Mae'r UK Veterans Hearing Foundation yn helpu cyn-filwyr gyda materion clyw yn sgil gwasanaeth milwrol. Maen nhw'n defnyddio awdiolegwyr annibynnol ledled y DU i ddarparu cymorth unigol i bob cyn-filwr. Ac maen nhw'n darparu'r dyfeisiau clyw gorau heb unrhyw gost, gyda gwasanaeth ôl-ofal penodol ar gyfer cyn-filwyr. Yn ogystal â gosod y dechnoleg clyw fwyaf fodern maen nhw'n cefnogi cyflyrau cysylltiedig tinitws a materion iechyd meddwl, drwy eu partneriaid. Mae hyn yn helpu i leihau gorbryder, iselder ac osgoi sefyllfaoedd cymdeithasol y mae cyn-filwyr yn aml yn ei brofi o ganlyniad i golli clyw.

**Gwefan: veteranshearing.org.uk**

**E-bost: info@veteranshearing.org.uk**

**Ffôn: 01455 248900**

## GIG Cymru i Gyn-filwyr

Mae GIG Cymru i Gyn-filwyr yn wasanaeth arbenigol, â blaenoriaeth ar gyfer unigolion sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, ar unrhyw adeg yn eu bywydau ac sy'n profi anawsterau iechyd meddwl sy'n gysylltiedig yn benodol â'u gwasanaeth milwrol.

Mae gan GIG Cymru i Gyn-filwyr glinigwyr iechyd meddwl profiadol (a elwir yn Therapyddion i Gyn-filwyr) gydag arbenigedd mewn problemau iechyd meddwl milwrol. Mae'r tîm yn derbyn atgyfeiriadau gan staff gofal iechyd, meddygon teulu ac elusennau cyn-filwyr. Yn allweddol, mae'r tîm yn derbyn hunangyfeiriadau gan gyn-bersonél y lluoedd arfog. Sylwch nad oes angen diagnosis iechyd meddwl ar gyfer atgyfeiriad, mae'n ddigon i wybod bod problem iechyd meddwl sy'n gysylltiedig â gwasanaeth milwrol.

I atgyfeirio, ewch i'n gwefan: www.veteranswales.co.uk ac edrych o dan tab 'atgyfeirio' lle mae ffurflen hunangyfeirio ar-lein neu ffurflen atgyfeirio papur argraffadwy. Fel arall, gallwch ffonio neu e-bostio i gael cyngor pellach.

Bydd apwyntiadau'n cael eu trefnu mor agos i gartref y cyn-filwr â phosib mewn lleoliad addas. Mae'r tîm yn cynnig pum clinig o fewn ardal bwrdd iechyd Gwent. Edrychwch ar ein gwefan i gael rhagor o wybodaeth am leoliadau clinigau o dan 'Byrddau Iechyd' yna 'Aneurin Bevan'.

Yn dilyn yr asesiad, mae'n bosib y bydd cyn-filwyr yn cael cynnig therapi seicolegol gan y Therapydd i Gyn-filwyr a/ neu atgyfeiriad ymlaen at dimau neu adrannau eraill y GIG i gael triniaeth bellach. Bydd y Therapydd i Gyn-filwyr hefyd yn cyfeirio at elusennau cyn-filwyr am gymorth, er enghraifft, rheoli dyledion, budd-daliadau a hawliadau pensiwn rhyfel/iawndal lluoedd arfog fel y nodwyd. Noder, ni all y gwasanaeth ddarparu diagnosis ar gyfer ceisiadau Cynllun Iawndal y Lluoedd Arfog.

Nid yw'r gwasanaeth yn gallu ymateb i atgyfeiriadau brys. Dylai cyn-filwyr mewn argyfwng gysylltu â'u meddyg teulu neu'r Gwasanaeth Meddygon Teulu y tu allan i oriau arferol. Mae seiciatrydd ar alwad ym mhob Uned Damweiniau ac Achosion Brys mewn Ysbytai Cyffredinol Dosbarth. Neu ffoniwch Linell Gymorth Iechyd Meddwl Cymru (Llinell Gwrando Cyngor Cymunedol), mae hon yn llinell gymorth gwasanaeth gwrando a chefnogi cyfrinachol ac mae ar gael 24/7:

**FFONIWCH - 0800 132 737 neu tecstiwch 'help' i 81066**

# Iechyd a Lles

Os hoffech drafod atgyfeiriad neu os oes angen rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth, cysylltwch â'r tîm ar:

**Manylion Cyswllt**

GIG Cymru i gyn-filwyr
Canolfan Therapïau Seicolegol,
Heol Glossop,
Caerdydd, CF24 0SZ
Ffôn: 029 2183 2261

**Os ydych yn byw yng**
Nghasnewydd, Caerffili, Torfaen, Blaenau Gwent, Sir Fynwy neu ardaloedd Powys ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed

**Bwrdd Iechyd**
Aneurin Bevan

**Cyfeiriad**
Ysbyty Maindiff Court, Ross Rd, Y Fenni, Sir Fynwy, NP7 8NF

E-bost - abb.adminvnhsw@wales.nhs.uk

Ffôn - 01873 735240

**Os ydych yn byw yng**
Nghaerdydd a Bro Morgannwg

**Bwrdd Iechyd**
Caerdydd a'r Fro

**Cyfeiriad**
Ysbyty Brenhinol Caerdydd, Heol Glossop, Caerdydd, CF24 0SZ

E-bost - admin.vnhswc&v@wales.nhs.uk

Ffôn - 029 2183 2261

## Rhwydwaith Trawma Cyn-filwyr (VTN Cymru)

Sefydlwyd Rhwydwaith Trawma i Gyn-filwyr Cymru (VTN Cymru) i sicrhau bod cyn-Aelodau'r Lluoedd Arfog, a ddioddefodd anafiadau corfforol o ganlyniad i'w gwasanaeth, yn gallu cael mynediad at y gofal mwyaf prydlon a phriodol ar gyfer eu hanafiadau ar ôl cael eu rhyddhau o'r Lluoedd Arfog. Gellir delio ag anafiadau'r rhan fwyaf o gyn-filwyr gan ddefnyddio llwybrau atgyfeirio arferol y GIG. Fodd bynnag, mae difrifoldeb neu natur anarferol rhai anafiadau ymladd yn golygu bod cyn-filwyr weithiau angen mewnbwn arbenigol na fydd efallai ar gael yn eu bwrdd iechyd.

Mae VTN Cymru yn darparu gwasanaeth canolog i gynorthwyo unigolion, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a'r trydydd sector gyda chyngor perthnasol ar lwybrau atgyfeirio priodol os oes angen cymorth parhaus a gallant gynorthwyo gyda sicrhau cyllid priodol pan fo atgyfeirio trawsffiniol yn angenrheidiol. Mae'r rhwydwaith yn cynnwys cydweithrediad o glinigwyr arbenigol sydd ag arbenigedd perthnasol sydd â diddordeb mewn darparu gofal i gyn-filwyr.

# 5 Iechyd a Lles

Gall atgyfeiriadau at y rhwydwaith gael eu gwneud gan feddygon teulu, clinigwyr eraill, a sefydliadau'r trydydd sector pan fo angen sydd heb ei ddiwallu am asesiad neu driniaeth arbenigol ar gyfer cyflyrau corfforol sy'n ymwneud â gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog.

Lansiwyd VTN Cymru ar 3 Hydref 2019, ac fe'i cynhaliwyd yn wreiddiol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Ym mis Ionawr 2021 trosglwyddwyd y cyfrifoldeb o gynnal VTN Cymru i Rwydwaith Cyflawni Gweithredol (ODN) Rhwydwaith Trawma De Cymru (SWTN), dan ofal Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

Mae'r Rhwydwaith yn cynnwys De Cymru, Gorllewin Cymru a De Powys a gall ddarparu atgyfeiriadau uniongyrchol ar gyfer gwasanaethau VTN Cymru o fewn y canolfannau trydyddol yng Nghymru. Ar gyfer cleifion yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru, mae cysylltiad agos rhwng VTN Cymru a chydweithwyr cyfatebol yn VTN Lloegr sy'n gweithio ar draws Lerpwl, Birmingham a Stoke-on-Trent a gall drefnu unrhyw atgyfeiriadau angenrheidiol fel y bo'n briodol.

**Gellir gwneud atgyfeiriadau drwy Veteranstraumanetwork@wales.nhs.uk**

## Veterans UK – Gwasanaeth Lles Cyn-filwyr / Gwasanaeth Pontio'r Lluoedd Amddiffyn / IPC4V

Mae Gwasanaethau i Gyn-Filwyr sy'n rhan o Veterans UK, yn darparu cymorth un i un i bersonél y lluoedd arfog, pobl sy'n gadael, cyn-filwyr a'u teuluoedd.

**Mae Gwasanaeth Lles Cyn-filwyr (VWS)** yn darparu cefnogaeth gyfannol i bersonél, cyn-filwyr a'u hanwyliaid sydd ag angen lles parhaus, gan gynnwys cymorth gydag anafiadau a hawliadau iawndal profedigaeth, cefnogaeth pontio i bersonél sy'n cael eu rhyddhau ar sail feddygol a chymorth a chefnogaeth gyfrinachol i'r rhai sydd â salwch sy'n cyfyngu ar fywyd. Veterans Welfare Service - GOV.UK (www.gov.uk)

**Mae Gwasanaeth Pontio'r Lluoedd Arfog (DTS)** yn darparu cefnogaeth gyfannol, cefnogaeth i'r rhai sy'n gadael y gwasanaeth a'u teuluoedd sydd fwyaf tebygol o wynebu heriau wrth iddynt adael y lluoedd arfog, gan eu cynorthwyo i addasu i fywyd sifil drwy gydlynu a symleiddio mynediad at gymorth ar draws amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys tai, cyllid, cyflogaeth a mynediad at ofal iechyd. Help i'r rhai sy'n gadael gwasanaeth gan Defence Transition Services - GOV.UK (www.gov.uk)

**Mae Comisiynu Personol Integredig ar gyfer Cyn-filwyr (IPC4V)** yn darparu cymorth pwrpasol i Ymadawyr Gwasanaeth sy'n dioddef o faterion iechyd ffisegol, niwrolegol, cymhleth a iechyd meddwl sy'n deillio o anaf y gellir ei briodoli i wasanaethu.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am ein gwasanaethau a'n ffurflenni atgyfeirio ar y tudalennau gwe uchod neu trwy ffonio llinell gymorth Veterans UK - **0808 1914 2 18**

### Eisiau cysylltu â ni?

Gwasanaethau Pontio'r Lluoedd Amddiffyn:

DBSVets-DTS-Wales-Mid@mod.gov.uk (De a'r Canolbarth)

DBSVets-DTS-North@mod.gov.uk (Gogledd)

# Iechyd a Lles

**Gwasanaeth Lles Cyn-filwyr:**
**Veterans-UK-VWS-Wales-Mid@mod.gov.uk**
**Veterans-UK-VWS-North@mod.gov.uk**

## Gweddwon Rhyfel

Rydyn ni'n cynnig cymorth ac arweiniad penodol ac yn eich cyfeirio at sefydliadau eraill hefyd. Rydyn ni'n cynnig cyfeillgarwch ar lefel genedlaethol a lleol. Rydyn ni'n sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar yr holl wasanaethau, rhengoedd ac oedrannau. Mae gennym drefnwyr rhanbarthol ym mhob ardal o Brydain a Gogledd Iwerddon. Maen nhw'n cadw mewn cysylltiad â'r aelodau sy'n byw yn eu hardal ac yn trefnu digwyddiadau lleol. Ar lefel genedlaethol, rydyn ni'n trefnu digwyddiadau i gynnwys yr holl aelodau.

**Gwefan: warwidows.org.uk**
**E-bost: info@warwidows.org.uk**
**Ffôn: 08452 412 189**

## The Warrior Programme

Mae ein rhaglen yn galluogi unigolion i reoli eu hemosiynau ac i ddatblygu'r cydnerthedd, y ffocws a'r ysgogiad i lwyddo yn y byd sydd ohoni. Datblygwyd y rhaglen dros y ddeng mlynedd ddiwethaf i fodloni'r galw a'r heriau y mae aelodau presennol a chyn-aelodau y Lluoedd Arfog a'u teuluoedd wedi eu profi.

**Sean Gane - Regional Co-ordinator Cydlynydd Rhanbarthol (De Cymru a'r De-orllewin)**
**Sean.Gane@warriorprogramme.org.uk**
**https://warriorprogramme.org.uk/**

## Woody's Lodge

Hyb cymdeithasol yw Woody's Lodge ac mae'n arwain cyn-filwyr at y cymorth a'r gefnogaeth y mae arnynt eu hangen er mwyn ail-feithrin ymgysylltiad â'u teuluoedd a'u cymunedau. Ein gweledigaeth yw creu man cyfarfod croesawgar ar gyfer y rheiny sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog a'r Gwasanaethau Brys, lle y gallant gael cymorth a chyngor arbenigol a chyfle i feithrin cysylltiad gyda ffrindiau hen a newydd a'u teulu.

Am ragor o wybodaeth, os hoffech ymweld â Woody's Lodge neu gymryd rhan mewn unrhyw ffordd, ffoniwch neu e-bostiwch ni.

**Manylion Cyswllt**
**01446 781792 (De) neu 01492 533954 (Gogledd)**
**support@woodyslodge.org**

### Fferm Ymddiriedolaeth Amelia

Mae Fferm Ymddiriedolaeth Amelia yn noddfa cefn gwlad ym Mro Morgannwg. Mae'n ymestyn dros 160 erw ac yn gartref i anifeiliaid fferm, bywyd gwyllt a llecynnau natur eithriadol. Dyma gartref Woody's Lodge ers 2018 ac ers hynny mae wedi dod yn bartner brwdfrydig yma. Rydym yng nghanol byd natur sydd heb ei gyffwrdd, lle gallwch ddarganfod trysorau cudd yn yr awyr agored.

Fferm Ymddiriedolaeth Amelia, Lôn 5 Milltir, Y Barri, CF62 3AS

**01446 781792**
**Llun - Iau 10am - 3pm**

### Fferm Penlan (Gorllewin Cymru)

Mae Fferm Penlan yn gartref i rai o'n prosiectau mwyaf. Fe'i lleolir ger Aberteifi. Mae rhywbeth at ddant pawb yma, o weithgareddau hamdden i hyfforddi a rhwydweithio. Mae yma botensial anhygoel gyda chynlluniau i adeiladu bythynnod gwyliau a chyfleusterau hyfforddi. Mae'r fferm yn elwa o ddau grant a fydd yn cael effaith sylweddol ar ei thwf a'i datblygiad.

Fferm Penlan, Penrhiwpal, Llandysul, SA44 5QH

**01559361328**
**Llun - Iau 10am - 3pm**

### Fferm Tŷ Gwalia

Mae Tŷ Gwalia wedi'i lleoli yng nghanol harddwch Sir Ddinbych. Mae'n ddelfrydol i bobl sy'n hoff o fyd natur a'r rhai sy'n mwynhau gweithgareddau awyr agored. Mae'n cwmpasu 11 erw ac yn darparu tai preifat i gyn-filwyr. Mae'r trysor cudd hwn yn lle i gysylltu â theulu a ffrindiau tra'n cael hwyl, bod yn egnïol, darganfod hobïau newydd a meithrin cysylltiadau newydd. Gallwch fwynhau gwersylla, pysgota, beicio, saethyddiaeth, cerdded, ffotograffiaeth, celf, garddio, a chymaint mwy!

Parc Eirias, Ffordd Abergele, Bae Colwyn, LL29 8BN

**01492 533954**
**Llun - Iau 10am - 3pm**

## Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent

Gall GDAS gynnig ystod eang o wasanaethau i chi fynd i'r afael â'ch defnydd o gyffuriau neu alcohol.

- Gwasanaeth Ymgysylltu
- Gwasanaeth Triniaeth Weithredol
- Gwasanaethau Adferiad
- Gwasanaethau Cyfiawnder Troseddol
- Ymyriadau Llys Statudol:
- Cymorth i deuluoedd a gofalwyr

# Iechyd a Lles

Mae GDAS yn gweithredu o amrywiaeth eang o ganolfannau lleol ledled Gwent. Rydyn ni hefyd yn gweithredu o fewn lleoliadau cymunedol ac yn cynnig gwasanaeth allgymorth.

**Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag un o'n tîm ar:**

**0333 999 35 77**
**info@gdas.wales**

## Drink Line

Yn cefnogi milwyr a sifiliaid gyda phroblemau sy'n gysylltiedig â diod a chyffuriau.

### Cymorth

Mae Drink Line yn darparu llinell gymorth gyfrinachol (agored Llun-Gwener rhwng 9am ac 8pm, penwythnosau rhwng 11am a 4pm) sy'n gallu helpu galwyr sy'n poeni am eu hyfed ac aelodau teulu pryderus y rhai sy'n yfed.

**Manylion Cyswllt**

**0800 917 8282**
**Llinell gymorth: 0300 123 1110**
**www.patient.co.uk/support/Drinkline**

## Support Line

Yn cynnig cymorth emosiynol cyfrinachol i blant, oedolion ifanc ac oedolion dros y ffôn, drwy e-bost a'r post.

### Cymorth

Mae Support Line yn gweithio gyda galwyr i ddatblygu strategaethau ymdopi iach a chadarnhaol, teimlad mewnol o gryfder a hunan-barch i annog iachâd, adferiad a symud ymlaen gyda bywyd.

**Manylion Cyswllt**

Llinell Gymorth, Blwch Post 2860, Romford, Essex, RM7 1JA

**01708765200**

**info@supportline.org.uk**

**www.supportline.org.uk**

## Cymdeithas Alzheimer

Cymdeithas Alzheimer yw prif elusen gofal ac ymchwil y DU ar gyfer pobl a chanddynt ddementia, eu teuluoedd a'u gofalwyr

**Rhif ffôn: 0300 222 1122**

**E-bost: info@alzheimers.org.uk**

## Gwasanaeth Nyrsys Admiral y Lleng Brydeinig Frenhinol - Cynorthwyo Gofalwyr a Theuluoedd y rhai â Dementia

Mae'r Lleng yn gweithio gyda Dementia UK i ddarparu cymorth Nyrsys Admiral – gwasanaeth sy'n cynorthwyo eu buddiolwyr, a all fod yn ofalwr neu'r person sy'n byw gyda dementia, sydd wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog y DU. Ffocws y gwasanaeth yw cynnal annibyniaeth a gwella ansawdd bywyd gofalwyr a theuluoedd a darparu'r cyngor ymarferol sydd ei angen arnynt. Mae gan Nyrsys Admiral y profiad i hwyluso'r gwasanaeth bob cam o'r ffordd, gan gynnig: asesiadau medrus i bennu anghenion gofalwyr teulu ac anghenion y person sy'n byw gyda dementia; gwybodaeth a chyngor ymarferol i ofalwyr a'u teuluoedd ar gynorthwyo'r rhai â dementia; gweithio gyda gofalwyr a theuluoedd i ddarparu cymorth emosiynol a seicolegol drwy gydol y daith ofalu; cyngor ar sut i ofalu am rywun â dementia a help i ddatblygu sgiliau i annog dulliau cadarnhaol o fyw gyda dementia.

### Beth Ydym Ni'n Ei Wneud?

Mae Nyrsys Admiral y Lleng Brydeinig Frenhinol yn cynnig cymorth, gwybodaeth a chyngor arbenigol i ofalwyr pobl â dementia.

Mae Nyrsys Admiral yn nyrsys cofrestredig sy'n arbenigo mewn dementia. Nod y gwasanaeth yw helpu gofalwyr i ennill y sgiliau angenrheidiol i gynorthwyo gyda gofal dementia, hyrwyddo dulliau cadarnhaol o fyw yn dda gyda dementia a gwella ansawdd bywyd.

Mae'r Gwasanaeth wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â Dementia UK, elusen genedlaethol sy'n hyrwyddo ac yn datblygu Nyrsio Admiral.

### Meini Prawf Atgyfeirio:

Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Rhondda Cynon Taf, Bro Morgannwg, Merthyr, Sir Fynwy, Castell-nedd Port Talbot, Casnewydd, Torfaen a Blaenau Gwent.

O ran codau post, rydyn ni'n cwmpasu holl godau post **CF** a **NP, SA1,2,3,8-13, HR3 (5)** ac **LD3 (7,8,0)**

**Ffôn: 0333 011 4497**

**E-bost: admiralsouthwales@britishlegion.org.uk**

**Gwasanaeth Nyrsys Admiral Cenedlaethol** – os ydych chi'n byw mewn ardal o Gymru sydd ddim yn dod o dan yr uchod

**Ffôn: 0808 802 8080**

**E-bost: Ansupport@britishlegion.org.uk**

## YourNorth

YourNorth – 'Mae YourNorth yn gwmni hyfforddi arobryn yng Nglynebwy, sy'n darparu gweithdai lles, Cymorth Cyntaf ar gyfer Iechyd Meddwl a chyrsiau Diogelu a hyfforddi llwyddiant.

# Iechyd a Lles

Mae'r sylfaenwyr yn gyn-filwyr ac maen nhw hefyd wedi lansio YourNorth Veteran Support sef cwmni nid-er-elw, budd cymunedol, sy'n darparu hyfforddiant lles meddwl am ddim, cefnogaeth a chyfeirio ar gyfer cymuned y Lluoedd Arfog. Eu nod yw gwella lles, lleihau unigrwydd, gwella ansawdd bywyd a sefydlu cymuned sy'n deall ac sy'n gwybod sut i gefnogi ei gilydd.

**Os ydych chi'n unrhyw un o'r canlynol ac yn dymuno dod i'w cyrsiau am ddim, cysylltwch â ni:**

- Personél sy'n gwasanaethu
- Cyn-filwyr
- Cadetiaid
- Milwyr wrth gefn
- Aelodau teulu'r uchod
- Sefydliad sy'n cefnogi neu'n cyflogi unrhyw un o'r uchod.

Os hoffech archebu lle ar unrhyw un o'u gweithdai neu os hoffech drafod y posibilrwydd ohonynt yn dod i gyflwyno i chi a'ch staff, anfonwch e-bost atynt: info@yournorth.co.uk neu ffoniwch ar 01495 357937.

Disgowntiau i grwpiau ar gael os nad ydych yn dod o dan y meini prawf cymhwysedd ar gyfer llefydd wedi'u hariannu.

**I gael gwybod mwy am sut y gallan nhw eich cefnogi chi, ewch i'w gwefan neu cysylltwch â nhw'n uniongyrchol:**

**Kelly & Jamie Farr**
**01495 357937**

**info@yournorth.co.uk**
**www.yournorth.co.uk**

**www.facebook.com/YourNorthUK**
**www.twitter.com/YourNorthUK**
**www.instagram.com/YourNorth**

## Fighting With Pride

Mae Fighting With Pride yn cefnogi iechyd a lles Cyn-filwyr LHDT+, personél y gwasanaeth a'u teuluoedd - yn enwedig y rhai yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan y gwaharddiad ar bersonél LGBT+ fu'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog cyn Ionawr 2000.

Rydyn ni'n falch o gyflawniadau ein personél LHDT+ sy'n gwasanaethu. Maen nhw'n gwasanaethu ym mhob rhan o'r Lluoedd Arfog ac yn cael eu cefnogi ar bob lefel.

Mewn gwrthgyferbyniad llwyr, ac er gwaetha'r ffaith bod dros 20 mlynedd wedi mynd heibio ers codi'r 'gwaharddiad hoyw' o'r diwedd, ni wnaed unrhyw ymdrech i gefnogi adferiad y miloedd o bersonél LHDT+ a gafodd eu diswyddo neu eu gorfodi i adael y gwasanaeth cyn 2000.

# 5 Iechyd a Lles

Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i awgrymu gwybodaeth ddefnyddiol a chyfeirio at ffyrdd o gael help. Rydym yn gweithio gydag ystod eang o sefydliadau i sicrhau bod ein Cyn-filwyr LHDT+, personél sy'n gwasanaethu a'u teuluoedd yn cael croeso cynnes lle bynnag y maent yn chwilio am help.

Ein harbenigedd yw 'profiad byw' ein tîm. Cysylltwch â ni a rhowch wybod i ni sut allwn ni helpu.

**Manylion Cyswllt**

**info@fightingwithpride.org.uk**
**www.fightingwithpride.org.uk**

## Gofalu am Gaerffili

### Beth yw 'Gofalu am Gaerffili'?

Bydd tîm 'Gofalu am Gaerffili', tîm o staff sefydledig Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, yn cynnig gwasanaeth brysbennu newydd wedi'i drefnu'n ganolog er mwyn ymateb i drigolion y Fwrdeistref Sirol hynny sydd angen cymorth gyda materion fel tlodi bwyd, ôl-ddyledion dyled neu rent, unigedd neu unigrwydd.

Nod 'Gofalu am Gaerffili' yw cynnig un pwynt cyswllt i'r unigolyn gyda'r tîm a fydd yn cynorthwyo'r unigolyn hwnnw i fynd at wraidd ei fater, sy'n golygu mai dim ond unwaith y bydd angen iddo egluro ei sefyllfa.

Yna bydd y tîm yn cysylltu â'r gwasanaethau presennol, yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a gyda phartneriaid, gan gynnwys y sector gwirfoddol a grwpiau cymunedol lleol, gan gefnogi'r unigolyn hwnnw ar ei daith gyda'r gwasanaethau amrywiol hynny, o'r dechrau i'r diwedd.

### Pa fathau o gymorth y gall Gofalu am Gaerffili eu cynnig?

Mae hwn yn fodel tymor hir ar gyfer cynnig cymorth cyfannol i drigolion Bwrdeistref Sirol Caerffili, ond bydd ffocws cychwynnol tîm Gofalu am Gaerffili ar helpu'r trigolion gyda'r canlynol:

- Cymorth ariannol - cymorth gyda dyled, budd-daliadau a sicrhau'r incwm mwyaf posibl
- Mynd i'r afael â thlodi bwyd – gan gynnwys atgyfeiriadau at Fanciau Bwyd, grantiau ar gyfer grwpiau cymunedol
- Helpu unigolion i gael mynediad at raglenni cymorth cyflogaeth
- Mynd i'r afael ag unigedd ac unigrwydd - trwy gysylltiadau â grwpiau lleol a/neu'r rhaglen wirfoddoli o'r enw'r Cynllun Cyfeillio
- Cymorth ymarferol ar gyfer unigolion sydd angen help sy'n gysylltiedig â COVID-19
- Ymyrraeth gynnar - er enghraifft cymorth iechyd meddwl a phresgripsiynu cymdeithasol
- Adeiladu ar bartneriaethau gyda grwpiau cymunedol

Os ydych chi'n byw, neu'n cynorthwyo rhywun, ym Mwrdeistref Sirol Caerffili ac yn profi problemau gydag un neu fwy o'r rhain - hoffai tîm Gofalu am Gaerffili glywed gennych chi.

**Ffôn: 01443 811490**
**E-bost: GofaluAmGaerffili@caerffili.gov.uk**

Mae tîm Gofalu am Gaerffili ar gael yn ystod oriau swyddfa - Dydd Llun-Dydd Iau (8.30am-5pm) a Dydd Gwener (8.30am – 4.30pm).

# Tai

## Beth yw tai cymdeithasol?

Mae cynghorau lleol a chymdeithasau tai yn cynnig llety fforddiadwy i'w rentu, a chyfeirir at hyn fel tai cymdeithasol. Rhaid i ymgeiswyr ymuno â rhestr aros er mwyn cael eu hystyried, oherwydd yn aml mae yna alw mawr am dai cymdeithasol.

### Sut i geisio am dai cymdeithasol?

Gallwch ymgeisio i'ch awdurdod lleol er mwyn cofrestru ar eu rhestr aros. Gellir gosod ymgeiswyr sydd ag angen sy'n flaenoriaeth yn uwch ar y rhestr, ac ni fydd pob un sy'n ymgeisio yn gymwys.

**Mae'r rheiny ag anghenion sy'n flaenoriaeth yn cynnwys pobl sydd:**

- Wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog ac yn ddigartref ar ôl gadael y Lluoedd Arfog
- Ag anableddau neu gyflyrau meddygol.
- Yn ddigartref neu mewn perygl o ddod yn ddigartref.
- Yn byw mewn eiddo sy'n anniogel neu'n anaddas.
- Ag angen bod ger aelodau'r teulu neu ofalwyr.

## Llwybr Tai Cenedlaethol ar gyfer cyn-bersonél y lluoedd arfog


I gydnabod eu gwasanaeth i'w gwlad, mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai pob cyn aelod o'r Lluoedd Arfog gael cymorth, os oes angen, i ddod o hyd i lety addas boed hynny'n uniongyrchol wrth gael ei ryddhau neu'n hwyrach mewn bywyd. Ddylai neb gael bod yn ddigartref.

Mae amcangyfrifon o nifer yr aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog sy'n byw yng Nghymru yn amrywio ac y gallai fod mor uchel â 385,000. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r gefnogaeth sydd ar gael yng Nghymru i sicrhau bod pawb sydd angen llety, neu wasanaeth a fydd yn eu helpu i gadw llety neu ddod o hyd iddo, yn gallu cael mynediad ato.

I gefnogi Cyfamod y Lluoedd Arfog Llywodraeth y DU, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu Pecyn Cymorth i'r Lluoedd Arfog, cyn-filwyr a'u teuluoedd yng Nghymru. Mae'r pecyn hwn yn cynnwys cefnogaeth i bobl mewn meysydd fel gofal iechyd; addysg; a thai gan gynnwys statws blaenoriaeth yn y cynllun Cymorth Prynu, Grantiau Cyfleusterau Anabl ar gyfer cyn-filwyr anabl, Grantiau Addasu Corfforol a statws anghenion blaenoriaethol o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

**https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-10/llwybr-tai-cenedlaethol-ar-gyfer-cyn-aelodaur-lluoedd-arfog.pdf**

# Cymorth Llety cyn diwedd Gwasanaeth Milwrol



# Tai

## Blaenau Gwent

Mae Cartrefi Blaenau Gwent yn bartneriaeth rhwng Cyngor Blaenau Gwent a phartneriaid tai Tai Calon, Linc Cymru, Cartrefi Melin ac United Welsh.

Mae'r wefan hon yn cynnig gwybodaeth am y gwahanol opsiynau tai sydd ar gael ym Mlaenau Gwent. Ein nod yw helpu pobl sy'n chwilio am gartref i wneud dewisiadau gwybodus am yr opsiynau mwyaf addas sydd ar gael.

**https://www.blaenaugwenthomes.org.uk/**

**Mae nifer o opsiynau tai gwahanol ar gael. Maen nhw'n cynnwys:**

- Tai cymdeithasol a ddarperir gan Gymdeithasau Tai
- Tai rhent preifat
- Tai fforddiadwy i'w prynu neu eu rhentu
- Tai i Bobl Hŷn

## Pwy all ddefnyddio'r gwasanaeth?

Mae unrhyw un a hoffai wneud cais am dai ym Mlaenau Gwent yn gallu defnyddio'r gwasanaeth. I wneud cais i ymuno â'r Gofrestr Tai, rhaid i chi fod dros 16 oed.

Bydd angen i chi lenwi ffurflen gais ar-lein, sydd ar gael o'r wefan hon. Mae'r ffurflen gais yn eich galluogi i wneud cais am eiddo Cymdeithas Tai.

**Ynghyd â'ch ffurflen gais gofynnir i chi ddarparu'r dogfennau canlynol (o fewn cyfnod o 28 diwrnod):**

- Prawf o fudd-dal plant (Llythyr budd-dal plant neu gyfriflen banc sy'n profi'r taliadau, eich enw a'ch cyfeiriad)
- Prawf beichiogrwydd
- Prawf o statws perchennog cartref
- Prawf o euogfarnau troseddol
- Tystiolaeth o'ch hawl i breswylio yn y DU os nad ydych yn Ddinesydd Prydeinig (e.e. pasbort a dogfennau perthnasol eraill gan y Swyddfa Gartref)

**Bydd pob cais anghyflawn yn cael ei ganslo ar ôl cyfnod o 28 diwrnod segur gan yr ymgeisydd o'r dyddiad y gofynnwyd am wybodaeth ac na chafodd ei darparu.**

Cyn cynnig eiddo mae'n bosib y gofynnir i chi ddarparu dogfennau pellach i gefnogi eich cais. Byddwn yn dweud wrthych pa ddogfennau i'w darparu a phryd i'w darparu.

Rhaid i'r holl ddogfennau a ddarperir fod yn wreiddiol, yn gyfredol ac yn ddilys. Am restr lawn o ddogfennau derbyniol cysylltwch â'r Ganolfan Cyngor Tai.

Os na fyddwch yn rhoi'r dogfennau angenrheidiol i ni gellir derbyn eich cais ar y gofrestr tai ond ni fydd yn cael unrhyw flaenoriaeth. Ar ôl derbyn y dogfennau bydd eich cais yn cael eu hasesu a'u gosod yn y band priodol o'r dyddiad y derbyniwyd y dogfennau. Gweler Polisïau am ragor o fanylion am ein cynllun bandio.

# 6 Tai

## Blaenoriaethu ceisiadau

Mae'r Cyngor yn defnyddio cynllun bandio i flaenoriaethu ceisiadau.

Bydd pob cais tai a throsglwyddiad sy'n cael ei dderbyn ar gyfer llety rhent yn cael eu hasesu a'u gosod yn un o'r bandiau, y rhai yn y band uchaf sy'n cael y flaenoriaeth uchaf.

## Band Brys

### I fod yn y Band Brys, rhaid i o leiaf un o'r rhain fod yn berthnasol:

- Rydych chi wedi colli eich cartref presennol oherwydd tân, llifogydd neu drychineb
- Mae angen llety arnoch o ganlyniad i adael y Lluoedd Arfog a cholli llety milwrol a gweddwon neu weddwon sifil y rhai sy'n gwasanaethu yn y lluoedd arfog
- Ar hyn o bryd rydych mewn eiddo sydd mewn cyflwr mor wael ag i beri risg eithafol i iechyd a diogelwch y rhai sy'n byw yno
- Rydych chi mewn eiddo lle mae gofyniad statudol ar hyn o bryd oherwydd gorchymyn gwahardd / gorchymyn dymchwel / pryniant gorfodol
- Ar hyn o bryd rydych chi'n tanfeddiannu tai cymdeithasol o un neu fwy o ystafelloedd gwely ac mae angen trosglwyddo i eiddo llai
- Mae gennych angen brys, ar unwaith, am resymau meddygol neu oherwydd anabledd, sy'n cael ei waethygu gan eich sefyllfa dai bresennol
- Byddwch yn rhyddhau eiddo wedi'i addasu drwy symud ac mae ymgeisydd addas ar y rhestr aros ar gyfer yr eiddo addasedig

## Band Aur

### I fod yn y Band Aur, rhaid i o leiaf un o'r rhain fod yn berthnasol:

- Rydych yn ddigartref ac mae'r gyfraith yn dweud bod yn rhaid i ni eich helpu
- Rydych mewn eiddo sy'n fyr o ddwy ystafell wely neu fwy sy'n addas i'ch anghenion
- Mae eich eiddo yn anaddas am resymau meddygol neu oherwydd anabledd
- Mae eich eiddo wedi cael ei asesu fel ei fod mewn cyflwr mor wael ag i beri risg sylweddol i iechyd a diogelwch ei ddeiliaid
- Mae eich llety presennol mewn cyflwr o'r fath fel ei fod yn cyfrannu at achosi salwch difrifol
- Rydych yn rhoi neu'n derbyn cymorth hanfodol, sydd ond yn gallu cael ei roi os ydych yn byw mewn lleoliad penodol o fewn yr ardal
- Mae gennych gyflogaeth barhaol na all barhau oni bai eich bod yn byw mewn lleoliad penodol o fewn yr ardal ac rydych fel arall wedi eich cartrefu'n ddigonol

# Tai



- Mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol wedi argymell eich bod yn gallu meithrin neu fabwysiadu plant ac nid yw eich llety presennol yn ddigon mawr
- Rydych chi, eich partner neu eich plant yn cael eich gorfodi i fyw ar wahân am fod eich llety presennol yn anaddas

## Band Arian

### I fod yn y Band Arian, rhaid i o leiaf un o'r rhain fod yn berthnasol:

- Rydych yn ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd ac mae'r gyfraith yn dweud bod yn rhaid i ni eich helpu.
- Mae eich eiddo wedi cael ei asesu fel eiddo afiach neu anaddas ac rydych yn byw mewn amodau tai anfoddhaol sy'n peri rhywfaint o risg i iechyd a diogelwch y deiliaid
- Rydych mewn eiddo sy'n fyr o un ystafell wely sy'n addas i'ch anghenion
- Mae eich llety presennol yn anaddas ac yn gwaethygu cyflwr iechyd yr ymgeisydd neu aelodau eraill o'r cartref ac mae angen llety amgen mwy addas i wella cyflwr iechyd
- Rydych yn denant tai cymdeithasol presennol nad yw'n gymwys ar gyfer Band Argyfwng neu Fand Aur, sy'n dymuno trosglwyddo ac sydd heb ôl-ddyledion rhent ac sydd wedi bod yn denant am 12 mis

## Band Efydd

- Pob ymgeisydd arall nas ymdriniwyd yn y Bandiau Argyfwng, Aur neu Arian
- Ymgeiswyr a gafodd dyfarniad Dewis Rhesymol ar gyfer categori Band Arian ond heb gysylltiad lleol
- Rydych yn berchennog cartref ac nid ydych yn gymwys ar gyfer Band Argyfwng, Aur neu Arian
- Mae gennych yr adnoddau ariannol i ddiwallu eich anghenion eich hun

Byddwn wedyn yn edrych ar bobl ar y Gofrestr Tai Cyffredin sydd yn y band hwnnw a byddwn yn cynnig yr eiddo i'r sawl sydd wedi bod yn aros hiraf.

Os yw'r tai mewn ardal anodd ei osod, efallai y bydd yn cael ei gynnig i bobl yn y Band Efydd.

## Polisi Blaenau Gwent

### Ymgeiswyr y lluoedd arfog sy'n gadael neu eu gweddwon

- Er mwyn unioni'r anfantais y mae pobl sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog Prydeinig yn aml yn ei hwynebu wrth gael mynediad at dai cymdeithasol, gellir ailosod y dyddiad cofrestru gweithredol i'r dyddiad y gwnaethon nhw ymuno â Lluoedd Arfog Prydain yn yr achosion canlynol:
- lle mae aelod presennol o Luoedd Arfog Prydain yn debygol o fod yn ddigartref wrth gael ei ryddhau; Ymgeiswyr sydd angen llety ganlyniad i adael y Lluoedd Arfog a cholli llety milwrol a gweddwon neu weddwon sifil y rhai sy'n gwasanaethu yn y lluoedd arfog

- lle mae cyn-filwr o'r Lluoedd Arfog yn gwneud cais am ailgartrefu o fewn 3 mis i'w rhyddhau ac a allai fod yn ddigartref neu dan fygythiad o fod yn ddigartref o fewn 56 diwrnod i gyflwyno eu cais; neu
- mewn amgylchiadau eithriadol, ac yn ôl disgresiwn y Cyngor, lle mae cyn-filwr o'r Lluoedd Arfog yn gwneud cais am ailgartrefu y tu hwnt i 3 mis a hyd at 2 flynedd o'u dyddiad rhyddhau ac maent yn gallu dangos nad ydynt wedi gallu trefnu llety sefydlog yn ystod yr amser hwn.

# Caerffili

## Gwnewch gais am dai cymdeithasol

Rydym bellach yn gweithredu Cofrestr Tai Cyffredin lle gallwch wneud cais am dai cymdeithasol gyda'r cyngor a landlordiaid tai cymdeithasol eraill ym mwrdeistref sirol Caerffili gyda chais ar-lein sengl.

Os hoffech wneud cais am dai cymdeithasol, bydd angen i chi lenwi ein ffurflen gais ar-lein.

Cofrestr Tai Cyffredinol - Hysbysiadau preifatrwydd (PDF)

Os ydych chi'n teimlo y gallech gael anawsterau wrth lenwi'r ffurflen ar-lein, cysylltwch â ni ar 01443 873521.

## Sut caiff cartrefi eu dyrannu?

Mae'r holl eiddo a osodir gan y darparwyr tai'n cael eu gosod drwy'r Gofrestr Tai Cyffredin yn unol â'r Polisi Dyrannu Cyffredin.

## Pa mor hir fydd yn rhaid i mi aros?

Mae hyn yn dibynnu ar faint a math y tai rydych eisiau, ac ar yr ardaloedd neu ranbarthau rydych yn dewis.

Mae'r daenlen Excel isod yn eich cynghori am eich rhagolygon o gael eich ailgartrefu mewn gwahanol ardaloedd a gwahanol fathau o eiddo.

**Rhagolygon Tai (Excel 63kb)**

## Cartrefi sy'n barod i'w rhentu

Bob wythnos rydym yn cyhoeddi rhestr o eiddo sy'n 'barod i'w rhentu', ar yr amod bod yr eiddo yn addas ar gyfer eich anghenion. Am fanylion ewch i'n tudalen we Cartrefi sy'n barod i'w rhentu.

## Beth yw'r Gofrestr Tai Gyffredin?

Mae'r Gofrestr Tai Gyffredin yn darparu un pwynt mynediad i bawb sydd â diddordeb mewn tai cymdeithasol, tai hygyrch neu perchentyaeth cost isel ym mwrdeistref sirol Caerffili.

Cyflwynwyd y Gofrestr Tai Gyffredin ar 5 Rhagfyr 2016 ac mae'n disodli'r holl gofrestri tai a gynhelir gan y cyngor a'n partneriaid.

# Tai

## Pwy sy'n gysylltiedig?

Mae'r sefydliadau canlynol yn rhan o'r prosiect:

- Cymdeithas Tai Aelwyd
- Tai Caerffili (Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili)
- Cymdeithas Tai Cadwyn
- Charter Housing (rhan o'r Grŵp Pobl) n
- Derwen Cymru (rhan o'r Grŵp Pobl)
- Cymdeithas Tai Linc Cymru
- Cymdeithas Tai United Welsh
- Cymdeithas Tai Wales & West

## Sut byddwn ni'n defnyddio eich gwybodaeth

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu gan Dîm Asesu Cofrestr Tai Cyffredin Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a darparwyr tai cymdeithasol eraill sy'n gweithredu yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, er mwyn asesu eich cymhwysedd i gael eich derbyn ar y Gofrestr Tai Cyffredin i bennu lefel y flaenoriaeth a allai gael ei dyfarnu i'ch cais a materion cysylltiedig eraill. Rydyn ni'n dibynnu ar eich caniatâd i brosesu eich gwybodaeth a allai gael ei thynnu'n ôl.

Bydd yr wybodaeth y byddwch yn ei chyflwyno yn eich cais Cofrestr Tai Cyffredin yn cael ei defnyddio i asesu eich cymhwysedd ac fe'i defnyddir i bennu eich categori o angen o ran tai. Yn seiliedig ar eich categori o angen, mae'n bosib y byddwch yn cael cynnig tai cymdeithasol addas pan fydd ar gael. Mae'r broses hon yn cynnwys rhai elfennau o wneud penderfyniadau awtomatig.

Er mwyn asesu eich cais a sicrhau cywirdeb yr wybodaeth a ddarparwyd gennych, caiff Tîm Asesu Cofrestr Tai Cyffredin Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a/neu ddarparwyr tai cymdeithasol eraill ofyn am wybodaeth gan gyrff eraill a phasio gwybodaeth i gyrff eraill. Gallwn hefyd ddefnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd gennych i atal a chanfod twyll, a gallwn hefyd ofyn am wybodaeth oddi wrth sefydliadau eraill sy'n trin arian cyhoeddus a'i throsglwyddo iddynt.

Gall unrhyw wybodaeth am eich ffurflen gais Cofrestr Tai Cyffredin sy'n ymwneud â landlordiaid, asiantau neu eiddo rhent sector preifat gael ei rhannu gydag Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Bydd yr wybodaeth sydd gennym ynglŷn â'ch cais Cofrestr Tai Cyffredin, gan gynnwys unrhyw ddogfennau cysylltiedig, yn cael ei chadw fel arfer am 7 mlynedd ond gall hyn fod yn hirach o dan amgylchiadau penodol.

Mae gennych chi nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i weld y wybodaeth rydym yn ei chadw amdanoch a'r hawl i achwyno os ydych yn anfodlon â'r ffordd mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu.

# 6 Tai

Er mwyn cwblhau asesiad o amgylchiadau ymgeisydd, gall Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ofyn am wybodaeth ychwanegol gan ddefnyddio ffurflen ragnodedig. Mae rhagor o wybodaeth am sut y byddwn yn prosesu'r wybodaeth hon a hawliau gwybodaeth ar gael yn y ddogfen isod.

**Cofrestr Tai Cyffredin – Gwybodaeth trydydd parti i gefnogi cais (PDF)**

### Rhagor o wybodaeth

**I gael rhagor o wybodaeth am y Gofrestr, ffoniwch 01443 873521 neu e-bostiwch cofrestrtaicyffredin@caerffili.gov.uk**

## Polisi Tai Caerffili

### Meini Prawf Preswyl

Mae Adran 167 (2A) o Ddeddf Tai 1996 yn darparu y gall y polisi hwn gynnwys darpariaeth ar gyfer pennu blaenoriaethau ar gyfer categorïau o ffafriaeth resymol/ychwanegol.

Ymhlith y ffactorau y gall y Cyngor eu hystyried wrth bennu blaenoriaethau mae unrhyw gysylltiad lleol (o fewn ystyr a.81 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014) sydd rhwng unigolyn a'r ardal awdurdod lleol.

At ddibenion y polisi hwn, bydd meini prawf preswyl yn bodoli os bydd y Cyngor yn fodlon bod y canlynol yn wir am ymgeisydd neu aelod o'i ddarpar aelwyd:

1. (i) ei fod yn amlwg wedi ymsefydlu yn yr ardal, e.e. ar ôl byw yn y fwrdeistref sirol, o'i ddewis, am naill ai chwe mis allan o'r 12 mis diwethaf neu am dair blynedd allan o'r pum mlynedd diwethaf;
2. (ii) bod ganddo deulu sy'n byw yn y fwrdeistref sirol, e.e. rhiant/rhieni, plant, brawd/brodyr neu chwaer/chwiorydd, taid/nain neu wyrion a gofalw(y)r maeth neu warc-heidwa(i)d cyfreithiol;
3. (iii) ei fod yn gweithio yn y fwrdeistref sirol;
4. (iv) bod ganddo amgylchiadau arbennig:
    1. er mwyn bod yn agos at wasanaethau meddygol neu gymorth arbenigol sydd ond ar gael yn y fwrdeistref sirol;
    2. er mwyn darparu cymorth lefel ganolig neu uchel, fel y'i diffinnir gan y Cyngor, i aelod o'r teulu fel y nodir ym mhwynt (ii);
5. (v) ei fod yn aelod mewn gwasanaeth o Luoedd Arfog Prydain neu a oedd yn gwasanaethu yn Lluoedd Arfog Prydain ar unrhyw adeg yn ystod y pum mlynedd cyn ei gais am dŷ, ac mae wedi byw yn y fwrdeistref sirol cyn hynny;
6. (vi) ei fod yn briod neu'n bartner sifil mewn profedigaeth i rywun sydd wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog Prydain, os:
    1. (i) yw hawl y priod neu'r partner sifil mewn profedigaeth i fyw yn llety'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi dod i ben yn ddiweddar neu os bydd yn dod i ben, yn dilyn marwolaeth ei briod neu ei bartner sifil a oedd yn y lluoedd arfog;

2. (ii) gellir priodoli'r farwolaeth yn gyfan gwbl neu'n rhannol i'w wasanaeth; ac
3. (iii) roedd y priod neu'r partner sifil mewn profedigaeth i'r milwr marw yn arfer byw yn y fwrdeistref sirol.

7. (vii) ei fod yn aelod mewn gwasanaeth neu'n gyn-aelod o Luoedd wrth Gefn Prydain y mae anaf difrifol, cyflwr meddygol neu anabledd y gellir ei briodoli'n gyfan gwbl neu'n rhannol i'w wasanaeth wedi effeithio arno, ac sydd wedi byw yn y fwrdeistref sirol yn flaenorol.
8. (viii) ei fod wedi cael llety yn y fwrdeistref sirol o dan a **a.95 o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999**, oni fydd paragraffau (v) a neu b o God Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd yn gymwys.

## Blaenoriaeth

- unrhyw ymgeisydd sydd angen symud i lety addas wedi'i addasu oherwydd anaf difrifol, cyflwr meddygol neu anabledd y mae ef neu hi, neu aelod o'u haelwyd, wedi'i gael o ganlyniad i wasanaeth yn Lluoedd Arfog Prydain;
- pobl sydd angen llety o ganlyniad i adael Lluoedd Arfog Prydain a cholli llety milwrol;

*Lluoedd Arfog Prydain: cyn aelod, anaf difrifol neu golli llety milwrol*

Bydd dyfarniad o ddewis ychwanegol yn cael ei wneud i'r categorïau canlynol o bobl sydd:

1. (i) wedi gadael Lluoedd Arfog Prydeinig neu Luoedd Wrth Gefn Prydain o fewn y 5 mlynedd ddiwethaf. Mewn amgylchiadau eithriadol, gall y Cyngor ystyried ymestyn y cyfnod 5 mlynedd. Mewn achosion o'r fath byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i ystyriaeth y Panel Asesu Tai;
2. (ii) yn gwasanaethu fel aelodau o'r Lluoedd Arfog Prydeinig neu Luoedd Wrth Gefn Prydain sydd angen symud oherwydd anaf difrifol, cyflwr meddygol neu anabledd a gafwyd o ganlyniad i wasanaethu; neu
3. (iii) yn weddwon aelodau o'r Lluoedd Arfog ac yn gadael llety teuluol y gwasanaeth yn dilyn marwolaeth eu priod neu bartner.

## Amser a Dyddiad Cofrestru

Er mwyn unioni'r anfantais y mae pobl sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog Prydeinig yn aml yn ei hwynebu wrth gael mynediad at dai cymdeithasol, gellir ailosod y dyddiad cofrestru gweithredol i'r dyddiad y gwnaethon nhw ymuno â Lluoedd Arfog Prydain yn yr achosion canlynol:

1. (i) lle mae aelod presennol o Luoedd Arfog Prydain yn debygol o fod yn ddigartref adeg ei ryddhau;
2. (ii) lle mae cyn-filwr o'r Lluoedd Arfog yn gwneud cais am ailgartrefu o fewn 3 mis i'w rhyddhau ac a allai fod yn ddigartref neu dan fygythiad o fod yn ddigartref o fewn 56 diwrnod i gyflwyno eu cais; neu
3. (iii) mewn amgylchiadau eithriadol, ac yn ôl disgresiwn y Cyngor, lle mae cyn-filwr o'r Lluoedd Arfog yn gwneud cais am ailgartrefu y tu hwnt i 3 mis a hyd at 2 flynedd o'u dyddiad rhyddhau ac maent yn gallu dangos nad ydynt wedi gallu trefnu llety sefydlog yn ystod yr amser hwn.

Fe fydd y taliadau canlynol yn cael eu diystyru o'r asesiad ariannol:

1. (i) cyfandaliadau, dyfarniadau pensiwn parhaus a/neu Daliadau Incwm Gwarantedig a dderbyniwyd gan aelod o Luoedd Arfog neu Warchodfa Prydain fel iawndal am anaf, cyflwr meddygol neu anabledd a gafwyd ar wasanaeth gweithredol. Mae hyn yn cynnwys symiau a dderbyniwyd gan y Cynllun Pensiynau Rhyfel a Chynllun Iawndal y Lluoedd Arfog.

# Caerdydd

## Opsiynau Tai - Llety gan y Cyngor a Chymdeithasau Tai

Mae gan Gyngor Caerdydd a Chymdeithasau Tai'r ddinas restr aros gyffredin am eu heiddo. Gall unrhyw un sy'n 16 oed neu hŷn wneud cais ond dylech feddwl am:

- Ble'r ydych chi eisiau byw - oes eiddo gan y Cyngor neu Gymdeithas Tai yn yr ardal honno?
- Pa mor hir fydd yn rhaid i chi aros?
- A fyddai rhentu'n breifat yn eich siwtio chi'n well?
- Beth yw'r gwahaniaethau rhwng tenantiaethau'r Cyngor a'r Gymdeithas Tai?

Hefyd, cynhwysir gwybodaeth isod ar gyfer tenantiaid presennol y Cyngor a'r Gymdeithas Tai sydd am symud, neu sydd â diddordeb mewn prynu eu cartref.

## Oeddech chi'n gwybod...?

Mae tua 8,000 o bobl ar y Rhestr Aros Gyffredin, ac mae dros 400 o geisiadau newydd yn cael eu derbyn bob mis. Dim ond oddeutu 1,600 o eiddo'r Cyngor a'r Gymdeithas Tai sydd ar gael i'w gosod bob blwyddyn.

Dw i wedi ymgeisio - pa mor hir fydd rhaid i mi aros?

Mae pobl yn aml yn synnu cyn lleied o eiddo sydd gan y Cyngor a Chymdeithasau Tai erbyn hyn a hyd y rhestr aros. Mae'r Gyfrifiannell Amser Aros yn darparu gwybodaeth i helpu pobl sydd wedi gwneud cais am dai i benderfynu a yw rhentu gan y Cyngor/Cymdeithasau Tai yn iawn iddyn nhw ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys manylion am:

- Ble mae gan y Cyngor a Chymdeithasau Tai eiddo
- Nifer y gosodiadau a wnaed yn y gwahanol ardaloedd o'r ddinas
- Amcangyfrifir o'r siawns o dderbyn cynnig

Edrychwch ar y wybodaeth a'r mapiau gwres i'ch helpu i benderfynu beth rydych chi am ei wneud.

# Tai

## Dydw i ddim wedi ymgeisio eto - beth yw fy opsiynau?

Os ydych chi am wneud cais, ffoniwch ein Tîm Rhestr Aros Tai ar 02920537111 (opsiwn 1). Bydd apwyntiad yn cael ei wneud i chi fynychu Cyfweliad Cais Tai lle byddwch yn cael cyngor ar dai yn seiliedig ar eich anghenion.

Mae'r mapiau hefyd yn darparu gwybodaeth hawdd gan gynnwys argaeledd eiddo yn y sector rhentu preifat a allai fod yn fwy addas i chi gan ddibynnu ar ble'r ydych chi eisiau byw.

Os ydych chi'n gweithio, efallai y byddwch chi hefyd eisiau meddwl am brynu eiddo drwy gynllun ecwiti a rennir.

### Mewn perygl o fod yn ddigartref

Os ydych chi'n wynebu colli eich cartref, mae angen i chi gael cyngor cyn gynted â phosibl. Gall cael help yn gynnar atal eich problem tai rhag dod yn argyfwng. Os ydych chi'n berchennog cartref, tenant preifat, tenant cyngor neu denant cymdeithas tai gallwch gysylltu â'n gwasanaeth Dewisiadau Tai isod neu ffoniwch ni ar 029 2057 0750. Gallwch hefyd alw heibio un o'n Canolfannau Cynghori neu asiantaeth gynghori arall yng Nghaerdydd. Mae rhagor o wybodaeth ar wefan Cyngor Caerdydd.

### Oes angen eiddo wedi ei addasu arnoch?

Gallwch gofrestru ar gyfer eiddo hygyrch os ydych chi, neu rywun yn eich cartref, yn anabl ac angen symud i eiddo sydd wedi ei addasu'n briodol. Os nad ydych ar y Rhestr Aros Am Dai cysylltwch â sluadmin@cardiff.gov.uk neu 02920 537111. Os ydych eisoes ar y Rhestr Aros Am Dai, cysylltwch â'r tîm Atebion Tai drwy e-bost rehousingsolutions@cardiff.gov.uk am gyngor ac arweiniad pellach.

### Ydych chi'n Denant Cyngor neu Gymdeithas Tai presennol?

Gall tenantiaid presennol y Cyngor a Chymdeithasau Tai sydd am symud wneud cais am gyfnewid neu drosglwyddiad.

Gwefan genedlaethol yw Homeswapper sy'n helpu tenantiaid i ddod o hyd i gyfnewid addas naill ai yng Nghaerdydd neu rywle arall.

Fel arall, i wneud cais am drosglwyddiad i eiddo arall gyda'r Cyngor neu Gymdeithas Tai yng Nghaerdydd, anfonwch e-bost at y SLUAdmin@cardiff.gov.uk.

### Oes angen cefnogaeth arnoch i'ch helpu gyda'ch tenantiaeth?

Efallai y gall Gwasanaeth Cymorth fel y bo'r Angen Cyngor Caerdydd eich cynorthwyo i gynnal tenantiaeth. Gweler y ddogfen ganlynol am ragor o wybodaeth:

**Gwasanaeth Cymorth fel y bo'r Angen**

## Y Cynllun Bandio

9.1 Trefnir Rhestr Aros am Dai Caerdydd yn unol â thablau 1-4. Mae'n cynnwys Rhestr Blaenoriaeth ar unwaith a 3 is-restr: yr is-restr Digartref, yr is-restr Trosglwyddo Buddiol a'r is-restr Gyffredinol. Mae pob is-restr wedi'i threfnu ymhellach i Fandiau i adlewyrchu lefelau'r angen am dai.

9.2 Pennir targedau i lywio pa ganran o'r eiddo sydd ar gael sy'n cael ei gosod trwy bob is-restr. Bwriad hyn yw cefnogi'r nod o roi dewis rhesymol i aelwydydd ag anghenion penodol gan sicrhau symudiad ar yr holl is-restrau. Mae hefyd yn ceisio cynnal sefydlogrwydd cymdeithasol drwy sicrhau bod cymysgedd o aelwydydd mewn gwahanol sefyllfaoedd yn cael ei ailgartrefu.

9.3 Mae targedau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd ac mae Partneriaid yn cytuno arnynt.

9.4 O fewn pob Band caiff ymgeiswyr eu rhestru yn ôl trefn dyddiad yn seiliedig ar eu dyddiad cofrestru (yn amodol ar 9.6 - 9.8 isod).

9.5 Ceisiadau newydd (gan gynnwys trosglwyddiadau)

Yn dibynnu ar wybodaeth a gadarnhawyd yn ystod y Cyfweliad Cais Tai / Asesiad Opsiynau Tai ynghylch eu hamgylchiadau unigol, eu hangen o ran tai a chysylltiad lleol â Chaerdydd, bydd ymgeiswyr yn ymuno â'r is-restr briodol, yn y Band uchaf y maent yn gymwys ar ei gyfer.

9.6 Y dyddiad cofrestru yn y Band hwnnw fydd y dyddiad y cysylltodd yr ymgeisydd â Phartner ar gyfer cymorth ailgartrefu. Os derbynnir cadarnhad o lefel uwch o angen tai o ganlyniad i'r broses asesu ddilynol (e.e. ynghylch anghenion meddygol neu amodau tai anfoddhaol), gall yr ymgeisydd gael ei symud i Fand uwch neu is-restr wahanol. Mewn achosion o'r fath bydd yr ymgeisydd yn cadw ei ddyddiad cofrestru. Noder, lle mae gan ymgeiswyr sy'n gofyn am gymorth oherwydd eu bod yn ddigartref / dan fygythiad o ddigartrefedd gais tai cyffredinol presennol, bydd y cais hwnnw'n cael ei ddiweddaru i adlewyrchu eu newid mewn amgylchiadau. Lle mae hyn yn arwain at symud i fand uwch byddant yn ymuno â gwaelod y Band newydd.

9.7 Bydd ceisiadau sy'n destun ystyriaeth gan y Panel Gwahardd aml-asiantaeth yn cael eu hychwanegu at y Rhestr Aros Tai ond ni fyddant yn dod yn fyw oni bai bod y Panel yn cymeradwyo hynny. Dyddiad cofrestru ymgeiswyr sydd heb eu heithrio fydd y dyddiad y gofynnwyd am y Ffurflen Gais Tai.

9.8 Ceisiadau presennol - Newid mewn amgylchiadau

Pan fydd ymgeisydd sydd eisoes wedi'i gofrestru ar y Rhestr Aros yn hysbysu Partneriaid am newid yn eu hamgylchiadau, bydd eu cais yn cael ei ailasesu. Yn dibynnu ar natur y newid efallai y bydd gofyn iddyn nhw fynychu cyfweliad tai a darparu tystiolaeth / gwybodaeth ychwanegol. Os yw hyn yn golygu eu bod yn gymwys i'w cynnwys mewn Band uwch, eu dyddiad cofrestru yn y Band hwnnw fydd y dyddiad y derbyniwyd yr hysbysiad am y newid mewn amgylchiadau.

Pe bai'r canlyniad ailasesu yn eu symud i band 14 is eu dyddiad cofrestru gwreiddiol fydd yn cael ei ddefnyddio i bennu eu safle o fewn y Band hwnnw.

# Tai

| Tabl 1 - Blaenoriaeth ar unwaith | | |
|---|---|---|
| Mae ymgeiswyr sydd ag angen tai ar unwaith wedi'u cynnwys yn y Band hwn - lle mae amgylchiadau eithriadol yn bodoli sy'n gofyn am gynnig tai ar unwaith. Ceir rhagor o wybodaeth yn 9.9 isod. | | |
| **Tabl 2 - Ymgeiswyr ag angen tai a nodwyd a Chysylltiad Lleol â Chaerdydd** | | |
| **Is-restr Digartref** | **Is-restr Trosglwyddo Buddiol** | **Is-restr Gyffredinol** |
| **Band A** | | |
| Ymgeiswyr ag angen tai brys | Ymgeiswyr ag angen tai | |
| **Band B** | | |
| Band Bi - Ymgeiswyr ag angen tai sylweddol<br>Band Bii – Ymgeiswyr ag angen tai canolig | Ymgeiswyr ag angen tai | Band Bi - Ymgeiswyr ag angen tai sylweddol<br>Band Bii – Ymgeiswyr ag angen tai canolig |
| **Tabl 3 - Ymgeiswyr ag angen tai a nodwyd ond heb fod â Chysylltiad Lleol â Chaerdydd** | | |
| **Is-restr Digartref** | **Is-restr Trosglwyddo Buddiol** | **Is-restr Gyffredinol** |
| **Band C** | | |
| Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol | Ymgeiswyr ag angen tai brys |
| **Band D** | | |
| Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol | Band Di - Ymgeiswyr ag angen tai sylweddol<br>Band Dii - Ymgeiswyr ag angen tai canolig |
| **Tabl 4 – Ymgeiswyr heb unrhyw angen tai a nodwyd** | | |
| **Is-restr Digartref** | **Is-restr Trosglwyddo Buddiol** | **Is-restr Gyffredinol** |
| **Band E** | | |
| Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol | Ymgeiswyr â Chysylltiad Lleol â Chaerdydd ond heb Angen Tai wedi'i nodi |
| **Band F** | | |
| Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol | Ymgeiswyr heb gysylltiad Lleol â Chaerdydd ac nad oes unrhyw angen Tai wedi'i nodi |

**Am ragor o wybodaeth am Dai Caerdydd gweler y ddolen: https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Tai/Gwneud-cais-am-dy/Documents/Cynllun%20Dyrannu%20Tai%20Caerdydd.pdf**

# 6 Tai

## Cartrefi Cyntaf Caerdydd

Cynllun Perchnogaeth Cartref drwy Rannu Ecwiti yw Cartrefi Cyntaf Caerdydd sy'n cael ei gynnig gan Gyngor Caerdydd. Os ydych chi'n bwriadu prynu eich cartref cyntaf, gallwn helpu i'w gwneud hi'n haws i chi.

Cynllun Rhannu Ecwiti yw cynllun lle byddwch yn prynu cyfran ganrannol o eiddo, ond chi fydd perchennog yr eiddo cyfreithiol ar ôl cwblhau'r gwerthiant. Mae'r ganran hon fel arfer yn 70%. Mae gweddill y gyfran ecwiti (30%) yn dâl yn erbyn yr eiddo, y gallwch ei brynu yn ddiweddarach. Ni fyddwch yn talu rhent ar y 30% ac nid oes rhaid i chi ei ad-dalu yn ôl i'r cyngor tra'ch bod chi'n berchen yr eiddo.

Mae gennym eiddo modern ar gael ledled Caerdydd, yn amrywio o fflatiau un ystafell wely i dai tair ystafell wely. Mae'r rhan fwyaf o'r eiddo ar safleoedd adeiladu newydd gydag adeiladwyr tai preifat neu gyda'r Cyngor ei hun.

Gallwch hefyd brynu eiddo a oedd dan berchnogaeth flaenorol. Rydym yn ailwerthu cartrefi sydd wedi cael eu prynu drwy ein cynllun os yw'r perchennog yn penderfynu ei werthu ymlaen.

Os oes gennych ddiddordeb mewn prynu eiddo drwy'r cynllun hwn, bydd angen cofrestru yn gyntaf.

# Casnewydd

## Gwnewch gais i rentu neu brynu cartref oddi wrth gymdeithas dai

Gwnewch gais i rentu neu brynu cartref oddi wrth gymdeithas dai Mae tai fforddiadwy i'w gwerthu a'u rhentu yn cael eu hysbysebu trwy Ddewisiadau Tai Casnewydd.

I gael eich ystyried ar gyfer yr eiddo a hysbysebir, mae'n rhaid i chi fod wedi'ch cofrestru ar gyfer tai ac yna 'cynnig' am yr eiddo.

Os ydych yn ddigartref neu mewn perygl o golli'ch cartref, mae dyletswydd ar y cyngor o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 i edrych i mewn i'ch sefyllfa a chanfod sut y gallwn, o bosibl, eich helpu.

Dylid cwblhau'r canllaw atebion tai Casnewydd ar gyfer gwybodaeth am dai, a'r opsiynau sydd ar gael i chi.

### Digartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd? Ffoniwch 656656 a gofyn am y tîm atebion tai

Os ydych dan fygythiad o ddigartrefedd o fewn y 56 diwrnod nesaf byddwn yn gweithio gyda chi i gymryd pob cam rhesymol i atal digartrefedd rhag digwydd, naill ai drwy weithio gyda chi i gadw eich cartref presennol neu drwy ddod o hyd i lety arall.

Os ydych eisoes yn ddigartref, byddwn yn cymryd pob cam rhesymol i ddod o hyd i lety arall i chi, gan helpu am hyd at 56 diwrnod ar ôl i chi fod yn ddigartref. Gelwir hyn yn ddyletswydd rhyddhad digartrefedd.

# Tai

**Bydd disgwyl i chi weithio gyda'ch gweithiwr achos i gytuno ar gamau rhesymol a allai gynnwys :**

- cynnig o lety addas gyda landlord preifat
- cynnig o lety addas gyda chymorth
- cymorth i sicrhau llety rydych wedi cael hyd iddo eich hun
- cynnig o dai cymdeithasol addas

## Os ydych chi'n dal yn ddigartref wedi 56 diwrnod

Os nad ydym wedi gallu eich cartrefu a'ch bod wedi gwneud popeth y gofynnwyd i chi ei wneud, byddwn yn penderfynu a oes dyletswydd arnom i barhau i'ch cynorthwyo.

Os ydych wedi gwrthod cynnig addas o lety, gan gynnwys yn y sector preifat, neu os ydych wedi dilyn y rhestr o gamau y cytunwyd arnynt efallai na fydd gennych hawl i gael cymorth pellach.

Os ydych wedi dilyn y camau y cytunwyd arnynt a heb lwyddo i ddod o hyd i dai addas, byddwn yn ceisio darganfod a ydych chi yn un o'r grwpiau angen â blaenoriaeth, ac os oedd eich digartrefedd o ganlyniad i rywbeth rydych wedi ei wneud neu wedi methu â'i wneud.

Ar ddiwedd y 56 diwrnod, os ydym yn fodlon eich bod yn un o'r grwpiau ag anghenion â blaenoriaeth ac nad ydych yn ddigartref yn fwriadol, byddwn yn parhau i'ch helpu i ddod o hyd i gartref newydd.

## Os nad oes gennych unman i aros

Os nad oes gennych unman diogel i aros, byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i ddod o hyd i rywle i chi aros dros dro wrth i chi weithio gyda'r cyngor i ddod o hyd i ateb.

Os ydym o'r farn y gallech fod yn gymwys, yn ddigartref a bod gennych angen blaenoriaeth amlwg ac ni allwn gynnig datrysiad i chi yn y tymor byr neu ganolig, byddwn yn ceisio darparu llety dros dro.

**Os darperir llety dros dro efallai y bydd gofyn i chi adael os:**

- byddwch yn torri telerau eich cytundeb
- rydych wedi gwrthod cynnig o lety addas, gan gynnwys llety rhent preifat
- rydyn ni'n penderfynu eich bod wedi gwneud eich hun yn fwriadol ddigartref
- nad ydych wedi gwneud popeth mae eich gweithiwr achos wedi gofyn i chi ei wneud
- oes llety addas ar gael i chi

**Os ydych yn ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd cysylltwch â'r tîm atebion tai ar (01633) 656656.**

# 6 Tai

## Perchentyaeth cost isel

Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn gweithio gyda chymdeithasau tai a datblygwyr preifat i greu cartrefi fforddiadwy, rhatach na gwerth y farchnad, ar gyfer pobl y mae arnynt angen tai yng Nghasnewydd.

Y nod yw helpu i greu cymunedau sefydlog, cymysg trwy ddatblygu tai o ansawdd da ar gyfer pobl sydd eisiau cartref ond nad ydynt yn gallu fforddio prynu neu rentu eiddo ar y farchnad agored.

### Mae'r cyngor yn hysbysebu eiddo ar Ddewisiadau Tai Casnewydd sy'n cynnwys:

- Rhentu i brynu – gallwch rentu eich cartref oddi wrth un o'r cymdeithasau tai partner a'i brynu yn y dyfodol
- Prynu'n rhannol, a elwir hefyd yn berchenogaeth a rennir – byddwch yn prynu cyfran o eiddo ac yn talu rhent i gymdeithas dai ar gyfer y gyfran sy'n weddill
- Prynu nawr gydag ecwiti a rennir – gallwch brynu 100% o eiddo a thalu hyd at 50% yn unig o'r gwerth. Bydd un o'r cymdeithasau tai partner yn cadw buddiant yn yr eiddo ar gyfer gweddill y gwerth, y gellir ei brynu'n ddiweddarach neu ei ad-dalu wrth werthu eich cartref
- Prynu nawr – gallwch brynu eiddo nawr ond gallwch newid i'w rentu yn y dyfodol os bydd eich amgylchiadau'n newid

Mae'r cynllun tai fforddiadwy'n cynnig ystod o gartrefi mewn lleoliadau amrywiol ledled y ddinas, yn rhan o ddatblygiadau mwy o faint a adeiladwyd gan adeiladwyr tai cenedlaethol.

Mae'n rhaid i gartrefi fodloni'r safonau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, felly gallwch fod yn sicr o gartref o ansawdd da am bris fforddiadwy.

#### Gwneud cais

Cofrestrwch a chyflwynwch gais am dai fforddiadwy ar **Ddewisiadau Tai Casnewydd.**

## Ai pobl hŷn

### Mae'r tai sydd ar gael yng Nghasnewydd ar gyfer pobl 55 oed a hŷn yn cynnwys:

- fflatiau a byngalos ar gyfer byw'n annibynnol gyda sicrwydd ychwanegol llinell fywyd mewn argyfwng
- cynlluniau cymorth gyda chartrefi rhwydd eu rheoli a chymorth gan reolwr cynllun
- Gofal Ychwanegol – cartrefi unllawr rhwydd eu rheoli gyda phecynnau gofal ar gyfer anghenion iechyd yn ogystal â chymorth mwy cyffredinol
- mae nifer o ddatrysiadau ymddeol preifat ar gael yng Nghasnewydd

# Tai

## Sir Fynwy

### Tai Fforddiadwy/Datblygu

Y Tîm Strategaeth Tai sydd yng ngofal y rhaglen Grant Tai Cymdeithasol, sy'n galluogi cyflenwi tai fforddiadwy yn Sir Fynwy.

Gallwn ddarparu cartrefi fforddiadwy ar draws y sir drwy ddefnyddio Grant Tai Cymdeithasol a gweithio gyda'r landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sy'n bartneriaid i ni.

Mae gwahanol opsiynau tai fforddiadwy ar gael, sef Rhent Cymdeithasol, Rhent Canolraddol, Perchentyaeth Cost Isel a Rhentu i Brynu.

Mae'n bosibl y bydd opsiwn hefyd i bobl leol adeiladu eu cartref fforddiadwy eu hunain, er mwyn diwallu eu hanghenion tai eu hunain o dan rai amgylchiadau, drwy'r polisi eithriadau gwledig, mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y polisi 'Adeiladu Eich Cartref Fforddiadwy Eich Hun'.

Rydym hefyd yn gweithio gyda chydweithwyr yn yr Adran Cynllunio i sicrhau y caiff pob cyfraniad Adran 106 eu gwneud yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Atodol cyfredol ar Dai Fforddiadwy https://www.monmouthshire.gov.uk/app/uploads/2019/04/190404-Revised-AH-SPG-for-consultation.pdf)**

Mae prinder tai fforddiadwy yn Sir Fynwy/ Mae pris cyfartalog cartrefi yn £336,760 (Hometrack – 09/2020), sydd tu allan i gyrraedd llawer o bobl leol a phrynwyr tro cyntaf. Mae cost llety rhent preifat wedi cynyddu ac mae lefelau rhent y farchnad yn uwch nag y gall llawer o bobl ei fforddio. Mae'r pwysau hyn yn golygu fod miloedd o gartrefi wedi cofrestru ar Homesearch Sir Fynwy ac yn cael disgwyl cael mynediad i dai fforddiadwy. Mae mwy o wybodaeth ar yr angen am dai fforddiadwy ar gael yn Asesiad y Cyngor o'r Farchnad Tai Leol

### Ydw i'n ddigartref?

**Yn gyfreithiol, rydych yn ddigartref os:**

- Nad oes gennych rywle i fyw yn y wlad hon neu mewn unrhyw le arall yn y byd sydd ar gael i chi fod yno
- Nad oes gennych unrhyw hawl gyfreithiol i aros yn eich cartref
- Oes gennych rywle i fyw ond eich bod yn methu mynd i mewn i'r eiddo
- Oes gennych rywle i fyw ond nid yw'n rhesymol i chi aros yno, er enghraifft, mae'n debygol y bydd hyn yn arwain at yr unigolyn neu aelod o'u haelwyd, yn destun camdriniaeth.
- Oes gennych gwch, carafán neu gartref symudol ond heb unrhyw le i'w gadw

**Gallwch hefyd wneud cais am gyngor a chymorth os yw'n debygol y byddwch yn ddigartref yn y 56 diwrnod nesaf. Gall hyn fod oherwydd eich bod:**

- Wedi eich galw i'r Llys a bod y Llys yn dweud fod rhaid i chi adael eich eiddo o fewn y 56 diwrnod nesaf
- Wedi bod yn byw gyda theulu neu ffrindiau a'u bod wedi gofyn i chi adael o fewn y 56 diwrnod nesaf

# Tai



Byddwn yn gweithio gyda chi er mwyn eich helpu i aros yn eich cartref. Os nad yw hyn yn bosib, byddwn yn eich cynorthwyo i ddod o hyd i lety newydd. Protocol Argyfwng Tywydd Garw ar gyfer Cysgwyr ar y Stryd. Rwyf wedi gweld rhywun yn Cysgu ar y Stryd.

**Rhif ffôn: 01633 644 644**

**Cyfeiriad e-bost: housingoptions@monmouthshire.gov.uk**

**Oriau agor: Dydd Llun i ddydd Iau 8.45 – 5.00pm, Dydd Gwener 8.45 – 4.30pm**

**Rhif argyfwng allan o oriau: 01633 644 644**

### Band 3A

#### Aelwydydd Digartref

Dyletswydd Adran 75 sy'n ddyledus **Angen Tai Canolig**

| | |
|---|---|
| Bydd blaenoriaeth o fewn y Band yn ôl dyddiad mynediad i Fand 3 nid y dyddiad gwreiddiol *bydd y rhain yn mynd o ddyddiad cofrestru Homesearch, unwaith y bydd prawf wedi'i ddarparu. | • Gadael y Lluoedd Arfog |

## Torfaen

### Torfaen Homeseeker

Homeseeker yw'r gofrestr dai gyffredin ar gyfer cael mynediad at dai cymdeithasol yn Nhorfaen ac mae ar agor i unrhyw un dros 16 oed.

Partneriaeth rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a 6 landlord cymdeithasol cofrestredig yw Homeseeker; Bron Afon, Cartrefi Melin, Pobl, Tai Hafod, Linc Cymru ac United Welsh.

Dim ond 1 ffurflen gais sydd ei hangen ar ymgeiswyr ac mae'r holl dai sydd ar gael ar draws y 6 landlord yn cael eu hysbysebu drwy bartneriaeth Homeseeker.

I gael rhagor o wybodaeth am Homeseeker neu am help i gwblhau'r ffurflen gofrestru neu wneud cais am eiddo, ewch i wefan Homeseeker: https://www.torfaenhomeseeker.org.uk/ neu cysylltwch â thîm Homeseeker yn uniongyrchol ar 01495 742409 neu homeseeker@torfaen.gov.uk

### Dewin Opsiynau Tai

Mae galw mawr am dai cymdeithasol, a gall ymgeiswyr aros yn hir cyn cael cynnig llety. Felly, efallai y byddwch am archwilio rhai o'r opsiynau tai eraill.

Mae'r Dewin Opsiynau Tai yn cynnig amrywiaeth o wybodaeth a chyngor, yn ogystal â manylion cyswllt defnyddiol, a allai eich helpu i ddod o hyd i opsiynau llety eraill.

# Tai



### Mae rhai o'r opsiynau sydd ar gael yn cynnwys:

- Perchnogaeth tai cost isel a rhentu canolradd
- Rhentu preifat
- Cyfnewid cydfuddiannol

Gellir gweld y Dewin trwy wefan Homeseeker.

## Cartrefi Torfaen

Mae ein gwefan tai bwrpasol hefyd yn cynnwys amrywiaeth eang o wybodaeth am dai a'r gwasanaethau cysylltiedig â thai sydd ar gael yn Nhorfaen. Am ragor o wybodaeth ewch i: https://www.torfaenhomes.co.uk/

## Rhaglen Grantiau Cymorth Tai

Mae'r Rhaglen Grantiau Cymorth Tai yn darparu cymorth sy'n gysylltiedig â thai i helpu pobl fregus i fyw mor annibynnol â phosib.

### Amcanion y Rhaglen Cefnogi Pobl yw:

- helpu i atal a mynd i'r afael â digartrefedd.
- helpu pobl fregus i fyw mor annibynnol â phosib.
- darparu'r help sydd ei angen ar bobl i fyw yn eu cartrefi eu hunain, hosteli, tai gwarchod neu dai arbenigol eraill.
- atal problemau yn y lle cyntaf neu ddarparu cymorth mor gynnar â phosib er mwyn lleihau'r galw ar wasanaethau eraill fel iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.
- darparu cymorth i ategu'r gofal personol neu feddygol y gallai fod ei angen ar rai pobl.
- sicrhau gwasanaethau o ansawdd, sy'n cael eu darparu mor effeithlon ac effeithiol â phosibl drwy gydweithio rhwng sefydliadau sy'n cynllunio ac ariannu gwasanaethau a'r rhai sy'n darparu gwasanaethau.
- hybu cydraddoldeb a lleihau anghydraddoldebau.

**Rhaglen Grantiau Cymorth Tai Torfaen**

**01495 766949**

**Gateway@torfaen.gov.uk**

**Gwefan:**

**https://www.torfaen.gov.uk/en/Housing/Supportingpeople/Supporting-People.aspx**

# 6 Tai

## Digartrefedd

Ydych chi'n poeni am eich sefyllfa o ran tai? Oes angen tipyn o help, cyngor neu gymorth arnoch?

Gallwch fanteisio ar un o'n gwasanaethau galw heibio, lle gallwch siarad â rhywun wyneb yn wyneb am eich pryderon.

Bydd y swyddog yn eich cynghori am eich opsiynau ac yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch i helpu i ddatrys eich sefyllfa.

## The Wallich

Mae Swyddfa Torfaen y Wallich ar gau nes y clywir yn wahanol. Mae'r Gwasanaeth Galw Heibio yn dal i fod ar gael dros y ffôn. Rhif y Gwasanaeth Galw Heibio yw: 07824 991371.

## Platfform

Mae Swyddfa Platfform ym Mhont-y-pŵl a phob lleoliad Galw heibio ledled y Fwrdeistref ar gau nes y clywir yn wahanol. Mae'r Gwasanaeth Galw Heibio yn dal i fod ar gael dros y ffôn. Rhif y Gwasanaeth Galw Heibio yw: 07966786842. Dyma'r un rhif ar gyfer y Gwasanaeth Tu Allan i Oriau Ar Alwad.

Os yw eich sefyllfa dai yn fater brys, cewch eich cyfeirio at ein Gwasanaeth Atebion Tai. Gallai sefyllfa frys gynnwys cysgu ar y stryd neu fod o dan fygythiad o gael eich troi allan.

Bydd y tîm wedyn yn asesu eich amgylchiadau personol ac yn pennu'r cymorth y mae'n bosib y bydd gennych hawl i'w dderbyn.

Bydd cynllun gweithredu ar y cyd (Cynllun Tai Personol) yn cael ei gwblhau gyda chi. Bydd hyn yn nodi'r camau y bydd y Gwasanaeth Atebion Tai yn eu cymryd ar eich rhan a'r camau y bydd angen i chi eu cymryd i wella eich sefyllfa.

DS Os ydych chi o dan 18 oed, cewch eich cyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol a fydd yn asesu eich anghenion a'ch gofynion. Gall Gwasanaeth Pobl Ifanc Torfaen gynnig help a chefnogaeth i bobl ifanc 16 ac 17 oed.

Beth allwch chi ei wneud os ydy rhywun yn cysgu ar y stryd?

Mae gwahanol ffyrdd y gallwch chi helpu pobl sy'n cysgu ar y stryd, yn enwedig yn ystod cyfnodau o dywydd garw.

Os ydych chi'n ymwybodol o rywun allai fod yn cysgu ar y stryd, cysylltwch gyda Chyngor Torfaen i roi gwybod i ni ble maen nhw ac i'n helpu ni i gydlynu ymateb. Gallwch ein hysbysu yn un o 3 ffordd:

1. Ffonio Gofal Cwsmeriaid ar 01495 762200 neu gallwch roi **gwybod am bryder am berson digartref** yma
2. Rhoi gwybod drwy wefan neu ap **Street Link** neu drwy
3. Gysylltu â'n partneriaid cymorth The Wallich ar 01495 366895

Mae llawer o resymau pam fod pobl yn cysgu ar y stryd, felly rydyn ni'n gofyn i aelodau'r cyhoedd barchu eu preifatrwydd ac osgoi postio gwybodaeth am unigolion (a allai fod yn fregus) ar y cyfryngau cymdeithasol, gan y gall hyn eu hamlygu'n anfwriadol i risgiau.

# Tai

Mae Cyngor Torfaen yn gweithio gyda sefydliadau gwahanol i gefnogi pobl sy'n ddigartref. Os ydych chi eisiau cynorthwyo pobl sy'n ddigartref, cysylltwch â'r Cyngor am wybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael.

Er bod eich cefnogaeth yn cael ei groesawu, byddwch yn ymwybodol o'ch diogelwch eich hun a diogelwch y sawl sy'n cysgu ar y stryd.

Wedi'i addasu ddiwethaf: 01/04/2021

**I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag:**

**Atebion Tai**

**Ffôn: 01495 742303 / 742301**

**E-bost: housingsolutions@torfaen.gov.uk**

**Argyfwng y tu allan i oriau**

**Ffôn: 01495 762200**

## Grant Cymorth Tai

Mae'r Grant Cymorth Tai yn rhaglen a ariennir gan y llywodraeth sy'n defnyddio dulliau o ymyrraeth gynnar i atal digartrefedd, sefydlogi sefyllfa dai unigolion a'u hannog i fyw'n annibynnol.

Mae Grant Cymorth Tai Torfaen, yn ariannu, monitro ac yn datblygu gwasanaethau cymorth tai a thai â chymorth. Mae'r cymorth ar gael am ddim i drigolion Torfaen ac fe all gefnogi unigolion am hyd at 2 flynedd.

### Beth yw Cymorth fel y bo'r Angen?

Cymorth fel y bo'r angen yw cefnogaeth un-i-un wedi'i deilwra ac a ddarperir gan wasanaethau cymorth lleol. Mae'r gefnogaeth yn mynd i'r afael â phroblemau tai pobl ac anghenion cymorth eraill a allai effeithio ar eu sefyllfa dai.

**Enghreifftiau o gefnogaeth:**

- sefydlu/cynnal tenantiaeth
- rheoli taliadau rhent/biliau
- iechyd meddwl
- helpu gyda phroblemau ariannol a hawlio budd-daliadau
- cymorth arbenigol i bobl ifanc 16-24 oed
- domestic violence
- salwch/anabledd
- dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol
- llenwi ffurflenni
- cymorth emosiynol
- help i gael addysg, hyfforddiant neu waith

# 6 Tai

### Beth yw Llety â Chymorth?

Llety lle mae'r tenant yn derbyn cefnogaeth sy'n gysylltiedig â'u llety yw llety â chymorth. Mae'n eu cefnogi nhw i fagu'r sgiliau i fyw yn annibynnol a chynnal eu tenantiaeth eu hunain.

### Sut i gael cymorth

### Y Porth

- Os ydych chi'n chwilio am gymorth, gallwch gysylltu â Thîm y Porth a fydd yn eich helpu i ddod o hyd i'r cymorth mwyaf addas i'ch amgylchiadau drwy lenwi ffurflen atgyfeirio gyda chi.
- Gellir cysylltu â Thîm y Porth ar 01495 766949 neu drwy **e-bost gateway@torfaen.gov.uk.**

# Cymdeithasau Tai yng Ngwent

## Cymdeithasau tai

Mae'r cyngor a chymdeithasau tai yn berchen ar, ac yn rheoli tai rhent cymdeithasol ledled y fwrdeistref sirol.

Tai ar rent cymdeithasol yw tai lle mae'r rhent lefel yn is na gwerth rhent llawn y farchnad.

Mae cymdeithasau tai yn darparu cartrefi i'w rhentu i bobl sydd ag angen tai. Yn gyffredinol, mae pobl sydd dros 16 oed ac sydd ag angen tai yn gymwys i wneud cais i gael eu hail-gartrefu gan gymdeithasau tai.

## Cymdeithas Tai Aelwyd

Mae Aelwyd yn Gymdeithas Tai Elusennol, gydag ethos Gristnogol, ac mae'n darparu cartrefi i'w rhentu i bobl ag arnynt angen tai. Ar hyn o bryd, mae pob eiddo sydd ganddi yn Ne Cymru, ac mae'r mwyafrif helaeth yn fflatiau i bobl hŷn.

58 Heol Richmond
Roath
Caerdydd CF24 3ET

**Rhif ffôn: 029 2048 1203**

**E-bost: enquiries@aelwyd.co.uk**

**Gwefan: http://www.aelwyd.co.uk/**

## Bron Afon

Mae gennym dros 8,000 o gartrefi yn Nhorfaen ac rydyn ni'n adeiladu cartrefi newydd bob blwyddyn. Mae ein cartrefi yn fforddiadwy ac yn cael eu cynnal yn ôl Safon Ansawdd Tai Cymru.

Tŷ Bron Afon, Clôs William Brown, Cwmbrân NP44 3AB

**01633 620111**

# Tai

## Cymdeithas Tai Cadwyn

Rydyn ni'n sefydliad 'nid-er-elw' sydd â gwreiddiau mewn gwasanaeth tai. Rydym wedi'n lleoli yng Nghaerdydd, ac rydym yn darparu cartrefi fforddiadwy o ansawdd da i bobl o bob cefndir, gan gynnwys pobl sengl, teuluoedd, pobl sydd wedi bod yn ddigartref yn y gorffennol, pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a phobl ar incwm isel.

197 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 1AJ

**Rhif ffôn: 029 2049 8898**

**E-bost: info@cadwyn.co.uk**

**Gwefan: www.cadwyn.co.uk**

## Cymdeithas Tai Linc Cymru

Mae Linc Cymru yn ddarparwr Cymdeithas Tai a Gofal. Dyna rydyn ni'n ei wneud ond dim ond dechrau ein stori ni yw hyn. Yn Linc, rydyn ni'n credu mewn creu'r amgylchedd cywir i bobl ffynnu. Mae'r cartrefi rydyn ni'n eu hadeiladu a'r amgylcheddau naturiol sy'n eu cefnogi yn cyfrannu at wella ansawdd bywyd pobl, ac fel darparwr gofal rydym yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol a'r GIG i fynd i'r afael ag anghenion ein poblogaeth sy'n heneiddio. Rydyn ni'n fusnes sy'n gyfrifol yn gymdeithasol ac sy'n canolbwyntio ar adeiladu Cymru ffyniannus a mwy iach, lle gwych i fyw a gweithio, nawr ac yn y dyfodol.

387 Ffordd Casnewydd, Caerdydd CF24 1GG

**0800 072 0966**

## Cartrefi Melin

Rydym yn Landlord Cymdeithasol Cofrestredig sy'n darparu cartrefi fforddiadwy a gwasanaethau i bobl sy'n byw yn y de ddwyrain. Rydyn ni'n bodoli i greu cyfleoedd i bobl ac i gymunedau ffynnu. Mae gennym sylfaen gwerthoedd cryf a thîm staff rhagorol sy'n cael effaith gadarnhaol ar y cymunedau rydyn ni'n gweithredu ynddynt, gan ddarparu tai cymdeithasol o ansawdd uchel i'r rhai sydd eu hangen. Rydyn ni'n cefnogi pobl o fewn eu cartrefi ac yn mynd ati i ddarparu cyngor am arian, ynni, a chyflogaeth ochr yn ochr â chefnogaeth i rentu a phrynu eiddo.

Rydyn ni wedi hen ennill ein plwyf o fewn ein cymunedau lleol ac rydym yn bartner gwerthfawr o ddewis ar gyfer busnesau a phartneriaid lleol. Fel un o brif Gymdeithasau Tai Cymru, rydyn ni bellach yn berchen ar ac yn rheoli dros 4,000 o gartrefi ym Mlaenau Gwent, Sir Fynwy, Torfaen, Casnewydd a Phowys. Yn ogystal â chynnig cartrefi i'w rhentu, rydym hefyd yn cynnig eiddo ar werth trwy ein cynllun perchnogaeth cartref cost isel a'n his-gwmni Candleston. Rydyn ni'n sefydliad cefnogol a bywiog sy'n ymfalchïo mewn bod yn landlord gwydn ac yn gyflogwr rhagorol yn ein hardal leol.

Cwrt Roderick Hill, Dukestown, Tredegar NP22 4EZ

**01495 726126**

## Cartrefi Dinas Casnewydd

Yng Nghartrefi Dinas Casnewydd, rydyn ni'n darparu cartrefi a gwasanaethau i fwy na 20,000 o drigolion, lesddalwyr a pherchnogion sy'n rhannu yn ninas Casnewydd. Fel y landlord cymdeithasol mwyaf yng Nghasnewydd, rydyn ni mewn sefyllfa unigryw i chwarae rhan allweddol wrth sicrhau bod ein trigolion a'n cymunedau yn cael cyfleoedd i dyfu a llwyddo.

195 Stryd Doc Uchaf, Casnewydd NP20 1DB

**01633 381111**

## Grŵp Pobl

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth gwych i'n tenantiaid, fel y gallant fwynhau byw yn ein cartrefi a chael budd ohonynt. Yn ogystal â helpu i gynnal eich cartref, mae ein timau profiadol yn cynnig ystod eang o wasanaethau gan gynnwys cyngor ariannol, hyfforddiant TG a chymorth rhianta.

Hen Gyfnewidfa'r
Swyddfa Bost
Stryd Fawr
NP20 1AA

**Rhif ffôn: 03301759726**

## Tai Cymunedol Tai Calon

Sefydlwyd Tai Calon ar 26 Gorffennaf 2010. Rydyn ni'n sefydliad cymunedol, cydfuddiannol, nid-er-elw a darparwr tai cymdeithasol mwyaf Blaenau Gwent, gyda bron 6,000 o gartrefi.

Rydyn ni'n gyflogwr pwysig yn yr ardal leol, gyda dros 260 o staff ymroddedig, wedi'u hyfforddi'n dda ac sydd oll yn cyfrannu at ein trosiant blynyddol o dros £25 miliwn.

Hyd yn hyn, rydym wedi buddsoddi dros £120 miliwn yn ein cartrefi i sicrhau eu bod yn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru ac yn cynnal y safon honno.

Solis One, Lôn Griffin, Ystad Ddiwydiannol Rising Sun, Blaenau NP13 3JW

**0300 303 1717**

# Tai

## Cymdeithas Tai United Welsh

Sefydliad nid-er-elw yw United Welsh sy'n darparu cartrefi a gwasanaethau cysylltiedig yn y de. Rydyn ni'n angerddol dros adeiladu cartrefi, creu cymunedau a thrawsnewid bywydau.

Rydyn ni'n gofalu am dros 6,300 o gartrefi i bobl ar draws 11 o ardaloedd awdurdodau lleol, ac mae ein gwasanaethau yn helpu miloedd yn fwy yn ein cymunedau.

Mae helpu pobl i fyw yn hapus ac mewn iechyd da yn bwysig i ni, ac rydym yn falch o fod wedi cael ein henwi'n bumed landlord gorau yn y DU.

Mae gennym raglen adeiladu newydd sy'n werth tua £21 miliwn bob blwyddyn ac yn y pum mlynedd nesaf, ein bwriad yw adeiladu 1,300 yn rhagor o gartrefi.

13 Ffordd Beddau, Caerffili CF83 2AX

**Ffôn:**

**Gallwch ein ffonio ar 0330 159 6080 rhwng 8.30am a 5pm, dydd Llun i ddydd Gwener.**

**Pwyswch 1 am waith atgyweirio**

**Pwyswch 2 am daliadau**

**Pwyswch 3 i siarad â'n tîm i Gwsmeriaid**

## Cymdeithas Tai Wales & West

Ni yw Tai Wales & West, a'n gweledigaeth ni yw sicrhau twf cryf a chynaliadwy i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl, i gartrefi ac i gymunedau.

Rydyn ni'n rheoli mwy na 12,000 o gartrefi fforddiadwy o safon uchel mewn 15 ardal awdurdod lleol ledled Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys mwy na 3,000 o dai pwrpasol ar gyfer pobl hŷn yn ogystal ag atebion tai â chymorth arloesol i bobl ag amrywiaeth o anghenion arbennig. Yn yr adran hon gallwch ddarganfod popeth am ein gwreiddiau a'n 50 mlynedd o brofiad ym maes tai cymdeithasol yng Nghymru a'n llwyddiannau hyd yma, yn ogystal â'n nodau a'n dyheadau ar gyfer y dyfodol.

Maes-y-Felin, Caerffili CF83 3NH

**029 2086 0462**

# Rhondda Cynon Taf

## Ceisio Cartref RhCT

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a'i bartneriaid tai - Grŵp Tai Cymunedol Cynon Taf, Hafod, Newydd, Trivallis, Cymdeithasau Tai Cwm Rhondda a Chymru a'r Gorllewin (Wales & West), wedi cyflwyno ffordd newydd o ddyrannu eu heiddo.

Mae Ceisio Cartref RhCT yn eich galluogi i chwilio a chynnig ar-lein am eiddo.

Yr unig beth sydd angen i chi ei wneud yw sicrhau eich bod ar y Gofrestr Tai. Gall unrhyw un sy'n byw yn Rhondda Cynon Taf wneud cais i ymuno â'r Gofrestr Tai a byddwch yn cael eich rhoi mewn Band yn dibynnu ar eich amgylchiadau personol ac ariannol a rhoddir blaenoriaeth i'r rhai sydd â'r angen mwyaf.

Os nad oes gennych chi fynediad i gyfrifiadur i gofrestru eich cais ar-lein, gall aelod o staff o dîm Ceisio Cartref RhCT eich helpu chi. Ffoniwch 01443 425678 a bydd aelod staff hyfforddedig yn cwblhau'r cais gyda chi dros y ffôn.

**https://www.homefinderrct.org.uk**

Sut mae ceisiadau HomefinderRCT yn cael eu blaenoriaethu

Mae HomefinderRCT yn defnyddio cynllun bandio i flaenoriaethu ceisiadau.

Bydd pob cais tai a throsglwyddiad sy'n cael eu derbyn am lety'n cael eu hasesu a'u gosod yn un o 4 band, A i D.

Mae'r tabl isod yn nodi'r cynllun bandio yn gryno ac yn rhoi enghreifftiau o'r ymgeiswyr hynny a fyddai'n gymwys i gael eu rhoi ym mhob band. Mae rhagor o fanylion am y cynllun bandio a'r broses o wneud cais yn rhan o Gynllun Dyrannu Tai Rhondda Cynon Taf.

# Tai





## Band A

### Angen Tai Brys

### Mae'r rhain yn achosion sy'n gyfyngedig o ran amser i'w hadolygu bob 3 mis. Bydd meini prawf cysylltiad lleol yn berthnasol heblaw am Achosion MAPPA a Digartrefedd

### Categorïau Dewis Rhesymol a167(2)(a), (b), (c), a (d)

Ymgeiswyr sydd wedi colli eu cartref presennol yn sydyn o ganlyniad i drychineb ac sydd angen llety mewn cyfnod byr.

Ymgeiswyr sy'n ddigartref o dan Adran 75 Deddf Tai (Cymru) 2014. Mae'r rhain yn ymgeiswyr sy'n ddigartref, yn gymwys ac mewn angen â blaenoriaeth.

Ymgeiswyr sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog rheolaidd neu luoedd wrth gefn y Goron sydd wedi cael eu gwneud yn ddigartref ers gadael y lluoedd arfog.

Gweddwon y rhai oedd yn gwasanaethu yn y lluoedd rheolaidd neu'r lluoedd wrth gefn lle mae (i) hawl y priod neu'r partner sifil i breswylio yn llety'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn dilyn marwolaeth eu priod neu bartner sifil oedd yn gwasanaethu wedi/yn dod i ben, a (ii) roedd y farwolaeth i'w phriodoli'n llwyr neu'n rhannol i'w gwasanaeth.

Ymgeiswyr sydd ar hyn o bryd yn meddiannu eiddo lle mae gorchymyn gwahardd, gorchymyn dymchwel neu orchymyn prynu gorfodol wedi ei gyflwyno.

Ymgeiswyr sydd â chyflwr iechyd sydd yn derfynol ac mae eu cartref presennol yn rhwystr i dderbyn gofal meddygol brys.

Ymgeiswyr sydd â chyflwr iechyd sy'n bygwth bywyd ac mae eu llety presennol yn ffactor cyfrannol sylweddol.

Ymgeiswyr sy'n anabl ac nad oes modd addasu eu llety presennol ac sy'n eu cyfyngu'n llwyr rhag cynnal gweithgareddau bob dydd yn fewnol a thu allan i'r cartref ac mae angen eiddo wedi'i addasu'n llawn arnynt.

Ymgeiswyr sydd yn yr ysbyty ac sydd ar fin cael eu rhyddhau ond nid oes llety ar gael iddynt feddiannu'n rhesymol.

Ymgeiswyr (yn cynnwys y rhai sy'n gadael Gofal) sy'n gadael tai â chymorth ac sydd wedi cael eu hasesu a'u cymeradwyo gan y Panel Symud Ymlaen fel rhai sy'n barod i'w hailgartrefu.

Ymgeiswyr sydd ar hyn o bryd yn tanfeddiannu tai cymdeithasol o un neu fwy o ystafelloedd gwely ac sydd angen trosglwyddo i eiddo llai oherwydd nad yw'r eiddo presennol yn fforddiadwy.

### Blaenoriaethau Lleol

Ymgeiswyr sy'n meddiannu eiddo wedi'i addasu lefel 1 ar hyn o bryd ond nad oes ei angen arnynt mwyach ac mae ymgeisydd addas ar restr aros ar gyfer yr eiddo.

Mae tebygolrwydd y bydd plentyn yn cael ei letya gan yr awdurdod lleol os na chaiff yr ailgartrefu ei gyflawni.

Ymgeiswyr nad ymdrinnir â'u hamgylchiadau o dan unrhyw un o'r amgylchiadau eraill ym Mand A, ond mae eu hangen tai wedi cael ei asesu gan y Panel Cymhwysedd fel angen brys ac mae angen eu hailgartrefu ar unwaith.

# Band B

## Angen Tai Uchel

## Ymgeiswyr a ddyfarnwyd fel Band A ond heb fod â chysylltiad lleol

## Yr Holl Angen Blaenoriaeth Digartref waeth beth fo'u cysylltiadau lleol

### Categorïau Dewis Rhesymol a167(2) (a), (b), (c), (d) ac (e)

Ymgeiswyr sy'n ddigartref o fewn ystyr Rhan 7 o Ddeddf Tai 1996 neu Ran 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014

Ymgeiswyr y mae dyletswydd iddynt o dan adrannau 66 neu 73 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014

Pobl y mae dyletswydd iddynt gan awdurdod lleol o dan Adran 190(2), 193 (2) neu 195 (2) o Ran VII o Ddeddf Tai 1996 neu sy'n meddiannu llety a sicrhawyd gan unrhyw awdurdod lleol o dan Adran 192(3)

Ymgeiswyr sy'n byw mewn eiddo gorlawn sy'n eu gadael mewn perygl o gael eu heintio, er enghraifft, lle mae ymgeisydd yn dioddef o haint HIV uwch.

Ymgeiswyr sydd ar hyn o bryd yn meddiannu llety sydd â dwy ystafell wely'n llai na'r angen ar sail anghenion yr aelwyd.

Ymgeiswyr sydd ag angen brys i symud ar sail lles a chais wedi ei wneud am eu bod mewn perygl o gael eu derbyn i ofal preswyl neu ysbyty os nad ydynt yn cael eu hailgartrefu.

Ymgeiswyr sydd angen symud oherwydd bod perthynas wedi chwalu ac mae angen wedi'i nodi i ddiogelu a hyrwyddo lles plentyn.

Ymgeiswyr sy'n rhoi neu'n derbyn cymorth hanfodol, sydd ond yn gallu cael ei roi os ydynt yn byw mewn lleoliad penodol o fewn yr ardal.

Ymgeiswyr sydd â chyflogaeth barhaol na all barhau oni bai eu bod yn byw mewn lleoliad penodol o fewn yr ardal ac sydd fel arall wedi eu cartrefu'n ddigonol.

### Blaenoriaethau Lleol

Ymgeiswyr sydd wedi cael cymeradwyaeth gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol a Gwasanaethau Plant i feithrin neu fabwysiadu plant ac nad yw eu llety presennol yn ddigon mawr.

Ymgeiswyr sy'n gorfod byw ar wahân i'w partner neu eu plant oherwydd bod eu llety presennol yn anaddas*

** Nid yw hyn yn berthnasol i'r rhai sydd wedi'u gwahanu'n gyfreithiol neu sy'n byw ar wahân oherwydd tor-perthynas neu anghydfod teuluol*

# Band C

## Angen Tai Isel

## Ymgeiswyr sydd wedi derbyn dyfarniad Band B ond heb fod â chysylltiad lleol

### Categorïau Dewis Rhesymol a167 (2) (a), (b), (c) a (d)

Ymgeiswyr sydd â chyflwr iechyd sy'n cael ei effeithio'n andwyol gan agwedd o'u cartref presennol sydd ond yn gallu cael ei ddatrys drwy symud tŷ.

Ymgeiswyr sydd ar hyn o bryd yn meddiannu llety sydd ag un ystafell wely'n llai na'r angen ar sail anghenion yr aelwyd.

Ymgeiswyr sydd angen symud yn nes at:

a. Ysgol plentyn (lle mae'r angen i symud i ysgol wedi cael ei argymell gan y Cyfarwyddwr Addysg).

b. Man addoli gan nad oes addoldy addas lle mae'r ymgeisydd yn byw ar hyn o bryd

# Band D

## Dim Angen Tai

## Ymgeiswyr sydd wedi derbyn dyfarniad Band C ond heb gysylltiad lleol (ac eithrio Digartrefedd)

### Categori Dewis Rhesymol a167 (2) (e)

Ymgeiswyr sy'n cael eu hasesu fel rhai sydd heb unrhyw anghenion tai.

Ymgeiswyr sy'n denantiaid presennol Cymdeithas Tai sydd am drosglwyddo ac nad oes ganddynt unrhyw anghenion tai *

**Mae'n rhaid bod ymgeiswyr wedi bod yn denant gyda'u landlord presennol am 12 mis neu fwy*

## Homestep CBS Rhondda Cynon Taf

Nod Homestep yw gwneud perchnogaeth tŷ yn fwy fforddiadwy i chi. Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf sy'n ei weithredu ac yn ei ddarparu mewn partneriaeth ag adeiladwyr tai preifat.

Mae cartrefi Homestep yn dai newydd. Rydych yn prynu'r tŷ ar ganran o'i werth llawn yn y farchnad (70% fel arfer). Mae'r Cyngor yn dal y gyfran sy'n weddill o werth y tŷ (h.y. 30%). Mae hyn yn golygu mai dim ond blaendal a morgais sydd ei angen arnoch chi am ganran o werth yr eiddo.

Nid oes dyddiad cau ac nid oes yn rhaid i chi dalu llog ar y 30% sydd gan y Cyngor. Fodd bynnag, pe baech yn gwerthu'r cartref yn y dyfodol, byddech yn talu gwerth y ganran a ddelir adeg y gwerthiant. Er enghraifft, pe bai eich cartref yn werth £150,000 byddech yn derbyn £105,000 gan y gwerthiant a byddai'n rhaid i chi dalu £45,000 i'r Cyngor.

### Pwy sy'n gymwys?

**I allu gwneud cais am Homestep, mae'n rhaid eich bod:**

- Yn brynwr tro cyntaf (neu ddim yn berchennog cartref ar hyn o bryd)
- Dros 18 oed
- Yn ddeiliad pasbort yn y DU neu â Chaniatâd Amhenodol i aros yn y DU
- Yn methu fforddio prynu'r cartref ar werth llawn y farchnad
- Yn methu codi morgais gyda benthycwr morgais addas (fel arfer gyda blaendal)
- Â mynediad at ddigon o gynilion i dalu costau prynu cartref ar 70% o werth y farchnad, fel cyfreithwyr, morgais a ffioedd arolygon.

**E-bost: homestep@rhondda-cynon-taf.gov.uk**

**Ffôn: 01443 281136**

## Tai wedi'u Haddasu

Gall addasu cartref gael effaith enfawr ar eich lles ac ansawdd eich bywyd. Mae cartref sy'n fwy addas ar gyfer eich anghenion yn gallu helpu i wneud tasgau bob dydd yn haws.

Os ydych yn denant cymdeithas tai ac os ydych angen i'ch cartref presennol gael ei addasu i gwrdd â'ch anghenion, cysylltwch â'ch cymdeithas tai i ofyn a oes modd gosod yr addasiadau sydd eu hangen arnoch yn eich cartref.

Os ydych yn denant rhent preifat gellir gosod addasiadau yn eich cartref gyda chaniatâd eich landlord. Cysylltwch â thîm ymateb Cyntaf y Cyngor am gyngor pellach ar 01443 425003.

Os ydych yn berchen ar eich cartref eich hun ac angen cymorth arnoch i addasu eich cartref er mwyn ei wneud yn addas ar gyfer eich anghenion, gallwch gysylltu â thîm Grantiau Tai y Cyngor ar 01443 281118.

# Tai



## Y Gwasanaeth Gofal a Thrwsio

Opsiwn arall yw'r Gwasanaeth Gofal a Thrwsio sydd yn cael ei ddarparu gan Gwm Taf. Ei nod yw helpu pobl hŷn neu sydd ag anabledd i aros yn eu cartrefi eu hunain, gyda mwy o gysur a diogelwch.

Maen nhw'n cynnig amrywiaeth o wasanaethau, o gynllun crefftwyr sy'n cynnig mân waith atgyweirio i raglen addasiadau ymateb cyflym er mwyn atal damweiniau neu gynorthwyo rhyddhau cleifion o'r ysbyty.

Am ragor o wybodaeth am y Gwasanaeth Gofal a Thrwsio mae Cwm Taf yn ei gynnig, cysylltwch â:

**01443 755696**

## Cyfnewidfa Gydfuddiannol Cymdeithasau Tai

Mae cyfnewid cydfuddiannol neu denantiaeth ar gael i denantiaid y cyngor neu'r gymdeithas tai ac yn digwydd pan fydd dau neu fwy o denantiaid yn cytuno i gyfnewid cartrefi â'i gilydd.

Bydd angen i chi ddod o hyd i denant arall sydd eisiau cyfnewid gyda chi.

Mae gwasanaethau cyfnewid cenedlaethol ar gael, HomeSwapper a Chynllun Cyfnewid Cartrefi Cymru. Os cofrestrwch eich manylion ar eu gwefan, ac mae gan denant arall ddiddordeb mewn cyfnewid gyda chi, byddant yn rhoi gwybod i chi.

**Gwefan HomeSwapper: https://www.homeswapper.co.uk/**

**http://www.houseswapwales.co.uk/**

## Cymdeithasau Tai yn RhCT

Mae Grŵp Tai Cymunedol Cynon Taf wedi'i leoli yng nghanol Rhondda Cynon Taf. Rydyn ni'n falch o'n hanes sydd wedi'i wreiddio'n ddwfn ym maes darparu tai â chymorth i'r bobl a'r cymunedau lle rydyn ni'n gweithio. Rydyn ni'n darparu 1850 o gartrefi i'w rhentu, gan gynnwys 4 cynllun tai ar gyfer pobl hŷn. Rydyn ni hefyd yn darparu gwasanaeth Gofal a Thrwsio uchel ei barch i bobl hŷn neu anabl sy'n byw mewn cartrefi preifat

**http://www.cynon-taf.org.uk/**

Mae Cymdeithas Tai Habinteg yn ddarparwr tai cymdeithasol cofrestredig gyda 50 mlynedd o brofiad yn adeiladu a hyrwyddo cartrefi a chymunedau hygyrch. Rydyn ni'n berchen ar, ac yn rheoli mwy na 3300 o gartrefi, ac rydym yn gweithredu mewn 86 awdurdod lleol ar draws Cymru a Lloegr.

Credwn y gall cartref hygyrch mewn lleoliad cynhwysol drawsnewid bywydau pobl anabl a'r rhai o'u cwmpas.

**http://www.habinteg.org.uk/**

Mae Hafod yn falch o ddarparu ystod eang o wasanaethau tai, cymorth a gofal ledled de Cymru. Yn ogystal â darparu cartrefi fforddiadwy o ansawdd uchel, rydyn ni'n cefnogi pobl i gynnal eu hannibyniaeth a'u lles personol cyhyd â phosibl naill ai yn eu cartrefi eu hunain, tai â chymorth neu yn un o'n cartrefi gofal preswyl.

**http://www.hafod.org.uk/**

# 6 Tai

Yn Newydd, rydyn ni'n gweithio mewn partneriaeth agos gydag elusennau eraill, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru i gefnogi pobl lle mae angen tai ar ei fwyaf.

Mae gennym amrywiaeth eang o gartrefi ar gael i'w rhentu a'u gwerthu ar draws y canolbarth a'r de, gweler y mathau o gartrefi sydd ar gael ar y chwith. Rydym hefyd yn adeiladu cartrefi newydd, gan sicrhau bod pob cartref yn ddeniadol, eang, hygyrch ac ynni effeithlon.

**http://www.newydd.co.uk/**

Mae RHA yn darparu amrywiaeth o eiddo gan gynnwys fflatiau, tai a byngalos yn RhCT sy'n gallu amrywio o ran maint, math a lleoliad, gan ein galluogi i gynnig cartref o ansawdd uchel i chi, a fydd yn addas i'ch anghenion.

**http://www.rhawales.com/**

Mae Trivallis yn falch o ddarparu cartrefi i filoedd o bobl yn ein cymunedau a chredwn ein bod mewn sefyllfa unigryw i nid yn unig ddarparu tai o ansawdd da, ond i helpu i adfywio'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu a gwella bywydau'r rhai sy'n byw yno hefyd.

Ein gweledigaeth yw: Pobl a llefydd llewyrchus

Byddwn yn cyrraedd yno drwy sicrhau: Gyda'n gilydd byddwn yn creu lleoedd gwych i fyw ac i weithio

**http://www.trivallis.co.uk/**

Ni yw Tai Wales & West, a'n gweledigaeth ni yw sicrhau twf cryf a chynaliadwy i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl, i gartrefi ac i gymunedau.

Rydyn ni'n berchen ar fwy na 12,000 o dai fforddiadwy o safon uchel mewn 15 ardal awdurdod lleol ledled Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys mwy na 3,000 o dai pwrpasol ar gyfer pobl hŷn yn ogystal ag atebion tai â chymorth arloesol i bobl ag amrywiaeth o anghenion arbennig.

**http://www.wwha.co.uk/**

# Merthyr

## Living Merthyr Tudful

Mae Living Merthyr Tudful yn galluogi pobl i gael gwybodaeth a chyngor, gweld eiddo tai cymdeithasol sydd ar gael i'w rhentu, cofrestru ar y gofrestr tai cyffredin - fyddai'n eich galluogi i wneud cais am eiddo tai cymdeithasol a dod o hyd i unrhyw eiddo perchnogaeth a rennir sydd ar werth.

Ein nod yw rhoi mwy o ddewis i chi wrth benderfynu ble'r ydych chi eisiau byw. Gall eiddo sydd ar gael i'w rhentu gael eu hysbysebu'n ddyddiol a bydd pob hysbyseb yn parhau'n fyw am o leiaf 7 diwrnod cyn cau. Mae eiddo'n cael eu dyrannu yn ôl yr angen am dai, ac NID ar sail y cyntaf i'r felin.

Er mwyn dechrau gwneud cais am eiddo sydd ar gael, rhaid i chi GOFRESTRU yn gyntaf ar y safle hwn. Yna, rhaid i chi gwblhau Cais Cofrestru Tai, gan roi manylion eich amgylchiadau tai ac aelwyd presennol. Ar ôl ei gwblhau a'i gyflwyno, bydd eich cais yn cael ei adolygu gan Swyddog o'r Cyngor i ddilysu'r wybodaeth a ddarparwyd. Ar ôl ei ddilysu, byddwch yn derbyn neges pan fyddwch yn mewngofnodi i'ch cyfrif yn eich cynghori ei fod bellach yn weithredol ac y gallwch ddechrau gwneud cais am eiddo. Os yn ystod dilysu, y bydd angen mwy o wybodaeth arnom, byddwch yn derbyn neges pan fyddwch yn mewngofnodi i'ch cyfrif yn eich cynghori am yr hyn y mae'n ofynnol i chi ei wneud.

# Tai

Ewch i https://www.livingmerthyrtydfil.org.uk/

Ffôn 01685 725000

## Bandiau Blaenoriaeth

Mae tri phrif fand blaenoriaeth, sef:

Band 1- Blaenoriaeth Uchel: Mae'r rhain yn ymgeiswyr sydd â dyfarniad statudol o ddewis rhesymol yn ddyledus iddyn nhw ond bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn credu y dylent hefyd gael dewis ychwanegol yn seiliedig ar eu hanghenion tai brys.

Band 2 - Blaenoriaeth Ganolig: Mae'r rhain yn ymgeiswyr y mae dyfarniad statudol o ddewis rhesymol yn ddyledus iddynt o dan y polisi.

Band 3 - Blaenoriaeth Isel: Mae'r rhain yn ymgeiswyr nad ydynt wedi cael eu hasesu fel rhai yn y grŵp dewis ychwanegol neu'r grŵp dewis rhesymol.

Sylwch fod yna hefyd fandiau o ddewis is a band heb flaenoriaeth. Byddwch yn cael eich rhoi yn un o'r rhain os oes gennych hanes o ymddygiad gwrthgymdeithasol, ôl-ddyledion rhent neu os ydych wedi gwrthod dau gynnig rhesymol o lety.

| Band | Blaenoriaeth | Categori |
|---|---|---|
| Band 1 | Uchel | • Pobl sy'n ddigartref ac sydd wedi cael eu hasesu fel rhai y mae dyletswydd a75 digartrefedd yn ddyledus iddynt<br>• Pobl sydd angen symud oherwydd tân neu lifogydd, neu ddifrod difrifol gan storm i'w cartref.<br>• Aelwydydd sy'n byw mewn amodau sy'n golygu risg sydd ar fin digwydd o niwed difrifol, a lle mae'r Cyngor wedi cyflwyno Gorchymyn Gwahardd Brys o dan Ran 1 o Ddeddf Tai 2004.<br>• Gorlenwi gormodol o 2 ystafell wely neu fwy wedi eu mesur yn ôl safon ystafelloedd gwely, h.y. Pan fo swyddog o'r Cyngor wedi gwneud asesiad gan ddefnyddio'r system Sgorio Iechyd a Diogelwch Tai a dod i'r casgliad bod risg uchel difrifol o niwed oherwydd effaith gorlenwi difrifol.<br>• Gorchymyn Dymchwel neu Brynu Gorfodol (CPO). Pan fo eiddo'r ymgeisydd yn cael ei ddymchwel neu'n destun Gorchymyn Prynu Gorfodol i'w ailddatblygu.<br>• Dim mynediad gan yr ymgeiswyr i unrhyw un o'r cyfleusterau canlynol:<br>o Ystafell ymolchi neu gegin<br>o Tŷ bach y tu mewn i'r eiddo<br>o Cyflenwadau dŵr poeth neu oer, trydan, nwy neu wres digonol.<br>(Sylwer: Ni fydd ymgeiswyr sydd â mynediad at gyfleusterau a rennir mewn llety a rennir – yn gymwys o dan y meini prawf hyn) |

# 6 Tai

| Band | Blaenoriaeth | Categori |
|---|---|---|
| Band 1 | Uchel | • Ymgeisydd sydd ag angen brys i symud am resymau meddygol neu les sylweddol (gan gynnwys anabledd), sy'n cael eu gwaethygu gan y sefyllfa dai bresennol (gweler Atodiad 3 am fanylion)<br>• Ymgeiswyr sydd angen symud yn syth oherwydd cam-drin domestig a/neu drais rhywiol<br>• Ymgeiswyr sydd angen symud yn syth oherwydd trais eithafol neu aflonyddu eithafol<br>• Os gellir priodoli marwolaeth eu priod neu bartner (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) i'w gwasanaeth Milwrol a bod hawl gweddw neu weddw sifil i breswylio yn llety'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn dod i ben.<br>• Lle mae tenant tai cymdeithasol yn byw mewn eiddo gydag addasiad sylweddol a newid mewn amgylchiadau wedi golygu nad yw'r deilydd presennol angen yr addasiad sylweddol mwyach.<br>• Y sawl sy'n gadael gofal yn cael eu hystyried yn barod i symud allan o'r lleoliad presennol gan y Tîm Atebion Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol (Panel Symud Ymlaen) |
| Band 2 | Canolig | • Ymgeiswyr lle mae dyletswydd atal digartrefedd a66 yn ddyledus iddynt (dim ond pan fo'r landlord wedi dechrau achos meddiant yn ffurfiol gyda'r Llys)<br>• Ymgeiswyr lle mae dyletswydd digartrefedd a73 yn ddyledus iddynt (ond dim ond cyhyd â bod y ddyletswydd honno'n ddyledus i'r ymgeisydd)<br>(Bydd ymgeiswyr y mae dyletswydd a66, neu a73, neu ddyletswydd a75 gan Gyngor arall yn ddyledus iddynt yn cael llai o ddewis o fewn Band 2)<br>• Pan fo dyletswydd a73 wedi dod i ben ac nid oes dyletswydd derfynol (a75) yn ddyledus - bydd yr ymgeisydd yn aros ym Mand 2 am gyfnod o 52 wythnos ar y mwyaf o ddiwedd y ddyletswydd a73<br>• Pobl sy'n gadael carchar sy'n ddigartref ac yn cael eu dosbarthu fel troseddwyr MAPPA Lefel 2 a 3<br>• Pobl sy'n cysgu ar y stryd o fewn Merthyr Tudful, ac mae hyn wedi'i wirio gan y Cyngor<br>• Ymgeiswyr sy'n byw mewn llety sy'n strwythur symudol, fel carafán, ond nid oes lle cyfreithlon lle gallant ei osod yn gyfreithlon a byw ynddo<br>• Rheswm(rhesymau) meddygol cronig/aciwt difrifol (gan gynnwys anabledd) sydd â chysylltiad CLIR ac UNIONGYRCHOL â'u hamgylchiadau tai presennol, a fyddai'n cael ei wella'n sylweddol gan ailgartrefu (gweler Atodiad 3 am fanylion) |

# Tai



| Band | Blaenoriaeth | Categori |
|---|---|---|
| Band 2 | Canolig | • Rheswm(rhesymau) Lles sylweddol megis: dioddefwr ymddygiad gwrthgymdeithasol difrifol sy'n effeithio ar gyflwr iechyd meddwl presennol yr ymgeisydd(ymgeiswyr) neu lle mae mynediad at amwynderau lleol o'u cartref presennol yn cael ei rwystro'n sylweddol gan faterion symudedd yr ymgeisydd<br>• Aelwyd yn orlawn o 1 ystafell wely<br>• Tenantiaid cymdeithasol presennol sy'n tan-feddiannu eu cartref ac angen symud i eiddo llai oherwydd caledi ariannol. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r ymgeisydd hefyd ddarparu tystiolaeth eu bod hefyd yn ceisio datrys y sefyllfa h.y. cyflwyno taliad tai yn ôl disgresiwn i gynorthwyo gyda'r taliadau nes y gallant sicrhau llety amgen.<br>• Os yw swyddog awdurdodedig o Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi penderfynu bod eiddo rhent preifat yn cynnwys un neu ragor o beryglon Categori 1 difrifol fel y'u diffinnir gan y System Sgorio Iechyd a Diogelwch Tai a does dim gobaith y bydd y materion yn cael eu cywiro mewn cyfnod amser y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn ei ystyried yn rhesymol.<br>• Perchnogion breswylwyr a thenantiaid rhent preifat sy'n dioddef caledi ariannol o ganlyniad uniongyrchol i'w cartref presennol<br>• Aelodau o'r Lluoedd Arfog sy'n gwasanaethu yn y lluoedd rheolaidd fydd yn cael eu rhyddhau o fewn tri mis<br>• Cyn-filwyr y Lluoedd Arfog sydd wedi gwasanaethu yn y pum mlynedd cyn eu dyddiad ymgeisio<br>• Cefnogi Caledi: ymgeiswyr sydd â thystiolaeth amlwg eu bod yn darparu, neu'n derbyn, cefnogaeth sylweddol a pharhaus i berthnasau neu ffrindiau, neu ganddynt. Dim ond pan fo materion meddygol neu les sylweddol yn cael eu hystyried gan gynnwys sail yn ymwneud ag anabledd y bydd hyn yn cael ei ystyried; ac mae yna resymau dilys pam na all y gefnogaeth hon beidio â chael ei darparu neu ei chynnal drwy ddibyniaeth ar drafnidiaeth gyhoeddus neu drafnidiaeth bersonol yr ymgeisydd<br>• Caledi Cyflogaeth: dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y rhoddir blaenoriaeth. Rhaid i ymgeiswyr ddangos bod angen iddynt symud i dderbyn cyfle cyflogaeth neu i barhau â chyfle cyflogaeth nad yw ar gael mewn mannau eraill. Dim ond lle nad ydyn nhw'n byw o fewn pellter cymudo rhesymol ar hyn o bryd y byddan nhw'n cael eu hystyried. |

# 6 Tai

| Band | Blaenoriaeth | Categori |
|---|---|---|
| Band 3 | Isel | • Pob ymgeisydd arall sy'n gymwys i gael eu cofrestru ond heb flaenoriaeth dewis rhesymol statudol ar gyfer bandiau 1 neu 2.<br>• Ymgeiswyr y mae dyletswydd atal digartrefedd a66 yn ddyledus iddynt - ond lle NAD yw'r landlord wedi dechrau achos meddiant yn ffurfiol gyda'r Llys) |
| | | |
| Dim Blaenoriaeth | | • Ymgeiswyr sy'n gymwys i ymuno â'r gofrestr ond heb dderbyn unrhyw flaenoriaeth am nifer o resymau a nodir yn y polisi, gan gynnwys:<br>o Methiant i fynd i'r afael ag ôl-ddyledion rhent neu ddyledion yn ymwneud â thai (£500-£999)<br>o Methiant i fynd i'r afael ag ymddygiad annerbyniol<br>o Nid yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn ystyried eto ei fod yn barod i symud ymlaen neu'n barod i gynnal tenantiaeth nes bod cymorth yn ei le neu mae cynllun cymorth i alluogi ymgeisydd i fod yn barod ar gyfer tenantiaeth wedi'i gwblhau. |

Mae Cymdeithas Tai Merthyr Tudful yn un o ddim ond 2 gymdeithas tai sy'n darparu cartrefi i bobl ym Merthyr Tudful yn unig. Mae ein gwreiddiau a'n gwybodaeth leol yn golygu ein bod yn darparu gwasanaeth heb ei ail i denantiaid a thrigolion y fwrdeistref.

Mae ein henw da dibynadwy yn golygu mai ni yw'r dewis poblogaidd ar gyfer tai cymdeithasol ym Merthyr, ond fel y gwelwch o'r safle hwn, rydym hefyd yn darparu mwy i'n tenantiaid, i'r gymuned ac i fasnach leol.

**https://www.mtha.org.uk/**

Mae Cartrefi Cymoedd Merthyr (MVH) yn falch o ddweud mai ni yw cymdeithas tai gydfuddiannol gyntaf Cymru i denantiaid a gweithwyr. Mae hyn yn golygu bod ein haelodau sy'n denantiaid ac yn weithwyr yn berchen ar y gymdeithas fel cwmni cydweithredol. Rydym yn ymfalchïo ein bod yn gwmni amrywiol a chynhwysol sy'n croesawu ac yn cefnogi ein cymunedau a'n gweithlu i chwarae rhan wrth lywio gwaith MVH fel ei bod yn diwallu angen y gymuned.

Ein pwrpas yw parhau i redeg MVH er budd ein tenantiaid, ein gweithwyr a chymuned Merthyr Tudful, gan ddarparu gwasanaeth, cartrefi a chefnogaeth ardderchog iddynt.

Mae ein gweledigaeth wedi'i hamlinellu yn Gyda'n Gilydd, sy'n trafod y cynlluniau i lunio ein dyfodol 'ynghyd' gyda'n tenantiaid a'n gweithwyr i wneud y gymuned yn lle gwell drwy ein huchelgais ar y cyd.

**https://www.mvhomes.org.uk/**

# Bro Morgannwg

## Homes4U

Mae'r Cynllun Homes4U yn rhoi mwy o gyfle i ymgeiswyr benderfynu ble maen nhw am fyw.

Mae Homes4U yn helpu datblygu cymunedau cynaliadwy gyda Bro Morgannwg. Mae systemau tebyg mewn ardaloedd eraill o'r wlad wedi profi'n effeithiol. Mae'r cynllun yn caniatáu i ymgeiswyr wneud y canlynol:

- ymgeisio am gartrefi maen nhw wir eisiau byw ynddyn nhw
- canolbwyntio ar ddewisiadau yn hytrach na phwyntiau
- ymgeisio am gartrefi mewn ardaloedd maen nhw'n dymuno byw ynddynt

**Ffoniwch 01446700111**

## Sut mae anghenion tai ac amgylchiadau rhywun yn cael eu hasesu

### Bydd system fandio yn cael ei defnyddio i benderfynu pryd i wneud cynnig o lety ac i bwy

**Y system Bandiau**

Mae tri band, sef Aur, Arian ac Efydd. Mae'r Bandiau Aur ac Arian yn cael eu rhannu rhwng Aur Uwch ac Aur ac Arian Uwch ac Arian. Bydd eiddo fel arfer yn cael ei ddyrannu yn y drefn ganlynol:

1. **Y band Aur - Blaenoriaeth Uchel:** Mae'r rhain yn ymgeiswyr sydd â dyfarniad statudol o ddewis rhesymol yn ddyledus iddyn nhw ond bod y Cyngor yn credu y dylent hefyd gael dewis ychwanegol yn seiliedig ar eu hanghenion tai brys.
2. **Y band Arian – Blaenoriaeth Ganolig:** Mae'r rhain yn ymgeiswyr y mae dyfarniad statudol o ddewis rhesymol yn ddyledus iddynt o dan y polisi.
3. **Y band Efydd – Blaenoriaeth Isel:** Mae'r rhain yn ymgeiswyr nad ydynt wedi cael eu hasesu fel rhai yn y grŵp dewis ychwanegol neu'r grŵp dewis rhesymol. NODER: O ystyried y galw am dai cymdeithasol mewn rhai ardaloedd yn y Fwrdeistref Sirol mae ymgeiswyr o'r fath ond yn debygol o fod yn llwyddiannus drwy wneud ceisiadau am ardaloedd llai poblogaidd neu rai mathau o eiddo a allai fod ar gael yn y Fwrdeistref Sirol.

**Ceir rhagor o wybodaeth am bolisi dyraniadau Homes-4-U yn:**

**https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/Living/Housing/Homes-4-U/Homes4U-Allocations-Policy.pdf**

# 6 Tai

## Atebion Tai

P'un a ydych chi'n rhentu'n breifat, yn dal tenantiaeth Tai Cymdeithasol neu'n byw gyda ffrindiau neu deulu, mae'r tîm Atebion Tai yn rhoi cyngor a chymorth i'r rhai sy'n ddigartref, dan fygythiad o ddigartrefedd neu os yw'r ddarpariaeth tai bresennol yn annigonol.

Yn eich apwyntiad, bydd eich Swyddog Atebion Tai yn datblygu ac yn cytuno ar Gynllun Tai Personol gyda chi a fydd yn cynnwys cyfres o gamau rhesymol i chi'ch dau eu cyflawni a fydd yn eich cynorthwyo i ddatrys eich trafferthion tai. Gallwn hefyd helpu drwy:

- Gofrestru ar gyfer Homes4U
- Trafod atebion tai amgen fel rhentu'n breifat
- Cyfryngu gyda theulu/ffrindiau/landlordiaid i gynorthwyo i'ch cadw yn eich cartref lle bo hynny'n briodol ac yn bosibl
- Cyfeirio at asiantaethau cymorth perthnasol

## Siop Gyngor Un Cam

Mae'r Siop Gyngor Un Cam yn cynnig cyngor i bobl rhwng 16 a 25 oed a'u rhieni neu ofalwyr. Os ydych chi'n cael trafferthion gartref, mae help ar gael i chi. Maen nhw'n cynnig:

- Gwasanaeth cyfryngu i'ch helpu i ailgysylltu â'ch teulu
- Asesiad gan Wasanaethau Plant a Thai i weld pa gymorth ychwanegol sydd ei angen/eisiau arnoch.
- Cefnogi tra byddwch mewn llety arall
- Atgyfeiriadau i lety â chymorth
- Helpu i gael budd-daliadau
- Cynllunio ar gyfer llety parhaol

Yn ogystal, gallant eich helpu drwy'r project Dysgu am Oes a gyda Gyrfa Cymru i gael mynediad at addysg, hyfforddiant, cyflogaeth a chyfleoedd gwirfoddol.

236 Heol Holton
Y Barri
Bro Morgannwg

**01446 748852**

# Tai

## HomeSwapper

Ydych chi'n denant Cyngor ac yn edrych i gyfnewid cartrefi?

Mae Homes4U wedi ymuno a'r gwasanaeth cyfnewid ar-lein HomeSwapper yn ddiweddar. Os oes gennych ddiddordeb yn y cynllun, gallwch ddysgu mwy a chofrestru ar wefan HomeSwapper. Mae cofrestru ar gyfer tenantiaid y cyngor am ddim ym Mro Morgannwg. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag:

**01446 704316**

**https://www.homeswapper.co.uk/**

## Bro Morgannwg yn Cefnogi Pobl – Tai

Mae'r rhaglen Cefnogi Pobl yn rhaglen grantiau genedlaethol a ariennir a lansiwyd ar 1 Ebrill 2003 i ariannu gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai. Nod cymorth sy'n gysylltiedig â thai yw galluogi pobl fregus i gynnal a chynyddu eu hannibyniaeth a'u gallu i aros yn eu cartrefi eu hunain.

Y nod yw darparu gwasanaethau cymorth yn gysylltiedig â thai sydd:

- O ansawdd uchel
- Yn strategol berthnasol
- Yn gost-effeithiol
- Yn ategu'r gwasanaethau gofal presennol

Yng Nghymru mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn cael ei darparu gan Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol trwy un ffrwd gyllid refeniw o'r enw Grant Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai.

- Ein Cenhadaeth

  "Gwneud y Fro yn lle diogel ac iach lle gall unigolion, plant a theuluoedd fyw eu bywydau i'r eithaf"

- Ein Gweledigaeth

  "Diwallu anghenion unigolion a chymunedau drwy ddarparu gwasanaethau o safon, mewn partneriaeth ag eraill, sydd yn parchu amrywiaeth ac yn hyrwyddo annibyniaeth"

### Y Tîm Cefnogi Pobl

Mae'r Tîm Cefnogi Pobl yn gweinyddu arian grant i ddarparwyr gwasanaethau i ddarparu ystod o wasanaethau cymorth yn ymwneud â thai a all gynnwys:

- Mapio gwasanaethau cymorth presennol sy'n gysylltiedig â thai
- Cynllunio a siapio darpariaethau gwasanaeth yn y dyfodol
- Monitro ac adolygu gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli
- Darparu tystiolaeth am yr angen a'r galw am wasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai
- Gwerthuso'r 'canlyniadau' a gyflawnwyd

# 6 Tai

- Gwrando ar farn defnyddwyr gwasanaeth
- Sicrhau bod darparwyr gwasanaethau yn cydymffurfio â gofynion grantiau a chontractau a bod Cefnogi Pobl yn gweinyddu arian grant i ddarparwyr gwasanaethau i ddarparu ystod o wasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai a all gynnwys:
- Llety a thai dros dro a rennir
- Tai â chymorth
- Tai gwarchod
- Ymyrraeth argyfwng
- Cymorth lefel isel a pharhaus
- Cymorth fel y bo'r angen
- Gwasanaeth larwm cymunedol
- Gwaith ataliol digartrefedd
- Llety mynediad uniongyrchol, gan gynnwys hosteli a llochesi cam-drin domestig

**Rhif ffôn: 01446 709793**

**E-bost: supportingpeople@valeofglamorgan.gov.uk**

## Cefnogi Pobl a Chymorth yn ymwneud â Thai

## Aspire2Own

Ydych chi eisiau bod yn berchen ar eich cartref eich hun? Ydych chi'n methu fforddio prisiau'r farchnad? Peidiwch â phoeni, gallai gallai bod yn berchen ar gartref fod o fewn cyrraedd i chi.

Crëwyd Aspire2Own gan Gyngor Bro Morgannwg a'i bartneriaid i gydnabod y gall prynwyr tro cyntaf yn aml ei chael hi'n anodd cyrraedd y cam cyntaf ar yr ysgol eiddo. Fe'i rheolir gan y Cyngor mewn partneriaeth â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

- Pam cofrestru gydag Aspire2Own?

Mae cynllun Aspire2Own yn gofrestr o bobl sydd â diddordeb mewn cyfleoedd perchnogaeth cartrefi cost isel. Mae'r wybodaeth sy'n cael ei chasglu, ynglŷn â ble mae pobl eisiau byw, maint yr eiddo y byddent yn ei ddymuno a'u hincwm, yn helpu'r Cyngor i gynllunio ar gyfer eiddo perchnogaeth tai newydd cost isel.

Rydym hefyd yn defnyddio'r manylion cyswllt i sicrhau ein bod yn rhoi gwybod i bartïon sydd â diddordeb pan fydd eiddo perchnogaeth tai cost isel ar gael.

I gofrestru gydag Aspire2Own llenwch ffurflen gofrestru ar-lein. Ar ôl i chi gofrestru, gallwch wneud cais am eiddo Aspire2Own sydd ar gael.

**housingstrategy@valeofglamorgan.gov.uk**

# Tai

## Benthyciadau Tai Di-log

Mae Cyngor Bro Morgannwg, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru yn darparu benthyciadau di-log i wella tai o ansawdd gwael ar draws Bro Morgannwg.

Mae'r Cyngor yn cynnig benthyciadau tai di-log. Mae benthyciadau ar gael i gynorthwyo perchennog ddeiliaid gyda gwaith atgyweirio hanfodol, dod ag eiddo gwag hirdymor yn ôl i ddefnydd a chynorthwyo landlordiaid/datblygwyr i droi adeiladau gwag yn unedau preswyl.

Cysylltu â ni

Os ydych yn dymuno cael rhagor o wybodaeth am y cynlluniau benthyg neu i dderbyn pecyn cais, llenwch ffurflen ar-lein neu cysylltwch â'r:

Swyddog Cartrefi Gwag a Benthyciadau
Adfywio a Chynllunio
Swyddfeydd y Doc
Cyngor Bro Morgannwg
Heol Subway
Y Barri
CF63 4RT

**01446 704721**

**housingloans@valeofglamorgan.gov.uk**

# Cymorth Tai – Pwy all helpu?

Mae cymorth sy'n gysylltiedig â thai yn darparu gwasanaethau hyblyg sy'n galluogi pobl fregus i fyw'n annibynnol. Maen nhw hefyd yn chwarae rhan hanfodol wrth atal digartrefedd a hefyd yn lleihau'r pwysau ar ystod eang o wasanaethau cyhoeddus eraill megis iechyd a chyfiawnder troseddol. Mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb am asesu'r angen am gymorth yn ymwneud â thai, cynllunio strategol a gwasanaethau comisiynu.

# Rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru

## Cefnogi Pobl - cymorth gyda thai, digartrefedd, dyled, budd-daliadau, ôl-ddyledion a chyflogaeth

Y weledigaeth yw "Cymru lle nad oes neb yn ddigartref ac mae gan bawb gartref diogel lle gallant ffynnu a byw bywyd bodlon, gweithgar ac annibynnol".

Os ydych chi dros 16 oed ac yn cael trafferth cadw eich cartref, mewn perygl o golli'ch swydd, angen symud neu angen help gyda'ch cyllid neu unrhyw fath o ddyled, gallai'r Tîm Cefnogi Pobl gynnig cymorth i chi. Os ydych chi'n berchennog cartref, yn denant (cyngor, cymdeithas dai neu'n breifat), yn cysgu ar y stryd, neu'n syrffio soffa mae'r Tîm Cefnogi Pobl yma i helpu.

# 6 Tai

Unrhyw beth a allai arwain at golli eich cartref, gallwn eich helpu gyda:

- Help i sefydlu a chynnal cartref – fel dod o hyd i'r cyfleustodau gwerth gorau a sefydlu cyfrifon debyd uniongyrchol gyda chyflenwyr ynni, cofrestru pobl gyda gwasanaethau iechyd, fel meddyg teulu a deintyddion.
- Help i atal troi allan, ôl-ddyledion rhent, treth ystafell wely/ôl-ddyledion treth cyngor, dirwyon trwydded deledu - trefnu cynlluniau ad-dalu am ddyledion a chwilio gwefan Turn to Us am grantiau.
- Help i gael mynediad at wasanaethau, cefnogaeth a rhwydweithiau cymdeithasol – atgyfeiriadau ymlaen / hyfforddiant teithio i fynychu grwpiau
- Help i gael mynediad at addysg, gwirfoddoli, hyfforddiant a chyfleoedd cyflogaeth – atgyfeiriadau a mynediad at raglenni dychwelyd i waith, trafodaethau gyda hyfforddwyr swyddi ynglŷn â rhwystrau i waith (e.e. esgidiau /dillad gwaith) a chael arian i gwmpasu hyn
- Help i hawlio budd-daliadau, sicrhau cymaint o incwm â phosib, apeliadau budd-daliadau a cheisiadau am grantiau – gwefan Turn to Us i wirio budd-daliadau a chwblhau ffurflenni budd-dal.
- Help gyda chyllidebu, rheoli arian a rheoli dyledion – gwirio incwm a gwariant a chyllidebu, chwilio am ddewisiadau amgen rhatach ar gyfer pethau fel cyfleustodau a chynlluniau ad-dalu.
- Help i ddarllen llythyrau a llenwi ffurflenni – darllen llythyrau hirdymor e.e. gwasanaethau Mencap lle nad oes aelod o'r teulu yn bresennol / ffurflenni cais am fudd-daliadau

## Mathau o Wasanaethau Cefnogi Pobl

Mae'r mathau o wasanaethau sydd ar gael yn amrywio'n fawr; gweler y rhestr ganlynol o enghreifftiau o wasanaethau Cefnogi Pobl:

- Cymorth fel y bo'r angen – mae gweithiwr cymorth yn ymweld â pherson yn ei gartref ei hun i'w cefnogi i gynnal eu tenantiaeth/cartref. Darperir cymorth am gyfnod (yn ddibynnol ar anghenion yr unigolyn).
- Hostel i'r Digartref – yn darparu llety dros dro i bobl sy'n ddigartref.
- Mae cynlluniau tai gwarchod i bobl sydd fel arfer dros 55 oed lle mae gan reolwr cynllun gyswllt rheolaidd â thenantiaid a gwasanaeth larwm yn darparu gwasanaeth larwm 24 awr mewn argyfwng.
- Cefnogaeth tai 24 awr - llety lle mae staff ar y safle 24 awr y dydd. Yn aml, eiddo a rennir gydag ardaloedd cymunedol fel lolfa a chegin ond gall hefyd fod yn eiddo hunangynhwysol gyda llety staff yn y cyffiniau.
- Tai â chymorth (nid 24 awr) – fel uchod ond nid yw'r staff ar y safle 24 awr y dydd.
- Lloches Cam-drin Domestig – llety brys/dros dro i ddynion neu fenywod sy'n ffoi rhag cam-drin domestig.
- Larymau cymunedol – gwasanaeth larwm yn unig sy'n darparu gwasanaeth 24 awr mewn argyfyngau.

# Tai

**Gweler gwefan eich awdurdod lleol am wybodaeth gyswllt gyfredol i'r adran Cefnogi Pobl**

## Blaenau Gwent

Tîm Cefnogi Pobl
Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Cwrt Anvil
Stryd yr Eglwys t
Abertyleri
NP13 1DB

**Ffôn 01495 354681, 354683**

**supporting.people@blaenau-gwent.gov.uk**

## Caerffili

**Ffôn 01443 864548**

**E-bost ar gyfer ymholiadau cyffredinol yn unig: cefnogipobl@caerffili.gov.uk**

**Cyfeiriad**

Cefnogi pobl, Tŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach, Hengoed. CF82 7PG

NEU anfon neges destun **HOUSUPPORT** i **81400** a bydd aelod o'r tîm Cefnogi Pobl yn cysylltu â chi.

## Caerdydd

Mae Tîm Cefnogi Pobl Caerdydd yn ariannu gwasanaethau Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai i amrywiaeth o bobl fregus, sy'n cynnwys oedolion ag anableddau dysgu. Mae'r Tîm yn cynllunio ac yn datblygu gwasanaethau gyda'r nod o sicrhau cymaint o annibyniaeth â phosib ac wedyn yn monitro'r gwasanaethau dan gontract i sicrhau cydymffurfiaeth â'r contract a bod y gwasanaeth o ansawdd uchel. Ar hyn o bryd mae dros 300 o unedau o ddarpariaeth dai â chymorth mewnol, gwasanaethau cymorth byw gwasanaethau lleoli oedolion i bobl ag anableddau dysgu sy'n cael eu hariannu drwy'r rhaglen yng Nghaerdydd.

**Cyfeiriad**

Tîm Cefnogi Pobl, Tai ac Adnewyddu Cymdogaeth,
Cyngor Caerdydd,
Llawr Gwaelod,
Tŷ Willcox,
Caerdydd,
CF11 0BA

**Cysylltu**

Ffôn: 029 2053 7353

E-bost: supportingpeople@cardiff.gov.uk

## Merthyr Tudful

Ffôn - 01685 725000

E-bost - supporting.people@merthyr.gov.uk

Ffacs - 01685 722146

**Cyfeiriad**

Y Ganolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN

## Sir Fynwy

Tîm Cymorth Tai (Y Porth)
Gwasanaethau Cymorth Tai
Neuadd Cyngor Sir Fynwy Rhadyr Brynbuga NP15 1GA

Ffôn: 01633 740730

E-bost: housingsupport2@monmouthshire.gov.uk

## Casnewydd

Os oes angen gwasanaethau cymorth tai arnoch, ffoniwch ein canolfan gyswllt ar (01633) 656656 a gofynnwch am y **Tîm Cymorth Tai** neu anfonwch e-bost at **Borth Casnewydd** newport.gateway@newport.gov.uk.

## Torfaen

- Os ydych chi'n chwilio am gymorth, gallwch gysylltu â Thîm y Porth a fydd yn eich helpu i ddod o hyd i'r cymorth mwyaf addas i'ch amgylchiadau drwy lenwi ffurflen atgyfeirio gyda chi.
- Gellir cysylltu â Thîm y Porth ar 01495 766949 neu drwy e-bost at gateway@torfaen.gov.uk.

Y Tîm Cefnogi Pobl Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen Canolfan Ddinesig Cyngor Bwrdeistref Sirol Pont-y-pŵl Torfaen NP4 6YB Ffôn: 01495 766949 E-bost: Supporting.People@torfaen.gov.uk

# Tai

## RhCT

Tŷ Sardis
Pontypridd
CF37 1 DU

**E-bost: cymorthibobl@rhondda-cynon-taf.gov.uk**

**Ffôn: 01443 281482**

## Bro Morgannwg

**Tîm Cefnogi Pobl:**

**01446 709793**

**supportingpeople@valeofglamorgan.gov.uk**

## Elusennau Tai

### Alabare

### Homes for Veterans Cymru

Rydym yn darparu cymorth pwrpasol i gyn-filwyr yng Ngogledd a De Cymru - yn benodol; Caerdydd, Pontypridd, Abertawe, Caerfyrddin a Chonwy.

Os ydych wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog y Deyrnas Unedig ac rydych yn ddigartref, neu os ydych yn ofni y gallech ddod yn ddigartref, ac mae arnoch angen cymorth (efallai oherwydd iselder, anhwylder straen wedi trawma, salwch, diweithdra, teulu'n chwalu neu debyg), yna efallai y gallwn eich helpu. Waeth a ydych chi o oed gweithio neu'n 65 neu'n hŷn, rydym yma i gynnig cymorth i chi.

Mae ein cartrefi i Gyn-filwyr yn Ne Ddwyrain Cymru yn cynnig tai a chymorth i gyn-aelodau o'r lluoedd arfog sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. Mae'n rhaid bod ein trigolion i gyd wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog Prydain.

Rydyn ni'n darparu cartref chwe ystafell wely ym Mhontypridd dau fflat a rennir ym Merthyr Tudful ac mae gennym gartref pedair ystafell wely yng Nghaerdydd hefyd. Mae'r cartref ym Mhontypridd wedi'i leoli o fewn pellter cerdded i fwynderau lleol a chyda mynediad rhwydd i ganol y dref gyda chyfleusterau siopa a hamdden.

Pan fyddwch chi'n cyrraedd y cartref byddwch yn cael eich cyflwyno i'ch gweithiwr allweddol, a fydd yn gweithio gyda chi i gytuno ar gynllun cymorth yn seiliedig ar eich anghenion unigol. Gall ein tîm eich helpu i fynd at asiantaethau priodol eraill, gan gynnwys gwasanaethau cwnsela, asiantaethau cyffuriau ac alcohol a grwpiau cymorth, Cyngor ar Bopeth a gwasanaethau GIG Cymru lle bynnag y bo angen.

O fewn y cartref, gallwch gael mynediad at hyfforddiant a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnoch ar gyfer byw'n annibynnol, gan gynnwys cyllidebu, bwyta'n iach, siopa, a sgiliau bywyd. Mae cyrsiau hyfforddi hefyd ar gael trwy'r ganolfan Dysgu Uniongyrchol leol.

# 6 Tai

Mae'r rhan fwyaf o'r preswylwyr yn aros yn y cartref am hyd at flwyddyn cyn symud ymlaen i'w llety annibynnol eu hunain. Pan fyddwch chi'n barod i symud ymlaen, gallwn eich cefnogi i ddod o hyd i'r lle cywir, a'ch helpu gyda'r tasgau ymarferol o sefydlu eich cartref newydd. Gallwn hefyd gadw mewn cysylltiad â chi drwy eich misoedd cyntaf wrth i chi ffeindio'ch traed.

Rydyn ni'n derbyn atgyfeiriadau at ein Cartrefi Cymru ar gyfer Cyn-filwyr gan asiantaethau cymorth lleol, Y Lleng Brydeinig Frenhinol ac elusennau eraill. Os ydych chi'n ddigartref ac yn meddwl y gallwn ni eich helpu, gallwch hefyd gyfeirio eich hun, felly cysylltwch â ni.

**veterans@alabare.co.uk**

## Cornerstone Opportunities Limited

Mae Cornerstone yn cael eu hariannu ar draws ardaloedd yn ne Cymru gan ddarparu cyfuniad unigryw o gymorth yn gysylltiedig â thai a buddion arbenigol ac arweiniad ariannol.

Fel sefydliad bach, deinamig sy'n rhoi canlyniadau anhygoel i gyllidwyr a Defnyddwyr Gwasanaeth, rydym yn cymryd y gefnogaeth i'r unigolyn ac yn darparu pob ymyrraeth gyda dull sy'n cael ei lywio'n seicolegol. Mae hyn yn caniatáu i ni allu addasu'r hyn yr ydym yn ei wneud orau i ddiwallu anghenion yr unigolyn.

Rydyn ni'n cael ein hariannu'n bennaf i ddarparu allgymorth pendant i'r rhai sy'n cysgu ar y stryd, ac rydym wedi cartrefu dros 700 o unigolion ers i ni ddechrau yn 2014. Gan weithio drwy gydol y pandemig, rydym bellach yn rhan allweddol o ddarparu model ailgartrefu cyflym ochr yn ochr â'n partneriaid yn yr Awdurdod Lleol.

Mae Cornerstone hefyd yn arwain ar Lwybr Carchardai, a gyflwynir mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ac Awdurdodau Lleol ac mae ganddynt staff mewn Swyddfeydd Prawf i ddarparu ymateb ar unwaith, gan wella lefelau ymgysylltu â phobl sy'n gadael y carchar i helpu i leihau cyfraddau ail-droseddu.

Cysyniad Cornerstone yw adnabod unigolion talentog o fewn ein carfan o Ddefnyddwyr Gwasanaeth i gynnig cyfleoedd hyfforddi, gwirfoddoli a chyflogaeth i'r rhai sydd â phrofiad byw, yn ei hanfod, Pobl Ddigartref yn cartrefu Pobl Ddigartref. Mae'r dull unigryw hwn yn magu momentwm ac yn ein gosod ar wahân gan fod Defnyddwyr Gwasanaeth wrth wraidd popeth a wnawn, gan gael dylanwad gwirioneddol iawn arnom fel Sefydliad.

**www.cornerstoneopportunitieslimited.com**

**stephen@cornerstoneopportunitieslimited.com ( Rheolwr Gweithrediadau)**

**helen@cornerstoneopportunitieslimited.com (Cydlynydd Atgyfeiriadau ac Asesu)**

**nicola@cornerstoneopportunitieslimited.com (Arweiniad Arbenigol ar Fudd-daliadau ac Arian) Swyddfa 01443 839007**

## Shelter Cymru

Rydyn ni'n helpu miloedd o bobl bob blwyddyn ar draws Cymru sy'n cael eu heffeithio gan yr argyfwng tai trwy gynnig cyngor annibynnol, cyfrinachol ac annibynnol am ddim. Pan fydd angen rydym yn herio'n adeiladol ar ran pobl i sicrhau eu bod yn cael cymorth priodol ac i wella ymarfer a dysgu.

Rydyn ni'n gweithio gyda phobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau yn ddiwahân. Rydyn ni'n darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i helpu pobl i nodi'r opsiynau gorau i atal digartrefedd, i ddod o hyd i gartref a'i gadw a'u helpu i gymryd rheolaeth dros eu bywydau eu hunain.

# Tai

### Cael help a chyngor ar dai

**Ffoniwch llinell gymorth frys Shelter Cymru ar 08000 495 495 (9.30am – 4.00pm dydd Llun i ddydd Gwener)**

## SPACES

Mae Canolfan Llety Pobl Sengl ar gyfer Cyn-Filwyr (SPACES) yn darparu cyngor ac yn helpu'r rhai sy'n gadael gwasanaeth sy'n sengl i ddod o hyd i lety addas. Cysylltwch â SPACES o hyd at 12 mis cyn cael eich rhyddhau am gymorth tai.

Mae SPACES yn wasanaeth cyngor a lleoliadau tai i gyn-filwyr.

Mae SPACES yn targedu'r rhai mwyaf agored i niwed sy'n gadael y Gwasanaeth, waeth beth yw eu rheng, hyd eu gwasanaeth, neu reswm dros gael eu rhyddhau.

### SPACES:

Mae'r Tîm Cefnogi Pobl yn gweinyddu arian grant i ddarparwyr gwasanaethau i ddarparu ystod o wasanaethau cymorth yn ymwneud â thai a all gynnwys:

- Helpu i sicrhau llety priodol pan fyddwch yn gadael y Lluoedd Arfog i leihau'r risg o fod yn ddigartref neu gysgu ar y stryd.
- Help i ddod o hyd i lety ni waeth ble rydych chi wedi'ch lleoli ar draws y DU.
- Byddwn yn darparu cefnogaeth am hyd at 12 mis cyn cael eich rhyddhau os nad ydych wedi dod o hyd i lety. Bydd tîm SPACES yn cadw mewn cysylltiad â chi nes bod llety addas wedi'i sicrhau.
- Rydym wedi sefydlu llwybrau cyfeirio i lety cyn-filwyr ledled y wlad trwy rwydwaith o asiantaethau partner.
- Os ydych chi'n briod neu'n rhiant sengl, byddwn yn eich cyfeirio at y Swyddfa Cyngor ar Dai i'r Lluoedd ar y Cyd.
- Byddwn yn cynorthwyo personél Gwasanaeth Tramor a'r Gymanwlad gydag anghenion tai.

### Cysylltwch â SPACES

**SPACES**

**E-bost: spaces@riverside.org.uk**

**Ffôn:**

**01748 833797**

**01748 872940**

**01748 830191**

**Catterick Military**

**94731 2940**

# 6 Tai

## Sefydliad Stoll

**Ni yw prif ddarparwr tai â chymorth i gyn-filwyr bregus**

Rydyn ni'n darparu gwasanaethau tai a chymorth fforddiadwy o ansawdd uchel er mwyn galluogi cyn-filwyr sy'n agored i niwed ac sy'n anabl i fyw bywydau boddhaus, annibynnol.

Mae rhai Cyn-filwyr yn ei chael hi'n anodd addasu i fywyd sifil pan fyddan nhw'n gadael y Lluoedd Arfog. Yn Stoll rydyn ni'n cefnogi'r Cyn-filwyr mwyaf bregus drwy asesu anghenion unigolyn ac yna trefnu cymorth priodol.

**Cyswllt:**

Stoll
446 Fulham Road
London
SW6 1DT

info@stoll.org

020 7385 2110

## The Wallich

Mae'r Wallich yn gweithredu o dan dri amcan craidd: cael pobl oddi ar y strydoedd; cadw pobl oddi ar y strydoedd; a chreu cyfleoedd i bobl.

**1. Cael pobl oddi ar y strydoedd**

Mae ein **Timau Ymyrraeth Cysgu Ar y Stryd (RSIT)** yn parhau i helpu'r bobl ddigartref fwyaf agored i niwed ac anhrefnus ar ein strydoedd drwy ddarparu allgymorth ar ffurf bwyd poeth, cyngor, atgyfeiriadau a llwybrau allan o ddigartrefedd.

**2. Cadw pobl oddi ar y strydoedd**

Mae ein llety a'n cefnogaeth yn cynnwys prosiectau preswyl lle'r ydyn ni'n cefnogi pobl dros dro mewn llety rydyn ni hefyd yn ei reoli.

Mae'r rhain yn cynnwys hosteli mynediad uniongyrchol, llochesi nos brys a llety i bobl sydd â phroblemau penodol fel camddefnyddio sylweddau neu broblemau iechyd meddwl.

**3. Creu cyfleoedd i bobl**

Mae ein prosiectau dysgu a chyflogaeth yn ystod o wasanaethau i annog y bobl rydyn ni'n eu cefnogi i ddefnyddio eu sgiliau presennol neu ddatblygu rhai newydd er mwyn dychwelyd i wirfoddoli, addysg neu gyflogaeth.

Rydyn ni'n darparu cyrsiau hyfforddiant, cyfleoedd gwirfoddoli a gweithdai ymarferol i gefnogi pobl i fod yn barod am waith.

Canolfan Wallich, Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9JF

mail@thewallich.net

(029) 20668464

# Tai

## Veterans Gateway

Mae tîm y Veterans Gateway yn cefnogi cyn-filwyr i ddod o hyd i lety, ei sicrhau neu ei gynnal. Gellir cael gwybodaeth dros y ffôn, drwy e-bost, sgwrs fyw, cyfryngau cymdeithasol, ac ar y wefan drwy ymweld â Veterans' Gateway/Self Help/Housing.

**I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:**

**Rhif ffôn: 0808 802 1212 ((Rhadffon24/7)**

**Gwefan: veteransgateway.org.uk**

Dewiswch 'housing' i weld yr holl opsiynau.

## Victory Outreach U.K.

Rydyn ni'n cynnig dull cyfannol tuag at helpu pobl i greu ffordd iach a llwyddiannus o fyw.

Mae'r cyfuniad o gynnig technegau therapi amgen ochr yn ochr â hyfforddiant proffesiynol, gwasanaethau meddygol a phroffesiynol presennol gyda strwythur dyddiol ymarferol, wedi profi'n effeithiol iawn i lawer o gleientiaid.

Trosolwg o wasanaethau arbenigol

Cyffuriau Preswyl / Adsefydlu Alcohol

Iechyd a Lles Arbenigol (Hyfforddiant Adfer)

Cymorth Tai wedi'i deilwra ar gyfer problemau nad ydynt yn ymwneud â sylweddau

Cysylltwch â'r tîm ar office@vouk.org.uk a gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth a ffurflenni cais yn

**www.victoryoutreachuk.com**

## WVP

Mae Partneriaeth Cyn-filwyr Cymru yma i'ch cynorthwyo, p'un a ydych chi'n Gyn-filwr neu ar fin gadael y Lluoedd, i ddod o hyd i'r ateb i'ch pryderon beth bynnag y bônt. Mewn partneriaeth â'r trydydd sector, awdurdodau lleol a chymdeithasau tai byddwn yn dod o hyd i ffordd o ddatrys eich problem waeth pa mor fawr neu fach. Y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw cysylltu â ni trwy'r tab Veterans a byddwn yn ymateb.

Hyd yn hyn, gan weithio yn ôl ysbryd y cyfamod milwrol rydym wedi datblygu llwybrau tai ac wedi helpu gyda'r rhai sy'n gadael y gwasanaeth cyn ac ar ôl eu rhyddhau.

Rydyn ni wedi cyflawni hyn drwy ailgartrefu a chefnogi cyn-filwyr a'u teuluoedd ar y cyfnod anoddaf yn eu bywydau h.y. pontio a llwybrau i ailsefydlu gyda thai addas, fforddiadwy ar ôl gadael Lluoedd EM

**http://www.welshveteranspartnership.org/Contact.html**

**Cyfeiriad**

Uned 12a,
Greenway,
Ystâd Ddiwydiannol Tŷ Bedwas,
Caerffili,
CF83 8DW

**Llinell gymorth 24 awr: 07794 197 253**

**07378 639 383**

**welshveteranspartnership.org**

# Help gan sefydliadau eraill

## Cronfa Les yr Awyrlu Brenhinol (RAFBF)

Mae gan y RAFBF draddodiad cryf o ofalu am deulu'r Awyrlu brenhinol yn y DU a thramor. Maen nhw yno ar gyfer pob aelod a chyn-aelodau o'r Awyrlu yn ogystal â'u partneriaid a phlant dibynnol. Gallant gynnig grantiau i fuddiolwyr sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. Cysylltwch â RAFBF yn:

**Rhif ffôn: 0300 102 1919**

**E-bost: welfareservices@rafbf.org.uk**

**Gwefan: RAFBF**

## SSAFA - elusen y Lluoedd Arfog

Mae SSAFA - elusen y Lluoedd Arfog, yn cefnogi cyn-filwyr drwy gymorth ariannol ar gyfer amrywiaeth o anghenion. Maen nhw'n cynnig cymorth i gyn-filwyr digartref neu gyn-filwyr sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. I weld pa gymorth y gallant ei ddarparu, cysylltwch â SSAFA yn:

**Ffôn: 0800 260 6767**

**E-bost: flis@ssafa.org.uk**

**Gwefane: ssafa.org.uk**

# Hamdden

## BITE (cerdyn BITE)

Cerdyn gostyngiadau sy'n rhoi gostyngiad i chi wrth i chi deithio ar y rheilffordd ar bob brand gorsaf drenau. Cymorth Gostyngiadau ar frandiau gorsafoedd trenau (h.y. caffis rheilffordd) i bob milwr, cyn-filwr a'u teuluoedd. Mae'r cardiau gostyngiadau yn rhad ac am ddim.

**Cyswllt:**

**www.bitecard.co.uk**

## Cerdyn Golau Glas

Mae'r Cerdyn Golau Glas yn darparu gostyngiadau ar-lein ac mewn siopau i'r sawl sy'n gweithio yn y GIG, y gwasanaethau brys, y sector gofal cymdeithasol a'r lluoedd arfog. Mae'r Cerdyn Golau Glas hefyd yn gweithio gyda chwmnïau bach a mawr ledled y DU i gymryd rhan i gefnogi'r gymuned Golau Glas drwy gynnig gostyngiadau i'n haelodau trwy'r Cerdyn Golau Glas.

**Ystod o ostyngiadau**

Rydyn ni'n gartref i ystod o ostyngiadau swyddogol gan fanwerthwyr cenedlaethol mawr i fusnesau lleol mewn ystod eang o gategorïau gan gynnwys gwyliau, ceir, dyddiau allan, ffasiwn, anrhegion, yswiriant, ffonau a llawer mwy!

**Manylion cyswllt:**

Blue Light Card
POBOX 10960.
Syston Road, Leicester, LE7 4TY

**https://www.bluelightcard.co.uk/**

## CSSC Sports & Leisure

Mae CSSC Sports & Leisure yn sefydliad aelodaeth unigryw ar gyfer gweithwyr y Gwasanaeth Sifil a'r Sector Cyhoeddus. P'un a ydych chi'n aelod wrth gefn rheolaidd, dan hyfforddiant, yn gadet, hyfforddwr, yn sifiliad, yn gwasanaethu neu'n gyn-filwr, gallwn gael gostyngiadau milwrol i chi gyda siopa mewn archfarchnadoedd a manwerthwyr, ffitrwydd, yswiriant, teithio, gwyliau, digwyddiadau rhithwir a llawer mwy - oll am lai na £5 y mis.

Compton Court, 20-24 Temple End, High Wycombe, Buckinghamshire, HP13 5DR.

**Ffôn**

**01494 888444**

# 7 Hamdden

## Gwasanaeth Disgownt i'r Lluoedd Amddiffyn

Gwasanaeth Disgownt i'r Lluoedd Amddiffyn Yr unig wasanaeth disgownt swyddogol ar gyfer y Lluoedd Arfog a'r gymuned o gyn-filwyr.

Mae Gwasanaeth Disgownt y Lluoedd Amddiffyn yn darparu gostyngiadau ar-lein ac ar y stryd fawr ar gyfer aelodau'r Lluoedd Arfog, Cyn-filwyr ac mae Gwasanaeth Disgownt Cymunedol y Lluoedd Arfog yn gartref i Gerdyn Braint y Lluoedd Amddiffyn, y cerdyn disgownt y gellir ei ddefnyddio mewn siopau, bwytai a lleoliadau i gael gostyngiadau i'r lluoedd arfog. Mae'r cerdyn disgownt hwn yn caniatáu i Gyn-filwyr a Chymuned y Lluoedd Arfog gael cerdyn a all ganiatáu iddynt dderbyn gostyngiadau milwrol.

Mae'n cefnogi gostyngiadau ar draws Prydain ar amrywiaeth eang o lefydd, er enghraifft yswiriant ceir, sinemâu Vue ac ati. Mae ffi fechan am y cerdyn disgownt ac mae angen i aelodau ddarparu prawf o'u cysylltiad â'r Lluoedd Arfog.

### Pwy Sy'n Gymwys?

- Personél y Lluoedd Arfog
- Lluoedd Wrth Gefn
- Partneriaid personél y lluoedd arfog
- Cyn-filwyr Lluoedd Arfog EM
- Gweision Sifil y Weinyddiaeth Amddiffynts
- Aelodau Teulu'r rhai fu farw
- Gweddwon Rhyfel/Gwasanaeth
- Lluoedd Cadetiaid (dros 16 oed)
- Personél NATO yn y DU

**Manylion cyswllt:**

E www.defencediscountservice.co.uk

**Gwasanaeth Disgownt i'r Lluoedd Amddiffyn**
PO BOX 10960.
Syston Road, Leicester, LE7 4TY

**Llun - Gwe 9.00 - 17.00**
Sadwrn - Sul AR GAU

# Hamdden



## DDS Cars

Mae DDS Cars yn gyflenwr ceir swyddogol ar gyfer y Gwasanaeth Disgownt i'r Lluoedd Amddiffyn, UNIG wasanaeth disgownt swyddogol y Weinyddiaeth Amddiffyn.

Wedi ei weithredu gan Griffin Military & Diplomatic, mae DDS Cars yn cyflwyno unig Wasanaeth Disgownt y Weinyddiaeth Amddiffyn sydd wedi'i awdurdodi yn y DU, a thelerau pŵer prynu enfawr a gwneuthurwr arbenigol ceir Milwrol a Diplomyddol mwyaf Ewrop. Mae dod â'r ddau yma at ei gilydd yn golygu pris gwych i chi ar gyfer eich car Disgownt Amddiffyn newydd, yn ogystal â gwasanaeth pwrpasol rhagorol, o'r dechrau i'r diwedd

**E https://www.ddscars.co.uk**

**Ffôn: 01273 574000**

DDS Cars, Griffin House, Henfield Business Park, Shoreham Road, Henfield, BN5 9SL

## Forces Discount

Mae Forces Discount yn cynnig llwyfan rhagorol i gwmnïau arddangos eu bargeinion, gostyngiadau a chynigion i gymunedau Lluoedd Arfog a Milwrol y Deyrnas Unedig.

Mae Forces Discount yn gweithio'n uniongyrchol gyda dewis o fusnesau i ddod â gostyngiadau milwrol arbennig i chi, ar gyfer unrhyw beth, o'ch gwyliau nesaf, neu ddiwrnod allan, i gar newydd sbon a pholisi yswiriant. Hysbysebir gostyngiadau ar eu gwefan a rhaid eu hargraffu er mwyn eu defnyddio. Nid oes ffi i ymuno ac nid yw unigolion yn cael cerdyn gostyngiadau. Mae'r gostyngiadau'n cynnwys yswiriant, gwyliau, parciau thema a bwytai.

**Manylion cyswllt: info@forcesdiscount.com**

**E www.forcesdiscount.com**

## Canolfannau Hamdden

Mae rhai canolfannau hamdden awdurdodau lleol yn cynnig aelodaeth gorfforaethol ar gyfer cyn-filwyr. I gofrestru personél a chyn-filwyr y lluoedd arfog rhaid iddynt ddangos 'Cerdyn Disgownt Amddiffyn a rhif Adnabod MOD unigryw' neu bapurau rhyddhau.

### Canolfannau hamdden Bro Morgannwg

Mae canolfannau hamdden Bro Morgannwg yn cael eu rhedeg mewn partneriaeth â Legacy Leisure.

Prif fantais y bartneriaeth hon yw y bydd yn caniatáu i fwy o fuddsoddiad gael ei wneud yn y canolfannau, gan ddarparu gwasanaeth o ansawdd gwell i chi, y cwsmeriaid.

# 7 Hamdden



## Canolfannau Hamdden yn y Fro

Mae gwybodaeth yn ymwneud â chanolfannau hamdden y Fro gan gynnwys aelodaeth, amseroedd agor, prisiau, amseroedd nofio, dosbarthiadau ffitrwydd a mwy bellach i'w gweld ar wefan Parkwood Community Leisure.

- Canolfan Hamdden y Barri
- Canolfan Chwaraeon Colcot
- Canolfan hamdden y Bont-faen
- Canolfan Hamdden Llanilltud Fawr
- Canolfan Hamdden Penarth

## Cynllun Cyfeirio Ymarfer Corff

Mae'r Cynllun Cyfeirio Ymarfer Corff yn helpu i wneud gweithgarwch corfforol yn ffordd newydd o fyw i bobl sy'n dioddef o broblemau iechyd ym Mro Morgannwg.

Dechreuodd y fenter a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn y Fro yn Ionawr 2008, a gall trigolion sydd â chyflyrau meddygol penodol gael eu hatgyfeirio gan eu meddygon i wella eu ffordd o fyw drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau a gynhelir gan dîm atgyfeirio ymarfer corff Cyngor y Fro.

Gofynnwch i'ch canolfan Hamdden Cyngor leol am Ostyngiad y Lluoedd Arfog

**Os oes gennych ragor o ymholiadau ffoniwch y canolfannau hamdden:**

**01446 403000**

# Canolfan Maendy

Canolfan Maendy Better yw unig drac beicio awyr agored Caerdydd, a chartref enillydd Tour De France 2018, Geraint Thomas. Mae Canolfan Maendy Better wedi cael ei hadnewyddu'n sylweddol yn ddiweddar o ran y gampfa a'r stiwdios gydag offer Technogym o'r radd flaenaf. Yn ogystal â hynny, mae gan y ganolfan Bwll Nofio gyda rhaglen lawn o wersi nofio a sesiynau nofio cyhoeddus ynghyd ag ardal feicio grŵp bwrpasol. Mae lleoliad cyfleus y ganolfan i ganol y Ddinas yn golygu bod cysylltiadau trafnidiaeth ardderchog.

# Cynllun Nofio Am Ddim y Lluoedd Arfog (AFFS)

Nofio am ddim ar gyfer y Lluoedd Arfog a chyn-filwyr yw'r fenter ddiweddaraf i'w lansio gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'i phecyn cymorth i Gymuned y Lluoedd Arfog.

Mae aelodau o'r Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr yn gymwys i nofio am ddim gan ddefnyddio Cerdyn Braint y Lluoedd Amddiffyn sydd ar gael drwy Wasanaeth Disgownt Lluoedd Amddiffyn y Weinyddiaeth Amddiffyn.

Canolfan Maendy yw'r unig bwll sy'n cynnig y cynllun yng Nghaerdydd, ac mae ar gael i Gyn-filwyr a Phersonél y Lluoedd Arfog pan maen nhw'n ymadael, ac sy'n byw yng Nghymru. Mae'r cynllun yn rhoi mynediad i bob sesiwn 'nofio hamdden i oedolion' yn ôl amserlen Canolfan Maendy. Noder: Bydd cyn-filwyr dros 60 oed yn gymwys yn awtomatig ar gyfer cynllun menter Nofio am Ddim 60+ Llywodraeth Cymru.

# Hamdden

I gael mynediad i Gynllun Nofio Am Ddim y Lluoedd Arfog (AFFS) **RHAID** i Gyn-filwyr a Phersonél y Lluoedd Arfog ddal 'Cerdyn Braint Lluoedd Amddiffyn y **Weinyddiaeth Amddiffyn' dilys**. Wrth ddangos Cerdyn Braint y Weinyddiaeth Amddiffyn gofynnir i chi lenwi ffurflen gais AFFS y Cyngor a chewch eich cerdyn AFFS Caerdydd Gwell.

**Cofiwch:**

- Dim ond cardiau AFFS Caerdydd Gwell y gellir eu defnyddio yng Nghaerdydd, nid yw cardiau nac aelodaeth Awdurdodau eraill yng Nghymru yn ddilys, bydd angen cwblhau ffurflen gais newydd.
- Bydd cerdyn AFFS Caerdydd Gwell newydd yn £3.00

Am ragor o wybodaeth am amseroedd a gweithgareddau, cysylltwch â'ch Canolfan Better agosaf.

**Ffoniwch ni 02920 529230**

## Tickets for Troops

Mae Tickets for Troops yn darparu tocynnau am ddim i aelodau'r Lluoedd Arfog ar gyfer amrywiaeth o ddigwyddiadau chwaraeon, cerddoriaeth a diwylliannol. Mae'r gwasanaeth yn cynnig cyfle haeddiannol i'r rheiny sydd wedi eu rhyddhau o'r Lluoedd Arfog ar sail feddygol ers 2001, i fwynhau digwyddiad o'u dewis gyda'u ffrindiau a'u teulu.

Rhaid bod gan filwyr gerdyn MoD 90 dilys (Cerdyn Adnabod y Lluoedd Arfog) a rhif adnabod y Lluoedd Arfog, er mwyn cofrestru a defnyddio'r tocynnau sydd ar gael ar y safle. Yn ogystal, os ydych yn hawlio Pensiwn Rhyfel, rydych yn gymwys i ymuno.

**Manylion Cyswllt: info@ticketsfortroops.org.uk**

**E www.ticketsfortroops.org.uk**

## Nofio

Mae nofio am ddim ar gael yn ystod sesiynau cyhoeddus i aelodau sy'n gwasanaethu a chyn-filwyr y lluoedd arfog.

Amodau a Thelerau: Personél sy'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog a chyn-filwyr - unrhyw un sy'n gwasanaethu yn Lluoedd Arfog Ei Mawrhydi ar hyn o bryd ac unrhyw un sydd wedi gwasanaethu yn y gorffennol (gan gynnwys Milwyr Cenedlaethol, Milwyr Parhaol a Milwyr Wrth Gefn).

Er mwyn cofrestru i gael nofio'n rhad ac am ddim, rhaid i filwyr a chyn-filwyr ddarparu 'Cerdyn Gostyngiad Defence' a rhif adnabod unigryw'r Weinyddiaeth Amddiffyn, neu bapurau rhyddhau.

# 7 Hamdden

## Cerdyn Rheilffordd i Gyn-filwyr

Mae'r Cerdyn Rheilffordd Cyn-filwyr newydd yn rhoi 1/3 oddi ar y rhan fwyaf o brisiau rheilffordd gan gynnwys Safonol and Dosbarth Cyntaf Unrhyw Bryd, Cyfnodau Tawelach a Thocynnau Advance i Gyn-filwyr y DU ledled Cymru, Lloegr a'r Alban, p'un a ydynt yn ymweld â theulu a ffrindiau neu'n mwynhau diwrnod allan.

Gallwch hefyd enwebu cydymaith i gael 1/3 i ffwrdd wrth deithio gyda chi ac mae hyd at 4 o blant yn teithio gyda chi'n cael 60% o ostyngiad.

Os ydych wedi gwasanaethu am o leiaf un diwrnod yn Lluoedd Arfog ei Mawrhydi (Rheolaidd neu Wrth Gefn) neu wedi bod yn Forwr Masnachwr sydd wedi cyflawni dyletswyddau ar weithrediadau milwrol a ddiffinnir yn gyfreithiol, efallai y byddwch yn gymwys.

Mae Cerdyn Rheilffordd i Gyn-filwyr am 1 mlynedd yn costio £30 yn unig. Os ydych chi am gael mwy am eich arian, mae'r Cerdyn Rheilffordd i Gyn-filwyr am 3 blynedd yn werth gwych am arian, sef £70, gan arbed £20 i chi ar gost adnewyddu eich Cerdyn Rheilffordd Cyn-filwyr blwyddyn am dair blynedd yn olynol.

Mae'r Cerdyn Rheilffordd i Gyn-filwyr ar gael i'w brynu ar-lein a drwy'r post, a gallwch ddewis ei gael ar eich ffôn (digidol) neu gael cerdyn plastig wedi'i bostio atoch chi.

### Ar-lein

**Gallwch arbed amser i chi'ch hun drwy brynu eich Cerdyn Rheilffordd i Gyn-filwyr ar-lein.**

**Yr unig bethau fydd eu hangen arnoch fydd:**

- Tystiolaeth o'ch cymhwysedd fel cyn-filwr
- Llun pasbort digidol o ansawdd da yn barod i'w uwchlwytho
- Cerdyn debyd neu gredyd

https://www.veterans-railcard.co.uk/

### Beth sy'n digwydd nesaf?

**Cerdyn Rheilffordd Digidol:** os ydych chi'n dewis Cerdyn Rheilffordd digidol, byddwn yn anfon cod lawrlwytho atoch unwaith y bydd eich cais wedi'i gymeradwyo (a all gymryd hyd at 5 diwrnod gwaith) ac unwaith y byddwch yn lawrlwytho'r ap Cerdyn Rheilffordd ac yn llwytho'r cerdyn i'ch ffôn, gallwch ddechrau ei ddefnyddio'n syth.

**Cerdyn Rheilffordd Plastig:** ein nod yw danfon eich Cerdyn Rheilffordd o fewn un diwrnod gwaith iddo gael ei gymeradwyo (a all gymryd hyd at 5 diwrnod gwaith), ond mae'n debyg ei bod yn well caniatáu hyd at bum diwrnod gwaith i'ch Cerdyn Rheilffordd gyrraedd. Bydd yn cael ei anfon allan am ddim trwy'r post Dosbarth Cyntaf, ond os yw'n well gennych, mae gennych yr opsiwn i dalu am Ddosbarthiad Arbennig.

Bydd angen i chi fod â'ch Cerdyn Rheilffordd gyda chi i allu cael gostyngiad ar eich tocyn trên, felly byddwch yn siŵr o adael digon o amser cyn eich taith i'r Cerdyn eich cyrraedd.

## Drwy'r Post

Fel arall, byddwch yn gallu lawrlwytho a llenwi ein ffurflen gais a gallwch wedyn ei phostio gyda chopi o'ch tystiolaeth o gymhwysedd, llun pasbort o'ch hun a'ch cydymaith a enwir (os yn berthnasol) a'r tâl i:

National Railcards
PO Box 10776
Ashby-de-la-Zouch
LE65 9FA

Gwnewch sieciau ac archebion post yn daladwy i 'ATOC Ltd Railcard'

Caniatewch 15 diwrnod gwaith* i'ch Cerdyn Rheilffordd gael ei anfon atoch.

# Cerdyn Oyster Cyn-filwyr

## Cerdyn llun Oyster sy'n ddilys ar gyfer gwasanaethau TFL a Chwmni Awyr Emirates

Mae rhai cyn-bersonél y lluoedd arfog yn gymwys ar gyfer **cerdyn llun Oyster i Gyn-filwyr** am ddim sy'n cynnig teithio am ddim ac am bris gostyngol yn Llundain.

Mae unrhyw un sy'n derbyn taliadau Cynllun Pensiynau Rhyfel parhaus neu daliad incwm wedi ei warantu dan Gynllun Iawndal y Lluoedd Arfog yn gymwys ar gyfer y cerdyn llun. Ffoniwch TFL a gofynnwch am ffurflen gais i wneud cais.

## Pa fuddion mae'r cerdyn llun Oyster i Gyn-filwyr yn eu cynnig i mi?

- Teithio am ddim ar unrhyw adeg ar fysiau Llundain, London Underground, London Overground, DLR, tramiau a TFL Rail.
- Teithio am ddim yn Llundain ar y rhan fwyaf o wasanaethau National Rail ar benwythnosau ac o 9.30am ar ddyddiau'r wythnos. Mae rhai llwybrau y gellir teithio arnynt am ddim cyn 9.30am – gweler Cerdyn llun Oyster i Gyn-filwyr ar gyfer llwybrau a gynhwysir.
- Disgownt ar brisiau Cwmni Awyr Emirates.
- Gostyngiad mewn prisiau tocynnau'r River Services.

## Sut mae gwneud cais?

Ffoniwch TFL ar 0343 222 1234 i ofyn am ffurflen gais. Llenwch y ffurflen a'i dychwelyd ynghyd â Hysbysiad Dyfarniad neu lythyr perthnasol yn ogystal â llun maint pasbort.

Ar ôl i'r cerdyn gyrraedd, byddwch chi'n gallu ei ddefnyddio'n syth. Gallwch gyffwrdd y cerdyn i mewn ac allan ar ddarllenwyr cerdyn Oyster melyn pan fyddwch chi'n dechrau ac yn gorffen eich taith.

**Ffôn Testun 0800 112 3456**

**Neu anfonwch lythyr i:**

TfL Customer Services
9th Floor
5 Endeavour Square
London E20 1JN

# 8 Y System Cyfiawnder Troseddol

Mae'r mwyafrif o gyn-bersonél y Gwasanaeth yn trosglwyddo'n llwyddiannus i fywyd sifil ac yn osgoi unrhyw gysylltiad negyddol â'r System Cyfiawnder Troseddol. Fodd bynnag, mae lleiafrif yn mynd ymlaen i droseddu ar ôl gadael y Lluoedd Arfog a gall hyn arwain at ganlyniadau sylweddol a negyddol iddyn nhw eu hunain a'u teuluoedd. – FiMT (2020)

Mae cael y gefnogaeth gywir yn ei lle wrth ddychwelyd i fywyd sifil yn hanfodol i gyfnod pontio llwyddiannus.

## Swyddog Cyn-filwyr yn y Ddalfa (ViCSO)

Mae gan bob carchar ledled Cymru Swyddog Cyn-Filwyr yn y Ddalfa (ViCSO) enwebedig.

### Cynllun Cyn-filwyr yn y Ddalfa (VICS)

Mae Swyddogion Cymorth Cyn-filwyr yn y Ddalfa (VICSO), sydd hefyd yn cael eu hadnabod fel Pencampwyr Cyn-filwyr yn y Ddalfa (VICSC), yn staff mewn carchardai sy'n gallu rhoi cymorth i gyn-aelodau o'r lluoedd arfog drwy eu helpu i gael mynediad at wybodaeth a chefnogaeth, i'w hunain a'u teuluoedd, gan sefydliadau cenedlaethol megis Y Lleng Brydeinig Frenhinol (RBLI), SSAFA - Forces Help, Combat Stress, a'r Service and Personnel and Veterans Agency (SPVA), yn ogystal â sefydliadau lleol eraill.

Cymhwysedd: Yn agored i Gyn-filwyr y Lluoedd Arfog a'u teuluoedd.

### Carchar EM Caerdydd

**Cyfeiriad:**

Cynllun Sefydliad Cyn-filwyr yn y Ddalfa (VICS)
CEM Caerdydd
Caerdydd
Morgannwg
CF24 0UG

**Ffôn: 02920 923100**

### Carchar EM y Parc

**Cyfeiriad:**

Cynllun Sefydliad Cyn-filwyr yn y Ddalfa (VICS)
CEM STI Y Parc
Pen-y-bont ar Ogwr
Morgannwg
CF35 6AP

**Tel: 01656 300200**

## Carchar EM Prescoed

**Cyfeiriad:**

Cynllun Sefydliad Cyn-filwyr yn y Ddalfa (VICS)
CEM Prescoed
Prescoed
Sir Fynwy
NP4 0TB

**Ffôn: 01291 675000**

## CEM Brynbuga

**Cyfeiriad:**

Cynllun Sefydliad Cyn-filwyr yn y Ddalfa (VICS)
CEM Brynbuga
Brynbuga
Sir Fynwy
NP15 1XP

**Ffôn: 01291 671600**

## Carchar EM Abertawe

**Cyfeiriad:**

200 Heol Ystumllwynarth
Abertawe
SA1 3SR

**Ffôn: 01792 485300**

## Carchar EM Y Berwyn

**Cyfeiriad:**

Ystad Ddiwydiannol Wrecsam
Bridge Rd N
Wrecsam
LL13 9QE

**Ffôn: 01978 523000**

# 8 Y System Cyfiawnder Troseddol

## Heddluoedd yn Ne Ddwyrain Cymru

### Ffoniwch 999 os:

- oes trosedd ddifrifol yn digwydd neu newydd ei chyflawni
- ydy rhywun mewn perygl uniongyrchol neu mewn perygl o niwed
- ydy eiddo mewn perygl o gael ei ddifrodi
- oes amhariad difrifol i'r cyhoedd yn debygol

Os oes gennych nam ar eich clyw neu leferydd, defnyddiwch ein gwasanaeth ffôn testun **18000.**

Neu anfonwch neges destun i ni ar **999** os ydych chi wedi cofrestru ymlaen llaw gyda'r gwasanaeth SMS brys.

Gallwch hefyd ddilyn y cyngor yn ein fideo Iaith Arwyddion Prydain.

### Galwadau 999 tawel

Os ydych chi mewn perygl ond nad ydych chi'n gallu siarad ar y ffôn,

### Galwadau nad ydynt yn rhai brys 101

**Ffoniwch 101** am ymholiadau nad ydynt yn rhai brys.

Os oes gennych nam ar eich clyw neu leferydd, defnyddiwch ein gwasanaeth ffôn testun ar **18001 101.**

Gallwch hefyd ddilyn y cyngor yn ein fideo Iaith Arwyddion Prydain

Llinell gymorth gwrth-derfysgaeth **0800 789 321**

Ffoniwch Linell Gymorth Gwrth-Derfysgaeth y DU ar **0800 789 321** os ydych chi wedi gweld neu glywed rhywbeth rydych chi'n meddwl allai awgrymu gweithgaredd terfysgol.

Galw o dramor **+44 01656 655555**

Defnyddiwch y rhif hwn os ydych chi'n cysylltu â ni o'r tu allan i'r DU.

### Aros yn ddienw - Crimestoppers

Ar-lein crimestoppers-uk.org

Ffôn 0800 555 111

## Heddlu De Cymru

Ein llu ni yw'r mwyaf yng Nghymru ac mae'n gwasanaethu 42 y cant o'r boblogaeth. Ein gweledigaeth yw bod y gorau o ran deall ac ymateb i'n cymunedau, er mwyn helpu i gyflawni ein cenhadaeth o Gadw De Cymru'n Ddiogel.

## Heddlu Gwent

Rydyn ni'n cwmpasu ardal 600 milltir sgwâr, gan gwmpasu pum ardal awdurdod lleol sef Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen.

Mae ein timau plismona rheng flaen hynod fedrus yn defnyddio eu gwybodaeth leol, eu sgiliau arbenigol a'r dechnoleg ddiweddaraf i atal troseddu, ac i ddal troseddwyr.

## Pencampwyr yr Heddlu

Mae Pencampwyr yr Heddlu yn gweithredu mewn rhai lleoliadau. Maen nhw'n gallu rhoi cymorth i gyn-aelodau o'r lluoedd arfog sy'n dod ar draws problemau ar ôl gadael y lluoedd arfog.

**Cymhwysedd: Yn agored i Gyn-filwyr y lluoedd arfog**

**Ffôn: 101 Rhif cyswllt difrys yr heddlu**

**Ymholiadau: https://www.askthe.police.uk/content/contactform.mth**

### Gorsaf Heddlu Bae Caerdydd

**Cyfeiriad:**

Gorsaf Heddlu Bae Caerdydd
Stryd James
Caerdydd
Morgannwg
CF10 5EW

### Gorsaf Heddlu Merthyr Tudful

**Cyfeiriad:**

Gorsaf Heddlu Merthyr Tudful
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
Merthyr Tudful
CF48 1DL

### Gorsaf Heddlu Canol Casnewydd

**Cyfeiriad:**

Gorsaf Heddlu Canol Casnewydd
3 Heol Caerdydd
Casnewydd
NP20 2EH

### Gorsaf Heddlu Pontypridd

**Cyfeiriad:**

Gorsaf Heddlu Pontypridd
Heol Berw
Pontypridd
Morgannwg
CF37 2TR

### Gorsaf Heddlu Ton Pentre

**Cyfeiriad:**

Gorsaf Heddlu Ton Pentre
1 Y Parêd
Pentre
Morgannwg
CF41 7EX

### Gorsaf Heddlu Ystrad Mynach

**Cyfeiriad:**

Gorsaf Heddlu Ystrad Mynach
9 Caerphilly Road
Hengoed
Morgannwg
CF82 7EP

# Sefydliadau Cymorth

## Care After Combat

Mae Care After Combat yn darparu gwasanaeth mentora ar gyfer cyn-filwyr mewn carchardai.

Darparu cymorth a lles i, ond heb ei gyfyngu i, gyn-filwyr yn y system cyfiawnder troseddol drwy ddarparu mentor.

Creu llwybr yn ôl i normalrwydd i'r cyn-filwr sydd wedi bod yn y carchar.

**Cymhwysedd:** Yn agored i gyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog sydd yn y Ddalfa.

### Cymorth a Gynigir

Rhaglen mentoriaeth o gefnogaeth
Cyfarfodydd grŵp yn y carchar
Gwasanaeth cymorth o bell
Llinell gymorth
Codi ymwybyddiaeth drwy hyfforddiant
Cysylltiad â gwasanaethau Cymorth teulu eraill
Cymorth i deuluoedd

## Manylion Cyswllt

**Cyfeiriad:**

Care After Combat
Carchar EM y Parc
Pen-y-bont
Morgannwg
CF35 6AP

**Ffôn: 0300 343 0255**

**E-bost: info@careaftercombat.org**

**www.careaftercombat.org**

## Prif Swyddfa

**enquiries@careaftercombat.org**

Office 12
Newark Beacon Centre
Cafferata Way
NG24 2TN

**01636 557 543**

## Prif Swyddfa

**enquiries@careaftercombat.org**

Office 12
Newark Beacon Centre
Cafferata Way
NG24 2TN

**01636 557 543**

# Catch 22

Rheoli troseddwyr, ymyriadau lleihau trais, adsefydlu a gwasanaethau dioddefwyr. Gan weithio gyda phobl ifanc ac oedolion, rydyn ni'n darparu gwasanaethau ymyrraeth yn y ddalfa ac yn y gymuned sy'n canolbwyntio ar feithrin cysylltiadau cryf, cyson ac ymddiriedaeth i helpu i ddatgloi potensial a gwneud newidiadau cadarnhaol mewn bywyd.

Mae Catch22 yn cyflawni gwaith rheoli troseddwyr, adsefydlu a gwaith gangiau mewn carchardai ac yn y gymuned. Wrth wraidd ein gwaith adsefydlu ac adferol mae'r gred bod perthnasau'n hanfodol i atal troseddu yn effeithiol.

## Prif Swyddfa

27 Pear Tree Street, London EC1V 3AG

**020 7336 4800**

## Change Step

| | | | |
|---|---|---|---|
| Change Step | **0300 777 2259**<br>E-bost: ask@change-step.co.uk | Cymorth i gyn-filwyr, eu teuluoedd a'u gofalwyr yng Nghymru - gan eu galluogi i fanteisio ar wasanaethau cymorth hanfodol a mynd i'r afael â straen difrifol a phroblemau cysylltiedig. | Bydd staff mentora yn defnyddio ffôn / Skype / Whatsapp ac ati i agor cymaint o sianelau cyfathrebu â phosibl a byddant yn trefnu cyswllt yn ôl anghenion a dymuniadau'r defnyddiwr gwasanaeth.<br>Mae ein tîm o fentoriaid sy'n gyfoedion yn defnyddio eu profiadau eu hunain i helpu cyd-gyn-filwyr a'u hanwyliaid i wynebu heriau yn eu bywydau, gan reoli eu teithiau o adferiad. |

## Gwasanaethau Cyfreithiol Milwrol Hugh James

Mae ein tîm o gyfreithwyr milwrol arbenigol yn cael ei adnabod cymaint am ei ddycnwch â'i arbenigedd mewn materion cyfreithiol o safbwynt gwasanaeth milwrol. Rydyn ni'n cario ymlaen lle gallai cyfreithwyr eraill orffen, gan sicrhau bod gan ddynion a menywod y lluoedd arfog fynediad at y cyngor arbenigol sydd ei angen arnynt.

Gallwn helpu personél y lluoedd arfog sydd angen dod â hawliad yn erbyn y Weinyddiaeth Amddiffyn oherwydd eu methiant i'w hamddiffyn yn ddigonol rhag salwch neu anaf y gellid ei osgoi. Rydyn ni'n cynghori ar ystod lawn o feysydd, gan gynnwys byddar-dod milwrol ac anafiadau oerfel a gwres. Rydyn ni hefyd yn cynnig gwasanaethau arbenigol ychwanegol fel ewyllysiau a phrofiant, a chyngor ariannol annibynnol.

Rydyn ni'n wahanol i Gynllun Iawndal y Lluoedd Arfog (AFCS) neu Gynllun Pensiwn Rhyfel gan ein bod yn eich helpu i ddod â hawliadau sifil am iawndal - yn aml yn gyfochrog â'r cynlluniau dim bai hyn.

### Gwasanaethau Cysylltiedig

Hawliadau a iawndal damweiniau milwrol
Cyngor ariannol annibynnol Milwrol
Milwrol Honiadau cam-drin rhywiol
Hawliadau Colli Clyw Milwrol
Anafiadau milwrol oerfel heb gynnwys anafiadau yn sgil rhewi
Ewyllysiau a phrofiannaeth filwrol

**https://www.hughjames.com/service/military-legal-services**

## Tîm Milwrol Irwin Mitchell

Mae'r **Tîm Hawliadau Anafiadau Milwrol** yn delio â honiadau (ar ddyletswydd ac oddi ar ddyletswydd) ar ran personél y gwasanaeth a anafwyd o'r tri gwasanaeth (y Llynges Frenhinol, y Fyddin a'r Awyrlu Brenhinol).

Rydym wedi llwyddo i gynrychioli aelodau o'r lluoedd fu'n rhan o ddamweiniau o ganlyniad i wrthdrawiadau traffig ffyrdd, damweiniau hofrennydd, parasiwtio, methiant arfau ac offer, tanau a ffrwydradau, **anafiadau oerfel nad ydynt yn rhewi,** colli clyw, chwaraeon a hyfforddiant antur. Mae gennym brofiad sylweddol o ddelio gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn, eu hyswirwyr a'u cyfreithwyr yn ogystal â bod â dealltwriaeth unigryw o'r gymuned a diwylliant milwrol.

Rydyn ni'n gweithio'n agos â nifer o ganghennau Lles y Lluoedd Arfog a sefydliadau adsefydlu. Rydym hefyd yn darparu cyngor a chefnogaeth i deuluoedd sy'n rhan o gwest milwrol ac roedd ein tîm yn cynrychioli'r teuluoedd fu'n rhan o ddamwain Nimrod.

Mae ein tîm yn cynnig dull realistig o helpu aelodau o'r Lluoedd Arfog sydd wedi eu hanafu. Mae llawer o'n gweithgareddau o ddydd i ddydd yn cynnwys helpu i gefnogi a chynnal gweithgareddau codi arian ar gyfer nifer o elusennau a grwpiau cymorth milwrol a chyn-filwyr, gan gynnwys Pilgrim Bandits a Blind Veterans UK. Rydym hefyd yn darparu cefnogaeth i Wasanaethau Lles y Fyddin a Chanolfannau Adsefydlu Rhanbarthol.

**Ymholiadau cyffredinol**

**0808 302 6300**

## Nacro

Bob dydd mae Nacro yn helpu miloedd o bobl i ddatblygu'r annibyniaeth a'r gwytnwch i edrych ymlaen tuag at y bennod nesaf.

**Help ymarferol** – Rydyn ni'n darparu gwasanaethau mewn cyfiawnder troseddol, tai, iechyd ac addysg ac yn helpu pobl i lywio'r systemau er mwyn cael mynediad iddyn nhw. Rydym hefyd yn cydweithio rhwng gwasanaethau a gyda darparwyr eraill i sicrhau cymorth wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion penodol ein defnyddwyr gwasanaeth.

**Cymorth a chyngor emosiynol** – Mae ein darpariaeth ymarferol yn llwyddiannus oherwydd bod ein dull gweithredu yn un o gymorth personol, unigol i ddefnyddwyr y gwasanaeth a'u teuluoedd. Mae staff Nacro yn gynghreiriaid i'r bobl rydyn ni'n eu helpu, gan sefyll wrth eu hochr a byth yn rhoi'r gorau iddi.

Nod ein gwaith cyfiawnder yw torri'r cylch troseddu ac anfantais yn y gymuned ac yn y carchar. Credwn, i bobl sy'n mynd i'r carchar, y dylai fod yn ddechrau rhywbeth gwell nid ffordd i unman. Rydyn ni'n gweithio gyda phobl ar bob cam o'r system cyfiawnder troseddol o wasanaethau cyswllt a dargyfeirio yn y ddalfa a'r llys, addysg mewn carchardai a gwasanaethau ailsefydlu carchardai.

Rydyn ni'n gweithio mewn partneriaeth ac yn cymryd agwedd unigol. Rydyn ni'n gweithredu mewn 23 o garchardai, sefydliadau troseddwyr ifanc ac un ganolfan hyfforddi ddiogel, gan gynnig ystod eang o gefnogaeth ymarferol.

### Gwasanaeth Adsefydlu a Gomisiynwyd

Rydyn ni'n darparu gwasanaethau ar ran y Weinyddiaeth Gyfiawnder, gan ddarparu cymorth llety a lles i bobl sydd o dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf, gan gynnwys tai, cyflogaeth, a chymorth iechyd meddwl. Mae ein gwasanaethau llety wedi'u lleoli yn Ne Swydd Efrog, Dwyrain Canolbarth Lloegr, Gorllewin Canolbarth Lloegr a Gogledd Cymru, ac mae ein gwasanaethau cymorth lles personol (iechyd meddwl, teulu a pherthnasoedd) wedi'u lleoli yn Suffolk, Swydd Northampton a Swydd Hertford.

### Gwasanaeth Llety a Chymorth Mechnïaeth

Rydyn ni'n rhedeg y Gwasanaeth Llety a Chymorth Mechnïaeth (BASS) ar ran y Weinyddiaeth Gyfiawnder, gan roi cefnogaeth a llety yn y gymuned i bobl nad oes ganddynt le addas i fyw neu sydd angen rhywfaint o gymorth ychwanegol yn ystod cyfnod eu mechnïaeth, Cyrffyw Cartref neu Orchymyn Cymunedol Dwys.

### Gwasanaeth Cymorth Cofnodion Troseddol

Bob mis mae ein llinell gymorth yn rhoi cyngor i fwy na 1,000 o bobl sydd â chofnodion troseddol, y gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda nhw, a chyflogwyr ynglŷn â mynediad i gyflogaeth, tai ac addysg. Os ydych angen help ewch i'n **tudalennau cymorth ar-lein,** anfonwch e-bost atom ar helpline@nacro.org.uk neu ffoniwch 0300 123 1999.

## POPS

Sefydlwyd POPS gan deuluoedd troseddwyr ar gyfer teuluoedd troseddwyr. Nodi anghenion a dod o hyd i'r atebion.

**Llinell Gymorth Teuluoedd Carcharorion 0808 808 2003**

**Oriau agor Llinell Gymorth:**

**Llun - Gwener 9am - 8pm**

**Sadwrn a Sul 10am - 3pm**

## Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal Carchardai (Pact)

Mae Llinell Gymorth Teuluoedd Carcharorion a ariennir gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, ac sy'n cael ei rhedeg gan yr Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal Carchardai (Pact), yn darparu cefnogaeth, gwybodaeth a chyngor ymarferol ac emosiynol i unrhyw un sy'n cael eu heffeithio gan garchar yn y DU, mewn ffordd syml, heb feirniadaeth.

Mae ein swyddogion hyfforddedig ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9am-8pm, dydd Sadwrn a dydd Sul 10am a 3pm a gellir cysylltu â nhw dros e-bost, gwebost neu drwy'r post hefyd.

Mae gwasanaethau Pact wedi'u gwreiddio ar bob cam o'r daith Cyfiawnder Troseddol, gan gynnwys 67 o garchardai ac yn y gymuned, ac rydym yn gweithio gydag ystod eang o asiantaethau cymorth i gynnig cefnogaeth gyfannol.

**Rhagor o wybodaeth**

Os oes angen cefnogaeth Pact arnoch, cysylltwch â:

**Llinell gymorth: 0808 8082003**
**9am - 8pm dydd Llun i ddydd Gwener**
**10am – 3pm ar ddydd Sadwrn a dydd Sul**

**Gwefan: www.prisonadvice.org.uk**

**E-bost: info@prisonersfamilies.org**

# Sut i gael help ar gyfer cwestau neu ymchwiliadau etifeddol gweithredol

## Oes angen cymorth lles arnoch oherwydd ymchwiliad etifeddol neu gwest?

Cysylltwch â Changen Etifeddol Weithredol y Fyddin. Bydd eu tîm yn darparu, ac yn cydlynu cymorth lles i chi.

Gallant hefyd egluro sut i gael cyngor cyfreithiol, a sut i ofyn am gymorth ychwanegol gan y Weinyddiaeth Amddiffyn.

## Pa weithrediadau sydd wedi'u cynnwys?

Gallwch ofyn am help ar gyfer gwasanaeth blaenorol yn: Afghanistan (Op HERRICK), Irac (Op TELIC), Gogledd Iwerddon (Op BANNER), neu unrhyw weithrediadau eraill yn y gorffennol.

## Pa fath o brosesau cyfreithiol sy'n cael sylw?

Mae'r gefnogaeth yn ymdrin ag ymchwiliadau troseddol o dan y System Cyfiawnder Gwasanaeth (SJS), ymchwiliadau troseddol sifil, ymgyfreitha sifil, cwestau, ac ymholiadau cyhoeddus.

## Pa gefnogaeth sydd ar gael i bersonél y Llynges Frenhinol a'r Awyrlu Brenhinol?

Cysylltwch â ni dros y ffôn neu e-bost gyda Changen Etifeddol Weithredol y Fyddin. Cewch eich cynghori am y cymorth sydd ar gael o ardal eich gwasanaeth.

## Sut i gysylltu â Changen Etifeddol Weithredol y Fyddin:

**Rhif ffôn: 0300 1514039 (8am-5pm. Llun-Gwe)**

**Symudol: 07813 007392**

**E-bost: APSG-AOLB-Legacy-0mailbox@mod.gov.uk**

**Cyfeiriad:**
Army Operational Legacy Branch
Army Personnel Services Group
Ramillies Building
Army Headquarters
Monxton Road
Andover SP11 8HJ

## Ymddiriedolaeth Addysg Carcharorion

Ymddiriedolaeth Addysg Carcharorion yw prif elusen addysg carchardai y Deyrnas Unedig. Ers 1989 rydym wedi rhoi mwy na 40,000 o ddyfarniadau i bobl yn y carchar - gan eu harfogi gyda sgiliau a chymwysterau i adeiladu dyfodol mwy disglair.

Ar y dechrau roedd yr ymddiriedolaeth yn gweithio yng Ngharchar EM Wandsworth, ac rydym nawr yn ariannu cyrsiau ym mhob carchar yng Nghymru a Lloegr. Mae gennym dîm o dros 20 aelod o staff, gyda chefnogaeth gwirfoddolwyr, ymddiriedolwyr a noddwyr, yn ogystal â'n cyn-fyfyrwyr.

**Ffoniwch ni ar: 020 3752 5680**

**Neu ysgrifennwch atom yn:** Prisoners' Education Trust, The Foundry, 17 Oval Way, London SE11 5RR

**www.prisonerseducation.org.uk**

## SSAFA – Cyn-filwyr yn y System Cyfiawnder Troseddol

Mae Gwasanaeth Cymorth VCJS SSAFA wedi ymrwymo i roi gwasanaeth i gyn-filwyr a'u teuluoedd sy'n cyflawni. Ein nod yw sicrhau ein bod yn cynnig gwasanaeth cenedlaethol cydnabyddedig a chyson wrth fodloni ein pum amcan strategol: cefnogaeth effeithiol, ymwybyddiaeth a dealltwriaeth, adnoddau cynaliadwy, a chydweithredol.

Mae'n hanfodol bod gan y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu o fewn y System Cyfiawnder Troseddol ddull rhagweithiol a'i fod yn cefnogi holl gymuned y Lluoedd Arfog, waeth beth yw'r amgylchiadau. Mae cymuned y Lluoedd Arfog yn cynnwys cyn-filwyr a'r holl bersonél sy'n gwasanaethu yn Fyddin, y Llynges Frenhinol, y Môr-filwyr Brenhinol, yr Awyrlu Brenhinol boed yn rheolaidd neu wrth gefn, gwasanaeth cenedlaethol a theuluoedd.

### Ein gwaith:

Mae ein rhwydwaith o wirfoddolwyr o fewn cyrraedd yn rhoi cyngor a gwybodaeth - nid yn unig i'r rhai sydd yn y ddalfa, ar brofiannaeth neu yn y gymuned, ond hefyd i'w teuluoedd. Mae'r gefnogaeth a gynigir yn anfeirniadol ac yn gyfannol ac yn cynnwys:

- Cefnogaeth ymarferol ac emosiynol
- Cyfeirio at wasanaethau
- Cymorth ariannol
- Cymorth i deuluoedd
- Cymorth teithio
- Llety

Sut i gysylltu â ni:

Ffoniwch linell gymorth Forcesline ar 0800 731 4880

neu ffoniwch dîm gwasanaeth VCJS ar 020 7463 9337

neu anfonwch e-bost atom:VCJS.SupportServices@ssafa.org.uk

# Ymddiriedolaeth St Giles

Ein rôl ni yw gweithio ar y cyd ag asiantaethau eraill i gefnogi lles pobl sy'n gadael y carchar, gan ddefnyddio ein dull a arweinir gan gymheiriaid i sicrhau bod cleientiaid yn parhau i ymgysylltu â gwasanaethau cymorth, yn cael strwythur cadarnhaol ac yn aros yn frwdfrydig ar eu taith i ailadeiladu eu bywydau.

Rydyn ni hefyd yn cynnig cefnogaeth arbenigol i fenywod sy'n gadael y carchar i helpu i fynd i'r afael â'u hanghenion penodol a sicrhau bod y menywod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a bod cyswllt ganddynt.

Mae rhai o'r staff sy'n darparu'r gwaith hwn yn gyn-ymadawyr carchar eu hunain sydd bellach wedi'u hyfforddi'n broffesiynol i ddefnyddio eu sgiliau a'u profiad byw i ysbrydoli eraill i wneud newidiadau tebyg. Mae'r dull gweithredu wedi'i wreiddio yn ein cred hirhoedlog y gall cyn-droseddwyr chwarae rhan weithredol yn eu hadsefydlu eu hunain a bod y rhai sydd wedi bod yno eu hunain yn y sefyllfa orau i ddeall yn iawn yr hyn sydd ei angen i helpu i gyflawni hyn.

https://www.stgilestrust.org.uk

# Veterans Legal Link

Rydyn ni'n cysylltu cyngor cyfreithiol am ddim a gwasanaethau cymorth arbenigol â chyn-filwyr a'u teuluoedd ledled Cymru. Mewn rhai amgylchiadau, gallwn hefyd eich cynorthwyo gyda gwaith achos lle bo angen. Rydyn ni'n dibynnu ar rwydwaith helaeth o glinigau cyfreithiol gwirfoddol, elusennau a sefydliadau i ddod o hyd i'r gefnogaeth sydd ei hangen arnoch chi, pan fydd ei hangen arnoch. Rydyn ni'n cyfeirio'n rheolaidd at fentoriaid sy'n gymheiriaid, cymorth iechyd meddwl a gwasanaethau cyngor arbenigol, gan weithio gyda'r grwpiau cydweithredol mwyaf a lleiaf yng Nghymru.

## Pwy ydyn ni'n eu helpu?

Mae ein gwasanaeth ar gael i unigolion sy'n bodloni'r meini prawf canlynol:

- Aelod wedi ymddeol o Luoedd Arfog EM
- Aelod wedi ymddeol o Luoedd Arfog Wrth Gefn EM
- Aelod wedi ymddeol o Heddlu'r DU, Ambiwlans, Gwylwyr y Glannau neu wasanaethau brys eraill sydd wedi'i leoli yng Nghymru ar hyn o bryd, waeth beth yw eu treftadaeth neu fan geni.

Mae ein prif ddefnyddwyr gwasanaeth yn aelodau o'r gymuned lluoedd arfog sydd wedi ymddeol, ond lle bo'n bosibl rydym hefyd yn rhoi cymorth i aelodau uniongyrchol o deuluoedd a gofalwyr milwyr sydd wedi ymddeol.

Cyswllt:

drwy e-bost: help@veteranslegal.co.uk

dros y ffôn (dydd Mawrth a dydd Iau, 8:30am i 6:00pm): 0333 090 5387

neges destun (24 awr): 07868 775786

## Walking with the Wounded - Project Nova

Cefnogi cyn-filwyr sydd wedi cael eu harestio neu sydd mewn perygl o gael eu harestio. Gweithredu mewn pum ardal yn y DU: Dwyrain Lloegr, Gogledd-orllewin Lloegr, Gogledd Ddwyrain Lloegr, Dyfnaint a Chernyw a De Swydd Efrog a Humberside. **Ar hyn o bryd dyw'r gwasanaeth ddim ar gael yng Nghymru.**

Mae Project Nova yn cefnogi cyn-filwyr a chyn-filwyr bregus sydd wedi cael eu harestio ac sy'n mynd i ddalfa'r Heddlu. Gall cyn-filwyr hefyd gael eu cyfeirio gan dimau arbenigol yr Heddlu, neu sefydliadau statudol eraill, oherwydd eu bod mewn perygl o gael eu harestio. O 2019 mae hefyd yn cefnogi'r Llynges Fasnachol sydd wedi gweithio gyda Lluoedd EM yn eu gweithrediadau.

Fe'i lansiwyd ar 1 Gorffennaf 2014, ac fe'i cyflwynir fel partneriaeth rhwng RFEA a **Walking With The Wounded** (WWTW).

Mae Project Nova yn cael ei weithredu gan staff gyda chyfuniad o brofiad yn y lluoedd arfog, y System Cyfiawnder Troseddol ac elusennau. Mae ein staff yn fedrus wrth ymgysylltu â chyn-filwyr i ddeall eu profiad o wasanaeth milwrol, eu bywydau cyn iddynt ymuno â'r lluoedd arfog, a phontio i fywyd sifil. Mae Project Nova yn cynnal asesiad anghenion ar gyfer pob unigolyn ac yn rhoi cefnogaeth arbenigol ar waith gan rwydwaith o elusennau milwrol a sefydliadau eraill. Yna, rydym yn cadw mewn cysylltiad gan sicrhau bod gan gyn-filwyr rydyn ni'n eu cefnogi gysylltiad parhaus, gan wirio a datrys problemau pan fyddan nhw'n digwydd.

Mae ein partneriaethau arloesol gyda'r GIG, cefnogi timau iechyd meddwl ar draws y DU; creu Project Nova gyda'r RFEA i ddod i gyswllt â chyn-filwyr yn nalfa'r heddlu a lleihau aildroseddu; ein galluoedd iechyd meddwl ein hunain sy'n galluogi therapi un i un o fewn dyddiau; a'n menter wirfoddoli arobryn OP REGEN, yn dylanwadu'n sylweddol, yn gadarnhaol, ac yn gymdeithasol ar draws y DU.

**https://walkingwiththewounded.org.uk**

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg, ac mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais.
This document is available in English, and in other languages and formats on request.







